

S4/C

Canllawiau S4C ar gyfer isdeitlwyr yng Nghymru

Diweddariad Chwefror 2008

Canllawiau S4C ar gyfer isdeitlwyr yng Nghymru

Diweddariad cyntaf: Chwefror 2008

© Hawlfraint: Heulwen L. James

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr awdur.

S4/C

TESTUN

CYNNWYS

RHAGAIR v

RHAGYMADRODD vi

CANLLAWIAU

Addasu diwylliannol 7
Ailddarllediadau 13
Amseru 14
Ansicrwydd yn y llefaru gwreiddiol 18
Atalnod llawn 19
Atalnodi 21
Barddoniaeth 23
Camgymeriad yn y gwreiddiol 26
Caneuon 28
Capsiwn cydnabod isdeitlau 40
Cerddoriaeth offerynnol 41
Chevron 43
Collnod 44
Coma 46
Cymysgiaith 53
Cysylltnod 54
Cywair ieithyddol 57
Cywasgu 59
Dechrau isdeitl 61
Dehongliad 62
Dilyniant 65
Diwedd isdeitl 67
Dotiau diwedd rhan gyntaf a rhannau dilynol 68
Dotiau parhad 69
Dotiau rhagarweiniol 71
Dyfynodau 73
Ebychnod 75
Effeithiau sain 77
Eglurdeb 80
Enwau cymeriadau 82
Enwau lleoedd, sefydliadau a chanolfannau 83
Fformadu 85
Geiriau benthyg 86
Gofynnod 88
Golygu 90
Goslef y llais 92
Gramadeg 94
Gwahannod 98
Gwahanol fathau o raglenni 100
Gwylwyr byddar neu drwm eu clyw 105
Hiwmor 106
Iaith dramor yn y llefaru gwreiddiol 110

Isdeitlau agored 113
Isdeitlau cyfansawdd 118
Isdeitlo byw 120
Isdeitlo heb sgript 124
Lleoli 126
Lliwiau 128
Operâu 130
Portread 132
Priflythrennau 136
Pwyslais 138
Rhegfeydd a ffurfiau gwaharddedig 140
Rhifau 143
Saesneg yn y llefaru gwreiddiol 146
Sgriptiau 148
Sillafu 149
Tafodiaith 154
Talfyriadau 156
Teitl pennod rhaglen 158
Teitlau 159
Teitlau *Aston* 161
Toriadau camera 163
Toriadau llinell 164
Torri brawddeg rhwng isdeitlau 166
Trefn geiriau 168
Trosi o iaith leiafrifol i iaith fwyafrifol 169
Trosi o'r iaith lafar i'r iaith ysgrifenedig 172
Unedau synnwyr 175
Ymadroddion 176

ATODIADAU

Diffiniadau 180
Offer Isdeitlo 182
Isdeitlo: Adnoddau defnyddiol 183
Cyfeirlyfrau a Gwefannau 184

RHAGAIR

gan Iona Jones, Prif Weithredwr S4C

Fel darlledwr cyhoeddus mae S4C yn gwasanaethu cynulleidfa eang ac yn anelu at sicrhau fod modd i bawb fwynhau'r arlwy.

Rydym felly yn ystyried bod gwasanaethau mynediad cynhwysfawr yn allweddol bwysig.

Isdeitlo yw'r dechneg fwyaf cyfarwydd o agor rhaglenni i wylwyr di-Gymraeg a dysgwyr, yn ogystal â'r rheiny sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

Mae isdeitlau Saesneg ar gael ar y mwyafrif o raglenni S4C, gan gynnwys rhaglenni byw. Mae gennym darged o 73% o raglenni yn 2008, fydd yn cynyddu i 80% erbyn 2010. Mae isdeitlau Cymraeg ar gael ar oddeutu deg awr o raglenni'r wythnos hefyd.

Rydym wedi mabwysiadu rhagoriaeth greadigol fel nod ar gyfer ein holl weithgarwch gan gynnwys y gwasanaeth isdeitlo. Er mwyn cynnal a datblygu'r safonau angenrheidiol rwy'n gobeithio y bydd y canllawiau yma o ddefnydd mawr i bob un sy'n gweithio yn y maes hwn er budd y gynulleidfa.

Chwefror 2008

RHAGYMADRODD

Pleser yw cyflwyno **"Canllawiau S4C ar gyfer Isdeitlwyr yng Nghymru"**, sy'n ddiweddariad o'r llawlyfr gwreiddiol **"Canllawiau ar gyfer Isdeitlwyr yng Nghymru: Y Camau Cyntaf"**, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2000.

Seiliwyd egwyddorion y fersiwn wreiddiol yn bennaf ar fy mhrofiad ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan lle y bûm yn hyfforddi myfyrwyr ar gyfer Tystysgrif Cyfieithu ar Sgrîn y Brifysgol ac yn cynnal prosiectau Ewropeaidd yn y maes hwnnw. Ymgorfforwyd, yn ogystal, brif egwyddorion y canllawiau isdeitlo a argymhellir gan Ofcom *(Office of Communications)* ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw ar sianeli annibynnol y Deyrnas Unedig ynghyd â meini prawf sy'n briodol i wasanaeth isdeitlau 888 Cymru ar S4C.

Ers cyhoeddi'r fersiwn wreiddiol, bu datblygiadau newydd a newidiadau polisi yn y byd isdeitlo. Mae'r diweddariad, **"Canllawiau S4C ar gyfer Isdeitlwyr yng Nghymru"**, nid yn unig yn cymryd i ystyriaeth y datblygiadau a'r newidiadau, ond hefyd yn adlewyrchu profiad helaeth isdeitlwyr ac adolygwyr yng Nghymru o isdeitlo o'r naill iaith i'r llall yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf. O ganlyniad, creuwyd adrannau newydd yn ymwneud â meysydd megis caneuon ac effeithiau sain, cafwyd ychwanegiadau o dan sawl pennawd, diweddarwyd meysydd lle bu angen newid polisïau ac atgyfnerthwyd nifer o benawdau eraill.

Cynhwysir yn y llawlyfr ganllawiau ar gyfer amrywiol agweddau ar isdeitlo - yr agweddau ieithyddol a'r technegol, o'r llythyren "A" am Addasu Diwylliannol hyd at y llythyren "Y" am Ymadroddion. Oherwydd natur y pwnc, mae llawer o'r canllawiau yn gorgyffwrdd fel y mae gwahanol agweddau ar y grefft ei hun yn gorgyffwrdd oblegid cyfyngiadau gofod ac amser ar sgrîniau sinema a theledu. Mae'r cyfyngiadau hyn yn gorfodi'r isdeitlydd i wneud dewisiadau, ac weithiau mae pwysleisio'r naill ganllaw yn golygu rhoi llai o bwyslais ar ganllaw arall. O ganlyniad, rhaid derbyn nad yw'n bosibl ystyried pob canllaw yn gyfamserol mewn cyfres o isdeitlau. Dylid pwyso a mesur y gwahanol bosibiliadau er mwyn cyrraedd at gyfaddawd effeithiol sy'n sicrhau isdeitlau grymus.

Bydd modd pori trwy dudalennau'r llawlyfr ar y we fyd-eang. Y gobaith yw y bydd y cyfrwng yn denu defnyddwyr ac yn hwyluso ac annog trafod pellach rhwng pob un sydd â diddordeb yn y maes isdeitlo yng Nghymru.

Diolchaf yn arbennig i Hywel Pennar, Cyfarwyddwr Testun Cyf.; i'r Athro Emeritus David A. Thorne, Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan; i Geinor Jones, Cyfarwyddwraig Testun Cyf.; i Emlyn Penny Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cynnwys, S4C; i Meleri Wyn, Cydlynydd Isdeitlo, S4C; i Calan McGreevy a Sharon Howell, Adolygwyr, Testun; i Lowri Edwards, Rheolwraig Isdeitlo Byw a Hwyr, Testun; i Jan Ivarsson, TransEdit, Simrishamn, Sweden; i'r Athro Yves Gambier, Pennaeth Adran Astudiaethau Cyfieithu, Prifysgol Turku, Y Ffindir; i Mary Carroll, Cyfarwyddwr, Titelbild GmbH, Berlin, ynghyd ag aelodau eraill o ESIST *(European Association for Studies in Screen Translation)*. Diolch i chwi oll am eich ysbrydoliaeth, eich cymorth a'ch cyfraniad.

Heulwen L. James
Chwefror 2008

Addasu diwylliannol

Canllaw cyffredinol

Mae addasu diwylliannol yn rhan annatod o drosi o'r naill iaith i'r llall - yn y Gymraeg fel ym mhob iaith naturiol arall. Ceir termau diwylliannol yn ymwneud â nodweddion hanesyddol a chenedlaethol nad oes modd eu cyfieithu'n uniongyrchol gan nad yw'r termau'n bodoli mewn iaith arall. Ceir termau unigryw mewn meysydd gwahanol megis archeoleg (e.e. "cromlech"), bwyd (e.e. "bara brith"), cerddoriaeth (e.e. "cerdd dant"), y capel (e.e. "y sêt fawr", "cymanfa ganu"), teimladau (e.e. "hiraeth"), sefydliadau, (e.e. "Yr Eisteddfod Genedlaethol", "Senedd"), llenyddiaeth (e.e. "y Pethe"), traddodiad (e.e. "Iechyd Da", "Y Fari Lwyd"), termau teuluol (e.e. "Mam", "Taid", "Nain", "Tadcu", "Mamgu"), termau anwyldeb (e.e. "bach") a.y.y.b. Tra'n trosi termau unigryw o'r fath i iaith arall, dylid sicrhau bod y mynegiant yn ystyrlon ac yn arwyddocaol yn yr iaith darged er mwyn sicrhau eglurdeb ystyr. Mae rhai termau yn trosi i'r Saesneg, eraill ddim, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol.

Trosi termau

1. Mae gwahanol ffyrdd o drosi termau.

1.1 **Defnyddio'r un term yn yr iaith darged**

"bara brith"

Gyda ffurfiau megis "bara brith", mae'n addas i drosglwyddo'r ffurf wreiddiol yn ei chrynswth i'r iaith darged yn hytrach nag ymdrechu i ddewis cyfieithiad sy'n bras gyfateb. Dylid osgoi ceisio dod o hyd i ffurf sydd yn dynodi rhywbeth tebyg ond sydd eto'n wahanol. Nid *"fruit cake"* mo bara brith yn y Saesneg, er enghraifft. Nid *"currant loaf"* mohoni ychwaith. Os teimlir nad yw'r ffurf yn hysbys neu'n adnabyddus yn yr iaith darged, gellir rhoi dyfynodau sengl o'i hamgylch.

"A gaf i ddarn o fara brith, os gwelwch yn dda?"

Could I have a slice of fruit cake, please?	>	*Could I have a slice of bara brith, please?*

"cromlech"

Yn yr un modd, mae "cromlech" yn golygu mwy na "burial chamber".

"Aethom i weld cromlech hanesyddol Pentre Ifan yn Sir Benfro."

We went to see Pentre Ifan's historical burial chamber in Pembrokeshire.	>	*We went to see Pentre Ifan's historical cromlech in Pembrokeshire.*

"cerdd dant"

Nid oes angen ceisio arall-eirio "cerdd dant" ychwaith. Dyma'r term swyddogol a ddefnyddir yn y Saesneg mewn eisteddfodau.

"Rydw i'n edrych ymlaen i'r gystadleuaeth cerdd dant."

I'm looking forward to the harp-singing competition.	>	*I'm looking forward to the cerdd dant competition.*

"cymanfa ganu"

Gellir defnyddio'r term "cymanfa" mewn isdeitl Saesneg.

"Eleni, cynhelir cymanfa ganu ar Sul y Blodau."

This year, a singing meeting will be held on Palm Sunday.	>	*This year, a cymanfa will be held on Palm Sunday.*

"bach"

Erbyn hyn, mae "bach" yn derm derbyniol mewn ambell i gyswllt e.e. opera sebon, er mwyn atgyfnerthu'r portread o'r cymeriad.

"Paid â phoeni am yfory, bach!"

Don't worry about tomorrow, love!	>	*Don't worry about tomorrow, bach!*

1.2 Ychwanegu geiriau er mwyn cadarnhau'r ystyr

"hiraeth"

Weithiau, rhaid ychwanegu gair neu eiriau i gadarnhau ystyr y ffurf fel ei bod yn adlewyrchu gwir ystyr y gwreiddiol.

"Teimlais hiraeth am y tro cyntaf erioed."

For the first time ever, I felt a longing.	>	*For the first time ever, I felt a deep sense of longing.*

1.3 Symleiddio'r ystyr

"y sêt fawr"

Yn achos rhai ffurfiau, lle nad oes trosiad addas yn bodoli, rhaid symleiddio'r ystyr fel bod arwyddocâd yr isdeitl yn ystyrlon yn yr iaith darged. Yma eto, rhaid osgoi'r demtasiwn i greu isdeitl sy'n gyfieithiad llythrennol.

"Aeth y blaenoriaid i'r sêt fawr."

The deacons went to the main seat.	>	*The deacons took to their seats.*

1.4 Dynodi'r term yn ei gyfanrwydd

"y Genedlaethol"

Defnyddir "Eisteddfod Genedlaethol" yn yr iaith darged gan mai dyna enw swyddogol y sefydliad. Er ein bod ni'n gyfarwydd â'r talfyriad "Y Genedlaethol" yn y Gymraeg, nid yw'r term *"the National"* yn cyfleu'r un peth o gwbl yn y Saesneg. Er bod dynodi enw'r sefydliad yn ei gyfanrwydd yn estyn hyd yr isdeitl, yn aml gellir addasu'r amseriad i ddygymod â hyd yr isdeitl diwygiedig.

"Enillodd gyntaf yn y Genedlaethol."

He won first prize at the National.	>	*He won first prize at the National Eisteddfod.*

1.5 Aralleirio

"y Pethe"

Weithiau, rhaid aralleirio'r term gwreiddiol er mwyn sicrhau eglurdeb ystyr.

"Roedd e'n ymwneud â'r Pethe."

He was involved with certain issues.	>	*He was involved in Welsh-language culture.*

1.6 Defnyddio term cyfatebol sy'n addas yn Saesneg

Weithiau, mae'r llefaru Cymraeg yn cynnwys geiriau Saesneg fel rhan o'r frawddeg Gymraeg. Gan amlaf, mae'n arferol ail-adrodd y gair Saesneg o fewn yr isdeitl Saesneg oni bai bod goblygiadau gofod yn gorfodi'r isdeitlydd i ddefnyddio gair byrrach. Fe fyddai brawddeg fel "Roedd y ffilm yn ffantastig." yn cael ei hisdeitlo, *"The film was fantastic."* yn hytrach na *"The film was excellent."*. Ond nid yw ail-adrodd yr un gair yn ymarfer addas bob amser.

"teidi"

Er enghraifft, er bod y defnydd o'r gair Saesneg *"tidy"* yn y frawddeg Gymraeg ganlynol yn golygu *"decent"* mewn rhai ardaloedd o Gymru, nid yw'r un peth yn wir am ardaloedd eraill gan nad yw'r ystyr hwn yn bodoli ym mhob ardal. O'r herwydd, mae angen dod o hyd i air sy'n mynegi'r ystyr cyfatebol mewn Saesneg dealladwy i bob gwyliwr yn hytrach na defnyddio'r gair *"tidy"* am ei fod yn air Saesneg.

"O leiaf, fe wnaeth e jobyn teidi."

At least he made a tidy job of it.	>	*At least he made a decent job of it.*

"champion"

Mae'r un peth yn wir am y term Saesneg "champion" pan ddefnyddir y term yn y Gymraeg. Mae angen chwilio am derm cyfatebol addas yn Saesneg.

"Rydw i'n teimlo'n champion heddiw."

I feel champion today.	>	*I feel fine today.*

1.7 **Trosi termau sydd angen ystyriaeth fanwl o'r ystyr dan sylw**

"Senedd"

Tra'n sôn am "Senedd Cymru", rhaid diffinio cyd-destun y term yn y llefaru Cymraeg cyn penderfynu ar derm addas ar gyfer yr isdeitl. Defnyddir y term "Senedd" ar gyfer Senedd Cymru (yr adeilad) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y sefydliad) yn Saesneg yn ogystal ag yn y Gymraeg pan yn cyfeirio at adeilad Senedd Cymru ym Mae Caerdydd.

"Cafwyd trafodaeth ar ynni adnewyddadwy yn y Senedd."

There was a debate on renewable energy at the Senate.	>	*There was a debate on renewable energy at the Senedd.*

Ond pan yn sôn am "Senedd" yn y llefaru Gymraeg i olygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, defnyddir y term *"National Assembly for Wales"*.

"Mae Prif Weinidog Senedd Cymru yn rhagweld mai..."

The First Secretary of the Welsh Senate predicts that...	>	*The First Secretary of the National Assembly for Wales predicts that...*

"Mam"

Mae'r defnydd o'r term "Mam" mewn isdeitl yn dibynnu ar y cymeriad sy'n siarad a'r sefyllfa. Os yw'r term yn cael ei ddefnyddio o fewn cyswllt teulu Cymraeg, y tebygrwydd yw mai'r fam Gymraeg yw hon ac mai "Mam" fyddai'r term arferol yn hytrach na *"Mum"* gan mai "Mam" yw ei theitl.

"Bydd Mam yn aros tan ddydd Gwener."

Mum will be staying until Friday.	>	*Mam will be staying until Friday.*

Fodd bynnag, pan yn cyfeirio at fam rhywun arall, gellir defnyddio *"mum"* os yw'r cyswllt yn caniatáu e.e. person ifanc wedi ymfudo i Gymru yn siarad.

"Ydi dy fam yn dal i weithio yn y caffi?"

Is your mam still working at the café?	>	*Is your mum still working at the café?*

Yna, defnyddir *"mother"* pan yn portreadu cymeriad sy'n siarad mewn iaith safonol.

"Mae gan fy mam gefnder yn y Wladfa."

Mam has a cousin in Patagonia.	>	*My mother has a cousin in Patagonia.*

"Fydd dy fam yn mynd i'r capel heno?"

Will your mum go to chapel tonight?	>	*Will your mother go to chapel tonight?*

"Mami", "Dadi"

Erbyn hyn, mae cadw'r termau Cymraeg "Mami" a "Dadi" mewn isdeitl yn dderbyniol pan mae'r termau Cymraeg yn ychwanegu at bortread y cymeriad dan sylw, e.e. plentyn o fewn cyswllt teulu Cymraeg yn siarad.

"Mami, dw i isio hufen ia!"

I want an ice cream, Mummy!	>	*Mami, I want an ice cream!*

"Taid", "Nain", "Tadcu", "Mamgu"

Gellir hefyd defnyddio "Taid", "Nain", "Tadcu" a "Mamgu" mewn isdeitlau i atgyfnerthu'r portread o'r cymeriad e.e. mewn drama, opera sebon, rhaglen blant.

"Faint ydy eich oed chi, Taid?"

How old are you, Grandpa?	>	*How old are you, Taid?*

Ond yn y frawddeg ganlynol mewn rhaglen ddogfen safonol, byddai angen trosi'r term i'r Saesneg.

"Cafodd fy Nain ei geni ym Merlin."

Nain was born in Berlin.	>	*My grandmother was born in Berlin.*

"Iechyd da"

Er bod y term "Iechyd da" yn eithaf cyfarwydd mewn sefyllfaoedd di-Gymraeg yng Nghymru yn ogystal â thu hwnt i Gymru, byddai angen ei drosi i'r Saesneg e.e. mewn rhaglen ffeithiol safonol.

Iechyd da!	>	*Cheers!*

Ond os ceir y term "Iechyd da" mewn deialog o fewn drama, opera sebon neu gomedi, lle mae'r cymeriad sy'n siarad yn Gymreig iawn, gellir defnyddio'r term Cymraeg yn yr isdeitl.

Iechyd da!	>	*Iechyd da!*

Trosi hiwmor

2. Trosi hiwmor o'r naill iaith i'r llall yw un o'r agweddau mwyaf dyrys ar addasu diwylliannol. Er mwyn cyfleu'r un math o hiwmor â'r iaith darged, weithiau rhaid newid y cysyniad ac ymbellhau'n fwriadol oddi wrth y llefaru gwreiddiol er mwyn ceisio creu effaith debyg yn yr iaith darged. Defnyddir y dechneg hon gyda llefaru sy'n chwarae ar eiriau.

"Pen bach!"
"Pen mawr!"

You idiot!	>	*Give over!*
You're a bigger idiot than me!	>	*Hangover, more like!*

Ni chymeradwyir glynu at gyfieithiad llythrennol o'r jôc wreiddiol gan osod esboniad mewn cromfachau o'r termau. Nid yw hon yn dechneg sy'n llwyddo. Gall hefyd gyfrannu'n anfwriadol at greu teimlad o ddiffyg hyder yng ngallu'r gwyliwr i ddilyn yr isdeitlau.

Nid yw popeth yn trosi!

3. Mae rhai pethau yn aros. Hyd yn oed pan fo ffurfiau'n cyfieithu'n hawdd i'r Saesneg, nid *"Radio Wales"* mo `"Radio Cymru".`

```
"Clywais y stori ar Radio Cymru."
```

I heard the story on Radio Wales.	>	*I heard the story on Radio Cymru.*

Ailddarllediadau

Canllaw cyffredinol

Tra'n paratoi ffeil isdeitlau ar gyfer ailddarllediad, dylid ailolygu cynnwys yr isdeitlau gan fod iaith mewn cyflwr o newid parhaus, gan fod y byd yn newid, gan fod gofynion technegol darlledu yn newid a chan fod arddull isdeitlau yn newid.

Datblygiadau ieithyddol

1. Mae iaith yn newid yn barhaus. Gall ffurf oedd yn dderbyniol ddeng mlynedd yn ôl ymddangos yn anaddas mewn isdeitl ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu newidiadau o'r fath.

Newid yn y byd

2. Mae amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol, yn lleol ac ar draws y byd, yn newid yn ddyddiol. Os digwydd i'r isdeitlau gynnwys cyfeiriad e.e. at fudiad nad yw'n bodoli bellach neu at bâr priod sydd bellach wedi ysgaru, dylid ystyried a oes angen diwygio cyfeiriad o'r math.

Gofynion technegol yn newid

3. Gyda'r bwrlwm o newidiadau sy'n dod yn sgil datblygiadau technolegol yn y byd darlledu, bob hyn a hyn, mae'r newidiadau yn gallu effeithio ar y gwaith o baratoi ffeiliau isdeitlau.

Arddull isdeitlau yn newid

4. Mae arddull isdeitlau yn newid hefyd a rhaid ymgorffori datblygiadau newydd.

Diweddaru ffeil isdeitlau ar gyfer ailddarllediadau

5. Ceir rhestr o'r pwyntiau i'w nodi wrth ddiweddaru ffeil ar gyfer ailddarllediad yn yr adran isdeitlo yn S4C.

Amseru

Canllaw cyffredinol

Mae'n bosibl y gall amryw ddarllen cynnwys isdeitl mewn llawer llai o amser na hyd darlledu arferol yr isdeitl hwnnw ar y sgrîn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddadl dros leihau nifer yr eiliadau a bennir gan y canllawiau yn y tabl isod. Seiliwyd y canllawiau rhyngwladol hyn ar y sylw y mae angen i'r gwyliwr ei roi i'r llun ar y sgrîn ynghyd â'r sain yn ogystal â'r isdeitl, gan gadw mewn cof ei fod yn darllen cyfresi hir o isdeitlau, yn hytrach nag un isdeitl ar y tro. Fel canllaw cyffredinol, gellir ystyried mai'r norm i'w barchu o safbwynt amseru fyddai 140 gair y funud. Er hynny, ceir adegau pan nad yw'n bosibl cadw at y canllaw safonol hwn pan fo amser yn brin, fel y gwelir isod.

Hyd isdeitlau ar y sgrîn

1. Dilynir y canllawiau a dderbynnir yn rhyngwladol ynglŷn â hyd isdeitlau ar y sgrîn.

1.1 **Hyd arferol isdeitlau**

Rhoddir lleiafswm o un eiliad i isdeitl o un gair ac i fyny at fwyafswm o chwe eiliad i isdeitl o ddwy linell lawn:

• un gair	=	rhwng 1 a 1.5 eiliad
• hyd at hanner llinell	=	rhwng 1.5 a 2 eiliad
• rhwng hanner llinell ac un llinell	=	rhwng 2 a 3 eiliad
• rhwng un llinell ac un llinell a hanner	=	rhwng 3 a 4 eiliad
• rhwng un llinell a hanner a dwy linell	=	rhwng 4 a 5 eiliad
• dwy linell lawn	=	rhwng 5 a 6 eiliad.

Pennwyd yr amseriadau hyn ar sail ymchwil ar gyflymdra darllen gwylwyr. Ni ddylai hyd isdeitl ostwng yn is nag un eiliad oni bai bod yr isdeitl yn ymddangos cyn yr isdeitl olaf o fewn isdeitl cyfansawdd (*gweler 6. isod*). Yn yr un modd, ni ddylai'r isdeitl aros ar y sgrîn am gyfnod hwy na sydd raid oherwydd bod perygl i wyliwr ddechrau ei ailddarllen. Dyma'r canllawiau sylfaenol ond cofier hefyd y dylid ystyried y math o raglen dan sylw. Mae ffactorau eraill megis cywair ieithyddol y rhaglen ac oedran y gynulleidfa yn gallu dylanwadu ar hyd isdeitl hefyd. Mae'n cymryd rhagor o amser i wyliwr ddarllen isdeitlau ar raglen ddogfen drom nag ar opera sebon ysgafn. A gall gwyliwr ifanc ddarllen yn gyflymach na gwyliwr hŷn.

1.2 **Amser yn brin iawn**

Weithiau, mewn rhai mathau o raglenni e.e. rhaglenni pobl ifanc, drama gyfoes, ceir darnau o lefaru lle mae'r toriadau camera yn dilyn ei gilydd mor gyflym fel ei bod yn anodd parchu'r canllawiau amseru uchod oherwydd bod amser yn brin iawn. Ar adegau fel hyn, gellir ystyried y canlynol:

- creu cyfresi o isdeitlau cyfansawdd *(gweler 6. isod)*
- crynhoi mwy ar y llefaru

- addasu'r codau amser i mewn ac allan fel bod yr isdeitlau yn ymddangos ychydig o fframiau yn gynt na'r disgwyl neu/ac yn diflannu o'r sgrîn ychydig yn hwyrach na'r disgwyl
- lleihau hyd yr isdeitlau ar yr sgrîn – er mai 140 gair y funud yw'r norm, gellir derbyn hyd at 180 gair y funud ar adegau pan mae amser yn brin iawn.

Cydamseru

2. Yn gyffredinol, gosodir isdeitlau ar y sgrîn i gyd-fynd â'r hyn a ddywedir. Fel arfer, mae côd amser-mewn isdeitl yn cael ei osod ar yr union adeg mae'r siaradwr yn dechrau llefaru a chôd amser-allan isdeitl pan mae'r siaradwr yn gorffen llefaru. Nid yw amseriad côd amser-allan isdeitl mor gaeth ag amseriad côd amser-mewn isdeitl gan mai'r hyn sy'n diffinio hyd isdeitl yw nifer yr eiliadau sydd ei angen ar y gwyliwr i ddarllen y cynnwys ac nid yr union adeg mae'r siaradwr yn gorffen llefaru. Fodd bynnag, weithiau mae angen addasu'r canllaw cyffredinol wrth ymdrin ag amseru caneuon ac operâu a rhaglenni lle mae isdeitlau agored Cymraeg eisoes yn bodoli ar y sgrîn, fel a ganlyn.

2.1 **Cyd-amseru caneuon ac operâu**

Ceir adegau lle mae rhaglen yn cynnwys caneuon neu bytiau o ganeuon neu operâu cyfan neu bytiau o ganu opera. Ar yr adegau hyn, dylid cydamseru'r isdeitlau i gyd-fynd gyda llinellau ac amseriad y geiriau a genir. Golyga hyn y ceir amrywiaeth sylweddol yn hyd isdeitlau caneuon ac operâu. Er enghraifft, efallai y gall llinell o gân neu opera sy'n symud yn araf ymestyn i fyny at 10 eiliad neu fwy o hyd yn hytrach na'r mwyafswm arferol o 6 eiliad, tra gall isdeitlau cân sy'n symud yn gyflym, er enghraifft, cân rap, gael eu cwtogi efallai i 3 eiliad a hanner yn hytrach na'r mwyafswm arferol o 6 eiliad.

Y canllaw cyffredinol fyddai cadw'r isdeitl ar y sgrîn tan i'r canwr ddechrau ynganu gair olaf y llinell. Pe bai perygl bod isdeitl yn mynd i aros ar y sgrîn am yn agos at 20 eiliad, dyweder, byddai'n addas torri'r isdeitl yn ddau isdeitl ac addasu'r amseru fel bod y ddau ohonynt ar y sgrîn am ryw 10 eiliad yr un.

2.2 **Cydamseru gydag isdeitlau agored Cymraeg**

Mewn rhaglenni lle mae darnau o'r llefaru gwreiddiol mewn iaith dramor, ceir isdeitlau agored Cymraeg ar waelody sgrîn. Darperir isdeitlau Saesneg ar gyfer y rhain a'u gosod ar y sgrîn trwch isdeitl un llinell uwchben yr isdeitlau Cymraeg. Dylid cydamseru'r isdeitlau Saesneg i gyd-fynd gyda chodau amser i mewn ac allan yr isdeitlau agored Cymraeg yn hytrach na gyda'r llefaru gwreiddiol er mwyn sicrhau bod yr isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar y sgrîn ac yn gadael y sgrîn yr un pryd.

2.3 **Cydamseru caneuon ac operâu gydag isdeitlau agored Cymraeg**

Mewn achosion lle ceir cân mewn iaith dramor neu opera yn yr iaith wreiddiol gydag isdeitlau agored Cymraeg, mae angen cydamseru'r isdeitlau Saesneg i gyd-fynd gyda chodau amser i mewn ac allan yr isdeitlau Cymraeg yn hytrach na gyda'r geiriau tramor gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y ddau isdeitl yn ymddangos ar y sgrîn ac yn gadael y sgrîn ar yr un pryd, hyd yn oed os ydynt ar y sgrîn yn anarferol o hir.

Rhythm y rhaglen

3. Ar adegau pan nad oes modd cadw at y canllawiau cyffredinol ynglŷn â chydamseru, gellir addasu codau amser-mewn yr isdeitl i gyd-fynd â rhythm y rhaglen yn hytrach na chadw'n gaeth at yr egwyddor o gydamseru'r isdeitlau â'r llefaru. Er enghraifft, pan geir cyfres o doriadau camera cyflym, mae'n dderbyniol gosod y codau amser mewn-allan i gyd-fynd â'r toriadau yn hytrach nag i gyd-fynd â'r llefaru.

3.1 **Isdeitl yn parchu toriad camera**

Pan fo isdeitl yn gadael y sgrîn yn union cyn toriad camera, gadewir saib o leiafswm o bum ffrâm rhwng côd amser-allan yr isdeitl â'r toriad. Pan fo isdeitl yn ymddangos ar y sgrîn yn union ar ôl toriad camera, gadewir saib o leiafswm o dri ffrâm rhwng y toriad camera a chôd amser-mewn yr isdeitl.

3.2 **Isdeitl yn croesi toriad camera**

Os nad yw'n bosibl tynnu isdeitl oddi ar y sgrîn cyn toriad camera neu os nad yw'n bosibl gosod yr isdeitl ar y sgrîn yn syth ar ôl toriad camera, gellir gadael yr isdeitl ar y sgrîn dros y toriad ond rhaid caniatáu o leiaf un eiliad ar ei gyfer, y naill ochr a'r llall i'r toriad.

Isdeitl cyfansawdd

4. Pan fo amser yn brin, gellir creu isdeitlau cyfansawdd (isdeitlau sy'n cynnwys isdeitlau *add-on*), sef y dechneg o osod ar y sgrîn, ar yr un pryd, gyfnewid byr o eiriau rhwng dau siaradwr. Mae'r dechneg hon yn galluogi i eiriau'r ail siaradwr ymddangos tra bod geiriau'r siaradwr cyntaf ar y sgrîn. Mae'n dechneg arbennig o ddefnyddiol pan fo'r siaradwr cyntaf yn siarad yn gyflymach na'r ail. Nid argymhellir isdeitlau cyfansawdd o dair llinell o hyd.

Amserir isdeitl cyfansawdd drwy osod côd amser-mewn yr ail ran o'r isdeitl cyfansawdd, sef geiriau'r ail siaradwr, ar y sgrîn ynghynt na'r arfer drwy fenthyg amser oddi ar y rhan gyntaf. Gosodir yr un côd amser-allan ar gyfer y ddau isdeitl fel bod y ddau yn gadael y sgrîn gyda'i gilydd. Mae'n hollbwysig bod y côd amser-allan yn darllen yr union amser ar gyfer y ddau isdeitl er mwyn osgoi trafferthion technegol.

10:22:31:00	03:10	10:22:34:10
More tea, Vicar?		
10:22:32:05	02:05	10:22:34:10 +
No, thank you, Mrs Hartley.		

Saib rhwng isdeitlau

5. Gadewir saib o leiafswm o bum ffrâm rhwng pob isdeitl. Mae'r saib hwn yn hanfodol i roi gorffwys i'r llygaid ac i baratoi'r gwyliwr ar gyfer yr isdeitl nesaf. Er bod modd i isdeitlau ymddangos ar y sgrîn heb saib rhyngddynt, mae hepgor y saib yn annerbyniol oherwydd bod hyn yn amharu ar rediad yr isdeitlau ac yn achosi blinder i'r llygaid.

Ansicrwydd yn y llefaru gwreiddiol

Canllaw cyffredinol

O bryd i'w gilydd, mewn iaith lafar wedi'i sgriptio ac mewn iaith lafar heb ei sgriptio, ceir llefaru ansicr. Mae amryw resymau: amwysedd yn y gwreiddiol; llefaru gan berson nad yw'n hyddysg yn yr iaith y mae'n ei siarad; y siaradwr yn cael anhawster i'w fynegi ei hun yn rhugl; iaith plentyn. Y cwestiwn sy'n codi yw sut mae sicrhau dehongli cywir er bod y llefaru gwreiddiol ei hun yn aneglur. Er mwyn sicrhau dehongli cywir, rhaid ceisio penderfynu a yw'r ansicrwydd yn fwriadol neu'n anfwriadol.

Ansicrwydd llefaru o fewn iaith wedi'i sgriptio

1. Os ceir ansicrwydd o fewn y sgript gwreiddiol, amwysedd ystyr sy'n gyfrifol fel arfer. Rhaid gofyn a yw'r amwysedd yn fwriadol neu'n anfwriadol. Gan amlaf o fewn sgript drama, mae'r hyn sydd wedi digwydd cynt a'r hyn sy'n dilyn yn debygol o gadarnhau'r ystyr a fwriedir. Ond ddim bob tro. Os nad yw'r ystyr yn eglur, y ffordd orau i'r isdeitlydd ddelio â'r ansicrwydd yw ceisio ail-greu'r amwysedd yn yr isdeitl, gan y gallai cymryd unrhyw benderfyniad y naill ffordd neu'r llall effeithio ar yr ystyr a fwriedir.

   Yn yr enghraifft hon, ai gweld eisiau'r ymarfer neu golli sesiwn ymarfer a fwriedir?

   "Dydi hi ddim wedi colli ymarfer o gwbl."

   Pan na cheir prawf pendant o'r ystyr a fwriedir – gall y frawddeg uchod gael ei throsi i ddynodi *"She doesn't feel she misses training."* neu i ddynodi *"She hasn't missed a training session once."* - awgrymir bod yr isdeitlydd yn ail-greu'r amwysedd, gan adael y dehongli yn benagored fel yn y Gymraeg wreiddiol, fel a ganlyn.

   "She hasn't missed training."

Ansicrwydd llefaru o fewn iaith heb ei sgriptio

2. Os yw'r ansicrwydd yn rhan o lefaru sydd heb ei sgriptio, y tebygrwydd yw ei fod yn anfwriadol. Rhaid ystyried, felly, i ba raddau y dylid delfrydu iaith ansicr heb ei sgriptio er mwyn i'r gwyliwr fedru deall cynnwys yr isdeitl. Mewn achosion fel hyn, mae'n bwysig ceisio cyfleu synnwyr yr hyn a ddywedir tra'n cadw mor agos â phosibl at y geiriad gwreiddiol, yn arbennig tra'n cywasgu, fel yn yr enghraifft hon.

   "Dani isio llwyddo yn Saesneg hefyd. Mae 'na gemau poblogrwydd... 'Sgynon ni ddim ofn hynna. Mae'n bwysig fod ni'n gneud hynna."

We want to succeed in English too. *There are popularity games...*	>	*It's important we succeed in English.* *We're not afraid of popularity games.*
We're not afraid of that. *It's important we do that.*		

Atalnod llawn

Canllaw cyffredinol

Er y gwelir llawer iawn o isdeitlau ar y sgrîn fach a'r sgrîn fawr, yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill, lle nad oes atalnod llawn ar ddiwedd yr isdeitl, nid yw'n arfer ar raglenni Cymraeg S4C. Yn hytrach, gosodir atalnod llawn ar ddiwedd isdeitl.

Diweddu isdeitl

1. Diweddir pob isdeitl ag atalnod llawn oni bai bod y cyd-destun yn hawlio gofynnod neu ebychnod ac oni bai bod y frawddeg yn parhau yn yr isdeitl dilynol. Mae llinell lawn capsiwn isdeitl yn cyfateb i dri deg chwech llythyren. Os yw'r gofod yn rhy brin i allu cynnwys yr atalnod llawn mewn isdeitl o un llinell neu o ddwy linell lawn, dylid aralleirio neu gymhwyso'r isdeitl er mwyn ei gynnwys.

You know I have a splitting headache	>	*You know I've a splitting headache.*

Weithiau, mae aralleirio'n amhosibl oni bai bod isdeitl un llinell yn troi'n isdeitl dwy linell. Mae hyn yn dderbyniol os nad yw'r isdeitl un llinell yn rhan o isdeitl cyfansawdd. Os yw'r isdeitl yn rhan o isdeitl cyfansawdd, dylid ymdrechu i'w aralleirio er mwyn cadw'r atalnod llawn.

We really deserve a place of our own	>	*We really deserve our own place.*
Let's just hope you'll get it!	>	*Let's just hope you'll get it!*

2. Eithriad i'r canllaw uchod yw isdeitlau darn o farddoniaeth, gân neu opera. Ni roddir atalnod llawn ar ddiwedd yr isdeitlau barddoniaeth na chaneuon.

Creu dwy frawddeg o fewn un isdeitl

3. Mae'r atalnod llawn yn hanfodol er mwyn creu dwy frawddeg fer o fewn un isdeitl a hynny er mwyn diffinio unedau penodol o ystyr ac felly, hwyluso'r darllen. Gwylier rhag gosod coma yn hytrach nag atalnod llawn ar yr achlysuron hyn.

These are the prizes, let's take a look.	>	*These are the prizes. Let's take a look.*

Ni chymeradwyir fodd bynnag yr arfer o ddechrau brawddeg newydd o fewn isdeitl pan fo'r isdeitl hwnnw eisoes yn dechrau neu'n diweddu â dotiau parhad i ddynodi fod cynnwys yr isdeitl un ai'n estyn o'r isdeitl blaenorol neu'n parhau yn yr isdeitl dilynol.

Talfyriadau a phriflythrennau

4. Ni ddefnyddir atalnod llawn ar ôl talfyriadau a phriflythrennau.

His name is Prof. D. M. Hughes.	>	*His name is Prof D M Hughes.*

I'll have a bottle of Nuits St. Georges, please.	>	*I'll have a bottle of Nuits St Georges, please.*

Os gelwir person wrth briflythrennau ei ddau enw bedydd e.e. "J.R." am "J.R. Williams", rhoddir "JR" yn yr isdeitl - heb atalnod llawn ar ôl y priflythrennau.

I need to speak to J. R. urgently.	>	*I need to speak to JR urgently.*

Cyfeiriad gwefan

5. Os yw isdeitl yn diweddu gyda chyfeiriad gwefan, dylid hepgor yr atalnod llawn arferol ar ddiwedd yr isdeitl.

"Am ragor o fanylion, ewch i wefan S4C: www.s4c.co.uk"

For further details, visit S4C's website: www.s4c.co.uk.	>	*For further details, visit S4C's website: www.s4c.co.uk*

Atalnodi

Canllaw cyffredinol

Mae arferion atalnodi o fewn isdeitlau yn gwahaniaethu o sianel i sianel ac o wlad i wlad. Fel arfer, maent wedi'u seilio ar gyfuniad o norms cenedlaethol a chanllawiau penodedig y gwahanol sianeli. Mae S4C o'r farn bod atalnodi cywir ac effeithiol, yn y dull traddodiadol, yn angenrheidiol i feithrin safonau uchel mewn isdeitlau.

Cywirdeb

1. Disgwylir cywirdeb wrth atalnodi.

It was boiling hot, *he went for a swim.*	>	*It was boiling hot.* *He went for a swim.*

Er gwaetha'r duedd gyfoes o hepgor y coma, ceisir parchu rheolau atalnodi traddodiadol.

Today we have paella on the menu.	>	*Today, we have paella on the menu.*

Unedau synnwyr

2. Mae'r defnydd effeithiol o atalnodi i greu unedau cyfan o synnwyr, yn arbennig y defnydd o'r coma a'r gwahannod o fewn brawddegau, yn hwyluso ac yn cyflymu darllen yr isdeitlau.

Others like the godwit *are winter visitors to Wales.*	>	*Others, like the godwit,* *are winter visitors to Wales.*

Mae atalnodi effeithiol hefyd yn help i ddiffinio unedau ystyr sydd wedi'u gwahanu.

I'm certain and I should know *she told me herself.*	>	*I'm certain – and I should know –* *she told me herself.*

Symlrwydd

3. Dylid anelu at symlrwydd effeithiol wrth atalnodi. Mae rhai atalnodau yn gallu cymhlethu'r darllen. Ni chymeradwyir defnyddio'r hanner-colon na'r colon. Defnyddir gwahannod i ddynodi saib ychydig yn hwy na'r coma ond yn llai na'r atalnod llawn.

There was this wonderful sunset; *I fell in love with the place.*	>	*There was this wonderful sunset -* *I fell in love with the place.*

At the end of that round, *the score is:*	>	*At the end of that round,* *this is the score.*

Cynildeb

4. Dylid anelu at ddefnydd cynnil o atalnodau megis yr ebychnod a'r gofynnod, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'r atalnodi yn tynnu sylw oddi ar y testun.

I couldn't believe my eyes!!!	>	*I couldn't believe my eyes!*

What on earth is that noise???	>	*What on earth is that noise?*

Weithiau, mae rheswm dros ddefnyddio gofynnod ac ebychnod gyda'i gilydd. Gosodir y gofynnod yn gyntaf a'r ebychnod yn ei ddilyn heb ofod rhyngddynt.

What's happened now?!!	>	*What's happened now?!*

Barddoniaeth

Canllaw cyffredinol

Mae'n ddyletswydd ar y cwmni cynhyrchu, neu ar S4C, i sicrhau caniatâd hawlfraint cyn cynnwys darn o farddoniaeth neu ddyfyniad o ddarn o farddoniaeth yn yr isdeitlau, boed hwnnw'n ddarn o farddoniaeth yn yr iaith wreiddiol neu'n gyfieithiad cydnabyddedig. Dyletswydd y cwmni isdeitlo yw cysylltu â'r cwmni cynhyrchu a darganfod a oes cyfieithiad cydnabyddedig ai peidio ac ai'r cyfieithiad cydnabyddedig fydd yn cael ei gynnwys yn yr isdeitl neu rydd-gyfieithiad. Ystyrir pob darn o farddoniaeth yn ei dro gan benderfynu ar y math o gyfieithiad sy'n addas.

Pan nad oes cyfieithiad cydnabyddedig yn bodoli, dylai'r isdeitlydd aralleirio'r darn ar ffurf a llun y llinellau gwreiddiol. Er bod y gallu i ail-greu odl yn beth godidog, nid yw'n angenrheidiol. Dylid ymdrechu, fodd bynnag, i greu llinellau isdeitlau sy'n cyd-fynd o ran rhythm gyda llinellau'r Gymraeg wreiddiol ac yn debyg o ran naws ac arddull fel eu bod yn gallu cael eu hadrodd yn y Saesneg fel yn y Gymraeg.

Cyfieithiad cydnabyddedig

1. Mae rhai darnau o farddoniaeth eisoes wedi'u cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ond yn gyffredinol nid oes cyfieithiadau yn bodoli. Os defnyddir cyfieithiad cydnabyddedig, ceisir ei fformadu gan barchu toriadau'r llinell, cyn belled ag y mae'n bosibl, o fewn cyfyngiadau capsiynau'r isdeitlau.

Cyfieithiad yr isdeitlydd

2. Pan nad oes cyfieithiad cydnabyddedig yn bodoli, gellir aralleirio'r darn ar ffurf y llinellau gwreiddiol. Nid oes disgwyl i'r isdeitlydd greu cyfieithiad perffaith. Mae rhydd-gyfieithiad yn hollol dderbyniol. Mae llwyddo i ail-greu odl yn beth godidog ond nid yw'n angenrheidiol. Gall yr isdeitlydd hefyd wneud penderfyniad i rydd-gyfieithu darn o farddoniaeth hyd yn oed pan fo cyfieithiad cydnabyddedig yn bodoli.

Comisiynu cyfieithiad

3. Yn achos rhaglen sy'n cynnwys llawer o farddoniaeth gyfoes gall y cwmni cynhyrchu ddewis comisiynu cyfieithiad gan yr awdur ei hun neu gan fardd cyfoes arall. Dylid cydnabod awdur y cyfieithiad mewn capsiwn cydnabod arbennig ar ddiwedd y rhaglen.

Fformadu barddoniaeth

4. **Defnydd o ddyfynodau**

   Gosodir dyfynodau ar ddechrau pob isdeitl sy'n cynnwys barddoniaeth o fewn rhaglen sydd hefyd yn cynnwys deialog neu naratif. Defnyddir dyfynodau dwbl ar ddechrau isdeitl cyntaf y darn ac ar ddechrau pob isdeitl dilynol, yna gosodir dyfynodau dwbl i gloi ar ddiwedd y darn.

Noder, fodd bynnag, ni ddefnyddir dyfynodau i ddynodi barddoniaeth mewn rhaglenni sy'n cynnwys dim ond barddoniaeth.

5. **Dechrau llinell gyntaf pob isdeitl gyda phriflythyren**

Wrth ddyfynnu darn o farddoniaeth, dechreuir llinell gyntaf pob isdeitl (ar ôl y dyfynodau) gyda phriflythyren. Cedwir at yr arddull hwn hyd yn oed os mai llythrennau bach geir ar ddechrau pob llinell o'r darn gwreiddiol neu'r cyfieithiad cydnabyddedig.

6. **Dechrau ail linell pob isdeitl gyda llythyren fach**

Dechreuir ail linell pob isdeitl dwy linell gyda llythyren fach. Cedwir at yr arddull hwn hyd yn oed os mai priflythrennau geir yn y darn gwreiddiol neu'r cyfieithiad cydnabyddedig.

7. **Hepgor atalnodi ar ddiwedd pob isdeitl**

Ni ddefnyddir atalnodi ar ddiwedd isdeitlau barddoniaeth, boed gyfieithiad cydnabyddedig neu gyfieithiad law-rydd, oni bai bod angen cynnwys gofynnod neu ebychnod. Fodd bynnag, dylid cynnwys yr atalnodi o fewn y llinellau ac ar ddiwedd llinell gyntaf isdeitl dwy linell.

8. **Ni ddefnyddir dotiau parhad rhwng isdeitlau barddoniaeth**

Ni ddefnyddir dotiau parhad ar ddiwedd nac ar ddechrau isdeitlau barddoniaeth. Mae'r enghraifft isod o ddarn o farddoniaeth wedi'i isdeitlo yn ymgorffori'r prif bwyntiau dilynol ynglŷn â fformadu barddoniaeth.

"Cynddylan's hall is dark tonight...	>	*"Cynddylan's hall is dark tonight*
"..with no fire, with no candle...	>	*"With no fire, with no candle*
"..apart from God, who'll keep me sane?"	>	*"Apart from God, who'll keep me sane?"*

Fformadu barddoniaeth wedi'i wahanu gan bwt o ddeialog

9. Os ceir pwt neu bytiau o ddeialog yn torri ar draws y darn barddoniaeth – yn hytrach na gosod dotiau parhad ar ddiwedd isdeitl olaf y darn cyn y pwt o ddeialog ac ar ddechrau'r isdeitl cyntaf o'r darn pan mae'r darn yn ail-gydio ar ôl y pwt o ddeialog – dylid cau y dyfynodau ar ddiwedd yr isdeitl cyn y pwt o ddeialog ac yna eu hail-agor ar ddechrau'r isdeitl sy'n dilyn y pwt o ddeialog.

"It is spring, moonless night in the small town...	>	*"It is spring, moonless night in the small town"*
Stop giggling, you two!	>	*Stop giggling, you two!*
"..starless and bible-black, the cobblestreets silent."	>	*"Starless and bible-black, the cobblestreets silent."*

Teitl darn o farddoniaeth o fewn isdeitl sy'n cynnwys llefaru

10. Pan geir cyfeiriad at deitl darn o farddoniaeth o fewn isdeitl sy'n cynnwys llefaru, ni roddir dyfynodau o'i amgylch a dechreuir pob gair o'r teitl â llythyren fawr gyda llythrennau bach i ddilyn.

I recited "I Wagedd Ac Ofered Byd" off by heart.	>	*I recited I Wagedd Ac Ofered Byd off by heart.*

Teitl darn o farddoniaeth o fewn teitl *Aston*

11. Fel arfer, nid yw teitl darn o farddoniaeth o fewn teitl *Aston,* boed deitl Cymraeg neu iaith dramor, yn cael ei drosi. Nid oes angen felly darparu capsiwn ar ei gyfer. Fodd bynnag, pan mae teitl Aston yn cynnwys manylion eraill yn y Gymraeg e.e.

Peredur Jones
Enillydd: Llefaru dan 12
"Y Peilon" gan R. Williams Parry

dylid darparu capsiwn Saesneg ar ei gyfer:

Winner: Recitation under 12

Camgymeriad yn y gwreiddiol

Canllaw cyffredinol

O bryd i'w gilydd, mae camgymeriad yn gallu digwydd yn y llefaru gwreiddiol. Mae camgymeriadau yn gallu peri mwy o anhawster i'r isdeitlydd nag i'r gwyliwr sy'n dilyn y rhaglen heb isdeitlau, gan fod modd llefaru yr hyn na ellir ei ysgrifennu. Gan mai pwrpas isdeitlau yw adlewyrchu'r llefaru gwreiddiol, y cwestiwn sy'n codi yw a ddylai'r isdeitlydd "gywiro'r" llefaru gwreiddiol yn yr isdeitl neu a ddylai ailadrodd y camgymeriad. Mae'n anodd cynnig canllaw cyffredinol ar hyn gan fod pob achos yn unigryw a bod natur y camgymeriad yn mynd i effeithio ar y penderfyniad a wneir.

Camgymeriad mewn llefaru wedi'i sgriptio

1. Anaml iawn y ceir camgymeriad mewn llefaru wedi'i sgriptio. Ond gall ddigwydd. Er enghraifft, gall cyflwynydd ddweud gair anghywir yng nghanol brawddeg a gall y camgymeriad effeithio ar ystyr yr hyn sy'n dilyn. Os yw hyn wedi digwydd ac os nad oes amser i'r cwmni cynhyrchu greu tâp diwygiedig mewn pryd i'w ddarlledu, mae gan yr isdeitlydd ddau ddewis. Un ai ailadrodd y camgymeriad yn yr isdeitl, neu gywiro'r camgymeriad. Mae'r camgymeriad yn peri dilema. Dyletswydd yr isdeitlydd yw adlewyrchu'n driw yr hyn a ddywedir yn y llefaru gwreiddiol ond o wneud hyn, gall y camgymeriad ymddangos yn fwy amlwg ar ffurf ysgrifenedig. Os yw'r isdeitlydd yn cywiro'r camgymeriad, y tebygrwydd yw y bydd rhywun yn rhywle sy'n deall y ddwy iaith wedi sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y frawddeg yn y llefaru gwreiddiol Gymraeg a geiriad yr isdeitl Saesneg. Y dilema yw nad yw'r naill ateb na'r llall yn foddhaol.

   Mewn un achos arbennig, cafwyd y frawddeg ganlynol yn y llefaru gwreiddiol: `"Ym 1964, mi gyfansoddais i alaw gytbwys un mesur ar hugain o hyd – efo trawsgyweiriad."`. Ond oherwydd nad yw alaw gytbwys o un mesur ar hugain yn bodoli ac mai un mesur ar bymtheg yw'r term cywir, penderfynwyd, ar ôl trafodaeth gyda'r cwmni cynhyrchu, i gywiro'r camgymeriad yn yr isdeitl. Byddai ailadrodd y rhif un ar hugain yn lle un ar bymtheg yn yr isdeitl wedi dwyn mwy o sylw i'r camgymeriad. Barnwyd, yn ogystal, ei bod hi'n bwysig dangos ymwybyddiaeth o'r camgymeriad.

In 1964, I composed *a 21-bar melody – with modulation.*	>	*In 1964, I composed* *a 16-bar melody – with modulation.*

Camgymeriad mewn llefaru heb ei sgriptio

2. Mae llefaru heb ei sgriptio yn gallu esgor ar lawer o gamgymeriadau, o safbwynt ystyr yn ogystal â mynegiant, gramadeg a.y.y.b. Gan nad yw natur y llafar yn caniatáu ail-ddweud neu olygu'r cynnwys, gwedd cwbl anffurfiol ar iaith yw'r defnydd crai ar gyfer yr isdeitlydd. A ddylai'r isdeitlydd "ddelfrydu'r" deunydd crai ac os felly, i ba raddau? Credir bod y math canlynol o ddelfrydu yn dderbyniol.

"Mae hyn yn rhoi hoelen arall yng nghefn gwlad Cymru."

This puts another nail in the Welsh countryside.	>	*This puts another nail in the coffin of the Welsh countryside.*

"Amynedd Mam yw pob doethineb."

Wisdom is a mother's patience.	>	*Patience is the mother of all wisdom.*

Camgymeriad gweledol yn y rhaglen

3. Gall camgymeriad gweledol ymddangos ar y sgrîn yn ystod rhaglen.

3.1 Camgymeriad mewn teitl *Aston*

Mae'n bosibl i adroddwr rhaglen grybwyll enw lle a'i fod yn wahanol i'r hyn a welir ar arwydd ffordd neu ar fap ar y sgrîn. Mae'n bosibl i gwisfeistr grybwyll enw cystadleuydd mewn cwis a'i fod yn wahanol i'r hyn a welir mewn teitl *Aston* ar gyfer enw'r person hwnnw ar y sgrîn. Mae'r broblem hon yn peri dilema eto. Os cywirir y gwall yn yr isdeitl, mae perygl y gall y cywiriad ddenu rhagor o sylw at y camgymeriad, ond nid yw ailadrodd y camgymeriad yn foddhaol ychwaith.

3.2 Camgymeriad mewn isdeitl agored Cymraeg

Mae'n bosibl yn ogystal dod ar draws camgymeriad cyfieithu mewn isdeitl agored Cymraeg mewn rhaglen lle ceir llefaru mewn iaith dramor. Y dilema yn yr achos hwn yw ceisio penderfynu ai bod yn driw i'r iaith dramor wreiddiol neu i'r isdeitl Cymraeg sydd fwyaf addas. Os digwydd camgymeriad yn sgîl cyfieithiad o iaith adnabyddus fel Ffrangeg neu Sbaeneg i'r Gymraeg, yna mae yna siawns y bydd gwylwyr yn sylwi ar y camgymeriad.

Cysylltu â'r cwmni cynhyrchu ar fyrder

4. Mewn achos o gamgymeriad ar y tâp, yr hyn sy'n hanfodol yw bod yr isdeitlydd yn cysylltu â'r cwmni cynhyrchu ar fyrder a'i rybuddio am y camgymeriad fel bod cyfle, os yn bosibl, i'r cwmni cynhyrchu gywiro'r camgymeriad a chynhyrchu tâp meistr newydd. Os nad yw amser yn caniatáu hyn, dylai'r isdeitlydd geisio trafod y dilema gyda'r cwmni cynhyrchu a'u bod yn penderfynu ar y cyd sut i ddelio â'r mater. Os nad oes modd cysylltu â'r cwmni cynhyrchu, gellir dadlau mai'r ateb mwyaf synhwyrol fyddai cywiro'r camgymeriad yn yr isdeitl.

Caneuon

Canllaw cyffredinol

Disgwylir i'r cwmni isdeitlo ddarparu isdeitlau ar gyfer caneuon, boed ganeuon cyfan neu ddarnau o ganeuon, ac o fewn pob math o raglen, e.e. caneuon o fewn dramau a mathau eraill o raglenni yn ogystal â chaneuon o fewn cyngerdd – oni bai y ceir cyfarwyddyd gan y cwmni cynhyrchu neu gan S4C i'r gwrthwyneb.

- Darperir isdeitlau Saesneg ar gyfer caneuon yn yr iaith Gymraeg.
- Pan geir cân mewn iaith dramor neu'r iaith Ladin, dylid darparu isdeitlau drwy ddefnyddio geiriau'r gân a genir yn hytrach na pharatoi isdeitlau yn y Saesneg, oni bai bod isdeitlau agored Cymraeg eisoes ar y sgrîn. Os ceir isdeitlau agored Cymraeg ar y sgrîn, dylid creu isdeitlau Saesneg i gyfateb i'r rhai Cymraeg a'u gosod ar y sgrîn trwch isdeitl un llinell uwchben yr isdeitlau Cymraeg.
- Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, ceir cyfarwyddyd gan S4C neu/a'r cwmni cynhyrchu i ddarparu isdeitlau Cymraeg, ac nid Saesneg, ar gyfer caneuon Cymraeg.
- Ni isdeitlir "Hen Wlad fy Nhadau" i'r Saesneg. Darperir isdeitlau ar sail y geiriau Cymraeg gan mai yn y Gymraeg yn unig y cenir yr anthem genedlaethol.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob math o ganeuon, yn cynnwys caneuon opera o fewn e.e. cyngerdd. Fodd bynnag, trafodir canllawiau ar gyfer darllediadau o operâu llawn mewn isbennawd ar wahân.

Trosi caneuon

1. Ystyrir pob cân yn unigol er mwyn penderfynu ar y math o gyfieithiad sy'n addas. Gall yr isdeitlydd benderfynu darparu isdeitlau ar sail cyfieithiad cydnabyddedig o gân neu greu rhydd-gyfieithiad o gân – neu gall y cwmni cynhyrchu gomisiynu cyfieithiad o gân. Er mwyn gwneud y penderfyniad cywir, dylai'r isdeitlydd ystyried natur y rhaglen e.e. cyngerdd, gwasanaeth, dogfen, drama, comedi, ynghyd â phwrpas y gân.

   Noder, fodd bynnag, bod canllawiau ychwanegol i'w hystyried er mwyn penderfynu pa fath o gyfieithiad fyddai'n addas ar gyfer trosi cân neu ddarn o gân o fewn rhaglen sy'n adrodd stori e.e. o fewn drama, opera sebon, dogfen, comedi, a.y.y.b., lle mae geiriau'r gân wedi cael eu dewis i greu argraff fwriadol ar y stori *(gweler 2. isod*).

1.1 Cyfieithiad cydnabyddedig

Mae'n ddyletswydd ar y cwmni cynhyrchu i sicrhau caniatâd hawlfraint cyn cynnwys cân neu ddarn o gân mewn rhaglen, boed honno yn yr iaith wreiddiol (yn y Gymraeg neu'r Saesneg) neu ar ffurf cyfieithiad i'r Gymraeg o iaith arall. Disgwylir i'r cwmni isdeitlo gysylltu â'r cwmni cynhyrchu i holi os oes cyfieithiad cydnabyddedig o'r gân yn bodoli ac ai'r cyfieithiad cydnabyddedig ddylid ei gynnwys yn yr isdeitlau neu rydd-gyfieithiad gan ystyried unrhyw oblygiadau hawlfraint.
Os mai cyfieithiad Cymraeg o gân adnabyddus Saesneg neu iaith dramor a geir yn y rhaglen, dylai'r isdeitlydd wneud ymdrech i ddod o hyd i eiriau Saesneg y gân wreiddiol a defnyddio'r geiriau gwreiddiol i lunio isdeitlau yn hytrach na rhydd-

gyfieithu. Mae'r we fyd eang yn ffynhonnell effeithiol i isdeitlwyr fedru dod o hyd i eiriau caneuon Saesneg adnabyddus. Os defnyddir cyfieithiad cydnabyddedig, dylid fformadu'r isdeitlau gan barchu'r toriadau llinell y gân cyn belled ag y mae hynny'n bosibl o fewn cyfyngiadau capsiynau isdeitlau.

Dyma enghraifft o gân adnabyddus Saesneg *"The Son of a Preacher Man"* a droswyd i'r Gymraeg. Er nad yw'r geiriau Cymraeg yn cyfateb yn union i eiriau Saesneg y fersiwn gydnabyddedig, mae'n addas defnyddio geiriau'r fersiwn gydnabyddedig Saesneg yn yr isdeitlau gan bod y geiriau yn fwy adnabyddus i'r gwylwyr na rhydd-gyfieithiad.

"Yna, syllodd i mewn i'm llygaid,
Yna'n ddwfn i fy enaid i.
Ac o'r eiliad honno, fe ges i wybod
Fod 'na rywbeth amdano fe."

# Then, he stared into my eyes	>	*# Then, he'd look into my eyes*
# Deep into my soul	>	*# Lord knows, to my surprise*
# And from that moment, I knew	>	*# The only one who could ever reach me*
# There was something about him. #	>	*# Was the son of a preacher man. #*

Gellir dilyn yr egwyddor hon yn achos cân neu emyn fel "Yr Hen Arw Groes"

"Ac fe garaf yr hen arw groes
Nes cael cilio o'r ornest yn rhydd,
Glynu wnaf wrth yr hen arw groes
A'i chyfnewid am goron rhyw ddydd."

Gellir defnyddio geiriau Saesneg gwreiddiol *"The Old Rugged Cross"* ar gyfer y cyfieithiad hwn.

"So I'll cherish the old rugged cross,
till my trophies at last I lay down;
I will cling to the old rugged cross,
and exchange it some day for a crown."

ond ni ellir defnyddio'r geiriau Saesneg gwreiddiol ar gyfer trosiad o'r gân "Yr Hen Gapel Bach" a genir gan Trebor Edwards ar yr un dôn am nad yw'r geiriau Saesneg yn cyfleu naws y fersiwn hon.

"Ond fe garaf yr hen gapel bach
Ac fe'i caraf tra byddaf i byw;
I'r hen fro gwnaeth ei ran,
Canys dyma'r fan
Glywais gyntaf mai cariad yw Duw."

1.2 **Rhydd-gyfieithiad**

Pan nad oes cyfieithiad cydnabyddedig yn bodoli, dylai'r isdeitlydd aralleirio'r gân ar ffurf a llun y llinellau gwreiddiol. Er bod y gallu i ail-greu odl yn beth godidog, nid yw'n angenrheidiol. Dylid ymdrechu, fodd bynnag, i greu llinellau isdeitlau sy'n cyd-fynd o ran rhythm gyda llinellau'r Gymraeg wreiddiol ac yn debyg o ran naws ac arddull fel eu bod yn gallu cael eu canu i'r un gerddoriaeth yn y Saesneg fel yn y Gymraeg.

"Rwy'n caru merch o blwy' Penderyn
Ac yn ei chanlyn ers llawer dydd.
Ni allswn garu ag un ferch arall
Er pan welais 'run gron ei grudd."

# I love a girl from Penderyn parish	>	*# I'm in love with a girl from Penderyn*
# And have been courting her for some time #	>	*# And have been courting for several weeks #*
# I couldn't love any other girl	>	*# I could never feel the same for another*
# Since I noticed the roundness of her cheeks #	>	*# Since I set eyes on her round rosy cheeks #*

Mewn rhydd-gyfieithiad, nid oes raid cadw at yr union eiriau gwreiddiol. Y canllaw sylfaenol gyda rhydd-gyfieithiad yw y dylid bod yn fwy gwyliadwrus o ganlyniadau cyfieithu llythrennol. Yr hyn sydd ei angen yw'r gallu a'r dychymyg i ail-greu, nid yn unig naws ac arddull y gân ond, yn ogystal, ysbryd y geiriau gwreiddiol tra'n ymdrechu, wrth gwrs, i barchu'r patrwm odl a'r mesur.

Mae'r pennill canlynol o'r gân "Titrwm Tatrwm" yn enghraifft o'r modd y gellir llunio rhydd-gyfieithiad sy'n ail-greu ysbryd geiriau'r gân wreiddiol.

"Titrwm tatrwm, Gwen lliw'r ŵy,
Lliw'r meillion mwy rwy'n curo,
Mae'r gwynt yn oer oddi ar y llyn
O flodyn y dyffryn deffro
Chwyth y tân, mi gynnith toc,
Mae'n ddrycinog heno."

# Titrwm tatrwm, Gwen, colour of egg #	>	*# Pitter patter, Gwen, fair of face*
# Colour of clover gone to seed, I'm knocking	>	*# Blossom of clover, I'm calling*
# The wind is cold blowing off the lake	>	*# A chilly breeze blows from the lake*

# Oh, flower of the valley, wake up	>	*# Oh, awaken, lily of the valley*
# Blow the fire, it will soon light	>	*# Take the bellows to fan the flame*

# It's very stormy tonight #	>	*# To keep us from the raging storm #*

1.3 **Comisiynu cyfieithiad**

Yn achos rhaglen sy'n cynnwys nifer sylweddol o ganeuon y mae eu hystyr yn ganolog i gynnwys y rhaglen, gall y cwmni cynhyrchu ddewis comisiynu cyfieithiad gan awdur y geiriau neu gan awdur cyfoes arall gyda chaniatad yr awdur gwreiddiol neu ganiatad y sawl sy'n berchen ar yr hawlfraint. Dylid cydnabod awdur y cyfieithiad mewn capsiwn cydnabod ar ddiwedd y rhaglen.

Trosi cân neu ddarn o gân gydag arwyddocâd arbennig o fewn rhaglen sy'n adrodd stori

2. Weithiau, ceir achos o gyfieithiad Cymraeg o gân neu ddarn o gân wreiddiol ac adnabyddus Saesneg yn ymddangos mewn rhaglen sy'n adrodd stori e.e. o fewn drama, dogfen, comedi, a.y.y.b., lle mae'r cyfieithiad Cymraeg, boed gyfieithiad cydnabyddedig neu rydd-gyfieithiad, yn cael ei ddefnyddio i greu argraff fwriadol ar stori'r rhaglen, a lle na fyddai'r geiriau gwreiddiol Saesneg yn creu yr un argraff. Gall yr isdeitlydd ddewis darparu isdeitlau Saesneg ar sail geiriau'r gân wreiddiol Saesneg neu ar sail rhydd-gyfieithiad o'r geiriau Cymraeg. Yr hyn sy'n angenrheidiol yw bod y trosiad Saesneg yn cyfleu'r ystyr a fwriedir gan eiriau Cymraeg y gân yn y rhaglen. Dengys y ddwy enghraifft ganlynol bwysigrwydd rhydd-gyfieithiadau yn yr achosion hyn. Mae'r isdeitlau wedi'u seilio ar rydd-gyfieithiadau sy'n driw i'r geiriau Cymraeg. Ni fyddai isdeitlau wedi'u seilio ar y gân gydnabyddedig Saesneg yn creu'r argraff a fwriedir gan y stori – ac mewn rhai achosion, byddent yn creu camargraff.

2.1 **Seilio isdeitlau ar rydd-gyfieithiad o eiriau cân Gymraeg wreiddiol a geir yn y ddrama yn hytrach nag ar gyfieithiad cydnabyddedig Saesneg.**

Mae enghraifft a) yn ymwneud â'r emyn enwog "I Bob Un Sy'n Ffyddlon" sy'n cael ei chanu o fewn drama ar eiliad hollbwysig yn natblygiad y stori. Cenir y geiriau Cymraeg ar y dôn boblogaidd *"Rachie"*. Yn Saesneg, gellir defnyddio'r dôn *"Rachie"* gyda geiriau'r emyn *"Onward Christian Soldiers"*. Nid anaddas, felly, fyddai i isdeitlydd ystyried creu isdeitlau allan o'r geiriau hyn. Ond yr anhawster yw nad yw'r geiriau Saesneg yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ar y sgrîn. Ar yr eiliad y cenir "Medd-dod fel Goleiath heria ddyn a Duw", mae'r ddrama yn canolbwyntio ar gymeriad arbennig sydd yn gaeth i'r ddiod feddwol ac sy'n achosi poen mawr i'r rhai o'i chwmpas. Yn yr achos hwn, byddai *"At the sign of triumph, Satan's host doth flee"* ddim yn golygu llawer – ond mae'r rhydd-gyfieithiad, *"Mighty as Goliath is the drunken curse"* yn gweithio'n dda ac yn atgyfnerthu'r argraff a fwriedir.

"I bob un sy'n ffyddlon
dan ei faner ef,
Mae gan Iesu goron fry
Yn nheyrnas nef.
Medd-dod fel Goleiath
Heria ddyn a Duw
Myrdd a myrdd garchara
Gan mor feiddgar yw."

# Onward Christian soldiers, marching as to war	>	*# To his faithful followers fighting in His name*

# Christ, the royal Master leads against the foe	>	*# Jesus had a just reward in heaven above*

# At the sign of triumph Satan's host doth flee	>	*# Mighty as Goliath is the drunken curse*

# On then, Christian soldiers on to victory! #	>	*# The poison takes its prisoners boldly, ruthlessly #*

2.2 **Seilio isdeitlau ar rydd-gyfieithiad o'r cyfieithiad Cymraeg o'r gân Saesneg a geir yn y ddrama yn hytrach nag ar y geiriau gwreiddiol Saesneg.**

Mae enghraifft b) yn ymwneud â chân enwog Frank Sinatra, *"Something Stupid"* sy'n chael ei chanu o fewn drama gan gymeriad allweddol ac ar eiliad hollbwysig yn natblygiad y stori ond gan ddefnyddio cyfieithiad cydnabyddedig i'r Gymraeg. Yn yr achos arbennig hwn, mae'r geiriau'r cyfieithiad cydnabyddedig Cymraeg yn y sgript gwreiddiol yn gwneud mwy o synnwyr i'r hyn sy'n digwydd yn y ddrama na fyddai rhydd-gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Felly, mae'n dilyn ei bod yn fwy addas seilio'r isdeitlau ar rydd-gyfieithiad i'r Saesneg o'r cyfieithiad cydnabyddedig Cymraeg yn hytrach nag ar eiriau gwreiddiol y gân yn Saesneg.

"Mi wn mai rhywbeth syml iawn
Yw dweud fy mod yn meddwl fawr
O rywun fel ti
Ond, cariad, gad im eto ddweud
Mai ti yw'r unig un
Sy'n gwneud fy nghalon yn rhydd.
Mae hyn yn wir, a chofia
Pan y byddi wrth dy hun
Ryw noson unig ddu.
Pan wel yr haul dy wyneb tlws,
Yfory byddaf innau yn dy garu."

# I know I stand in line until you think you have the time	>	*# I know it must sound daft to you to put into words how much I think*

# To spend an evening with me,	>	*# Of someone like you*

# And if we go some place to dance, I know there's a chance	>	*# But, darling, let me explain that you're the only one*

# You won't be leaving with me,	>	*# Who lets my heart roam free*

# And, afterwards, we drop *Into a quiet little place,*	>	*# I swear it's true, remember this* *at night, when you're alone*

# And have a drink or two,	>	*# And feeling blue*

# And, then, I go and spoil it all	>	*# When the sun shines on your face* *at dawn*

# By saying something stupid like *'I love you'. #*	>	*# Tomorrow, my love will* *still be true #*

Fel canllaw cyffredinol, mewn achos fel hyn, dylid ymdrechu i greu isdeitlau sy'n driw i'r Gymraeg wreiddiol, pa bynnag gyfieithiad bo hwnnw, gan mai geiriau sy'n addas i'r stori sy'n bwysig ac nid geiriau'r cyfieithiad swyddogol.

Dealltwriaeth ansicr o eiriau cân

3. Yn y gân `"Cerrig yr Afon"` gan Iwcs a Doyle, geiriau cywir y llinell ganlynol yw `"Ni 'di'r sgotwrs d'ylo gora."` nid `"Nid yw'r sgotwrs 'di rhoi gora."` ond mae'r tebygrwydd ynganiad yn gallu arwain at ddehongliad anghywir. Yn amlwg, os ceir trafferthion dealltwriaeth – ac yn aml, ceir mwy ohonynt o fewn cân o'i gymharu â sgwrs rhwng dau berson – dylid sicrhau cadarnhâd o'r geiriau gwreiddiol rhyw ffordd neu'i gilydd.

   Cofier hefyd, hyd yn oed pan mae'r geiriau gwreiddiol yn gyflawn ac yn gywir, y gall trafferthion amwysedd godi. Yn y gân `"Un Funud Fach"` gan Bryn Fon, er enghraifft, clywir y geiriau `"Serch - y boen"` sy'n golygu *"Despite the pain",* nid *"Love – the pain."* Yn yr un modd, yn y gân `"Maharishi"` gan Edward H. Dafis, sonnir am `"guru"` ac nid am `"gwrw"`.

   Weithiau, mae'n amhosibl dirnad pob gair mewn cân ac nid oes modd cael cadarnhad o'r geiriau gan y cerddor na'r cyfansoddwr cyn darlledu'r rhaglen. Mewn achos fel hyn, mae'n rhaid gwneud cymaint o synnwyr o'r geiriau ag sy'n bosibl a gwneud y gorau o dan yr amgylchiadau. Mae'r gân `"Satta ym Mhontcanna"` gan Geraint Jarman a Llwybr Llaethog yn enghraifft o gân anodd ei deall ar brydiau. A phan nad yw geiriau cân yn gwneud synnwyr amlwg, mae'r profiad o isdeitlo'r geiriau yn gallu bod yn un ansicr. Nid oes sicrwydd ychwaith bod pob gair i'w glywed. Mae'n bosibl felly nad yw'r geiriau canlynol allan o'r gân yn gywir; efallai eu bod yn gywir, efallai ddim.

 # Tell me what the world is doing

 # Your smile drowns me

 # Half a century and that's a song

 # Half a century with no reward

 # Satta in Pontcanna #

Dylid mabwysiadu'r un agwedd at eiriau aneglur caneuon rap, yn ogystal, ar adegau pan nad yw'n bosibl i isdeitlydd ddeall y geiriau. Pan mae'r cerddor neu/a'r cyfansoddwr ei hun yn cyfaddef nad yw'n cofio'r geiriau a bod y geiriau yn gallu amrywio rhwng un perfformiad ac un arall, yna nid oes yna fawr arall y gall yr isdeitlydd ei wneud i sicrhau'r union eiriad cywir.

Fformadu caneuon

4. Mae'r enghraifft isod o ddarn o'r gân `"Blwyddyn Mas"` wedi'i hisdeitlo yn ymgorffori'r prif bwyntiau dilynol ynglŷn â fformadu caneuon.

```
"Ond beth, ond beth amdana' i
  Ers i ti fynd, fy nghâr?
Mor grwn yw'r ddaear lle'r ei di,
  Mor sgwâr fy milltir sgwâr."
```

 # Tell me, what about me?

 # Since you've been gone, my friend

 # The world is full where you tread

 # I'm in the empty world left behind #

Yng nghwpled olaf Cymraeg gwreiddiol yr enghraifft uchod ceir cyferbyniaeth rhwng yr ansoddeiriau `"crwn"` a `"sgwâr"` i gyfleu ergyd benodol. Ni ellir cyfieithu'r geiriau hyn yn llythrennol oherwydd arwyddocâ yr ymadrodd Cymraeg - `"milltir sgwâr"`. Felly, dewisir dau air cyferbyniol yn y trosiad Saesneg – *"full"* ac *"empty"* – i gyfleu ergyd sy'n cyfateb i'r geiriau gwreiddiol.

4.1 Arwydd # i ddynodi cân

Rhoddir arwydd # ar ddechrau isdeitl cyntaf y gân neu'r darn o gân ac ar ddechrau pob isdeitl dilynol o'r gân ac yna arwydd # i gloi'r gân ar ddiwedd isdeitl olaf y gân. Gadewir gofod rhwng yr arwydd # a gair cyntaf pob isdeitl a rhwng gair olaf y gân a'r arwydd # olaf.

Defnyddir arwyddion # i ddynodi cân ar gyfer cân rap fel unrhyw gân arall.

4.2 Dechrau llinell gyntaf pob isdeitl cân gyda phriflythyren

Dechreuir llinell gyntaf pob isdeitl cân gyda phriflythyren (ar ôl yr arwydd #). Cedwir at yr arddull hwn hyd yn oed os mai llythrennau bach a ddefnyddir ar ddechrau llinellau'r fersiwn wreiddiol neu'r cyfieithiad cydnabyddedig.

4.3 Dechrau ail linell pob isdeitl cân gyda llythyren fach

Dechreuir ail linell pob isdeitl dwy linell cân gyda llythyren fach. Cedwir at yr arddull hwn hyd yn oed os mai priflythrennau a geir yn y gân wreiddiol neu'r cyfieithiad cydnabyddedig.

4.4 **Hepgor atalnodi ar ddiwedd pob isdeitl**

Ni ddefnyddir atalnodi ar ddiwedd isdeitlau cân neu ddarn o gân, boed gyfieithiad cydnabyddedig neu gyfieithiad law-rydd, oni bai bod angen cynnwys gofynnod neu ebychnod. Fodd bynnag, dylid cynnwys yr atalnodi o fewn y llinellau ac ar ddiwedd llinell gyntaf isdeitl dwy linell.

4.5 **Ni ddefnyddir dotiau parhad rhwng isdeitlau cân**

Ni ddefnyddir dotiau parhad ar ddiwedd nac ar ddechrau isdeitlau caneuon oni bai bod darn byr o ddeialog yn cymryd lle ar ganol y gân.

4.6 **Lliwiau isdeitlau caneuon lle ceir mwy nag un canwr**

Mewn cân lle ceir mwy nag un canwr yn canu yn unigol o fewn band neu unawdydd yn canu yn unigol o fewn côr, mae'r cwestiwn o ddefnydd lliw yn codi. Mewn achos fel hyn, dylid dethol lliwiau gwahanol ar gyfer y lleisiau gwahanol yn y modd arferol.

Fformadu isdeitlau darnau o gân wedi'u gwahanu gan ddeialog

5. Wrth isdeitlo cân lle ceir pwt neu bytiau o ddeialog ar ganol y gân, gosodir tri dot parhad ar ddiwedd isdeitl olaf y darn o'r gân cyn y pwt o ddeialog a dau ddot parhad ar ddechrau isdeitl cyntaf y gân pan mae hi'n ail-gydio ar ôl y pwt o ddeialog – yn hytrach na defnyddio'r arwydd # i gau geiriau'r gân cyn y pwt o ddeialog. Gwneir hyn er mwyn dynodi mai dros dro yn unig mae'r gân yn diweddu gyda'r ddeialog yn ymddangos ar ei chanol. Gosodir y dotiau parhad pan mae'r gân yn ail-gydio ar ôl yr arwydd # fel yn yr enghraifft ganlynol.

# Bring me, said David *my harp once again*	>	*# Bring me, said David* *my harp once again*
# Lift up my hands *that I try a last strain #*	>	*# Lift up my hands* *that I try a last strain...*
This is such a sad song!	>	*This is such a sad song!*
# ..Soon, 'twill be over *O God, I implore*	>	*# ..Soon, 'twill be over* *O God, I implore*
# Guard thou my dear ones *when I am no more #*	>	*# Guard thou my dear ones* *when I am no more #*

Amseru Caneuon

6. Mae rhai agweddau o'r canllawiau amseru caneuon ychydig yn wahanol i'r canllawiau amseru isdeitlau eraill.

6.1 **Cydamseru**

Dylid amseru caneuon fel bod yr isdeitlau yn cyfateb i hyd llinellau'r gân wreiddiol. Yn ogystal, dylid eu cyd-amseru i gyd-fynd gyda'r geiriau a genir. Oherwydd yr amrywiaeth mawr a geir mewn hyd llinellau caneuon, ceir amrywiaeth mawr yn hyd isdeitlau caneuon.

Hwyrach y bydd angen cywasgu isdeitl dwy linell o gân rap gyflym i isdeitl o 2 eiliad o hyd.

10:07:05:00 03:10 10:17:08:10		10:07:05:00 02:00 10:07:07:00
# They want to play around and get off their faces #	>	*# They want to play around and get off their faces #*

Ar y llaw arall, gall isdeitl allan o gân a genir yn araf gael ei ymestyn i nifer sylweddol o eiliadau.

10:16:20:00 05:00 10:16:25:00		10:16:20:00 10:00 10:16:30:00
# Dona eis requiem #	>	*# Dona eis requiem #*

Fodd bynnag, pan fo cân yn symud yn araf iawn, mae'n briodol rhannu llinell o gân yn ddau isdeitl, hyd at 6 eiliad yr un, dyweder, yn hytrach na chadw isdeitl ar y sgrîn am gymaint â 12 eiliad.

"Huna'n fwyn ar fron dy fam.
Ai angylion fry sy'n gwenu
Arnat ti yn gwenu'n llon?
Tithau'n gwenu'n ôl dan huno,
Huno'n dawel ar fy mron?"

10:22:11:17 10:04 10:22:21:21	>	10:22:11:17 04:20 10:22:16:15
# Sleep on mother's gentle breast	>	*# Sleep*
		10:22:17:05 03:16 10:22:21:21
		# On mother's gentle breast

10:22:23:05 07:10 10:22:30:15	>	10:22:23:05 03:15 10:22:26:20
# Do the angels smile above thee		*# Do the angels*
		10:22:27:00 03:15 10:22:30:15
		# Smile above thee

10:22:31:02 10:18 10:22:41:20	>	10:22:31:02 04:03 10:22:35:05
# Upon thy face smiling joyfully?		*# Upon thy face*
		10:22:35:10 06:10 10:22:41:20
		# Smiling joyfully?

10:22:43:00 08:10 10:22:51:10	>	10:22:43:00 04:03 10:22:47:10
# *You smile sweetly as you slumber*		# *You smile sweetly*
		10:22:47:15 03:20 10:22:51:10
		# *As you slumber*

10:22:52:04 10:16 10:23:02:20	>	10:22:52:04 04:03 10:22:57:15
# *Sleep on mother's gentle breast #*		# *Sleep on mother's*
		10:22:58:05 04:15 10:23:02:20
		# *Gentle breast. #*

6.2 **Llinell anarferol o hir**

Os ceir un llinell o gân (weithiau dim ond un gair hyd yn oed) sy'n anarferol o hir e.e. `"Haleliwia"` neu `"Amen"`, dylid cadw'r isdeitl ar y sgrîn tan i'r canwr orffen ei ynganu. Mewn achos lle byddai yna berygl bod isdeitl yn mynd i aros ar y sgrîn yn nes at 20 eiliad, dyweder, byddai'n addas rhannu'r isdeitl yn ddau gan ail-adrodd y gair ac addasu'r amseru fel bod y ddau isdeitl ar y sgrîn am yr un hyd.

10:21:30:00 18:00 10:21:48:00		10:21:30:00 09:00 10:21:39:00
# *Hallelujah #*	>	# *Hallelujah*

		10:21:39:05 09:00 10:21:28:00
	>	# *Hallelujah #*

6.3 **Cydamseru gydag isdeitlau agored Cymraeg**

Pe digwydd i raglen gynnwys gân neu bwt o gân sy'n cael ei chanu mewn iaith dramor neu ddarn o gân opera yn yr iaith wreiddiol a bod isdeitlau agored Cymraeg, darperir isdeitlau Saesneg a'u cydamseru i gyd-fynd gyda chodau amser i mewn ac allan yr isdeitlau Cymraeg yn hytrach na gyda'r llefaru gwreiddiol fel bod yr isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar y sgrîn ac yn gadael y sgrîn yr un pryd.

Cerddoriaeth gefndir

7. Ceir pytiau o ganeuon ar ffurf cerddoriaeth gefndir neu bytiau o ganeuon o deledu neu radio mewn sawl math o raglen.

7.1 Os ceir pwt o gân mewn rhaglen megis drama, dogfen neu gomedi, ar ffurf cerddoriaeth gefndir sy'n parhau heb isdeitlau llefaru am hyd un neu ddau isdeitl ac mai'r bwriad yw atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd ar y sgrîn, dylid creu isdeitl effaith sain i ddisgrifio'r math o gerddoriaeth a glywir megis # *Romantic song #,* # *Rap music* #, # *Hymn-singing #,* a'i osod ar waelod y sgrîn gan ei leoli yn y canol mewn llythrennau bach gwyn ar gefndir du rhwng dau arwydd #,

7.2 Os yw'r gân yn parhau heb isdeitlau llefaru am gyfnod ychydig yn hirach, ac mae'r gân yn adnabyddus, dylid ymdrechu i ddarganfod teitl y gân a'i osod ar y sgrîn gan ei leoli yn y canol mewn llythrennau bach gwyn ar gefndir du rhwng dau arwydd #, yn hytrach na disgrifiad llac o'r math o gân a glywir. Er enghraifft, os mai'r gân adnabyddus `"Ffarwel i Langyfelach Lon"` a glywir, yna byddai isdeitl effaith sain

`# Ffarwel i Langyfelach Lon #` yn rhoi mwy o wybodaeth na *"Welsh traditional song"*.

7.3 Os yw'r gân yn parhau heb isdeitlau llefaru am gyfnod hirach nag yn 7.2 uchod, a bod y gân yn adnabyddus, dylid ymdrechu i isdeitlo geiriau'r gân yn y modd arferol.

7.4 Os ceir pwt o gân ar ffurf sain sydd ar deledu neu radio sy'n parhau heb isdeitlau llefaru am hyd un neu ddau isdeitl ac mai'r bwriad yw atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd ar y sgrîn, dylid creu isdeitl effaith sain i ddisgrifio'r gerddoriaeth a glywir fel y disgrifir yn 7.1 uchod.

7.5 Os yw'r gân yn parhau heb isdeitlau am gyfnod ychydig yn hirach, a bod y gân yn adnabyddus, dylid ymdrechu i ddarganfod teitl y gân a'i osod ar y sgrîn fel y disgrifir yn 7.2 uchod.

7.6 Os yw'r gân yn parhau heb isdeitlau deialog am fwy o hyd nag yn 7.5 uchod, a bod y gân yn adnabyddus, dylid ymdrechu i isdeitlo geiriau'r gân yn y modd arferol.

Teitl cân o fewn isdeitl sy'n cynnwys llefaru

8. Pan geir cyfeiriad at deitl cân o fewn isdeitl sy'n cynnwys llefaru, ni roddir dyfynodau o'i amgylch a dechreuir pob gair o'r teitl â phriflythyren gyda llythrennau bach i ddilyn.

She could play "Moonlight Sonata" when she was nine.	>	*She could play Moonlight Sonata when she was nine.*

Teitl cân o fewn teitl *Aston*

9. Fel arfer, nid yw teitl cân o fewn teitl *Aston,* boed deitl Cymraeg neu iaith dramor, yn cael ei drosi. Felly, nid oes angen darparu capsiwn ar ei gyfer, hyd yn oed mewn achos lle mae cân Gymraeg adnabyddus e.e. `"Ar Hyd y Nos"` yn cael ei chanu yn y Gymraeg ond bod y teitl hefyd yn bodoli yn Saesneg, *"All Through the Night"*.

9.1 **Geiriau Cymraeg i'w trosi o fewn teitl *Aston***

Pan geir *Aston* sy'n cynnwys teitl cân gyda geiriau Cymraeg i'w trosi, e.e.

```
# 2il Symudiad Sonata yn G Leiaf #
J S Bach
```

mae angen darparu capsiwn ar ei gyfer:

 # 2nd Movement Sonata in G Minor #
J S Bach

Mae rhai teitlau *Aston* yn cynnwys manylion am y perfformwyr a'r cyfansoddwr e.e.

 # America #
Leo Bernstein
gan Aelwyd Chwilog
cyfieithwyd gan Meinir Lynch

ac mae angen darparu capsiwn ar eu cyfer yn ogystal.

 # America #
Leo Bernstein
by Aelwyd Chwilog
translated by Meinir Lynch

9.2 **Fformadu capsiwn ar gyfer teitl *Aston***

Dylid gosod yr isdeitl ar y sgrîn mewn llythrennau gwyn ar gefndir du heb fod mewn priflythrennau, gan ganoli pob llinell, gyda'r arwydd # o amgylch teitl y gân yn unig.

9.3 **Achosion lle nad oes angen capsiwn ar gyfer teitl cân**

Nid oes angen creu capsiwn ar gyfer teitl cân pan nad yw'r teitl yn ymddangos mewn *Aston* na phan fo geiriau'r gân yn ymddangos yn yr isdeitlau sy'n dilyn.

Ailddarllediadau o raglenni sy'n cynnwys caneuon

10. Dechreuodd S4C ddarparu isdeitlau ar gyfer caneuon yn 2002. Pan mae adolygydd yn diweddaru ffeiliau isdeitlau sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 2002, dylid darparu isdeitlau ar gyfer unrhyw ganeuon neu bytiau o ganeuon waeth pa fath o raglen yw hi.

Archif isdeitlau geiriau caneuon

11. Oherwydd y cynnydd yn y nifer o raglenni sy'n cynnwys caneuon ar S4C, mae Ystafell Isdeitlo S4C wedi sefydlu archif isdeitlau geiriau caneuon. Mae cynnwys yr archif ar gael i gwmnïau isdeitlo.

Capsiwn cydnabod isdeitlau

Canllaw cyffredinol

Gosodir capsiwn cydnabod isdeitlau ar bob ffeil isdeitlau teletestun.

Ni osodir y capsiwn ar ddiwedd ffeil isdeitlau agored i'w darlledu ar S4C nac i'w darlledu mewn gŵyl ffilmiau.

Geiriad

1. Y geiriad arferol yw

   S4C subtitles by: Enw'r cwmni a/neu'r *isdeitlydd* *(mewn priflythrennau)*

   Cedwir geiriad y capsiwn i un llinell.

Lliw

2. Defnyddir llythrennau gwyn ar gefndir du i'r capsiwn cyfan.

Amseriad

3. Gosodir y capsiwn ar y sgrîn am dair eiliad.

Lleoliad

4. Lleolir y capsiwn cydnabod isdeitlau ar waelod sgrîn graffeg S4C sy'n ymddangos ar ddiwedd pob rhaglen deletestun gan ei leoli yn y canol.

Cerddoriaeth offerynnol

Canllaw cyffredinol

Mae rhaglenni yn y maes cerddoriaeth e.e. cyngherddau, sioeau cerdd, eisteddfodau a.y.y.b., yn aml yn cynnwys datganiadau o gerddoriaeth offerynnol. Yn ogystal, clywir pytiau o gerddoriaeth gefndir offerynnol neu bytiau o gerddoriaeth offerynnol yn dod allan o e.e. rhaglen deledu, radio neu gryno ddisg o fewn sawl math o raglen. Os yw'r gerddoriaeth i'w chlywed am hyd un neu ddau isdeitl gyda'r bwriad o greu argraff arbennig ar yr hyn sy'n digwydd ar y sgrîn, ac os na cheir teitl *Aston* yn rhoi gwybodaeth am deitl y darn, dylid darparu isdeitl effaith sain ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw.

Datganiad o gerddoriaeth offerynnol

1. Pan mae rhaglenni cerddorol yn cynnwys datganiad o gerddoriaeth offerynnol, gwelir teitl y darn mewn *Aston* ar waelod y sgrîn. Fel arfer, nid oes angen darparu isdeitl effaith sain - nid yw teitlau darnau o gerddoriaeth offerynnol yn cael eu trosi, boed deitl Cymraeg neu iaith dramor. Eithriad i'r egwyddor hon fyddai'r angen i ail-greu'r teitl mewn isdeitl effaith sain er mwyn trosi term megis `"Ail symudiad"` – *"Second movement"* – o fewn teitl y darn a'i osod ar y sgrîn.

Pwt o gerddoriaeth gefndir offerynnol

2. Weithiau, ceir pwt o gerddoriaeth gefndir offerynnol sy'n torri ar draws y llefaru ac sy'n gofyn am sylw arbennig.

2.1 Os ceir darn o gerddoriaeth cefndir offerynnol mewn rhaglen e.e. drama, dogfen, comedi a.y.y.b., sy'n parhau heb isdeitlau deialog am hyd un neu ddau isdeitl gyda'r bwriad o greu argraff arbennig ar yr hyn sy'n digwydd ar y sgrîn, dylid creu isdeitl effaith sain i ddisgrifio'r math o gerddoriaeth a glywir e.e. *# Romantic music #, # Drum 'n' bass #*, *# Chanting #.*

2.2 Os yw'r gerddoriaeth cefndir offerynnol yn parhau heb isdeitlau deialog am hyd ychydig yn hirach, a bod y gerddoriaeth offerynnol yn adnabyddus, dylid ymdrechu i ddarganfod teitl y darn a'i osod ar y sgrîn yn hytrach na gosod disgrifiad llac o'r gerddoriaeth ar y sgrîn. Er enghraifft, os mai'r fersiwn offerynnol o'r gân adnabyddus `"Ffarwel i Langyfelach Lon"` a glywir, yna byddai isdeitl effaith sain `# Ffarwel i Langyfelach Lon #` yn rhoi mwy o wybodaeth na *"Welsh traditional song"*.

Pwt o gerddoriaeth offerynnol allan o e.e. raglen deledu, radio neu gryno ddisg

3. Os clywir pwt o gerddoriaeth cefndir offerynnol allan o e.e. raglen deledu, radio neu gryno ddisg, sy'n parhau heb isdeitlau deialog am hyd un neu ddau isdeitl gyda'r bwriad o greu argraff arbennig ar yr hyn sy'n digwydd ar y sgrîn, dylid gosod capsiwn effaith sain ar y sgrîn i egluro'r ffynhonnell ac i ddisgrifio'r gerddoriaeth a glywir e.e.

Radio plays jazz music

Os yw'r gerddoriaeth offerynnol allan o e.e. raglen deledu, radio neu gryno ddisg, er enghraifft, yn parhau heb isdeitlau deialog am hyd ychydig yn hirach, a bod y gerddoriaeth yn adnabyddus, dylid ymdrechu i ddarganfod teitl y darn a'i osod ar y sgrîn e.e.

Radio plays Summertime

Fformadu effaith sain cerddoriaeth offerynnol

4. Fel rheol, dylid fformadu effaith sain cerddoriaeth offerynnol, boed yn ddisgrifiad o'r gerddoriaeth, neu'n deitl, mewn llythrennau bach gwyn ar gefndir du, gan ganoli pob llinell, a'i osod ar y sgrîn rhwng dau arwydd #.

Chevron

Canllaw Cyffredinol

Er ei bod yn bosibl o bryd i'w gilydd y gwelir defnydd o'r chevron mewn ailddarllediadau o hen ffeiliau isdeitlau sydd heb eu diweddaru, mae'r canllaw cyffredinol ynglŷn â'r *chevron* bellach wedi newid ac nid oes angen gosod *chevron* i ddynodi siaradwr nad yw'n ymddangos ar y sgrîn. Fel arfer, caiff arwyddion *chevron* mewn ail-ddarllediadau eu dileu hefyd.

Collnod

Canllaw cyffredinol

Cedwir at y dulliau traddodiadol a gramadegol gywir o ddefnyddio'r collnod er mwyn osgoi unrhyw berygl o gamddeall ystyr isdeitl.

Defnydd arferol

1. Wrth ddynodi'r genidol perthynol. Presenoldeb a lleoliad y collnod sy'n rheoli'r ystyr.

`Mae ffrog y ferch yn barod.`	>	*The girl's dress is ready.*
`Mae ffrogiau'r ferch yn barod.`	>	*The girl's dresses are ready.*
`Mae ffrogiau'r merched yn barod.`	>	*The girls' dresses are ready.*

Pan geir enw unigol yn diweddu â'r llythyren *"s"*, mae'r ddwy ffurf, hynny yw, "*Wales' mountains"* a *"Wales's mountains*" yn dderbyniol.

Camgymeriadau cyffredin

2. Ceir o'n cwmpas ar arwyddion a hysbysebion enghreifftiau lu o'r collnod yn cael ei hepgor yn y Saesneg. Ni dderbynnir y duedd hon mewn isdeitlau.

I'm pleased its going well for them.	>	*I'm pleased it's going well for them.*

3. Un o swyddogaethau cyffredin collnod yw dynodi bod rhan o ryw ffurf neu'i gilydd wedi ei hepgor.

   Dylid cynnwys y collnod pan fo'n cyfeirio at ddegawd arbennig a dylid ei leoli yn union safle'r elfen a gollwyd.

She was a child of the 60s.	>	*She was a child of the '60s.*

   Dylid cynnwys y collnod yn yr enghraifft ganlynol hefyd pan fo *"morning"* yn golygu "`Bore da`".

   "`Bore Da, Catrin. Ti wedi codi'n gynnar!`"

Morning, Catrin. You're up early!	>	*'Morning, Catrin. You're up early!*

4. Ni ddylid cynnwys collnod lle nad oes elfen wedi ei hepgor.

Here's a list of do's and don'ts.	>	*Here's a list of dos and don'ts.*

Talfyriadau berfol

5. Mae'r collnod yn ddefnyddiol i ddynodi talfyriadau berfol, yn arbennig berfau syml yn dilyn rhagenwau, e.e. "*She's gone out.*". Gwylier, fodd bynnag, rhag gor-ddefnyddio'r ddyfais pan fo'r talfyriadau ynghlwm wrth rai ffurfiau, yn enwedig enwau priod,

e.e.*"Glyn'll want to come."*. Efallai, yn y cyswllt hwn, y byddai *"Glyn will want to come."* yn haws i'w ddarllen ac yn fwy derbyniol gan fod rhai cyfuniadau o'r fath yn gallu bod yn lletchwith ac yn anghyfarwydd.

Yn ogystal â'r defnydd cyffredin a wneir o *"'s"* i ddynodi'r genidol perthynol a grybwyllir uchod, gall fod yn dalfyriad hefyd ar gyfer *"is"* neu *"has"*. Gan mai *"is"* yw'r mwyaf cyffredin o'r ddau, defnyddio *"'s"* i dalfyrru *"is"* yw'r ffurf fwyaf derbyniol o'r ddau. Os oes perygl o amwysedd mewn brawddeg lle y defnyddir *"'s"* i ddynodi *"has"*, mae'n well cynnwys y ffurf lawn neu ddewis aralleirio'r frawddeg.

He's no right to do that.	>	*He has no right to do that.*

Yn gyffredinol, defnyddir y collnod i dalfyrru'r elfen ferfol yn amlach mewn drama.

It is harder than the last time.	>	*It's harder than the last time.*

Ar y llaw arall, defnyddir y ffurf lawn mewn rhaglen ffeithiol (ac eithrio pan fo galw i adlewyrchu'r iaith lafar mewn cyfweliad).

She's used to publicity.	>	*She is used to publicity.*

Coma

Canllaw cyffredinol

Mae defnydd effeithiol o'r coma yn dynodi saib naturiol byr ac yn hwyluso darllen unedau synnwyr o fewn brawddegau. Cedwir at y dulliau traddodiadol o ddefnyddio'r coma er mwyn osgoi unrhyw berygl o amwysedd ystyr isdeitl. Dengys y ddwy frawddeg unfath ganlynol mai'r defnydd o'r coma yn unig sy'n rheoli'r gwahaniaeth ystyr - ac mai'r saib naturiol yn y frawddeg sy'n penderfynu hyn.

"Anna, [saib naturiol] fy merch ysgrifennodd y ddrama."
Anna, my daughter wrote the play.
[= Anna, it's my daughter who wrote the play.]

"Anna, [saib naturiol] fy merch, [saib naturiol] ysgrifennodd y ddrama."
Anna, my daughter, wrote the play.
[= It's my daughter, Anna, who wrote the play.]

Gellir crynhoi prif ganllawiau'r defnydd o'r coma fel a ganlyn.

- Defnyddir coma er mwyn sicrhau eglurdeb, osgoi amwysedd ac i wahanu un uned synnwyr oddi wrth un arall
- Nid oes rheswm i ychwanegu coma os yw isdeitl yn darllen yn glir ac yn eglur
- Ni roddir coma i ddynodi saib annisgwyl yn yr iaith lafar
- Ni all coma fyth gymryd lle atalnod llawn.

Pan fo'n anodd gwneud penderfyniad i gynnwys coma ai peidio, mae'n ddefnyddiol gosod y frawddeg ag y sgrîn yn gyntaf heb goma ac wedyn edrych i weld os oes angen un. Gall adrodd brawddeg yn uchel hefyd helpu i wneud y penderfyniad cywir. Ni ddylid anghofio bod y llefaru gwreiddiol yn gallu bod yn llawn seibiau annisgwyl oherwydd natur amrywiol y ffordd y mae pobl yn siarad – seibiau na fyddent angen sylw gramadegol.

Defnydd cywir o'r coma

1. Er mwyn i'r coma fod yn effeithiol, mae'n rhaid i'r defnydd ohono fod yn ramadegol gywir. Dyma enghreifftiau i'w nodi ynglŷn â defnydd effeithiol o'r coma.

1.1 Yn dilyn ymadrodd adferfol yn dynodi amser neu leoliad

Last year I visited New York.	>	*Last year, I visited New York.*
In Africa children are starving.	>	*In Africa, children are starving.*

1.2 Yn dilyn ymateb cadarnhaol neu negyddol

Yes please.	>	*Yes, please.*
No I don't think so.	>	*No, I don't think so.*

1.3 **O flaen yr atodyn holiadol** *"isn't...?"* **ar ddiwedd brawddeg**

It's incredible isn't it?	>	*It's incredible, isn't it?*

1.4 **Yn dilyn ebychiad**

Oh look what you've just done!	>	*Oh, look what you've just done!*
Well I was being creative.	>	*Well, I was being creative.*

1.5 **I ddynodi'r uned mil o fewn rhif**

It was sold for £2000.	>	*It was sold for £2,000.*

1.6 **Mewn brawddeg sy'n rhestru pethau – ond ddim o flaen** *"and"* neu *"or"*

I went to the corner shop *to buy apples, pears, and grapes.*	>	*I went to the corner shop* *to buy apples, pears and grapes.*

Noder, fodd bynnag, yr enghraifft ganlynol sy'n eithriad. Rhoddir coma rhwng *"bread and butter"* a *"jam"* er mwyn cyfleu *"bread and butter"* fel un eitem yn hytrach na dwy eitem wahanol.

Go and fetch the teapot, *bread and butter and jam*	>	*Go and fetch the teapot,* *bread and butter, and jam.*

1.7 **I wahanu prif gymal ac is-gymal o fewn brawddeg gyfansawdd pan mae goddrych yr ail gymal neu'r ail ran yn wahanol i oddrych y cyntaf**

I've an essay to write *and the trains are on strike.*	>	*I've an essay to write,* *and the trains are on strike.*
Invoices were sent to the clients *but we're still awaiting payment.*	>	*Invoices were sent to the clients,* *but we're still awaiting payment.*
I'd better drive you to the airport *or you'll miss your plane.*	>	*I'd better drive you to the airport,* *or you'll miss your plane.*
If the weather is good *we'll climb Snowdon.*	>	*If the weather is good,* *we'll climb Snowdon.*
After queuing for hours *he got a ticket for the concert.*	>	*After queuing for hours,* *he got a ticket for the concert.*

1.8 **Gosodir pâr o gomas o gwmpas sangiad o ymadrodd arddodiadol sy'n gwahanu'r goddrych oddi wrth y ferf sy'n perthyn iddo.**

Wales like Scotland and England, *receives Lottery grants.*	>	*Wales, like Scotland and England,* *receives Lottery grants.*

And, as far as I knew *she only had one sister.*	>	*And, as far as I knew,* *she only had one sister.*

Dim coma

2. Tra mae defnydd gramadegol cywir o'r coma yn hollbwysig, fel y gwelir yn yr enghreifftiau uchod, mae dewis peidio cynnwys coma pan nad oes mo'i angen yr un mor bwysig. Dyma rai enghreifftiau o isdeitlau lle nad oes angen coma.

2.1 **Dim coma ar ôl *"and"* a *"but"* ar ddechrau brawddeg**

Ni cheir coma ar ôl termau megis *"and"* a *"but"* ar ddechrau brawddeg.

And, I was expecting her to call.	>	*And I was expecting her to call.*

But, the weather forecast *predicted snow on Friday.*	>	*But the weather forecast* *predicted snow on Friday.*

Ni cheir coma ar ôl termau megis *"and"* a *"but"* ar ddechrau brawddeg oni bai bod y termau *"and"* neu *"but"* yn cael ei ddilyn gan sangiad o ymadrodd arddodiadol sy'n gwahanu'r goddrych oddi wrth y ferf ac yn cael ei amgylchynu gan bâr o gomas.

And as I was saying, *he's moving to Malibu.*	>	*And, as I was saying,* *he's moving to Malibu.*

But since she became famous, *she's only been back here once.*	>	*But, since she became famous,* *she's only been back here once.*

Pan mae prif gymal ac is-gymal o frawddeg gyfansawdd yn rhannu'r un goddrych, nid oes angen coma i'w gwahanu hyd yn oed os yw'r is-gymal yn dechrau gydag *"and", "but"* neu *"or"*.

She wore a plain, black dress, *and looked stunning.*	>	*She wore a plain, black dress* *and looked stunning.*

They bought two pizzas, *but ate only one.*	>	*They bought two pizzas* *but ate only one.*

Shall we take the bus, *or get a taxi?*	>	*Shall we take the bus or get a taxi?*

2.2 **Dim coma o flaen cysylltair**

I saw a poster the other day, *which made me stop and think.*	>	*I saw a poster the other day* *which made me stop and think.*

I didn't really care, because *I knew we would be together.*	>	*I didn't really care because* *I knew we would be together.*

Fodd bynnag, rhoddir coma o flaen cysylltair ar ddechrau sangiad o ymadrodd arddodiadol sy'n gwahanu'r goddrych oddi wrth y ferf ac yn cael ei amgylchynu gan bâr o gomas.

Maria who used to teach me, *has now opened her own school.*	>	*Maria, who used to teach me,* *has now opened her own school.*

2.3 Dim coma o flaen adferf neu ymadrodd adferfol

Ni osodir coma o flaen adferfau megis *"really", "then", "too", "now", "though", "anyway", "yet", "otherwise", "maybe", "nevertheless", "either", "hopefully", "today" a.y.y.b.*

Clywir termau megis y rhain ar ddiwedd brawddegau yn aml yn y Gymraeg lafar `("wir", "felly", "hefyd", "rwan/nawr", "er", "p'run bynnag", "eto", "fel arall", "efallai", "ta beth", "ychwaith", "gobeithio", "heddiw")`, ond ni olyga hyn o reidrwydd y dylid gosod y term cyfatebol Saesneg yn yr un man ar ddiwedd y frawddeg yn yr isdeitl. Yr hyn sy'n bwysig yw bod ystyr yr isdeitl yn glir. Dyletswydd yr isdeitlydd yw gofalu bod yr isdeitlau'n darllen yn rhwydd. Nid lleoliad y term cyfatebol na'r coma yn y frawddeg Saesneg sy'n bwysig.

2.3.1 Dylid ystyried a oes modd hepgor term adferfol cyfarwydd megis `"felly"` wrth drosi o'r Gymraeg lafar. Os yw ystyr yr isdeitl yn eglur hebddo, gellir ei hepgor.

```
"Doeddwn i ddim yn hoffi'r lliw, wir."
```

I didn't like the colour, really.	>	*I didn't like the colour.*

2.3.2 Weithiau mae'n fwy addas defnyddio term gwahanol yn ei safle priodol yn y Saesneg.

```
"Wyt ti'n dod, felly?"
```

Are you coming, then?	>	*So, are you coming?*

2.3.3 Gall term megis `"hefyd" yn y Gymraeg lafar` beri trafferth oni bai bod yr isdeitlydd yn ystyried ystyr y term *"too"* yn Saesneg.

```
"Mae Glyn eisiau prynu crys yn Debenhams hefyd."
```

Mae sawl ystyr posibl i'r frawddeg hon. Trwy roi brawddeg arall o flaen yr isdeitl uchod, gellir gweld rhai o'r posibiliadau.

a) *Huw wants to buy a shirt in Debenhams.*
Glyn wants to buy a shirt in Debenhams too.

b) *Glyn wants to buy a shirt in Marks & Spencer.*
Glyn wants to buy a shirt in Debenhams too.

c) *Glyn wants to stop for lunch at Debenhams.*
Glyn wants to buy a shirt in Debenhams too.

Yn yr enghraifft gyntaf, Glyn yw'r ail berson i fynd ar neges. Yn yr ail, mae Glyn am fynd i ddau le ac yn yr olaf mae Glyn am wneud mwy nag un peth yn yr un man.

Er mwyn eglurdeb, byddai'n well newid y brawddegau fel a ganlyn (neu eu crynhoi ymhellach).

a) *Huw wants to buy a shirt in Debenhams.*
Glyn ***also*** *wants to buy a shirt in Debenhams.*

b) *Glyn wants to buy a shirt in Marks & Spencer* ***as well as*** *in Debenhams.*

c) *Glyn wants to stop for lunch at Debenhams.*
Glyn wants to buy a shirt at Debenhams whilst he's there.

Mae'n sicr felly yn werth ystyried ystyr term megis `"hefyd"` yn Saesneg cyn gosod y gair *"too"* ar y sgrîn heb feddwl mwy amdano.

2.3.4 Os digwydd mai Saesneg yw iaith y llefaru gwreiddiol a bod y term *"too"* yn rhan o frawddeg i'w hisdeitlo, gellir cynnwys y gair *"too*" yn yr isdeitl – ar ddiwedd y frawddeg os mai dyna lle clywir y gair yn y frawddeg Saesneg – ond ni roddir coma o'i flaen. Mewn isdeitl o'r fath, mae'r ystyr *"too"* yn amwys, ond byddai'r isdeitlau blaenorol yn gwneud yr ystyr yn glir.

"He learnt to speak Mandarin too."

He learnt to speak Mandarin, too.	>	*He learnt to speak Mandarin too.*

2.4 **Dim coma o flaen ymadroddion adferfol**

Ni osodir coma o flaen ymadroddion adferfol megis *"after all", "these days"*, *"in any case", "at times", "long ago", "last week", "in Budapest", "to be honest"* a.y.y.b.

They went climbing, after all.	>	*They went climbing after all.*

Weithiau, mae'n fwy addas gosod yr ymadrodd adferfol ar ddechrau'r frawddeg yn Saesneg gyda choma yn hytrach na'i adael ar ddiwedd y frawddeg fel yn y Gymraeg lafar.

I cried my eyes out, to be honest.	>	*To be honest, I cried my eyes out.*

Coma, gwahannod neu atalnod llawn?

3. Nid yw saib yn y llefaru yn golygu mai coma sydd ei angen i ddynodi'r saib honno bob tro. Weithiau, mae'r saib yn hwy na saib coma ac mae angen defnyddio'r ffurfiau atalnodi mwyaf addas i adlewyrchu'r berthynas rhwng y gwahanol unedau synnwyr. Mewn rhai achosion, i ddynodi saib hwy na'r coma, mae angen defnyddio gwahannod. Mewn achosion eraill, mae angen defnyddio atalnod llawn.

3.1 **Gwahannod, nid coma**

Defnyddir gwahannod, nid coma, i gyflwyno gwybodaeth neu esboniad pellach ar yr hyn a ddywedwyd eisoes yn y frawddeg.

That's what it was all about, *sex, drugs and rock 'n' roll.*	>	*That's what it was all about -* *sex, drugs and rock 'n' roll.*

Defnyddir gwahannod, nid coma, i gyflwyno ail ran brawddeg gyfansawdd sydd heb ei huno â chysylltair cyfartal.

I want to go to that beach again, *the one where we got those shells.*	>	*I want to go to that beach again -* *the one where we got those shells.*

Pan ddefnyddir gwahannod ar ganol isdeitl, dylid osgoi ei osod ar ddechrau llinell.

3.2. **Atalnod llawn, nid coma**

Defnyddir atalnod llawn, nid coma, i wahanu dwy uned synnwyr annibynnol.

You have so much work to do, *what can I do to help?*	>	*You have so much work to do.* *What can I do to help?*

I'll see you on Friday, *please say you'll be there.*	>	*I'll see you on Friday.* *Please say you'll be there.*

You can count on me, *you know that.*	>	*You can count on me.* *You know that.*

Mae'n bosibl y gellid dadlau y byddai modd defnyddio gwahannod yn lle atalnod llawn yn y ddwy enghraifft olaf uchod – a byddai hyn yn dderbyniol os mai dyma fyddai'n adlewyrchu orau dôn a rhythm y llais yn y llefaru gwreiddiol. Mae'r defnydd o atalnod llawn yn creu toriad mwy amlwg rhwng y ddwy uned synnwyr ac o ganlyniad yn gwneud yr ail uned synnwyr yn fwy grymus. Byddai defnyddio'r gwahannod yn ei le yn tynnu oddi ar rym yr ail uned synnwyr.

Coma neu ddotiau parhad?

4. **Dotiau parhad, nid coma**

Gellir defnyddio dotiau parhad yn lle coma mewn achos penodol o saib i ddynodi siaradwr sy'n petruso neu'n siarad yn fwriadol araf.

Well, I'm not sure about this.	>	*Well... I'm not sure about this.*

Yes, but it's really late.	>	*Yes... but it's really late.*

Defnydd annerbyniol o'r coma ar ddiwedd isdeitl

5. Ni osodir coma, ar unrhyw gyfrif, i ddiweddu isdeitl nac o flaen dotiau parhad ar ddiwedd isdeitl.

When we went sailing last year,	>	*When we went sailing last year...*

If you want to be healthy,...	>	*If you want to be healthy...*

Cymysgiaith

Canllaw cyffredinol

Mae cymysgiaith, sef cymysgedd o'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg, ar gynnydd yng Nghymru ac mae rhai rhaglenni ar S4C yn adlewyrchu'r duedd. Fel canllaw cyffredinol, wrth isdeitlo cymysgiaith, ailadroddir o fewn yr isdeitl y geiriau Saesneg hynny a glywir yn y llefaru gwreiddiol, boed hynny'n rhan o air, yn air unigol, yn rhan o frawddeg neu'n frawddeg gyfan, cyn belled ag y mae cyfyngiadau amser yn caniatáu. Gwneir hyn, nid yn unig er mwyn creu portread effeithiol o'r sawl sy'n siarad, ond oherwydd bod gwylwyr di-Gymraeg a dysgwyr yn sylwi'n arbennig ar eiriau Saesneg mewn ffrwd o lefaru Cymraeg. Pe na bai'r isdeitlau'n cynnwys y geiriau Saesneg a glywir, byddai tuedd i'r gwyliwr isdeitlau feddwl nad yw'r isdeitlau'n driw i'r llefaru gwreiddiol.

Trosi cymysgiaith

Amser digonol

1. Mae ieithwedd debyg i'r canlynol yn eithaf cyffredin ar S4C, boed yr olyniad wedi'i sgriptio o fewn drama neu'n olyniad heb ei sgriptio.

   "Ma' *load o record companies* 'di bod yn *sniff*io o gwmpas yn barod – *Creation, V2...* 'Does dim *rush.* Aros am y *deal* gorau 'dyn ni'n gallu cael."

   Os yw amser yn caniatáu, dylid ceisio ailadrodd y geiriau Saesneg gwreiddiol o fewn yr isdeitl yn hytrach nag aralleirio.

We've a load of record companies sniffing around - Creation, V2...
There's no rush. We're waiting for the best deal.

Amser annigonol

2. Os nad yw amser yn caniatáu ailadrodd y geiriau Saesneg fel y'u clywir, dylid ceisio cywasgu'r frawddeg gan gyfleu'r ystyr a fwriedir yn union fel petai'r frawddeg yn frawddeg Gymraeg.

   "Of course I'll be coming back
   to dathlu Dydd Gwyl Dewi with my teulu."

Of course I'll be coming back to celebrate St David's Day with my family.	>	*Of course I'll come back to spend St David's Day with my family.*

Cysylltnod

Canllaw cyffredinol

Dylid ymdrechu i wneud defnydd cywir o'r cysylltnod o fewn geiriau cyfansawdd. Er bod hyn yn ymddangos yn ddibwys, mae'r defnydd cywir o'r cysylltnod yn hwyluso darllen isdeitlau ac yn osgoi unrhyw berygl o amwysedd ystyr. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o anghysonderau sy'n bodoli rhwng gwahanol eiriaduron. O'r herwydd, gofynnir i isdeitlwyr ddefnyddio *"The New Oxford Dictionary of English"*. Yn ogystal, gofynnir, yn benodol, i isdeitlwyr ddefnyddio'r argraffiad ddiweddaraf, sef argraffiad 2005, gan mai dyma'r geiriadur a ddefnyddir gan yr adran isdeitlo yn S4C. Gofynnir hyn, nid yn unig er mwyn sicrhau cysondeb yn y defnydd o'r cysylltnod, ond hefyd oherwydd bod termau newydd yn cael eu bathu drwy'r amser ac ei bod yn bwysig bod yn gyfarwydd â'r defnydd diweddaraf o'r cysylltnod. Er enghraifft, esblygodd y sillafiad *"e-mail"* i *"email"* rhwng y ddau argraffiad olaf. Yn ogystal â sicrhau cysondeb yn y defnydd (neu ddim) o'r cysylltnod, mae'r argraffiad ddiweddaraf yn cynnwys y termau mwyaf newydd sy'n cael eu sillafu gyda chysylltnod e.e. *"made-for-mobile", "carbon-neutral"*.

Cywirdeb

1. Dyma enghreifftiau o enwau cyfansawdd gyda chysylltnod allan o *"The New Oxford Dictionary of English",* argraffiad 2005.

"mix-up"
"by-election"
"power-walking"
"self-control"
"X-Box"
"house-warming"
"lift-off"
"empire-building"
"fire-eater"
"summing-up"

2. Digwydd camgymeriadau cyffredin wrth ddefnyddio'r cysylltnod. Mae angen cysylltnod pan mae termau megis *"well known", "long term", "ice cream"* yn cael eu defnyddio gydag enw, e.e.

"He is well known."
ond
"She owns a well-known bookshop."

"Diets are not a good way to lose weight in the long term."
ond
"We haven't any long-term plans."

"I love ice cream."
ond
"Where's the ice-cream seller?"

Dyma fwy o enghreifftiau o dermau sy'n cynnwys cysylltnod pan yn cael eu defnyddio fel ansoddeiriau pan yn cael eu rhoi gydag enw.

"low-budget airline"
"tax-free account"
"part-time waiter"
"world-class singer"
"ultra-wide screen"
"Oscar-nominated film"
"sun-kissed oranges"
"22-carat gold"
"teflon-coated saucepan"

3. Dylid anelu at ddefnydd cywir o'r cysylltnod mewn enwau priod e.e. enwau pobl ac enwau lleoedd yn ogystal ag mewn enwau cyffredin.

"Lord Elis-Thomas"
"Jean-Paul Sartre"
"Llanfihangel-y-Creuddyn"
"Inverness-shire"
"Aix-en-Provence"
"Comet Hale-Bopp"

4. Sylwer hefyd ar enghreifftiau o enwau cyfansawdd heb / gyda chysylltnod.

"knockout" ond *"knock-on"*
"online" ond *"on-screen"*
"filmgoer" ond *"film-maker"*
"mindset" ond *"mind-reader"*
"biochemistry" ond *"bio-diesel"*

Osgoi amwysedd

5. Os ceir amheuaeth ynglŷn ag union ystyr isdeitl, mae perygl i'r gwyliwr ddechrau pendroni yn ei gylch yn hytrach na chanolbwyntio ar y rhaglen. Dengys yr enghraifft ganlynol sut mae amwysedd o ran ystyr yn gallu arafu'r darllen ac amharu ar rediad y darllen oni bai bod cysylltnod yn y man priodol. Yn yr enghraifft hon, y defnydd o'r cysylltnod sy'n hwyluso'r darllen ac yn osgoi amheuaeth ystyr.

They had a cannon boring machine.	>	*They had a cannon-boring machine.*

6. Yn yr un modd, dengys yr enghraifft ganlynol sut y defnyddir cysylltnod i hwyluso darllen yr isdeitl ac i osgoi amwysedd.

No one has taken her place.	>	*No-one has taken her place*

Mae'r amwysedd ystyr yn digwydd am nad oes cysylltnod yn *"No one"* oherwydd disgwylir coma ar ôl ateb negyddol fel *"No" – "No, one has taken her place"* – tra mai nid dyma'r ystyr a fwriedir. Y canlyniad yw bod perygl i'r gwyliwr bendroni dros ddau ystyr posibl a cholli ffydd yn yr isdeitlo. Mae'n bwysig, felly, osgoi'r amwysedd yn hytrach na chymhlethu'r darllen. Dyna'r rheswm pam mae Canllawiau S4C ar

gyfer Isdeitlwyr yn ffafrio sillafu *"no-one"* gyda chysylltnod. Pan gychwynnodd gwasanaeth isdeitlo S4C, Geiriadur Collins oedd y geiriadur a ddefnyddiwyd. Ar y pryd, roedd Geiriadur Collins yn cynnwys cysylltnod yn y term *"no-one"*. Mae'r gwasanaeth isdeitlo wedi parhau i ddefnyddio'r cysylltnod er bod *"The New Oxford Dictionary of English",* (argraffiad 2005), a ddefnyddir bellach, yn argymell sillafu *"no one"* heb gysylltnod. Mae Canllawiau S4C ar gyfer Isdeitlwyr felly yn argymell y defnydd o'r cysylltnod yn y term *"no-one"* fel rhan o arddull isdeitlau a ddarlledir ar S4C ac yn awyddus bod isdeitlwyr yn dilyn yr argymhelliad er mwyn ei gwneud yn haws i ddarllen yr isdeitlau ac i osgoi amwysedd.

Cywair ieithyddol

Canllaw cyffredinol

Disgwylir i isdeitlau adlewyrchu cywair ieithyddol y rhaglen dan sylw, boed honno'n rhaglen sy'n difyrru neu'n rhaglen ffeithiol. Ar y naill law, dylai isdeitlau a grëir ar gyfer rhaglenni megis dramâu, operâu sebon a ffilmiau, sy'n dibynnu ar bortreadu cymeriadau, ddewis amryw gyweiriau ieithyddol er mwyn cyfleu argraff gredadwy o'r gwahanol gymeriadau. Ar y llaw arall, dylai isdeitlau a grëir ar gyfer rhaglenni ffeithiol ddewis cywair safonol er mwyn cyflwyno ffeithiau mewn modd uniongyrchol a di-duedd. Mewn rhai mathau o raglenni, megis rhaglenni dogfen, cylchgrawn, cwis, mae angen dewis amryw gyweiriau - cywair safonol i gyflwyno gwybodaeth ac i ofyn cwestiynau ac yna cywair llai ffurfiol o fewn cyfweliadau ag unigolion a sgwrsio ysgafn.

Gan fod dewis eang iawn o eirfa yn bosibl yn yr iaith darged, mae'n bwysig dethol y geiriau mwyaf addas ar gyfer y cymeriad, yr amgylchiadau a'r math o raglen.

Ffactorau dylanwadol

1. Dyma rai o'r ffactorau dylanwadol mwyaf cyffredin.

1.1 **Oedran**

Mae'r sawl sy'n dweud *"Get a life!"* yn fwy tebygol o fod yn berson ifanc tra byddai person hŷn yn fwy tebygol o ddweud *"You must get out and about!"*

1.2 **Rhyw**

Mae dyn yn fwy tebygol o ddweud *"Cheers, mate*!" ond menyw yn fwy tebygol o ddweud *"Thanks, love."*

1.3 **Cyfnod**

Gan fod iaith yn gyfrwng sy'n newid yn barhaus, rhaid gofalu bod iaith yr isdeitl yn adlewyrchu'r cyfnod dan sylw. Mae *"nowadays*", er enghraifft, yn fwy addas ar gyfer isdeitl a grëir ar gyfer drama gyfnod tra mae *"these days*" yn fwy addas ar gyfer isdeitl a grëir ar gyfer gwaith cyfoes.

1.4 **Cefndir addysgol**

Yn y byd Saesneg, mae cefndir addysgol, neu ddiffyg cefndir addysgol, yn gallu datgelu llawer am gefndir ieithyddol cymeriad. Byddai disgwyl i gymeriad dysgedig ddweud, *"I haven't any money.",* tra byddai un llai dysgedig yn dweud, *"I've got no money*." neu *"I ain't got no money."* ac un arall eto yn dweud, *"I'm skint."*

1.5 **Safle cymdeithasol**

Byddai disgwyl i ddau weinidog gyfarch ei gilydd am y tro cyntaf gyda `"Sut ydych chi?"` tra byddai dau blastrwr yn dweud `"Olreit?"` wrth ei gilydd.

Addasu'r cywair ar gyfer yr amgylchiadau cymdeithasol

2. Addasir y cywair ieithyddol i weddu i'r ddelwedd a adlewyrchir gan gymeriadau gwahanol, er mwyn sicrhau bod yr isdeitlau'n argyhoeddi.

2.1 **Cymeriadau stereoteip**

Os yw cymeriadau o fewn drama yn cynrychioli stereoteipiau, e.e. gwraig tŷ ifanc ddiffwdan (A) a'r wraig ganol oed ddosbarth canol (B), adlewyrchir y gwahaniaethau hyn o fewn yr isdeitlau fel yn yr enghraifft hon.

```
(A) "Dylech chi fwyta rhywbeth. Ma' digon 'ma."
       (B) "Ac mae chwant bwyd arnaf i!"
```

(A)	*Please come and eat.*	>	*Come and eat some of this food.*
(B)	*I could do with something!*	>	*Actually, I feel quite peckish!*

2.2 **Pellhau o'r stereoteip**

Mae'r enghreifftiau uchod yn tynnu sylw at y stereoteipiau. Ond i fod yn realistig, 'does dim dal ac ni ellir cymryd dim yn ganiataol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y cywair ieithyddol yn gweddu i gymeriad arbennig y sawl sy'n siarad yn ogystal ag amgylchiadau'r llefaru – beth bynnag fo'r rhaglen. Wedi'r cwbl, gall George W. Bush ddweud *“Yo, Blair!”* yn hytrach na “*I'm pleased to see you.”,* a gall plastrwr ddweud *"Could I borrow your stepladder, please?"* yn hytrach na *"Pass the stepladder over, mate!".*

Cywasgu

Canllaw cyffredinol

Oherwydd y cyfyngiadau a bennir gan egwyddorion amseru, mae angen cywasgu'r llefaru gwreiddiol. Mae cywasgu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr isdeitlau yn cydredeg â'r llefaru gwreiddiol ac, ar yr un pryd, yn ddarllenadwy. Cywesgir drwy aralleirio, symleiddio, hepgor geiriau diangen neu osgoi ailadrodd. Ar gyfartaledd, wrth gywasgu ar gyfer isdeitlau teletestun, collir rhyw draean o'r llefaru gwreiddiol. Cywesgir ymhellach eto wrth greu isdeitlau agored.

Aralleirio

1. Mae cywasgu drwy aralleirio yn rhan annatod o isdeitlo.

They were all discussing it. *Things got quite heated.*	>	*There was a heated discussion.*

Symleiddio

2. Mae angen symleiddio rhagor ar lefaru sydd heb ei sgriptio oherwydd natur yr iaith lafar.

And what, according to Gruffydd, *do you do?*	>	*What does Gruffydd say you do?*

Hepgor geiriau

3. Yn gyffredinol, dylid hepgor geiriau diangen.

Well, I know, although *he did say he would call tonight.*	>	*He said he would call tonight.*

Pan fo amser yn brin a'r amgylchiadau'n ei gwneud hi'n angenrheidiol hepgor rhagor o eiriau, yr hyn sy'n bwysig yw bod geiriau'n cael eu hepgor mewn modd cyson a chyfartal yn hytrach na bod uned synnwyr gyfan yn cael ei hepgor. Fodd bynnag, weithiau, oherwydd prinder gofod, mae'n anorfod hepgor brawddeg gyfan fel yn yr enghraifft hon. Os oes rhaid gwneud hyn, y frawddeg sy'n cyfrannu leiaf i ddatblygiad y stori yw'r un y dylid ei hepgor.

It's made me quite emotional. *I want to see him.*	>	*I want to see him.*

4. Yn aml, mae'n bosibl hepgor brawddegau un elfen o'r isdeitlau, e.e. *"OK.", "Bye.",* a *"Yes.",* os yw'r ystyr yn ddigon amlwg.

Osgoi ailadrodd

5. Pan fo cymeriad yn ei ailadrodd ei hun, gan amlaf nid oes angen ailadrodd yn yr isdeitl oni bai bod yr emosiwn yn gryf.

Great, isn't it? Just great!	>	*Great, isn't it?*

Dilyn rhythm y rhaglen

6. Cywesgir cynnwys isdeitl i gyd-fynd â chyflymdra'r llefaru gwreiddiol. Pan fo'r llefaru'n arbennig o gyflym, mae angen cywasgu ychydig rhagor. Pan fo'r llefaru gwreiddiol yn arbennig o araf, nid oes angen cywasgu cymaint ac, ar adegau, mae angen cynyddu nifer y geiriau'n fwriadol er mwyn llenwi'r gofod a pharhau i gydredeg â'r siaradwr.

Perygl cywasgu gormod

7. Gall cywasgu gormod beri amwysedd o ran ystyr. Gall hyd yn oed arwain at newid yr ystyr gwreiddiol fel yn yr enghreifftiau canlynol.

7.1 Yn yr enghraifft hon, mae'n bosibl camddeall yr isdeitl cyntaf, *"You'll have to watch it"* oherwydd ystyr deublyg *"Watch it",* sef `"paid â meiddio"` yn ogystal â `"chadw golwg ar rywbeth"`. Gan fod y cymeriad yn yr iaith wreiddiol yn dweud, `"Fe fydd yn rhaid i ti gadw golwg arno fo"`, yr isdeitl sy'n cyfleu hynny'n fanwl gywir yw'r ail*, "You'll have to keep an eye on it."* Yn y cyswllt hwn, mae gorgynildeb yn arwain at gamddehongli.

You'll have to watch it.	>	*You'll have to keep an eye on it.*

7.2 Mae hepgor *"Hey"* yn yr enghraifft ganlynol yn gallu newid ystyr yr hyn a ddywedir yn yr iaith wreiddiol. Gan mai cyfarch Pete a wna'r sawl sy'n siarad yn y Gymraeg, ac nid siarad amdano, mae'r gair *"Hey"* yn bwysig yn y cyswllt hwn er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau ystyr posibl.

Pete, this bloke I saw yesterday...	>	*Hey, Pete,* *this bloke I saw yesterday...*

Er mwyn sicrhau eglurdeb rhaid derbyn yn yr enghraifft hon fod yr isdeitl yn estyn dros ddwy linell.

Dechrau isdeitl

Canllaw cyffredinol

Dylai pob isdeitl sy'n dechrau â brawddeg newydd ddechrau â phriflythyren oni bai bod yr isdeitl yn barhad o frawddeg mewn isdeitl blaenorol ac felly yn cael ei chyflwyno â dotiau parhad. Dyma'r canllaw yn ogystal pan fo'r isdeitl yn dechrau â dyfynodau ar gyfer dyfyniad neu farddoniaeth neu'r arwydd # ar gyfer cân.

Dotiau parhad

1. Os yw'n angenrheidiol estyn un frawddeg neu uned synnwyr dros ddau (neu dri) isdeitl dylid cyflwyno'r ail (a'r trydydd) isdeitl â dau ddot parhad. Nid yw'n dderbyniol dechrau isdeitl heb ddau ddot parhad pan fo'r frawddeg yn barhad o'r isdeitl blaenorol. Nid oes gofod rhwng y dotiau parhad a'r gair nesaf.

There's fresh tea in the pot...	>	*There's fresh tea in the pot...*
but if you prefer coffee, *I can make some.*	>	*..but if you prefer coffee,* *I can make some.*

Osgoi dechrau isdeitl â ffigur rhif

2. Ceisir osgoi dechrau isdeitl â ffigur rhif gan fod ffigur rhif yn y lleoliad hwn yn arafu'r darllen. Os oes rhaid dechrau'r isdeitl â rhif, gwell ei roi mewn geiriau.

30 years ago, *Tom Jones sang in this club.*	>	*Thirty years ago,* *Tom Jones sang in this club.*

Dechrau annerbyniol

3. Ni chymeradwyir dechrau isdeitl â llythyren fach. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol, nid yn unig i isdeitl sy'n cyfateb i lefaru, ond hefyd i isdeitl sy'n cyfateb i gyfieithiad cydnabyddedig o ddarn o farddoniaeth neu o gân lle ceir llinellau yn y fersiwn wreiddiol yn dechrau gyda llythren fach.

Dehongliad

Canllaw cyffredinol

Disgwylir i ddehongliad y llefaru gwreiddiol fod yn gywir, nid yn unig o ran ystyr, ond hefyd o ran bwriad y rhaglen. Mae dehongli yn golygu llawer mwy na llawn ddealltwriaeth o'r geiriau a glywir, crynhoad a throsiad o'r naill iaith i'r llall. Mae hefyd yn golygu dadansoddi ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar ystyr geiriau, megis cynnwys y llun, y mynegiant a gyfleir gan yr wyneb, goslef y llais, pwyslais ar air, iaith y corff, symudiadau ar y sgrîn, cyflymdra'r llefaru, sŵn neu gerddoriaeth gefndirol, ac yn y blaen. Hollbwysig felly yw ystyried cynnwys isdeitlau fel dehongliad o'r hyn a welir ac a deimlir yn ogystal â'r hyn a glywir. Ar ben hyn i gyd mae anawsterau sy'n gallu codi wrth isdeitlo heb sgript, fel sy'n arferol ym maes isdeitlo teletestun yng Nghymru.

Cywirdeb o ran ystyr

1. Tra'n isdeitlo heb sgript, mae'n anochel, o bryd i'w gilydd, bod dryswch yn codi ynglŷn â iawn ddehongli'r llefaru gwreiddiol. Mae rhai geiriau a rhai cyfuniadau arbennig o eiriau yn swnio'n debyg ar lafar. Gan amlaf, sut bynnag, mae'r ystyr cywir yn eglur wedi gosod y frawddeg yng nghyswllt yr olygfa neu'r rhaglen gyfan. Fodd bynnag, ar adegau, gellir cyfiawnhau dau bosibilrwydd gwahanol, yn enwedig wrth ymdrin ag enwau priod. Dyma enghreifftiau nodweddiadol.

"Byddai Dai, Tai'r Gwaith, yn dod i weld fy nhad bob wythnos."

Dai Tair Gwaith *would visit my father every week.*	>	*Dai Tai'r Gwaith* *would visit my father every week.*

"Enw'r band yw Damascus."

The band is called 'Dim Esgus'.	>	*The band is called 'Damascus'.*

"Mae ganddi hi BSc."

She has BSE.	>	*She has a BSc.*

Eglurdeb o ran ystyr

2. Wrth drosi brawddeg, megis, "Mi eith hi'n bell.", mae'r trosiad cyntaf yn gwneud synnwyr, o safbwynt y cynnwys, ond, yn y cyd-destun arbennig sydd dan sylw, mae'n golygu rhywbeth gwahanol i'r hyn a fwriedir yn y cyswllt gwreiddiol. Mae'r amwysedd o ran ystyr yn golygu un ai bod amheuaeth ynglŷn â'i photensial i fynd yn bell neu'n mynegi hyder yn ei photensial i fynd yn bell. Nid yw'r isdeitl diwygiedig yn amwys ac mae ei ystyr yn eglur.

She's got a long way to go.	>	*She'll go far.*

```
"Mae'r gân olaf ar y gryno ddisg hon yn berl."
```

The last song on this CD is a pearl.	>	*The last song on this CD is a gem.*

Nid *"pearl"* yw `"perl"` yn Saesneg yn y cyswllt hwn.

Perygl o ran cyfieithu llythrennol

3. Tra'n creu isdeitlau, rhaid bod yn ymwybodol o wir ystyr y geiriau yn yr iaith wreiddiol oherwydd hawdd yw llithro i gyfieithu llythrennol diofal fel y dengys yr enghraifft. Mae'r trosiad cyntaf yn gywir o ran ystyr ac yn cyfateb i'r frawddeg Gymraeg wreiddiol, `"Fi 'di'r capten. Fi sy'n deud!"`, ond nid o ran yr ystyr a fynegir yn y Gymraeg gwreiddiol.

I'm the captain. I say!	>	*I'm the captain. I decide!*

Arwyddocâd goslef

4. Tra'n isdeitlo heb sgript, goslef gwestiynol llais yn unig sy'n cyfleu'r dehongliad cywir o'r geiriau, `"Pa bryd? Heddiw?".`

When today?	>	*When? Today?*

Pan geir brawddeg fel `"Na, diolch i` **`chi`**`!"` gyda'r pwyslais ar **`"chi`**", mae'n ofynnol aralleirio'r frawddeg er mwyn cyfleu naws cywir yr ymateb, sef `"Fi ddylai fod yn diolch i chi!"` Fel arfer, ni argymhellir llunio isdeitlau sy'n cynnwys nifer llawer uwch o eiriau na'r nifer fyddai'n cyfateb i drosiad syml o'r hyn a ddywedir. Ond mae achos fel hwn yn eithriad oherwydd y gwahaniaeth ystyr sy'n amlygu ei hun yng ngoslef y llais – gwahaniaeth sydd ddim i'w weld yn y geiriau ysgrifenedig.

```
- "Diolch."
- "Na, diolch i chi!"
```

No, thank you!	>	*It's me who should be thanking you!*
	>	*No, I should thank you!*

Sylwer, yn ogystal, y byddai cyfieithiad llythrennol o'r frawddeg `"Na, diolch i` **`chi`**`!"`, sef *"No, thank you!"* yn achosi camargraff llwyr o'r gwir ystyr a fwriedir. Felly, dylid osgoi cyfieithiad llythrennol ar bob cyfrif.

Ni argymhellir newid lliw gair er mwyn rhoi pwyslais arno gan fod cymaint o raglenni S4C yn cael eu darlledu ar ffurf isdeitlau agored bellach ac nid yw'r arfer o newid lliw gair yn cael ei dderbyn mewn darllediad isdeitlau agored.

5. Mae'r iaith lafar yn frith o ymholiadau cudd sydd rhaid eu mynegi ar ffurf cwestiwn o fewn isdeitl, yn enwedig os yw'r isdeitl nesaf yn dechrau ag ymateb cadarnhaol neu negyddol sef *"Yes..."* neu *"No..."*. Er bod y sgwrs rhwng y siaradwyr yn gwneud synnwyr heb y marc cwestiwn, mae'r gofynnod yn gwarantu eglurdeb o ran darllen, yn syth. Y dewis arall fyddai gosod y datganiad ar ffurf cwestiwn - *"Did you have a good harvest this year?"* ond ni fyddai hyn yn llwyddo yn yr enghraifft hon oherwydd prinder gofod.

You had a good harvest this year.	>	*You had a good harvest this year?*
Yes, a very good one.	>	*Yes, a very good one.*

6. Mae'r dehongliad cywir o'r frawddeg, "Maent i gyd yn siarad Eidaleg yn naturiol", yn dibynnu'n llwyr ar oslef y llais gan fod dau ddehongliad yn bosibl. Yn y cyswllt hwn, yr isdeitl diwygiedig sy'n adlewyrchu'r ystyr a gyflewyd gan yr oslef.

Of course, they all speak Italian.	>	*They all speak Italian fluently.*

Creu'r argraff gywir

7. Mae dewis sensitif o eiriau'n angenrheidiol er mwyn gallu dehongli'r gwir deimlad y tu ôl i'r geiriau. Weithiau, mae awgrym bychan yn unig yn ddigon i effeithio ar yr argraff y bwriedir ei chyfleu, yn enwedig o fewn rhaglen sy'n ymdrin â phynciau gwleidyddol.

The students were extremely aggressive.	>	*The students acted rather aggressively.*

Dilyniant

Canllaw cyffredinol

Mae'r modd y mae isdeitlau'n dilyn ei gilydd lawn mor bwysig â chynnwys yr isdeitlau eu hunain. Gofaler nad oes bylchau anesboniadwy yn nilyniant yr isdeitlau. Un ffordd o sicrhau bod y dilyniant yn foddhaol yw darllen trwy'r isdeitlau heb y tâp. Os yw'r dilyniant yn foddhaol, fe ddylai'r isdeitlau ddarllen fel sgript sy'n annibynnol ar y tâp.

Osgoi dilyniant amwys

1. Mae dilyniant naturiol yn hanfodol er mwyn sicrhau eglurdeb ystyr. Gall y diffyg dilyniant naturiol yn yr enghraifft hon achosi penbleth i'r gwyliwr.

```
"Mae eich ymateb yn awgrymu nad yw e'n addas."
                "Ie, mae e."
```

Cyfyd y penbleth oherwydd bod yr isdeitl cyntaf yn negyddol, yr ateb yn gadarnhaol ond yn cytuno â'r datganiad negyddol cyntaf. Mwy synhwyrol fyddai'r ateb *"No, he's not suitable."* Ond dyletswydd yr isdeitlydd yw cadw'n agos at y geiriau gwreiddiol cyn belled ag y mae modd. Un ffordd o ddatrys y penbleth yw ailadrodd y gair *"unsuitable*", yn enwedig yn yr enghraifft hon, gan fod y gair yn ymddangos mewn isdeitl ar wahân.

Your reaction suggests he's unsuitable.	>	*Your reaction suggests he's unsuitable.*
Yes, he is.	>	*Yes, he's unsuitable.*

Peryglon hepgor gair allweddol

2. Er yr angen i gywasgu'r llefaru gwreiddiol, gall cywasgu drwy hepgor arwain at gamddehongli'r ystyr a fwriadwyd.

They were conscripts to the Russian army.	>	*They were conscripts to the Russian army...*
Poland, so I'm told, belonged to Russia.	>	*..because Poland belonged to Russia, or so I'm told.*

Dilyniant deallus mewn brawddeg ranedig

3. Weithiau, mewn brawddeg ranedig, mae'n briodol ailadrodd gair yn yr ail isdeitl er mwyn sicrhau dilyniant synhwyrol, yn enwedig yn yr enghraifft hon.

It's a story about a person's quest for direction...	>	*It's a story about a person's quest for direction...*
..but the film lacks it.	>	*..but direction is what the film lacks.*

Petai'r gair *"direction"* heb ei ailadrodd, byddai'r ddwy uned synnwyr yn dechrau ac yn diweddu â'r un gair sef *"it"* a hwnnw'n achosi dryswch oherwydd mae'n cyfeirio at beth gwahanol yn y naill uned synnwyr a'r llall.

Diwedd isdeitl

Canllaw cyffredinol

Diweddir pob isdeitl ag atalnod llawn oni bai bod y frawddeg yn diweddu ag ebychnod, gofynnod neu yn estyn i'r isdeitl dilynol ac yn diweddu â dotiau parhad. Dyma'r canllaw yn ogystal pan fo'r isdeitl yn diweddu â dyfynodau neu arwydd #.

Atalnod llawn

1. Mae llinell lawn capsiwn isdeitl yn cyfateb i dri deg chwech llythyren. Os yw gofod yn rhy brin i allu cynnwys yr atalnod llawn mewn isdeitl o un neu ddwy linell lawn, dylid aralleirio er mwyn ei gynnwys.

I have an official complaint to make	>	*I've an official complaint to make.*

Dotiau parhad

2. Os yw'n angenrheidiol estyn un frawddeg dros ddau (neu dri) isdeitl, dylid diweddu'r isdeitl cyntaf (a'r ail) â thri dot parhad. Nid yw'n dderbyniol diweddu isdeitl â dau ddot parhad yn unig, neu heb ddotiau o gwbl pan fo'r frawddeg yn estyn i'r isdeitl dilynol. Os yw gofod yn rhy brin i osod tri dot parhad, dylid aralleirio'r isdeitl er mwyn cynnwys y tri ohonynt.

The film is a study of an American middle-class community in the '70s..	>	*The film deals with a middle-class American community in the '70s...*

Diweddu isdeitl â dyfynodau

3. Wrth ddiweddu isdeitl â dyfynodau, rhaid gofalu lleoli'r atalnod llawn o fewn y dyfynodau.

He then said, *"I've seen you somewhere before".*	>	*He then said,* *"I've seen you somewhere before."*

Diwedd annerbyniol

4. Nid yw'n dderbyniol diweddu isdeitl â gwahannod, coma, colon na hanner-colon.

Dotiau diwedd rhan gyntaf a rhannau dilynol

Canllaw cyffredinol

Gosodir un dot unigol ar ddiwedd rhan gyntaf ac ar ddiwedd rhannau dilynol pob rhaglen, yn cynnwys y rhan olaf, er mwyn gwahardd capsiwn olaf y rhan, a'r capsiwn cydnabod isdeitlau, rhag sticio ar y sgrîn deledu yn ystod yr egwyl sy'n dilyn.

Fformadu

1. Dylid fformadu'r dot diwedd rhan mewn lliw du ar gefndir gwyn. Dewiswyd y lliw gwyn ar gyfer cefndir y dot er mwyn iddo beidio â sefyll allan ar gefndir gwyn sgrîn graffeg diwedd rhaglen S4C. Er mwyn cysondeb, penderfynwyd defnyddio'r cefndir gwyn ar gyfer y dot ar ddiwedd y rhan gyntaf a rhannau dilynol, yn ogystal, er ei bod yn amlwg y gall sgrîn olaf rhaglen fod yn unrhyw liw ond gwyn. Os bernir bod cefndir gwyn yn rhy amlwg ar ddiwedd rhan gyntaf a rhannau dilynol rhaglen, gellir newid ei liw i ddot gwyn ar gefndir du.

Lleoliad

2. Dylid lleoli'r dot diwedd rhan yng nghornel dde gwaelod y sgrîn.

Amseru

3. Gosodir pob un o'r dotiau ar y sgrîn am 5 ffrâm o hyd.

3.1 **Dot diwedd rhan gyntaf a phob rhan ddilynol heblaw'r rhan olaf**

Gellir amseru'r dot diwedd rhan gyntaf, a phob rhan ddilynol heblaw'r rhan olaf, fel ei fod yn ymddangos ar y sgrîn 5 ffrâm ar ôl i'r capsiwn isdeitl olaf ddiflannu oddi ar y sgrîn.

3.2 **Dot diwedd y rhan olaf**

Dylid amseru dot diwedd rhan olaf y rhaglen 5 ffrâm ar ôl i'r capsiwn cydnabod isdeitlau ddiflannu oddi ar y sgrîn.

Dotiau parhad

Canllaw cyffredinol

Mae dotiau parhad yn angenrheidiol ar ganol neu ar ddiwedd isdeitl i ddynodi bod brawddeg neu uned synnwyr yn anorffenedig - am ba bynnag reswm. Rhaid eu cael hefyd ar ddechrau isdeitl i ddynodi bod brawddeg yn parhau o'r isdeitl blaenorol. Ni adewir gofod rhwng gair olaf isdeitl a'r dotiau parhad na rhwng y dotiau parhad ar ddechrau isdeitl a'r gair nesaf sy'n dilyn.

Brawddeg anorffenedig

1. Pan fo siaradwr yn torri ar draws siaradwr arall wrth iddo ef (neu hi) lefaru neu os yw siaradwr heb orffen ei frawddeg am reswm arall, defnyddir dotiau parhad i ddynodi'r frawddeg anorffenedig e.e. *"I'm no artist but..."*.

Atgyfnerthu'r elfen o ddychymyg

2. Gall y defnydd o ddotiau parhad fod yn ddefnyddiol i atgyfnerthu'r elfen o ddychymyg - syndod, anghrediniaeth, ac ati, lle nad oes geiriau i gyfleu'r "hyn na ddywedir," e.e. *"What the...?"*. Nid oes gofod cyn y gofynnod.

Dynodi siaradwr sy'n petruso

3. Gall siaradwr betruso'n fwriadol neu'n anfwriadol.

3.1 **Petruso'n fwriadol**

Gosodir dotiau parhad pan fo angen cyfleu bod y siaradwr yn petruso'n fwriadol, e.e. *"Isn't she... sweet?"*.

3.2 **Petruso'n anfwriadol**

Weithiau, yn arbennig mewn llefaru heb ei sgriptio, gall person betruso wrth siarad, ond yn anfwriadol. Ar achlysur fel hyn, nid oes angen dotiau parhad oni bai bod y petruso'n amlwg iawn neu'n nodweddiadol o'r ffordd y mae'n siarad, e.e. *"I thought you... I mean, I..."*.

Dynodi brawddeg sy'n estyn i'r isdeitl dilynol

4. Gosodir dotiau parhad i ddynodi brawddeg hir sy'n estyn i'r isdeitl dilynol - tri dot ar ddiwedd yr isdeitl cyntaf a dau ddot ar ddechrau'r isdeitl dilynol.

But as ransom negotiations dragged on	>	*But as ransom negotiations dragged on...*
his elderly parents became increasingly anxious.	>	*..his elderly parents became increasingly anxious.*

Arferion annerbyniol

5. Ni chymeradwyir hepgor y trydydd dot parhad er mwyn arbed gofod gan fod anghysondeb o ran arddull yn gallu peri dryswch. Beth fyddai arwyddocâd dau ddot parhad? Dau atalnod llawn yn lle un neu ddau ddot parhad yn lle tri? Pan nad oes modd cael digon o ofod i gynnwys y trydydd dot parhad ar ddiwedd yr isdeitl cyntaf, dylid addasu'r geiriad er mwyn ei gynnwys.

We wouldn't have made the LPs with Ankst without those PR people..	>	*We wouldn't have made the LPs with Ankst without the PR people…*

Neu gellid torri'r frawddeg hir yn ddwy frawddeg lai fel nad yw'r frawddeg yn estyn i'r capsiwn nesaf.

They came to Llyn Padarn, Llanberis, with their father, Daniel Robertson..	>	*They came to Llyn Padarn, Llanberis, with their father, Daniel Robertson.*
..whom I know through the sailing club.	>	*I know him through the sailing club.*

6. Ni chymeradwyir ychwaith dechrau brawddeg newydd o fewn isdeitl pan fo'r isdeitl hwnnw eisoes yn dechrau neu'n diweddu â dotiau parhad i ddynodi fod cynnwys yr isdeitl un ai'n estyn o'r isdeitl blaenorol neu'n parhau yn yr isdeitl canlynol.

The characters are very distant. You don't care about them...	>	*The characters are very distant. You don't care about them.*
..and this weakens the film.	>	*This weakens the film.*

7. Ni osodir coma o flaen dotiau parhad ar unrhyw gyfrif.

When I sold my first painting,...	>	*When I sold my first painting...*

8. Os bydd angen gosod dotiau parhad ar ddechrau isdeitl sy'n agor gyda dyfynodau, dylid gosod y dyfynodau gyntaf ac yna'r dotiau parhad – ac nid fel arall.

.."because the location is ideal."	>	*"..because the location is ideal."*

Dotiau rhagarweiniol

Canllaw cyffredinol

Gosodir dotiau rhagarweiniol *(cue dots)* ar ddechrau ffeiliau isdeitlau caeëdig i'w darlledu drwy deletestun. O bryd i'w gilydd, ceir datblygiadau technegol sy'n peri newidiadau yn y modd mae'r dotiau rhagarweiniol yn cael eu gosod. Dyma'r canllawiau cyfredol sydd hefyd i'w cael ar wefan S4C o dan "Cyflwyno Deunyddiau Is-deitlau i S4C".

Dotiau rhagarweiniol ar ddechrau ffeil isdeitlau teletestun

1. Dylid cynnwys dotiau rhagarweiniol ar ddechrau'r ffeil. Rhaid i'r cyntaf fod yn union ar ffrâm gyntaf y rhaglen yn "888" mewn *cyan* ar gefndir glas. Dylai'r cyntaf fod yn 5 ffrâm o hyd gydag ail ddot dwy eiliad o hyd ar ffurf *add-on* yn ymddangos 7 ffrâm yn ddiweddarach. Dylai'r capsiynau "888" barhau yn gyson bob 5-6 eiliad yn ystod y teitlau agoriadol.

10:00:00:00	00:05	10:00:00:05
		888
10:00:00:12	02:00	10:00:02:12 +
		888
10:00:07:00	02:00	10:00:09:00
		888

Dotiau rhagarweiniol ar gyfer dechrau'r ail ran a rhannau dilynol

2. Ar gyfer ail ran a rhannau dilynol y rhaglen, dylid cynnwys dau gapsiwn "888" rhagarweiniol yr un fath â'r rhai ar gyfer dechrau'r rhaglen. Dylai'r cyntaf fod yn union ar ffrâm gyntaf y rhan, yn 5 ffrâm o hyd gydag ail ddot dwy eiliad o hyd ar ffurf *add-on* yn ymddangos 7 ffrâm yn ddiweddarach.

10:00:00:00	00:05	10:00:00:05
		888
10:00:00:12	02:00	10:00:02:12 +
		888

Llefaru yn dechrau yn syth ar 10:00:00:00

3. Pan fo llefaru rhaglen yn dechrau yn syth ar 10:00:00:00, neu ychydig o fframiau'n ddiweddarach, a chyn y gerddoriaeth agoriadol, ni cheisir gosod dotiau rhagarweiniol ar 10:00:00:00. Yn hytrach, dylid eu gosod pan fo'r gerddoriaeth agoriadol a theitl y rhaglen yn ymddangos yn hwyrach a'u gosod pob rhyw 5-6 eiliad tan i lefaru ail-gychwyn.

Dyfynodau

Canllaw cyffredinol

Defnyddir dyfynodau yn y modd traddodiadol i ddynodi geiriau a lefarwyd gan siaradwr arall. At hyn, gan nad yw'n bosibl, ar hyn o bryd, ddefnyddio llythrennau italig neu lythrennau bras i dynnu sylw at air neu eiriau arbennig o fewn isdeitl, defnyddir dyfynodau sengl i'r pwrpas hwn.

Dyfynodau sengl

1. Defnyddir dyfynodau sengl ar gyfer geiriau anghyfarwydd, megis termau tramor.

Today, the sun is shining in Marseille, and I had boubaillaise for lunch.	>	*Today, the sun is shining in Marseille, and I had 'boubaillaise' for lunch.*

Ond ar ôl dweud hyn, ni fyddai'n angenrheidiol rhoi dyfynodau o amgylch term tramor mwy cyfarwydd e.e. *"croissant"* o fewn isdeitl.

Ni ddefnyddir dyfynodau ar gyfer termau cyfarwydd megis teitlau caneuon, llyfrau, ffilmiau a.y.y.b. yn y Gymraeg neu Saesneg.

We have 'Radio Cymru', 'Y Cymro', 'Barn', 'Golwg', and so on.	>	*We have Radio Cymru, Y Cymro, Barn, Golwg, and so on.*

Defnydd arbennig

2. Gall goslef siaradwr dynnu sylw at air neu eiriau arbennig. Yn yr enghraifft isod, tynnir sylw at air arbennig mewn isdeitl drwy osod dyfynodau sengl o'i amgylch. Mae'r dyfynodau hyn yn rhoi ystyr gwahanol i'r gair *'progress'*. Heb y dyfynodau o amgylch *'progress'*, mae'n dynodi cynnydd hollol niwtral. Ond gyda'r dyfynodau, hoelir sylw arbennig ar yr emosiwn yn y llais, boed hwnnw'n seiliedig ar goegni, gwylltineb neu siom.

Depends what you mean by progress.	>	*Depends what you mean by 'progress'.*

Dyfynodau dwbl

4. Defnyddir dyfynodau dwbl ar gyfer araith uniongyrchol.

'I've always wanted to climb Everest,' he sighed.	>	*"I've always wanted to climb Everest," he sighed.*

5. Defnyddir dyfynodau dwbl ar gyfer dyfyniad neu farddoniaeth.

There is no longing in rocks.	>	*"There is no longing in rocks*
Nothing but might to outlast the weather	>	*"Nothing but might to outlast the weather*
And to shatter the bank of pebbles and of gravel	>	*"And to shatter the bank of pebbles and of gravel*
To uncaring mud.	>	*"To uncaring mud"*

Ebychnod

Canllaw cyffredinol

Ac yntau'n isdeitlo heb sgript, mae'r isdeitlydd yn gwbl ddibynnol ar y trac sain am y geiriau. Yn hyn o beth, mae ymateb yr isdeitlydd i oslef llais cymeriad yn hollbwysig i sicrhau dehongliad cywir o'r geiriau a glywir. Gosodir ebychnod o fewn isdeitl i atgyfnerthu gorchymyn neu'r elfen o emosiwn, drama, hiwmor, anghrediniaeth ac yn y blaen. Argymhellir dethol yn ofalus yr isdeitlau hynny sy'n gwir haeddu ebychnod er mwyn cadw'r effeithiolrwydd. Ni ddefnyddir ond un ebychnod ar y tro, gan fod mwy nag un yn tueddu i dynnu sylw oddi ar weddill yr isdeitl.

Goslef y llais

1. **Emosiwn**

   Os yw'r cymeriad yn gweiddi'n uchel, yn sgrechian yn wyllt, yn traethu'n ymosodol, gan fynegi emosiwn cryf, gellir dewis ebychnod er mwyn trosglwyddo'r teimlad a glywir yn y llais i'r isdeitlau, i'w gwneud yn gredadwy. Defnyddir yr ebychnod mewn achos felly, i wahaniaethu rhwng geiriau a ddywedir yn niwtral a geiriau a ddywedir ag angerdd.

Help - I'm sinking.	>	*Help! I'm sinking!*

You've made it, finally.	>	*You've made it! Finally!*

2. **Gorchymyn**

   Mae ebychnod ar ddiwedd gorchymyn yn grymuso'r teimlad o reidrwydd.

Come here.	>	*Come here!*

3. **Anghrediniaeth**

   Mae'r ebychnod yn cyfleu'r anghrediniaeth a'r cyffro y tu ôl i'r geiriau.

I can't believe she's only thirteen.	>	*I can't believe she's only thirteen!*

Hiwmor

4. Weithiau, ceir awydd wrth isdeitlo jôc, comedi neu ddarn arbennig o fewn drama, i osod ebychnod ar ôl bron popeth a ddywedir oherwydd y digrifwch, y synnwyr o ddrama neu'r anghrediniaeth, fel arwydd o gydymdeimlad â'r cymeriadau. Gall gorddefnydd o'r ebychnod danseilio ei rym a'i bwrpas.

Tidy job, your dad, then?!	>	*Tidy job, your dad, then?*
Tidy?!	>	*Tidy?*
You know, big, like!	>	*You know, big, like!*

Osgoi hiwmor anfwriadol – nid yw popeth yn ddoniol

5. Dylid defnyddio'r ebychnod i gyfleu'r hyn a fwriedir yn y llefaru gwreiddiol a'r hyn sy'n digwydd ar y sgrîn yn hytrach na chyfleu ymateb yr isdeitlydd i'r sefyllfa. Gall rhywbeth ymddangos yn ddoniol i bawb, gan gynnwys yr isdeitlydd, ac eithrio'r cymeriad dan sylw. Os nad yw'r person sy'n siarad yn rhannu'r un teimlad ac yn siarad â llais isel, niwtral, rhaid parchu'r mynegiant a'r oslef. Gwylier felly, rhag camu i esgidiau'r cyfarwyddwr. Prif dasg yr isdeitlydd yw trosglwyddo'r neges ac nid cynnig sylwebaeth.

I walked straight into a tree!	>	*I walked straight into a tree.*

Ebychnod i ddynodi pwyslais

6. Gan nad yw'r arferiad o ddefnyddio lliw gwahanol i ddynodi pwyslais ar air unigol yn boblogaidd iawn bellach, gellir ychwanegu ebychnod i atgyfnerthu neges. Rhoddwyd lliw gwahanol i'r gair *"told"* yn yr enghraifft wreiddiol.

I'm on a diet – I've told you.	>	*I'm on a diet – I've told you!*

Un ebychnod ar y tro

7. Wrth gyfleu hiwmor neu anghrediniaeth, anelir at ddefnydd cynnil o'r ebychnod fel nad yw'n tynnu sylw oddi ar y geiriau. Defnyddir un ebychnod ar y tro.

He now owns his own plane!!!	>	*He now owns his own plane!*

Ebychnod gyda gofynnod

8. Weithiau, yn y cyswllt iawn, mae rheswm dros ddefnyddio ebychnod a gofynnod gyda'i gilydd. Rhoir y gofynnod yn gyntaf a'r ebychnod yn ail, heb ofod rhyngddynt.

Is that really you?	>	*Is that really you?!*

Effeithiau sain

Canllaw cyffredinol

Mae S4C wedi mabwysiadu rhai elfennau o arddull arbennig isdeitlau i bobl fyddar neu drwm eu clyw, megis esboniadau ar y sgrîn o synau sy'n achosi ymateb gan gymeriadau yn y llun ynghŷd â disgrifiadau o synau sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei ddweud. Yn ogystal â'r math yma o effeithiau sain, mae S4C bellach yn darlledu capsiwn ar gyfer teitl darn o gerddoriaeth offerynnol.

Fodd bynnag, nid yw S4C wedi mabwysiadu capsiynau effeithiau sain ar gyfer pob effaith sain. Fel canllaw cyffredinol, tra'n penderfynu creu neu hepgor capsiwn effaith sain, ceisir bod mor gynnil â phosibl gyda'r nifer o gapsiynau fesul rhaglen, fel eu bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar lif yr isdeitlau ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg nad ydynt yn fyddar na thrwm eu clyw.

Effeithiau sain cymeradwy

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos effeithiau sain cymeradwy o fewn isdeitlau. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob effaith sain bosibl o bell ffordd ond dyma'r math o seiniau y disgwylir eu cynnwys. Defnyddir y capsiynau sain isod yn unig pan nad yw'r weithred sy'n achosi'r sŵn i'w gweld ar y sgrîn a bod y weithred yn dylanwadu ar yr hyn sy'n dilyn. Er enghraifft, os gwelir person yn cnocio ar ddrws, nid oes angen creu capsiwn effaith sain. Sylwer yn ogystal mai pwrpas effaith sain yw rhoi eglurhad o'r sŵn a glywir yn hytrach na gair onomatopeiaidd.

1. **Synau yn gysylltiedig â'r ffôn**

Ffôn symudol yn canu	MOBILE PHONE
Peiriant ateb	ANSWERING MACHINE
Rhybudd neges destun ar ffôn symudol	TEXT ALERT
Neges destun ar ffôn symudol	TEXT MESSAGE
Rhybudd neges llais ar ffôn symudol	VOICEMAIL ALERT
Neges llais ar ffôn symudol	VOICEMAIL MESSAGE

2. **Synau curo ar ddrws a chlychau**

Cnoc ar ddrws	KNOCK ON DOOR
Cloch drws yn canu	DOORBELL
Cloch ysgol yn canu	SCHOOL BELL
Cloch eglwys yn canu (llon)	CHURCH BELL RINGS
Cloch eglwys yn canu (lleddf)	CHURCH BELL TOLLS
Cloch archebion olaf mewn tafarn	LAST ORDERS BELL
Cloc larwm	ALARM CLOCK
Larwm mŵg	SMOKE ALARM
Corn car	CAR HORN
Bom yn ticio	TICKING BOMB
Seiren heddlu	POLICE SIREN

3. **Synau yn cyfleu emosiwn**

Chwerthin	LAUGHTER / GIGGLING
Crio	WEEPING / CRYING / SOBBING
Sgrechian	SCREAMS / SHRIEKS

4**. Synau eraill posibl**

Radio	RADIO
Teledu	TELEVISION
Gwydr yn torri	SHATTERING GLASS
Gwn yn tan	GUNSHOT
Ffrwydrad	EXPLOSION
Taran	THUNDERCLAP

5. **Darn o gerddoriaeth offerynnol**

Rhoddir capsiwn effaith sain ar y sgrîn i gyfleu gwybodaeth am ddarn o gerddoriaeth offerynnol a glywir mewn rhaglen megis, cyngerdd eisteddfod, gwasanaeth crefyddol a.y.y.b. Gosodir y capsiwn ar y sgrîn yn ystod eiliadau agoriadol y darn offerynnol.

6. **Pwt o gerddoriaeth gefndir**

- Os ceir pwt o gerddoriaeth gefndir, boed gerddoriaeth offerynnol neu gân o fewn unrhyw fath o raglen, ac os yw'n parhau am gyfnod heb lefaru ac, ar yr un pryd, yn atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd, dylid creu capsiwn effaith sain i ddisgrifio'r math o gerddoriaeth neu gân e.e. # *Romantic music #, # Drum 'n' bass* #, # *Chanting #,* a'i osod ar y sgrîn wedi'i ganoli mewn llythrennau bach gwyn ar gefndir du rhwng dau arwydd #.

- Os yw'r gerddoriaeth offerynnol neu'r gân yn parhau heb lefaru am gyfnod a bod y gerddoriaeth offerynnol neu'r gân yn adnabyddus, dylid ymdrechu i roi teitl y darn ar y sgrîn mewn capsiwn effaith sain yn hytrach na disgrifiad llac o'r gerddoriaeth e.e. # *Ffarwel i Langyfelach Lon #, # Hey Jude* #, a'i osod mewn llythrennau bach gwyn ar gefndir du.

- Os mai cân glywir ac os yw'n parhau am nifer o eiliadau gyda'r geiriau i'w clywed yn glir, dylid creu isdeitlau yn y ffordd arferol ar gyfer geiriau'r gân, yn hytrach na gosod teitl y gân yn unig ar y sgrîn. Rhoddir geiriau'r gân mewn llythrennau bach gwyn ar gefndir du gydag arwydd # ar ddechrau pob isdeitl ac un i gloi ar y diwedd.

Amcan yr effeithiau sain dethol a ddefnyddir

7. Penderfynwyd cynnwys effeithiau sain ar gyfer y math o synau a restrir uchod oherwydd eu bod

   a) yn achosi ymateb
   b) yn debygol o ddigwydd yn eithaf rheolaidd yn rhaglenni S4C
   c) yn hawdd i'w disgrifio ar ffurf isdeitlau byr.

Cyfleu lefel y sain

8. Yn ogystal â'r seiniau a nodir gellir ychwanegu ansoddeiriau e.e. LOUD GIGGLING, HORRENDOUS BANG, QUIET SOBBING, CRASHING SOUND, a.y.y.b. i gyfleu lefel y sain pan fo hynny'n briodol.

Effeithiau sain diangen

9. Ni fwriedir cynnwys effeithiau sain sy'n disgrifio hinsawdd ac awyrgylch: e.e. WIND, BREEZE, RAIN, THUNDER, STORM, oni bai bod yr hinsawdd yn eithafol ac yn cael effaith ar y stori.

   Hefyd, fel canllaw cyffredinol, ni ddisgwylir gweld capsiwn effaith sain ar gyfer cymeradwyaeth cynulleidfaol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai angen capsiwn effaith sain APPLAUSE os oes rheswm arbennig dros gael cymeradwyaeth o fewn golygfa mewn rhaglen ddrama, opera sebon, comedi, a.y.y.b. neu e.e. pan geir cymeradwyaeth arbennig o frwdfrydig a swnllyd ar ddiwedd cyngerdd, gellir rhoi effaith sain megis TUMULTUOUS APPLAUSE.

Fformadu effeithiau sain

10. Gosodir y capsiwn effaith sain sgrîn, mewn priflythrennau gwyn ar gefndir coch. Nid oes angen dyfynodau o'i amgylch ac ni roddir atalnod llawn ar ei ddiwedd.

Lleoli effeithiau sain

11. Lleolir y capsiwn effaith sain ar waelod y sgrîn gan ganoli pob llinell. Os oes isdeitl ar gyfer geiriau sy'n cael eu llefaru yn ymddangos ar yr un pryd â'r capsiwn sain, gosodir y capsiwn effaith sain uwchben yr isdeitl llafar gan adael gofod o drwch isdeitl un llinell rhwng y capsiwn effaith sain a'r isdeitl. Gellir defnyddio arddull isdeitl cyfansawdd *(add-on)* ar gyfer hyn.

Isdeitlau agored

12. Ni cheir effeithiau sain mewn ffeil isdeitlau agored.

Eglurdeb

Canllaw cyffredinol

Dim ond un cyfle a gaiff y gwyliwr i ddarllen pob isdeitl. Gan nad oes ail gyfle, mae eglurdeb o ran yr isdeitlau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwyliwr yn meistroli cynnwys yr isdeitl yn rhwydd ar y darlleniad cyntaf. Yr eiliad y caiff y gwyliwr anhawster i ddeall yr ystyr a fwriedir, gall golli'r cam nesaf ac mae perygl iddo ef (neu hi) golli rhediad yr isdeitlau dilynol yn ogystal, oherwydd ei fod yn dal i bendroni a phetruso dros ystyr yr isdeitl cyntaf. Awgryma'r enghreifftiau isod sut y gellir gwella ar gynnwys isdeitlau er mwyn sicrhau eglurdeb.

Addasu'r iaith lafar yn uned synnwyr ysgrifenedig

1. Wrth greu isdeitlau, ceisir ystyried gwir ystyr y geiriau gwreiddiol oherwydd hawdd yw llithro i gyfieithu llythrennol o eiriau megis "Mae lot yn 'neud o" heb ystyried yr ystyr a fwriedir yn llawn. Mewn llefaru heb ei sgriptio, fel yn yr enghraifft hon, rhaid ychwanegu geiriau yn yr isdeitl er eglurdeb.

"Ti'n plannu bylbyn bach, yn dwyt? Mae gyno fo dipyn bach o flaen
ar nionyn wedi cychwyn o hadau, yn does?
Mae'u gyddfau nhw wedi plygu drosodd, yntydyn?
Mae lot yn 'neud o, a mae'r llyfrau 'ma'n ddeud o -
dydw i ddim yn licio fo."

When you plant small bulbs...	>	*When you plant small bulbs...*
..they have a head start on onions grown from seed.	>	*..they have a head start on onions grown from seed.*
You see they're folded over.	>	*You see they're folded over.*
A lot do that – it's what the books say, but I don't like it.	>	*A lot of people do that – it's what the books say, but I don't like it.*

Osgoi amwysedd ystyr

2. Hawdd yw camddehongli gwir ystyr y llefaru gwreiddiol pan ddiffinnir yr ystyr cywir yn unig gan oslef y llais ynghyd â'r amgylchiadau. Mae'r geiriau gwreiddiol a glywir, "Beth rwan", heb eu hatalnodi, yn peri amwysedd. Gall y geiriau hyn olygu "Beth nesaf?", "Beth nesaf!", neu "Beth sy'n bod rwan?"

What next?	>	*What's the matter now?*

Hyrwyddo darllen cyflym

3. Dylid symleiddio cystrawen gymhleth a glynu at batrwm arferol y frawddeg seml hyd y mae modd. Mae'r cyfuniad *"it is"* ar ganol ail linell yr isdeitl cyntaf yn cymhlethu'r darllen yn fwy byth. Mewn achos fel hwn, argymhellir aralleirio er mwyn osgoi'r math hwn o gyfuniad cyfarwydd sy'n darllen yn wahanol i'r arfer.

Knowing that a million people have seen it is quite a feeling.	>	*It is quite a feeling to know a million people have seen it.*

4. Dylid osgoi popeth a all arwain at ystyr deublyg a fyddai'n arafu darllen yr isdeitl. Yn yr enghraifft hon, mae gosod *"ex"* ynghyd â chysylltnod o flaen enw'r grŵp yn codi amheuaeth yn syth ynglŷn â gwir enw'r grŵp.

Ex-Take That member...	>	*Former Take That member...*

Osgoi cyfieithu llythrennol

5. Mae geirfa'r iaith Saesneg yn llawer ehangach nag eiddo'r Gymraeg gyda llawer mwy o amrywiaeth o dermau penodol, o leiaf mewn rhai meysydd. Wrth drosi'r frawddeg, `"Ddoe, bûm yn cyfarfod â rhai o fy nghyd-gynghorwyr."`, gwylier rhag dewis y term anghywir.

Yesterday, I met some of my co-councillors.	>	*Yesterday, I met some of my fellow councillors.*

6. Pwysig hefyd yw trosi termau, megis teitlau swyddogol ac enwau sefydliadau, yn gywir. Dylid sicrhau bod y termau cywir yn cael eu defnyddio yn yr iaith darged yn hytrach na'r cyfieithiad cyfeiliornus.

`"Heddiw, cyhoeddodd y Farchnad yn Llundain..."`

The market in London announced today...	>	*The London Stock Exchange announced today...*

Enwau cymeriadau

Canllaw cyffredinol

Er bod cywasgu'r ddeialog wreiddiol yn rhan hanfodol o dechneg isdeitlo, ni ddylid ystyried enwau cymeriadau yn ffurfiau y gellir eu hepgor. Mae pwrpas i ailadrodd enwau cymeriadau yn y ddeialog wreiddiol. Er nad oes disgwyl i bob isdeitl gynnwys pob cyfeiriad at enw person yn y sgript wreiddiol, mae cynnwys enwau pobl yn effeithiol o fewn isdeitlau yn gymorth i ddiffinio portreadau'r cymeriadau dan sylw.

Cywirdeb

1. Ni ddylid cyfieithu enwau cymeriadau o dan unrhyw amgylchiadau.

2. Mae sillafu enwau cymeriadau yn gywir yn hollol angenrheidiol. Dylid gofalu eu bod yn cyfateb i'r sillafiad yn y rhestr credydau. Os na cheir rhestr credydau neu os ceir rhestr credydau enwau cyntaf yn unig, dylid sicrhau fod y cwmni cynhyrchu yn cadarnhau sillafiad cywir yr enwau cyntaf a'r cyfenwau. Hyd yn oed os oes sgript yn bodoli, ni ddylid dibynnu'n llwyr ar y sgript am y sillafiad cywir.

Enwau o fewn drama un bennod neu ffilm

3. Fel arfer, o fewn drama un bennod neu ffilm, crybwyllir enwau'r cymeriadau yn yr isdeitlau yn nhrefn eu hymddangosiad yn y rhaglen. Unwaith mae enwau'r cymeriadau wedi'u sefydlu, nid yw'n angenrheidiol cynnwys yr enwau yn yr isdeitlau bob tro y cânt eu crybwyll oni bai bod pwyslais arbennig ar yr enw, e.e. dan amodau o wylltineb, dwyster, dychryn, anghrediniaeth, ac yn y blaen.

Enwau o fewn opera sebon neu ddrama gyfres

4. Gan fod operâu sebon a drama gyfres yn parhau o wythnos i wythnos, mae'n ddefnyddiol crybwyll enwau'r cymeriadau yn yr isdeitlau yn weddol gyson fel bod gwylwyr nad ydynt yn dilyn pob pennod yn gallu uniaethu'n eithaf cyflym â phob un o'r cymeriadau, y rhai newydd yn ogystal â'r rhai sefydlog.

Enwau o fewn comedi

5. Yn aml, mae crybwyll enw cymeriad yn barhaus o fewn comedi neu enw person o fewn jôc yn rhan annatod o'r hiwmor a dylid cynnwys cynifer o gyfeiriadau ag sydd yn bosibl yn yr isdeitlau.

Enwau lleoedd, sefydliadau a chanolfannau

Canllaw cyffredinol

Mewn gwlad ddwyieithog lle mae enwau Cymraeg a Saesneg yn bodoli ar gyfer nifer helaeth o enwau lleoedd yng Nghymru, defnyddir y termau Saesneg o fewn isdeitlau Saesneg. Disgwylir i enwau lleol a rhanbarthol megis enwau ysgolion, enwau busnesau, enwau siopau, enwau capeli, enwau corau, a.y.y.b., ynghyd â thermau cenedlaethol, megis enwau mudiadau cenedlaethol, enwau papurau newydd, enwau cymdeithasau, enwau theatrau, enwau undebau a.y.y.b., ymddangos yn yr iaith wreiddiol oni bai fod yr un enw yn cael ei gydnabod yn y ddwy iaith.

Ffurfiau dwyieithog

1. Os oes enw Saesneg yn bodoli ar le, defnyddir y term hwnnw mewn isdeitl.

`"Llanymddyfri"`	>	*"Llandovery"*
`"Cadair Idris"`	>	*"Cader Idris"*
`"Rhuthun"`	>	*"Ruthin"*
`"Ynys Enlli"`	>	*"Bardsey Island"*
`"Bro Morgannwg"`	>	*"The Vale of Glamorgan"*

   Os yw enw mudiad yn bodoli yn y ddwy iaith, defnyddir y cyfieithiad cydnabyddedig.

I've always supported the aims of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.	>	*I've always supported the aims of the Welsh Language Society.*

Ffurfiau Cymraeg yn unig

2. Hyd yn oed os oes modd cyfieithu enw yn llythrennol i'r Saesneg, dylid gofalu i beidio â gwneud hynny os yw'r enw yn bodoli yn y Gymraeg yn unig, e.e. `"Y Lôn Goed"`.

   Os mai yn Gymraeg yn unig y mae'r enw cydnabyddedig yn bodoli, nid oes angen ei gyfieithu.

She works at Gwynedd Hospital.	>	*She works at Ysbyty Gwynedd.*

Safoni enwau lleoedd

3. Mae rhai ffurfiau Saesneg a oedd yn bodoli yn y gorffennol, e.e. *"Nevin", "Aberayron", "Caernarvon", "Meirioneth"* a *"Conway"* wedi diflannu o ganlyniad i safoni ffurfiau. Bellach, mae'r enwau Cymraeg, `"Nefyn"`, `"Aberaeron"`, `"Caernarfon"`, `"Meirionnydd"` a `"Conwy"` yn cael eu cydnabod yn swyddogol a'u defnyddio yn y Saesneg yn ogystal. Serch hynny, mae'r hen gwestiwn o sawl "c" sydd yng Nghricieth yn parhau.
   Noder, fodd bynnag, hyd yn oed os yw ffurfiau megis `"Y Felinheli"` yn cael eu cydnabod yn swyddogol yn y Saesneg, defnyddir y ffurf Saesneg *"Port Dinorwic"* mewn enw megis *"Port Dinorwic Sailing Club"* – sy'n cael ei ystyried fel cyfieithiad cydnabyddedig o'r ffurf Cymraeg `"Clwb Hwylio Y Felinheli."`.

Mae'r cyfeirlyfr *"Rhestr o Enwau Lleoedd – A Gazetteer of Welsh Place-names*" yn ddefnyddiol i gadarnhau sillafiadau enwau lleoedd ond nid yw'r wybodaeth ynddo yn adlewyrchu sillafiadau heddiw bob tro. Ceir sillafiadau ynddo sy'n wahanol i sillafiadau a welir ar arwyddion ffyrdd, a ddefnyddir gan gynghorau lleol ac a geir ar wefannau perthnasol. Gellir chwilio am gadarnhad o sillafiadau enwau lleoedd ar fap diweddar o Gymru neu ar wefannau cynghorau lleol neu dod o hyd i sillafiadau sefydliadau a chanolfannau ar wefannau perthnasol a dibynadwy. Mae'r ddau gyfeirlyfr diweddar, *"Y Llyfr Enwau – a checklist of Welsh Place-names*" a'r *"Dictionary of the Place-names of Wales*" yn ffynonellau defnyddiol i gadarnhau sillafiadau. Sylwer, fodd bynnag, bod gwahaniaethau mewn sillafiadau enwau rhai lleoedd yn parhau. Er enghraifft, mae'n bosibl y ceir un sillafiad ar arwydd ffordd ac un arall mewn cyfeirlyfr.

Defnydd o'r cysllytnod mewn enwau lleoedd

4. Weithiau mae'n anodd gwybod pa bryd mae angen defnyddio'r cysylltnod mewn enwau lleoedd. Dylid troi at ffynonellau dibynadwy megis atlas, map neu gyfeirlyfr diweddar gan sicrhau cysondeb drwy'r ffeil isdeitlau er gwaethaf gwahaniaethau posibl yn y ffynonellau. Ceir cysylltnod mewn enwau megis Betws-y-coed ond ni ddigwydd mewn enwau megis Cerrigydrudion, Tyddewi na Llanfihangel Glyn Myfyr.

Enwau cywir

5. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ffurfiau cywir canolfannau cydnabyddedig e.e *"Disneyland Paris."* Pan agorwyd *"Disneyland Paris"* ym 1992, yr enw swyddogol oedd *"Euro Disneyland"*. Newidwyd yr enw i *"Disneyland Paris"* ym 1994 ond mae'n syndod faint o gwmnïau a phobl sy'n galw'r ganolfan yn *"Eurodisney*" – mewn un gair – yn hytrach na'r term cywir.

   Yn yr un modd, pan glywir cyfeiriad at "`y cwmni dŵr`", mae'n bwysig bod yn ymwybodol mai enw swyddogol y corff yng Nghymru yw *"Dŵr Cymru Welsh Water"* ac y ceir adegau lle mae'n fwy addas rhoi'r enw swyddogol yn yr isdeitl yn hytrach na "the water company". Ar ôl dweud hyn, yr isdeitlydd ddylai ystyried goblygiadau cynnwys y term a ddywedir neu'r enw swyddogol. Byddai cynnwys y term a ddywedir yn addas efallai o fewn opera sebon ond mae'n bosibl y byddai math arall o raglen yn gofyn am yr enw swyddogol.

Enwau llawn

6. Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod pawb yn gwybod am fodolaeth y ganolfan gelfyddydol "`Galeri`" yng Nghaernarfon na *"Chapter"* yng Nghaerdydd. Yn ddelfrydol, er mwyn eglurdeb, dylid cynnwys mwy o wybodaeth e.e. *"Galeri in Caernarfon"* a *"Chapter Arts Centre"*.

Fformadu

Canllaw cyffredinol

Mae fformadu effeithiol yn hanfodol er mwyn creu isdeitlau o safon uchel. Gall fformadu effeithiol ynghyd â chysondeb arddull, nid yn unig gyflymu darllen ond hefyd ei hwyluso. Ni ddylid anwybyddu'r agwedd esthetig ar fformadu ychwaith. Mae fformadu llwyddiannus yn gwneud y darllen yn fwy pleserus hefyd.

Wrth fformadu, mae'n ddefnyddiol i'r isdeitlydd ystyried y canlynol.

Agweddau Technegol

A yw'r dotiau rhagarweiniol wedi'u fformadu'n gywir?
A yw'r dotiau diwedd rhan gyntaf a rhannau dilynol wedi'u fformadu'n gywir?
A oes modd sicrhau bod pob bwlch du gwag wedi'i ddileu?
A yw'r capsiwn cydnabod isdeitlau wedi'i fformadu'n gywir ac yn y man priodol?
A fydd cynnwys pob isdeitl yn ymddangos yn gyflawn ar y sgrîn (top a gwaelod)?

Arddull

A yw'r arddull yn addas ar gyfer darlledu'r isdeitlau (caeëdig neu agored)?
A yw'r fformadu'n hwyluso darllen yr isdeitlau?
A ystyriwyd agweddau estheteg yr arddull fformadu?

Effeithiolrwydd

A yw lleoliad yr isdeitlau yn addas ar gyfer y math o raglen dan sylw?
A yw'r toriadau llinell neu doriadau'r brawddegau yn y mannau priodol?
A yw'r fformadu'n dilyn yr unedau synnwyr o fewn yr isdeitlau?
A oes modd sicrhau nad yw'r isdeitlau yn gorchuddio unrhyw ddarn pwysig o'r llun?
A oes modd sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng isdeitlau â theitlau *Aston*?
A yw isdeitlau caneuon / barddoniaeth wedi'u fformadu'n addas?
A yw isdeitlau effeithiau sain a theitlau eraill wedi'u fformadu'n addas?

Cysondeb

A oes cysondeb yn yr agweddau technegol?
A oes cysondeb yn lleoliad yr isdeitlau?
A oes cysondeb o ran unioni'r isdeitlau?
A oes cysondeb o ran lliwiau'r isdeitlau?
A oes cysondeb o ran fformadu caneuon / barddoniaeth?
A oes cysondeb o ran fformadu effeithiau sain a theitlau eraill?

Geiriau benthyg

Canllaw cyffredinol

Mae Cymraeg llafar yn frith o eiriau benthyg o'r Saesneg. Yn gyffredinol, dylid ailadrodd yn yr isdeitl y geiriau Saesneg hynny a glywir yn y llefaru gwreiddiol, cyn belled ag y mae cyfyngiadau amser yn caniatáu.

Gair Saesneg o fewn llefaru Cymraeg

1. Wrth isdeitlo brawddeg megis, `"'Roedd y gêm yna yn` *amazing*`.",` er bod ansoddair megis *"great"* yn fyrrach nag *"amazing"*, disgwylir gweld y gair *"amazing"* yn yr isdeitl.

That game was great.	>	*That game was amazing.*

Yn yr un modd, tra'n trosi brawddeg megis, `"Dydyn ni ddim am gynhyrchu` *`sitcom`*`.",` y gair benthyg a ddigwydd yw *`"sitcom".`*

We don't want to produce a situation comedy.	>	*We don't want to produce a sitcom.*

Camgymeriadau posibl wrth drosi geiriau benthyg o'r Saesneg

2. Wrth drosi brawddeg megis, `"Dim tai haf. Dim fisitors.",` efallai bod tuedd i ailadrodd y gair *"visitors"* yn yr isdeitl gan mai dyna a glywir. Ond oherwydd bod y gair wedi datblygu o ran ei ystyr yn y Gymraeg, argymhellir defnyddio ffurf sy'n fwy dilys o ran ystyr yn y Saesneg.

No holiday homes. No visitors.	>	*No holiday homes. No tourists.*

Er bod y gair *"champion"* yn bodoli yn Saesneg, nid dyma'r trosiad cywir pan glywir y gair yn y cyswllt canlynol.

How are you feeling now?	>	*How are you feeling now?*
Champion, thank you.	>	*Very well, thank you.*

Trosi gair Cymraeg o fewn llefaru Saesneg

Weithiau, clywir geiriau Cymraeg o fewn llefaru gwreiddiol Saesneg.

3. **Geiriau Cymraeg derbyniol o fewn isdeitlau Saesneg**

Yn gyffredinol, er mwyn atgyfnerthu portread o gymeriad mewn drama lle mae llawer o'r cymeriadu yn seiliedig ar y dafodiaith leol, gellir derbyn y defnydd o eiriau Cymraeg megis, `"bach", "twp", "hiraeth".` Mae defnyddio'r ansoddair `"bach"` mewn isdeitl megis, "*Could you fetch me a pint of milk,* `bach?"` yn ddigon cyfarwydd i beidio ag achosi trafferthion deall fel nad oes angen ei drosi i'r Saesneg.

Could you fetch me a pint of milk, love?	>	*Could you fetch me a pint of milk, bach?*

Wrth osod gair Cymraeg o fewn isdeitl Saesneg fel yn yr enghraifft uchod, nid oes angen dyfynodau o'i amgylch.

4. Geiriau Cymraeg annerbyniol o fewn isdeitlau Saesneg

Efallai bod angen cyfyngu ar y mathau o eiriau Cymraeg a fyddai'n dderbyniol i'w cynnwys mewn isdeitl Saesneg a'r mathau o eiriau a fyddai'n cael eu hystyried yn annerbyniol. Mae'n debyg y byddai gair megis, `"tylwyth"`, yn ddealladwy i ddysgwr ond nid i'r gwyliwr di-Gymraeg.

Of course he can stay with us. *He's* `tylwyth`*, isn't he?*	>	*Of course he can stay with us.* *He's family, isn't he?*

Gofynnod

Canllaw cyffredinol

Ac yntau'n isdeitlo heb sgript, mae'r isdeitlydd yn gwbl ddibynnol ar y trac sain. Ymateb yr isdeitlydd i oslef y llais, felly, sy'n penderfynu sut y dehonglir y geiriau a glywir. Mae'r iaith lafar yn frith o gwestiynau cuddiedig y mae'n rhaid eu mynegi ar ffurf cwestiwn yn yr iaith ysgrifenedig, i sicrhau eglurdeb. Un gofynnod ar y tro yn unig a ddefnyddir gan fod mwy nag un yn tueddu i dynnu sylw oddi ar gynnwys y frawddeg ei hun.

Goslef y llais

1. Pan fo goslef gwestiynol i'r llais, mae'n hanfodol cynnwys gofynnod ar ddiwedd y frawddeg. Yn yr enghreifftiau hyn, y gofynnod sy'n gwarantu ystyr cywir yr isdeitl. Yn wir, gall absenoldeb gofynnod newid yr ystyr a fwriedir.

   Goslef y llais sy'n penderfynu mai'r ymateb, `"Ydi."` a geir i'r datganiad, `"Mae'n bwrw eira."`. Gall `"Ydi",` yn y cyswllt hwn, gyfleu naill ai cytundeb, sef, `"Ydi, rydw i'n gwybod",` neu ymateb holiadol o ran goslef, sef, `"Ydi wir?".`

It's snowing.	>	*It's snowing.*
Really.	>	*Really?*

   Eto, wrth isdeitlo'r frawddeg, `"Mae hi'n rhy hwyr i fynd allan, mae'n siŵr.",` mae dau ddehongliad yn bosibl oherwydd gall yr oslef droi'r datganiad yn gwestiwn a'r gofynnod sy'n gwarantu'r ystyr a fwriedir.

I guess it's too cold to go out.	>	*I guess it's too cold to go out?*

   Yn y frawddeg isod, mae dewis y gofynnod yn newid yr ystyr yn gyfan gwbl o *"Drink up, Emyr!"* i *"Do you want a drink, Emyr?"*.

Drink, Emyr!	>	*Drink, Emyr?*

Cwestiwn ar ffurf datganiad

2. Mae modd dehongli arwyddocâd olyniad megis `"Ti'n mynd allan heno."` mewn tair ffordd wahanol: naill ai fel datganiad, neu fel gorchymyn neu fel cwestiwn. Os cwestiwn a fwriedir, rhaid cynnwys y gofynnod.

You're going out tonight.	>	*You're going out tonight?*

Dau gwestiwn, dau ofynnod

3. Yn yr enghraifft isod, mae defnyddio dau ofynnod i ddynodi dau gwestiwn yn hwyluso'r darllen. Ond os nad yw'r ddau gwestiwn *"Why?"* a *"What's wrong?"* yn cyfateb yn union i'r hyn a fwriedir yn y ddeialog wreiddiol, gellir hepgor y cwestiwn

"Why" os yw'n adlewyrchu ffordd o ymateb yn hytrach na'r cwestiwn penodol *"Why?"*.

Why, what's wrong?	>	*Why? What's wrong?*

Yn yr un modd, rhoddir gofynnod ar ôl *"tomorrow"* pan fo goslef y llais yn y ddeialog wreiddiol yn awgrymu cwestiwn.

When will you come - tomorrow?	>	*When will you come? Tomorrow?*

Gofynnod gydag ebychnod

4. Weithiau, gellir cyfiawnhau gosod ebychnod ar ôl gofynnod. Bryd hynny, rhaid gosod y gofynnod i ddynodi'r cwestiwn, yn ogystal ag ebychnod. Rhoir y gofynnod yn gyntaf ac yna'r ebychnod, heb ofod rhyngddynt.

Why don't you take a running jump!	>	*Why don't you take a running jump?!*

Golygu

Canllaw cyffredinol

Mae golygu effeithiol - o safbwynt cynnwys ieithyddol yr isdeitlau yn ogystal â'r amseru - yn hanfodol er mwyn creu isdeitlau o safon uchel. Argymhellir golygu cynnwys ieithyddol isdeitlau heb y tâp yn ogystal â gyda'r tâp. Y rheswm dros hyn yw bod rhai agweddau o'r broses olygu yn dod yn fwy amlwg pan nad yw'r rhaglen yn tynnu sylw oddi ar yr isdeitlau.

Tra'n golygu, mae'n ddefnyddiol ystyried y canlynol.

Dehongliad

A yw'r ystyr yn gywir?
A yw'r mynegiant yn glir?
A yw'r isdeitlau'n rhwydd i'w darllen?
A yw'r effeithiau sain yn ddealladwy ac yn angenrheidiol?

Portread

A yw'r isdeitlau'n adlewyrchu naws y rhaglen / cymeriadau?
A yw'r cywair ieithyddol yn addas?
A yw'r addasiad diwylliannol yn argyhoeddi?

Ansawdd iaith

A yw'r sillafu yn berffaith?
A yw'r atalnodi yn gywir ac yn effeithiol?
A yw'r gramadeg yn gywir?
A yw ieithwedd yr isdeitlau'n dderbyniol?
A yw trefn y geiriau yn naturiol?
A yw enwau'r cymeriadau, y termau lleol a'r termau tramor yn gywir?
A yw'r dilyniant o'r naill isdeitl i'r llall yn darllen yn hwylus?
A yw unrhyw ddefnydd a wneir o eiriau Cymraeg yn ddealladwy yn yr isdeitlau Saesneg?

Fformadu

A yw'r unioni a'r lleoli yn daclus a chyson?
A yw'r toriadau llinell a'r toriadau rhwng isdeitlau yn cyfateb i unedau synnwyr?
A yw'r defnydd a wneir o liw yn effeithiol?
A yw'r effeithiau sain a theitlau eraill wedi'u fformadu'n gywir?

Lleoliad

A yw'r lleoliad yn addas pan mae wyneb yn llenwi'r llun?
A yw'r lleoliad yn addas pan mae gweithred allweddol yn digwydd ar waelod y sgrîn?
A yw'r lleoliad yn addas pan mae angen gosod isdeitl ar dop y sgrîn?
A yw'r lleoliad yn addas pan mae teitl *Aston* yn ymddangos ar y sgrîn ar yr un pryd?
A yw'r lleoliad yn addas pan mae effaith sain yn ymddangos ar y sgrîn ar yr un pryd?
A yw'r lleoliad yn addas pan mae isdeitl agored Cymraeg yn bodoli ar y sgrîn?

Amseru

A yw hyd yr isdeitlau yn addas?
A yw'r cydamseru yn gweddu?
A yw'r saib rhwng yr isdeitlau yn ddigonol?
A yw'r isdeitlau cyfansawdd yn effeithiol?
A yw'r isdeitlau sy'n croesi toriadau camera yn parchu'r canllawiau?
A yw'r cydamseru yn addas ar gyfer isdeitlau caneuon?

Agweddau technegol darlledu isdeitlau

A yw'r dotiau rhagarweiniol wedi'u fformadu'n gywir?
A yw'r dotiau diwedd y rhan gyntaf a'r rhannau dilynol wedi'u fformadu'n gywir?
A yw'r capsiwn cydnabod isdeitlau wedi'i fformadu yn gywir ac yn y man priodol?
A yw'r capsiwn cydnabod isdeitlau wedi'i leoli yn y man priodol?
A yw'r isdeitlau wedi'u paratoi'n addas ar gyfer isdeitlau caeëdig neu isdeitlau agored?

Goslef y llais

Canllaw cyffredinol

Gan na ddarperir sgript ar gyfer isdeitlwyr yng Nghymru ac eithrio yn achos rhai rhaglenni arbennig a ffilmiau, mae'r gallu i ddiffinio ystyr geiriau yn ôl goslef y llais yn angenrheidiol er mwyn dehongli'r llefaru gwreiddiol yn gywir.

Atalnodi pwrpasol

1. **Cydnabyddiaeth neu ymateb o ryfeddod?**

   Mae'r atalnodi yn gallu newid ystyr ac arwyddocâd ffurf megis *"really"*. Dylid ychwanegu gofynnod pan fo'r oslef yn dynodi ymateb o ryfeddod neu amheuaeth yn hytrach na chydnabyddiaeth o'r hyn a ddywedwyd yn flaenorol.

I've been offered a place at Oxford.	>	*I've been offered a place at Oxford.*
Really.	>	*Really?*

2. **Datganiad neu gwestiwn?**

   Yn yr enghraifft isod, mae'r ebychnod yn troi'r frawddeg yn ddatganiad tra bod gofynnod yn cyfleu goslef gwestiynol.

You're coming to the party!	>	*You're coming to the party?*

   Fodd bynnag, o safbwynt darllen yr isdeitlau yn effeithiol, mae'n haws darllen brawddeg sy'n ddatganiad ar ffurf datganiad a chwestiwn ar ffurf cwestiwn yn hytrach na datganiad ar ffurf cwestiwn. Ond gan fod yr iaith lafar yn dibynnu ar oslef y llais ac y caiff llawer o gwestiynau eu gofyn ar ffurf datganiad ar lafar, mae'n naturiol bod y dull hwn o ofyn cwestiwn yn cael ei ddefnyddio mewn isdeitlau hefyd o bryd i'w gilydd er y byddai'r isdeitl uchod yn haws i'w ddarllen ar ffurf cwestiwn.

You're coming to the party!	>	*Are you coming to the party?*

3. **Cwestiwn neu anghrediniaeth?**

   Yn yr un modd, ychwanegir ebychnod ar ôl y gofynnod pan fo'r oslef yn cyfleu ymateb o anghrediniaeth yn hytrach na chwestiwn.

Why was the train late?	>	*Why was the train late?*
There were leaves on the track.	>	*There were leaves on the track.*
Leaves on the track?	>	*Leaves on the track?!*

Aralleirio

4. Weithiau, yn ogystal â rhoi pwyslais arbennig ar air, mae goslef sy'n cyfleu ymateb coeglyd ar ran y siaradwr yn gallu newid ystyr y geiriau a glywir. Wrth ateb cwestiwn megis "Felly ti'n dod allan efo fi heno?", yn y ddeialog wreiddiol, clywir yr ateb cadarnhaol "Ydw.", ond mae'r coegni a gyfleir gan yr oslef yn awgrymu'n gryf mai'r ateb negyddol "Na." yw'r gwir ystyr a fwriedir. Rhaid, felly, dod o hyd i ffurf neu ymadrodd yn y Saesneg sy'n cyfleu union arwyddocâd yr ateb negyddol, sef "Na." gan y byddai'r ateb cadarnhaol *"Yes*." nid yn unig yn gamarweiniol ond yn anghywir. Yn yr achos hwn, lle mae'r ddeialog rhwng dau berson ifanc, byddai ateb tebyg i, *"In your dreams."* yn ddelfrydol.

So you'll come out with me tonight?	>	*So you'll come out with me tonight?*
Yes.	>	*In your dreams.*

Gramadeg

Canllaw cyffredinol

Disgwylir ieithwedd gywir mewn isdeitlau. Mae gwallau gramadegol nid yn unig yn gostwng safon, ond hefyd yn peri i'r gwyliwr golli hyder yn y cyfrwng. Wrth greu isdeitlau, mae'n angenrheidiol addasu'r cyfrwng llafar i gyfrwng ysgrifenedig. Un agwedd ar hyn yw sicrhau cywirdeb gramadegol. Rhaid sicrhau bod yr isdeitlau yn dilyn rheolau sylfaenol gramadeg fel nad oes rheswm i'r gwyliwr betruso wrth eu darllen oherwydd bod amwysedd, amheuaeth neu ddryswch yn codi o flerwch gramadegol.

Addasu i'r iaith ysgrifenedig

Mae gofynion yr iaith ysgrifenedig yn llawer mwy caeth na gofynion yr iaith lafar - ac mae anghenion iaith isdeitlo yn fwy caeth byth gan mai un cyfle yn unig a gaiff y gwyliwr i ddarllen isdeitl. Rhaid sicrhau bod cynnwys pob isdeitl yn rhwydd i'w ddeall ar y darlleniad cyntaf. Dyma rai sylwadau i'w hystyried er mwyn hwyluso darllen a deall.

1. **Trefn y frawddeg**

Defnyddir y drefn normal, sef goddrych, berf, gwrthrych, cyn belled ag y mae modd, gan mai dyma'r drefn fwyaf cyfarwydd a'r un sydd fwyaf hwylus i'w darllen.

Under a brightly-lit moon, they walked along the beach.	>	*They walked along the beach under a brightly-lit moon.*

It was last summer that we discovered this restaurant.	>	*We discovered this restaurant last summer.*

2. **Y gerwnd**

Yn yr enghraifft isod, mae'r gerwnd (sef berf + *"ing"*) yn ffyddlon gynrychioli'r frawddeg Gymraeg wreiddiol. Sut bynnag, gan nad yw'n angenrheidiol cynnwys y gerwnd yn y Saesneg, gellir creu isdeitl mwy cynnil trwy newid y gystrawen.

"Mae dy fam wedi bod yn disgwyl am amser hir."

Your mother has been waiting a long time.	>	*Your mother waited a long time.*

3. **Talfyrru'r ferf**

Gellir defnyddio talfyriadau berfol gyda rhagenwau personol ond nid gydag enwau. Mae ffurfiau megis, *"She's thrilled.", "We've bought a house."* a *"It must've been a good year.",* yn dderbyniol. Nid felly, fel arfer, yr enghreifftiau canlynol gan fod y rhain yn darllen yn drwsgl.

Barcelona's my favourite city.	>	*Barcelona is my favourite city.*

That woman there's the spitting image of Jane!	>	*That woman there is the spitting image of Jane!*

Dylid cymryd gofal arbennig wrth ddefnyddio'r talfyriad *"'d"*. Defnyddir y talfyriad hwn ar gyfer dynodi *"had"* yn ogystal â *"would"*, a gellir achosi amwysedd ystyr o'r herwydd. Gall y frawddeg*, "We'd read to him before he went to sleep."* olygu *"We had read to him before he went to sleep."* neu *"We would read to him before he went to sleep."*. Argymhellir osgoi'r talfyriad *"'d"* a dewis ffurfiau cyflawn y ferf er mwyn eglurdeb. Ar ôl dweud hyn, derbynnir bod y talfyriad hwn i olygu *"would"* yn un defnyddiol er mwyn ennill gofod.

4. **Y gystrawen**

Dylid symleiddio'r gystrawen gan osgoi dechrau isdeitl â gerwnd.

Descending the mountain in the dark is dangerous.	>	*It is dangerous to descend the mountain in the dark.*

Dylid osgoi dechrau isdeitl gyda *"Because"*.

Because of the noise, I was awake.	>	*The noise kept me awake.*

5. **Yr arddodiad**

Dylid osgoi diweddu isdeitl ag arddodiad.

Haven't you got school to go to?	>	*Shouldn't you be at school?*

6. **Ymadroddion yn dynodi amser, dyddiad a lleoliad**

Fel arfer, gosodir ymadroddion sy'n dynodi amser, dyddiad a lleoliad ar ddechrau'r isdeitl.

We all wore flares in the 1970s.	>	*In the 1970s, we all wore flares.*

Os oes perygl bod rhaid hepgor y coma sy'n dilyn yr ymadrodd arddodiadol am fod un bwlch yn brin, gellir gosod y ffurf ar ddiwedd yr isdeitl weithiau. Mae hyn yn osgoi defnyddio'r coma ac yn ennill un llythyren.

Every Sunday she made a roast lunch.	>	*She made a roast lunch every Sunday.*

7. **Cysondeb person**

Mae cadw at yr un person gramadegol o fewn brawddeg sy'n cyfeirio'n unig at y person hwnnw / y personau hynny yn hwyluso rhediad yr isdeitl.

You're the ones who want to hide their legs.	>	*You're the ones who want to hide your legs.*

8. **Yr ystyr cywir**

Dylid ystyried delfrydu'r olyniad gramadegol os oes perygl i'r gwyliwr gamddehongli ystyr isdeitl.

He's a different generation.	>	*He is of a different generation.*

Camgymeriadau cyffredin

Dylid ymdrechu i osgoi camgymeriadau cyffredin. Dyma rai enghreifftiau.

9. **Unigol neu luosog?**

Mae sefydliadau megis y Cyngor, y Llywodraeth, yr Heddlu yn enwau unigol sy'n dewis berf 3^{ydd} person unigol.

The Council are examining the case.	>	*The Council is examining the case.*

Mae enwau cyffredin megis tîm, cwpl, hefyd yn enwau unigol sy'n dewis berf 3^{ydd} person unigol ac nid 3^{ydd} person lluosog.

The team have been training hard this season.	>	*The team has been training hard this season.*

Who are our next couple?	>	*Who is our next couple?*

10. **Y fannod amhendant yn y Saesneg**

Mae'r defnydd o *"a"* neu *"an"* yn Saesneg yn amrywio o flaen rhai geiriau sy'n dechrau â'r llythyren *"h"*. Erbyn hyn, bernir gan amryw ieithyddion fod *"an"* yn ffurf hen ffasiwn o flaen y geiriau *"hotel"* a *"historical*".

There's an hotel in the next village.	>	*There's a hotel in the next village.*

11. **Defnyddio'r collnod**

Gocheler rhag camddefnyddio'r ffurfiau *"its"* ac *"it's"*. Ystyr *"its"* yw `"yr un sy'n eiddo i"`; ystyr *"it's"* yw *"it is"* neu *"it has"*.

Its a deal.	>	*It's a deal.*

12. **Defnydd o iaith ramadegol anghywir**

Yn sylfaenol, fel y dywedwyd yn y Canllaw Cyffredinol, disgwylir ieithwedd gywir mewn isdeitlau – a hynny yn arbennig ar raglenni S4C oherwydd, yn gyffredinol, caiff yr iaith Gymraeg ei siarad mewn modd llawer mwy cywir na'r Saesneg. Fodd bynnag, ceir adegau lle clywir iaith sy'n wallus yn y llefaru gwreiddiol ar rai mathau o raglenni. Yr isdeitlydd sy'n penderfynu os bydd yr isdeitl yn cynnwys y math o wallau a glywir yn y llefaru gwreiddiol yn yr isdeitl ar y sgrîn.

Weithiau, gall iaith sy'n wallus a gramadegol anghywir fod yn addas o fewn isdeitl ond ar gyfer math arbennig o gymeriad neu siaradwr. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo cymeriad neu siaradwr yn digwydd siarad Saesneg ac nid Cymraeg. Er enghraifft, os mai "Where's my keys?" ddywedir, mae'n bosibl mai "Where's my keys?" fyddai fwyaf addas yn yr isdeitl, yn hytrach na "Where are my keys?". Ystyrir pob achos yn unigol ond, er mwyn gwneud penderfyniad, os oes modd cyfiawnhau defnydd o Saesneg gramadegol anghywir mewn isdeitl ac os yw'r defnydd ohono yn creu portread mwy credadwy o'r siaradwr, yna mae'n dderbyniol.

12.1 Derbyniol

Er bod y frawddeg *"I don't want nothing from you."* yn ramadegol anghywir, gall fod yn enghraifft o frawddeg wallus fyddai'n dderbyniol o fewn isdeitl e.e. er mwyn adlewyrchu iaith person sy'n siarad yn wallus yn Saesneg neu i atgyfnerthu portread o gymeriad sy'n siarad Cymraeg carbwl mewn drama.

"Dwi ddim isio dim byd gen ti!"

I don't want anything from you!	>	*I don't want nothing from you!*

12.2 Annerbyniol

Pan geir deialog wreiddiol Saesneg sy'n ramadegol anghywir fel yn y frawddeg ganlynol, byddai'r defnydd o'r gair anghywir*"done"* yn yr isdeitl yn lle'r gair cywir *"did"* yn peri mwy o drafferth i'r gwyliwr ac yn drysu ac arafu'r darllen.

"He done this when he was a young lad."

He done this *when he was a young lad.*	>	*He did this* *when he was a young lad.*

Gwahannod

Canllaw cyffredinol

Ynghyd â'r coma, defnyddir y gwahannod i ddynodi saib ac i hwyluso darllen unedau synnwyr o fewn isdeitlau. Mae'r gwahannod yn ddefnyddiol mewn isdeitlau i ddynodi saib hwy na'r coma, mewn olyniad lle mae angen paratoi'r gwyliwr am yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w chyflwyno yn y rhan nesaf o'r frawddeg. Mae'r gwahannod hefyd yn fwy derbyniol o fewn isdeitl na'r colon a'r hanner colon gan ei fod yn haws i'w ddarllen ac yn llai llenyddol ffurfiol.

Defnydd cymeradwy

1. Defnyddir gwahannod

   a) i gyflwyno gwybodaeth neu esboniad pellach ar yr hyn a ddywedwyd eisoes yn y frawddeg

The same old clichés, *coal, rugby, mountains, sheep.*	>	*The same old clichés -* *coal, rugby, mountains, sheep.*

   b) i gyflwyno ail ran brawddeg gyfansawdd sydd heb ei huno â chysylltair cyfartal.

I like the blue vase, *the one on the top shelf.*	>	*I like the blue vase -* *the one on the top shelf.*

Defnydd anghymeradwy

2. Dylid osgoi defnyddio'r gwahannod

   a) i wahanu dau gwestiwn.

When - tomorrow?	>	*When? Tomorrow?*

   Wrth osgoi'r gwahannod yn yr isdeitl diwygiedig uchod, daw'r ystyr yn fwy amlwg ac mae'n llai tebygol o achosi amwysedd rhwng y geiriad posibl *"When tomorrow?"* sy'n dynodi `"Pa bryd yn ystod y dydd yfory?"` yn hytrach na `"Pa bryd? Yfory, neu ryw ddiwrnod arall?"`

   b) i gysylltu dwy frawddeg annibynnol ond a lefarir ar un gwynt – mewn isdeitl â dotiau parhad lle mae'n anaddas dechrau brawddeg newydd arall.

..we're disappointed but they worked hard. I'm proud of them.	>	*..we're disappointed but they worked hard - I'm proud of them.*

Lleoliad cywir mewn isdeitlau dwy linell

3. Mewn isdeitlau dwy linell, gosodir y gwahannod ar ddiwedd y llinell gyntaf ac nid ar ddechrau'r ail linell. Gwneir hyn er mwyn osgoi unrhyw ddryswch rhwng y defnydd arferol o'r gwahannod a'r defnydd arbennig a wneir ohono o fewn isdeitlau cyfansawdd i'w dangos ar ffurf isdeitlau agored yn y sinema.

Gwahanol fathau o raglenni

Canllaw cyffredinol

Ceir amrywiaeth eang o raglenni teledu Cymraeg wedi'u hisdeitlo ar S4C. Disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu naws arbennig y rhaglen dan sylw, boed honno'n rhaglen ddifrifol neu'n rhaglen ysgafn, boed hi'n rhaglen sy'n difyrru neu'n rhaglen ffeithiol, boed hi'n rhaglen sy'n apelio at yr ifanc, at bobl mewn oed, at deuluoedd neu at blant. Er mwyn llunio isdeitlau sy'n addas i naws y rhaglen, rhaid ystyried y math o raglen sydd dan sylw, y math o gynulleidfa fydd yn ei gwylio, amser darlledu'r rhaglen, ynghyd â'r modd y darlledir yr isdeitlau ar y sgrîn – agored neu gaeëdig.

Adloniant – Plant Meithrin

e.e. FFI-FFI A'I FFRINDIAU, SALI MALI, TECWYN Y TRACTOR

Mae gan raglen ar gyfer plant oed meithrin megis FFI-FFI A'I FFRINDIAU, SALI MALI, TECWYN Y TRACTOR, apêl eang nid yn unig i'r plant sy'n ei dilyn yn ffyddlon ond hefyd i'r rhieni neu warchodwyr sy'n ei dilyn lawn mor ffyddlon gyda'r plant. Er mai plant oed meithrin yn bennaf sy'n gwylio'r rhaglenni a isdeitlir, ni ddylid ystyried symleiddio iaith yr isdeitlau fel y cyfryw. Prif bwrpas yr isdeitlau yw galluogi rhieni a gwarchodwyr sy'n dysgu Cymraeg i ddilyn y rhaglen gyda'r plant. O'r herwydd, mae'n hanfodol sicrhau bod amser digonol ar gael i ddarllen pob isdeitl yn hwylus.

Adloniant – Plant Iau

e.e. CER I GREU, CAMPYFAN, MAMA MIA, ATOM

Mae rhaglenni megis CER I GREU, CAMPYFAN, MAMA MIA, ATOM, yn tueddu i fod yn llawn prysurdeb a gweithgareddau. Er mai plant oed ysgol gynradd yn bennaf sy'n gwylio'r math yma o raglen, mae eu rhieni neu warchodwyr hefyd yn eu dilyn yn ogystal. Pan geir llawer o brysurdeb ar y sgrîn, mae'n effeithiol cywasgu'r iaith wreiddiol yn effeithiol fel bod modd darllen yr isdeitlau yn rhwydd tra'n dilyn y gweithgareddau ar y sgrîn. Fodd bynnag, tra'n crynhoi, ni ddylid symleiddio iaith yr isdeitlau fel y cyfryw.

Adloniant – Plant Ifanc

e.e. UNED 5, POPTY, BANDIT

Ceir rhaglenni ag apêl arbennig i'r ifanc, megis UNED 5 a POPTY sy'n cael eu darlledu ddiwedd y prynhawn ac yna rhaglen megis BANDIT i'r rhai hŷn sy'n cael ei darlledu'n hwyr gyda'r nos. Mae UNED 5 a POPTY yn rhaglenni sy'n cael eu darlledu'n fyw. Darperir rhai isdeitlau o flaen llaw, e.e. isdeitlau caneuon ond darperir eraill, e.e. isdeitlau sgyrsiau byw, yn ystod y darllediad. Mae caneuon cyfoes yn rhan bwysig o'r rhaglenni hyn a'r her i isdeitlydd yw isdeitlo geiriau cân anodd i'w deall, e.e. cân rap, oddi ar y trac sain yn unig.

Adloniant – Teuluol

e.e. NOSON LAWEN, WAW FFACTOR, CODI CANU

Mae rhaglen megis NOSON LAWEN yn un ysgafn sy'n difyrru o'r dechrau i'r diwedd. Rhwng y cyflwyniadau cerddorol, mae'r llefaru yn llawn hiwmor. Ar gyfer isdeitlo jôc neu sgets, dewisir iaith fywiog sy'n cyd-fynd ag ysbryd yr hiwmor a cheisir addasu ac ail-greu'r hiwmor fel y gwelir orau. Mewn rhaglen fel WAW FFACTOR, mae'r ymgeiswyr yn canu llawer iawn o gyfieithiadau Cymraeg o ganeuon cyfoes Saesneg. Defnyddir geiriau'r caneuon gwreiddiol Saesneg ar gyfer yr isdeitlau hyn yn hytrach na rhydd-gyfieithiadau. Fodd bynnag, mewn rhaglen fel CODI CANU, ceir llawer o emynau a chaneuon traddodiadol Cymraeg, a defnyddir cyfieithiadau cydnabyddedig Saesneg o'r geiriau Cymraeg ar gyfer yr isdeitlau os oes cyfieithiad yn bodoli. Os nad oes cyfieithiad yn bodoli, gellir creu rhydd-gyfieithiad.

Adloniant – Oedolion

e.e. CNEX, JONATHAN, PROCAR POETH

Mae'r rhaglenni hyn yn llawn hiwmor a cheisir creu yr un naws yn yr isdeitlau. Ond gall y math yma o raglen gynnwys sawl enghraifft o iaith gref yn ogystal oherwydd natur y cynnwys a'r ffaith y darlledir y rhaglenni ar ôl naw o'r gloch y nos. Pan geir iaith gref yn y llefaru gwreiddiol, dylid ystyried pob achos yn unigol er mwyn gwneud y trosiad addas ar gyfer yr isdeitl, ond heb anghofio bod iaith gref ysgrifenedig o fewn isdeitl yn creu argraff llawer cryfach ar y gwyliwr na'r iaith gref a glywir ar lafar.

Animeiddio

e.e. GELERT

Mae natur weledol, liwgar rhaglenni wedi'u hanimeiddio yn gefndir delfrydol i isdeitlau lliwgar teletestun. Mae dulliau cynhyrchu cartŵn yn fwyaf arbennig, yn golygu fod modd amseru isdeitlau ar gyfer y cyfrwng hwn yn gymharol hawdd. Mae'r ddau gyfrwng yn asio'n rhwydd. Mae rhaglenni wedi'u hanimeiddio hefyd yn arbennig o addas ar gyfer eu dybio. O ganlyniad, ac eithrio rhaglenni plant meithrin, prin y ceir cyfle yng Nghymru i isdeitlo rhaglenni wedi'u hanimeiddio.

Cerddoriaeth

e.e. CÔR CYMRU, CÂN I GYMRU, DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL, CYNGHERDDAU GŴYL Y FAENOL, EISTEDDFOD YR URDD

Ers 2002, isdeitlir caneuon ar raglenni S4C a cheir mathau amrywiol o raglenni sy'n cynnwys cerddoriaeth. Ystyrir pob cân yn unigol er mwyn penderfynu ar y math o gyfieithiad sy'n addas. Gall yr isdeitlydd benderfynu darparu isdeitlau ar sail cyfieithiad cydnabyddedig o gân neu greu rhydd-gyfieithiad o gân – neu gall y cwmni cynhyrchu gomisiynu cyfieithiad o gân. Os mai cerddoriaeth offerynnol yn unig geir o fewn rhaglen, disgwylir isdeitlau ar gyfer y cyflwyniadau ac unrhyw deitlau *Aston.*

Chwaraeon

e.e. Y CLWB RYGBI, SGORIO

Mae rhaglenni megis Y CLWB RYGBI a SGORIO yn cael eu hisdeitlo'n fyw. Wrth isdeitlo rhaglen chwaraeon yn fyw, dylid ceisio darparu'r wybodaeth angenrheidiol heb darfu ar fwynhad y gwyliwr o'r gêm. Lle mae angen i'r gwyliwr weld yn glir yr hyn sy'n digwydd ar

waelod y sgrîn, mae'n addas newid lleoliad yr isdeitlau a'u gosod ar dop y sgrîn. Dylid ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau allweddol ar y cae a'u cyflwyno o fewn eu cyd-destun. Yn achos isdeitlo byw, rhaid ceisio osgoi creu isdeitl neu gyfres o isdeitlau anorffenedig. Disgwylir i'r isdeitlau lifo'n esmwyth ac yn gyson.

Comedi

e.e. PORC PEIS BACH, COWBOIS AC INJANS, 9 TAN 9, MAWR

Ceir amrywiol raglenni comedi, pob un â'u hapêl arbennig eu hunain, megis PORC PEIS BACH, COWBOIS AC INJANS, 9 TAN 9, MAWR. Yn y cyfresi drama comedi, mae cymeriadu'n allweddol. Ymdrechir i greu argraff gredadwy yn yr isdeitlau ac i gyfleu'r hiwmor drwy ddewis pwrpasol o eiriau. Mae amseru'r isdeitlau yn hollbwysig mewn comedi sefyllfa yn ogystal. Mewn rhaglen ddychan megis MAWR, lle mae'r comedi yn aml yn dibynnu ar eiriau, mae'r dewis o eiriau yn allweddol er mwyn dod â'r hiwmor yn fyw. Gocheler, fodd bynnag, mewn pob math o raglenni comedi, nad yw'r ergyd yn ymddangos un ai'n rhy gynnar neu'n rhy hwyr yn yr isdeitl.

Cwis

e.e. MASTERMIND CYMRU, TIPIT, RISG!

Mae rhaglenni cwis yn gyfuniad o ffeithiau a difyrrwch ar yr un pryd. Ffeithiau sy'n difyrru! Ar gyfer isdeitlo'r cwestiynau, dylid dewis iaith safonol, ddi-amwys a chlir. Ar gyfer isdeitlo'r sgwrs â'r cystadleuwyr, gellir taro nodyn mwy sionc a hepgor rhagor o eiriau diangen. Mae rhaglenni cwis megis TIPIT a RISG!, yn ysgafnach o ran eu cynnwys na rhai rhaglenni cwis mwy dyrys megis, MASTERMIND CYMRU. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, fod pob cyfeiriad, pob enw priod a phob teitl, ym mhob cwestiwn, ym mhob math o gwis, wedi'i ymchwilio'n drwyadl fel na cheir yr un gwall sillafu yn yr isdeitlo.

Darllediadau gwleidyddol

Mae darllediadau pleidiau gwleidyddol yn rhaglenni arbenigol. Wrth isdeitlo rhaglenni sy'n ymdrin â'r maes gwleidyddol, dylid ceisio mynegi'r union eiriau a cheisio adlewyrchu union drefn y geiriau a glywir heb bellhau mwy na sydd raid oddi wrth y fersiwn gwreiddiol. Y nod yw creu isdeitlau mor ddiduedd â phosibl gan hepgor geiriau dibwys yn unig.

Diddordeb arbennig

e.e. 04WAL, CWPWRDD DILLAD, CEFN GWLAD, FFERMIO, DUDLEY, CRWYDRO, AR DY FEIC

Mae rhaglenni diddordeb arbennig ar gynnydd yn y byd darlledu - ar S4C yn ogystal. Ceir rhaglenni megis - 04WAL, CWPWRDD DILLAD, CEFN GWLAD, FFERMIO, DUDLEY, CRWYDRO, AR DY FEIC, pob un ohonynt ag apêl unigryw. Mewn rhaglen arbenigol, rhaid disgwyl i'r eirfa fod yn gywir, e.e. termau pensaernïol o'r cyfnod Sioraidd, enw ar fath arbennig o ddafad, dull arbennig o goginio cerrig gleision, enw tref yn Norwy. Ar raglenni o'r fath, ni ddylai'r iaith fod yn rhy ffurfiol a dylai'r isdeitlau ddarllen yn hwyliog gan fod y llefaru yn tueddu i symud yn sionc.

Dogfen

e.e. CYMRU A'R CHWYLDRO DIWYDIANNOL, AMERICA A'R GYMRU GAETH, HANES CYMRU A'R MÔR, Y TŶ CYMREIG

Ceir rhaglenni dogfen hanesyddol, swmpus megis CYMRU A'R CHWYLDRO DIWYDIANNOL, AMERICA A'R GYMRU GAETH, a rhai sydd o ddiddordeb mwy amrywiol megis Y TŶ CYMREIG, SIOE GELF, AR DY FEIC. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i bob rhaglen ddogfen, sef yr angen i fynegi'r ffeithiau yn gyflawn ac yn glir gan ddefnyddio iaith gywir, safonol a ffurfiol. Mae sicrhau cywirdeb o ran sillafu termau arbennig yn hollbwysig hefyd. Mewn dogfen, ceir llawer llai o doriadau camera o'i gymharu â'r hyn a geir mewn drama. Mae'r arddull hwn o ffilmio yn galluogi'r isdeitlydd i greu cyfresi o isdeitlau dwy linell llawn rhwng y toriadau camera a chyflwyno'r wybodaeth mor gyflawn a di-dor â phosibl.

Drama

e.e. CON PASSIONATE, TREFLAN, CAERDYDD, DARN O DIR, TIPYN O STAD

O ddramâu cyfres clasurol megis TREFLAN i ddramâu cyfres cyfoes megis CAERDYDD i rai gydag apêl fwy arbennig, megis CON PASSIONATE sy'n cynnwys llawer o gerddoriaeth, ceir amrywiaeth eang. Mae Capten Trefor, y perchennog cwmni yn TREFLAN, Parchus, y disgybl ysgol yn DARN O DIR, Neil, y gyrrwr tacsi yn TIPYN O STAD ac Elen, y fyfyrwraig yn Caerdydd, i gyd yn siarad tafodieithoedd gwahanol. Rhaid felly i'r isdeitlau adlewyrchu hyn, yn ogystal â chyfnod y ddrama a chywair yr iaith a siaredir gan y gwahanol gymeriadau.

Un agwedd nodweddiadol ynglŷn â'r ddrama gyfres CON PASSIONATE yw'r defnydd a wneir o'r gwahanol ganeuon a genir ym mhob pennod – ac mae sawl un o'r rheini yn gyfieithiadau Cymraeg o ganeuon gwreiddiol Saesneg. Ond yr hyn sy'n addas weithiau ar gyfer yr isdeitlau, yw gosod rhydd-gyfieithiad o'r Gymraeg yn ôl i'r Saesneg ar y sgrîn yn hytrach na'r fersiwn wreiddiol Saesneg. Gwneir hyn oherwydd bod geiriad y fersiynau Cymraeg yn aml yn wahanol i'r rhai gwreddiol Saesneg a'u bod wedi eu dewis yn benodol er mwyn i'r geiriau atgyfnerthu'r hyn sy'n digwydd ar y sgrîn a'u bod yn effeithio neu'n dylanwadu ar ddatblygiad y stori.

Ffilmiau

e.e. Y MYNYDD GRUG, LOIS, OED YR ADDEWID, O'R MÔR I'R MYNYDD

Mae'r diwydiant ffilmiau ar gyfer y sgrîn lydan yn dal ei dir yng Nghymru er mai bychan iawn, hyd yma, yw'r cynnyrch o'i gymharu ag eiddo'r diwydiant teledu. Yn gyffredinol, ar gyfer isdeitlo ffilm, mae angen cywasgu llawer mwy ar y ddeialog wreiddiol fel bod llai o eiriau'n ymddangos ar y sgrîn a seibiau hwy heb isdeitlau. Er bod cynnwys ffilmiau yn amrywio – Y MYNYDD GRUG, LOIS, OED YR ADDEWID, O'R MÔR I'R MYNYDD – mae'r rhythm yn tueddu i fod yn arafach. O ran y cymeriadu, mae'n amlwg ei bod yn hanfodol fod iaith yr isdeitlau'n gweddu'n berffaith i naws y ffilm a'i chymeriadau.

Materion cyfoes

e.e. Y BYD AR BEDWAR, TARO NAW, WEDI 3, WEDI 7

Trafodir amrywiaeth eang o bynciau o fewn cwmpas rhaglenni materion cyfoes - o bynciau llosg y dydd ar Y BYD AR BEDWAR i TARO NAW ac eitemau mwy ysgafn ar WEDI 3 a WEDI 7. Mae cynnwys y rhain, yn naturiol, yn amrywio'n fawr. Yr hyn sy'n gyffredin

iddynt oll yw bod angen cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl o fewn yr isdeitlau. Disgwylir iaith fwy ffurfiol wrth isdeitlo geiriau'r cyflwynydd sy'n adrodd ffeithiau wedi'u sgriptio. Dylid parchu'r elfen lafar sydd heb ei sgriptio wrth isdeitlo geiriau cyfranwyr o fewn cyfweliadau. Dylid bob amser sicrhau bod sillafiad termau arbenigol yn gywir.

Newyddion

Disgwylir i isdeitlau'r rhaglen NEWYDDION gyfleu'r hyn a ddywedir gan y cyflwynydd newyddion a'r newyddiadurwyr, yn ogystal â'r hyn a lefarir mewn cyfweliadau. Rhaid gwneud hynny yn gyflawn ac yn eglur heb bellhau fwy na sydd raid oddi wrth y fersiwn gwreiddiol. Y nod yw creu isdeitlau sydd mor ddiduedd â phosibl gan hepgor geiriau dibwys yn unig. Mae'r rhaglen ei hun yn llawn gwybodaeth a cheisir cynnwys cymaint o'r wybodaeth ag y gellir o fewn y cyfyngiadau amser. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol defnyddir iaith gynnil a chryno.

Operâu

e.e. RIGOLETTO, DER FLIEGENDE HOLLANDER, MADAME BUTTERFLY

Gan mai bwriad isdeitlau operâu megis RIGOLETTO, DER FLIEGENDE HOLLANDER, MADAME BUTTERFLY, yw cyfleu ystyr y geiriau o fewn cyfyngiadau'r gerddoriaeth, ceisir amseru'r isdeitlau fel eu bod yn ymddangos ar y sgrîn i gyd-fynd â'r caneuon. Ni ddylai hyn fod yn anodd gan fod yr amser a gymerir i ganu geiriau yn hwy, fel arfer, na'r amser a gymer i'w llefaru. O safbwynt cynnwys yr isdeitlau, disgwylir iaith safonol ar y cyfan.

Operâu Sebon

e.e. POBOL Y CWM, ROWND A ROWND

Mae operâu sebon, gan gynnwys POBOL Y CWM a ROWND A ROWND yn enwog am eu stereoteipiau. Am gyfnodau hir, mae'r un cymeriadau yn dweud yr un pethau ac yn ymddwyn yn yr un ffordd. Hyd yn oed os yw sefyllfa cymeriad yn newid, ychydig o ddatblygiad a geir o safbwynt y cymeriad ei hun. Mae'n parhau i siarad yn yr un ffordd. Mae rhywbeth cartrefol am hyn i gyd. Disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu'r byd cyfarwydd hwn a sefydlu portread o'r cymeriad o'r dechrau a chadw at yr un arddull wrth gofnodi'r llefaru.

Pry ar y Wal

e.e. CARIAD@IAITH, CINIO CARU

Mae portread effeithiol o'r cymeriadau dan y chwyddwydr yn hanfodol mewn rhaglen pry ar y wal a disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu'r personoliaethau unigol. Mae'r iaith lafar yn elfen bwysig hefyd – a gellir disgwyl iaith gref. Hollbwysig felly yw ymdrin ag unryw achos o iaith gref yn yr isdeitlau yn unol â'r amser darlledu a'r modd y darlledir yr isdeitlau. Yn olaf, mae hiwmor yn elfen annatod o ddarllediad pry ar y wal, a disgwylir i'r isdeitlau lwyddo i wneud i'r gwylwyr isdeitlau chwerthin hefyd.

Gwylwyr byddar neu drwm eu clyw

Canllaw cyffredinol

Er mai prif bwrpas isdeitlau Saesneg S4C yw galluogi gwylwyr di-Gymraeg i ddilyn rhaglenni yn yr iaith Gymraeg, mae'r sianel hefyd yn cydnabod rôl yr isdeitlau fel cyfrwng sy'n caniatáu i wylwyr byddar neu drwm eu clyw ddilyn ei rhaglenni. Oherwydd hynny, mae S4C wedi mabwysiadu rhai elfennau o arddull arbennig isdeitlau i bobl fyddar neu drwm eu clyw, megis defnyddio lliw newydd i bob siaradwr newydd a chynnwys esboniadau ar y sgrîn o synau sy'n achosi ymateb gan gymeriadau yn y llun ynghŷd â disgrifiadau o synau sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei ddweud.

Fodd bynnag, nid yw S4C wedi mabwysiadu capsiynau effeithiau sain ar gyfer pob effaith sain. Fel canllaw cyffredinol, tra'n penderfynu creu neu hepgor capsiwn effaith sain, ceisir bod mor gynnil â phosibl gyda'r nifer o gapsiynau fesul rhaglen, fel eu bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar lif yr isdeitlau ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg nad ydynt yn fyddar na thrwm eu clyw.

Effeithiau sain

(Gweler is-bennawd ar Effeithiau Sain.)

Hiwmor

Canllaw cyffredinol

Mae'n ystrydeb dweud nad yw hiwmor yn cyfieithu'n hawdd o'r naill iaith i'r llall. Ond, at ei gilydd, mae hyn yn wir. Oherwydd bod hiwmor yn dibynnu llawer ar ffactorau megis chwarae ar eiriau, gwahaniaethau tafodieithol, cymeriadau lleol ac ati, mae trosi hiwmor - boed gomedi sefyllfa, jôc, golygfa ddoniol o fewn drama - yn gofyn am ddychymyg byw i allu addasu'r llefaru gwreiddiol. Mae galw nid yn unig i drosi o'r naill iaith i'r llall, ond yn ogystal drosi o'r naill ddiwylliant i'r llall. Rhaid sicrhau geiriad sy'n gwneud synnwyr o ran ystyr ac sy'n argyhoeddi o ran hiwmor.

Chwarae ar eiriau

1. **Arfer cymeradwy**

1.1 Er mwyn cyfleu'r un math o hiwmor yn yr isdeitl, weithiau rhaid newid y cyd-destun a phellhau'n fwriadol oddi wrth y jôc wreiddiol. Mae hyn yn sicr yn wir yn yr enghraifft hon, pan nad yw'r chwarae ar y gair benthyg *"degree"* a `"digri"` yn cyfleu dim yn y Saesneg.

```
"Sut mae o heddiw?"
"Degree yn well. Fe wnaeth ei hiwmor achub ei fywyd."
```

How is he today?	>	*How is he today?*
A degree better. *His humour saved his life.*	>	*A trifle better.* *His appetite saved his life.*

Weithiau, mae trosi chwarae ar eiriau yn dod yn haws fel yn yr enghraifft ganlynol.

```
- "Cnoc, Cnoc. Pwy sy 'na?
      - Iorwerth.
   - Iorwerth pwy?
 - Iorwerth mewn preseb."
```

Knock, knock. Who's there?	>	*Knock, knock. Who's there?*
Iorwerth.	>	*Wayne.*
Iorwerth who?	>	*Wayne who?*
Away in a manger.	>	*A-wayne a manger.*

1.2 Dengys yr enghraifft ganlynol mor bwysig yw gochel rhag cyfieithu llythrennol.

```
"Mae'n glymhaliwr o fri a byth yn rhaffu celwyddau."
```

He's a great abseiler *and never tells lies.*	>	*He's a great abseiler* *and never strings people along.*

1.3 Eto, mae modd trosi'r frawddeg ganlynol yn weddol llythrennol i'r Saesneg, ond dengys yr enghraifft sut y gall ychydig o ddychymyg droi isdeitl llythrennol i un

llawer mwy cofiadwy. Yr eironi yw bod y sawl sy'n siarad yn cynganeddu heb sylweddoli ei fod yn gwneud. Mae'r gallu felly i lunio isdeitl sy'n darllen fel llinell o farddoniaeth yn ychwanegu llawer at bortread y cymeriad a naws ei hiwmor arbennig.

"Af i fy medd cyn cynganeddu."

I'll be in my grave *before I'm a poet.*	>	*I'll ride in a hearse* *before writing a verse.*

1.4. Mae Cymraeg llafar yn frith o fenthyceiriau o'r Saesneg. Yn achos berfau, mae rhai megis *"to like"* - "licio" – wedi ymgartrefu'n well nag eraill. Ond mae'r ferf *"to insinuate"* yn soffistigedig ac yn digwydd yn anaml fel gair benthyg. Mae'n air doniol pan fo wedi'i Gymreigio ac yn dod o enau unigolyn sy'n ymdrechu i ddangos ei hun drwy ei wybodaeth o eiriau benthyg mawreddog ond diangen o'r Saesneg.

"Beth wyt ti'n insinwatio?"

What are you insinuating?	>	*What are you incinerating?*

Yn yr enghraifft hon, mae'r ferf wedi newid o *"insinuating"* i *"incinerating"* yn fwriadol er mwyn ail-greu'r hiwmor gwreiddiol Cymraeg.

2. **Arfer anghymeradwy**

Mae geiriau sy'n swnio'r un peth yn yr iaith Gymraeg megis, "rhiw" a "rhyw" yn hen ffefrynnau gan ddigrifwyr. Ond nid hawdd yw trosglwyddo'r tebygrwydd i iaith arall. Mae angen bod yn ddyfeisgar ac mae pob achos yn wahanol. Tra'n parchu pob ymdrech i drosi jôc, ni chymeradwyir gosod esboniad o'r geiriau allweddol mewn cromfachau, megis [*"rhiw"* = hill; *"rhyw"* = sex.]. Nid yw hyn yn cyfleu'r hiwmor yn llwyddiannus. Byddai trosiad llythrennol o'r math yn rhoi'r argraff anghywir ac yn ennyn diffyg hyder yn y gwyliwr i ddilyn yr isdeitlau.

Gwahaniaethau tafodieithol

3. Ceir hiwmor mewn rhaglenni teledu Cymraeg sydd wedi'i seilio ar wahaniaethau tafodieithol, yn enwedig y gwahaniaeth rhwng iaith y gogledd ac iaith y de. Ond mae sefyllfa, lle y mae dau gymeriad yn cael anhawster i ddeall ei gilydd yn siarad, yn anodd iawn i'w gyfleu mewn iaith arall pan nad oes modd trosi'r gwahaniaethau rhwng ffurfiau mor sylfaenol â'r diarhebol "fo" a "fe", a llu o ffurfiau eraill, megis "bennu" a "gorffen", "allan" a "mas", "eisiau" a "moyn", "danfon" a "hala", "fyny grisiau" a "lan stâr", "taid a nain" a "mamgu a tadcu", "fferins" neu "da-da" a "losin", "gwartheg" a "da". Ceir achos o'r math hwn o gamddealltwriaeth yn yr isdeitl isod.

- "Ti 'di bennu?"
- "Pwy 'di Benny? George dw i!"

Have you finished?	>	*Are you Benny?*
Who's Benny? I'm George!	>	*Who's Benny? I'm George!*

Mae'r enghraifft ganlynol yn chwarae ar yr un gwahaniaethau tafodiaethol ond yn mynd ychydig ymhellach ac yn cyrraedd canlyniad annisgwyl sy'n digwydd bod yn

hawdd i'w ailadrodd yn yr isdeitl oherwydd ei fod yn seiliedig ar air benthyg yn hytrach na gair Cymraeg gwreiddiol.

"Wyt ti'n gorfod cyfieithu o'r gogledd i'r de?"
"Ma 'da ti "nawr" yn y de a "rwan" yn y gogledd!"
"Ma' nhw "*back to front*" yn y gogledd, yn dyn nhw?"
"Gobeithio na wnei di ormod o "tawt" ohonot dy hun heno!"

Do you have to translate from north to south?	>	*Do you have to translate from north to south?*
We say "nawr" in the south but "rwan" in the north.	>	*We say "nawr" in the south but "rwan" in the north.*
They're back to front in the north.	>	*They're back to front in the north.*
Don't get yourself tongue-tied tonight!	>	*Don't make a "tawt" of yourself tonight!*

Trosi odl neu gynghanedd

4. Oherwydd traddodiad y gynghanedd yng Nghymru, weithiau, ceir ymgais at gynganeddu doniol. Wrth drosi brawddeg megis, *"Mae fferau Frank yn fferru.",* mae'n briodol dewis geiriau am eu heffaith seinegol yn hytrach nag am eu hystyr.

Frank's ankles are freezing.	>	*Frank's footsies are freezing.*

Fformadu hiwmor

5. Lle ceir hiwmor, gellir grymuso ergyd yr olyniad drwy ohirio gosod ergyd yr hiwmor tan yr isdeitl dilynol.

Take a look in the mirror.	>	*Take a look in the mirror.*
Your hair has turned orange!		*Your hair has turned orange!*

Amseriad yr ergyd

6. Gocheler rhag gosod yr ergyd ar y sgrîn yn rhy gynnar – nac yn rhy hwyr ychwaith. Mae hon yn ystyriaeth hynod bwysig yng Nghymru oherwydd y nifer sylweddol o wylwyr dwyieithog fyddai'n edrych ar yr isdeitlau ar yr un pryd â'r gwylwyr di-Gymraeg.

Defnydd o'r ebychnod

7. Ceir awydd, wrth isdeitlo jôc, comedi neu ddarn doniol o fewn drama, i osod ebychnod ar ôl bron y cyfan a gaiff ei ddweud oherwydd digrifwch, gwiriondeb, anghrediniaeth ac ati, fel rhyw arwydd o gydymdeimlad â'r cymeriadau. Gocheler rhag lliwio gormod ar yr hiwmor drwy or-ddefnyddio'r ebychnod. Drwy lygaid y cymeriad y gwerthfawrogir yr hiwmor ac nid drwy lygaid yr isdeitlydd. Ni ddylai'r isdeitlydd gamu i esgidiau'r cyfarwyddwr. Rheswm arall dros gynilo ar y defnydd a wneir o'r ebychnod yw bod cynildeb yn fwy effeithiol na chawod o ebychnodau. Ceisir felly ymatal rhag gorddefnyddio'r ebychnod a'i ddewis yn unig pan fo ei wir angen.

This van is likePete's gut!	>	*This van is likePete's gut.*
Yeah! Loads of room and impossible to fill!!	>	*Yeah. Loads of room and impossible to fill!*

Osgoi hiwmor anfwriadol

8. Mae geiriad yr isdeitl isod yn drosiad air am air o'r Gymraeg. Fodd bynnag, heb y dyfynodau o amgylch y gair *"dark"*, mae perygl y byddai'r disgrifiad o'r gwaith camera tywyll yn troi'r isdeitl yn jôc anfwriadol.

```
"R'on i'n hoffi'r gwaith camera. Roedd o'n dywyll iawn."
```

I liked the camerawork. It was really dark.	>	*I liked the camerawork. It was really 'dark'.*

Iaith dramor yn y llefaru gwreiddiol

Canllaw cyffredinol

Ceir elfennau o ieithoedd tramor yn gynyddol o fewn y llefaru Cymraeg gwreiddiol ar raglenni S4C. Fe ddigwyddant yn eiriau unigol, yn ymadroddion, yn dameidiau o sgwrs neu'n sgyrsiau cyfan. Gan amlaf, pan geir pwt o sgwrs neu sgwrs gyfan mewn iaith dramor, bydd isdeitlau agored Cymraeg ar y sgrîn. Pan geir isdeitlau Cymraeg ar y sgrîn, dylid darparu isdeitlau Saesneg ar eu cyfer. Os na cheir isdeitlau Cymraeg, nid oes angen isdeitlau Saesneg.

Mae isdeitlau agored Cymraeg yn fater i'r cwmni cynhyrchu. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai cwmnïau cynhyrchu ymgynghori â'r adran isdeitlo yn S4C cyn ychwanegu isdeitlau agored Cymraeg er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau y cyfeirir atynt yma.

Geiriau ac ymadroddion benthyg

1. Fel arfer, ni chyfieithir geiriau unigol nac ymadroddion benthyg cyfarwydd megis, `"Bonjour", "croissant", "déjà vu", "Adios, amigos", "Ciao".` Gellir cynnwys ffurfiau o'r fath yn yr isdeitl heb ddyfynodau o'u hamgylch. Ond os ceir elfennau neu ymadroddion llai cyfarwydd megis, `"je ne sais quoi", "moules frites", "Sprechen Sie Deutsch?"` gellir eu gosod o fewn dyfynodau. Heb ddyfynodau, mae termau tramor llai cyfarwydd yn gallu arafu'r darllen gan nad ydynt yn ffurfio rhan naturiol o'r llefaru Cymraeg. Yn ddelfrydol, dylid gosod acenion lle y mae hynny'n angenrheidiol, megis `"passé"`. Nid yw hyn yn bosibl gydag isdeitlau caeëdig (analog neu ddigidol) ar hyn o bryd.

Llefaru gwreiddiol mewn iaith dramor

2. Pan geir llefaru gwreiddiol mewn iaith dramor o fewn rhaglen, ceir isdeitlau agored Cymraeg ar y sgrîn. Mewn achosion fel hyn, dylid creu isdeitlau Saesneg sy'n cyfateb i gynnwys yr isdeitlau Cymraeg, ac nid i gynnwys yr iaith dramor.

2.1 **Fformadu isdeitlau Saesneg ar sail isdeitlau agored Cymraeg**

Fel arfer, lleolir yr isdeitlau Saesneg drwch isdeitl un llinell uwchben yr isdeitlau Cymraeg. Os digwydd i isdeitl Saesneg orchuddio rhan isaf wyneb siaradwr neu unrhyw ran allweddol arall o'r llun, gosodir yr isdeitl ar dop y sgrîn. Mae'n bwysig nad yw'r isdeitlau Saesneg yn gorchuddio'r isdeitlau Cymraeg ac nad yw'r ddwy set o isdeitlau yn gorgyffwrdd. Mae'n bosibl bod dau wyliwr yn dilyn y rhaglen ar yr un pryd – y naill yn dilyn y Gymraeg a'r llall yn gwylio'r fersiwn Saesneg.

2.2 **Amseru isdeitlau Saesneg ar sail isdeitlau agored Cymraeg**

Wrth amseru'r isdeitlau Saesneg, dylid cydamseru'r codau amser i mewn ac allan gyda chodau i mewn ac allan yr isdeitlau Cymraeg fel bod y ddwy set o isdeitlau yn rhedeg mor llyfn â phosibl. Derbynnir, fodd bynnag, fod y dasg honno yn un anodd iawn i'w chyflawni oherwydd y gwahaniaethau rhwng y toriadau ieithyddol naturiol yn y ddwy fersiwn pan geir brawddeg yn ymestyn dros ddau neu dri isdeitl. Fodd bynnag, gan mai'r flaenoriaeth yw sicrhau bod yr isdeitlau Cymraeg a'r rhai Saesneg yn cyd-symud

ac yn ymddangos a diflannu oddi ar y sgrîn ar yr un pryd, gall hyn olygu bod posibilrwydd na chaiff egwyddorion arferol isdeitlau teletestun eu parchu ar bob achlysur gan nad yw pob cynhyrchiad yn amseru eu hisdeitlau agored Cymraeg ar sail egwyddorion isdeitlau teletestun o safbwynt hyd isdeitlau, cydamseru'r isdeitlau gyda'r llefaru gwreiddiol a rhoi gofod rhwng isdeitlau.

2.3 Cynnwys ieithyddol isdeitlau agored Cymraeg

Disgwylir i'r isdeitlau Cymraeg adlewyrchu mor llawn â phosib y llefaru gwreiddiol. Mae crynhoi yn ormodol cynnwys yr iaith dramor yn golygu bod y llefaru gwreiddiol i'w glywed am gyfnod llawer hirach na hyd yr isdeitl agored Cymraeg, ac mae hyn yn tueddu rhoi'r argraff i'r gwyliwr bod rhywbeth ar goll ac yn ennyn teimladau rhwystredig o'r herwydd.

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos darn o lefaru gwreiddiol Ffrangeg sy'n parhau am dros naw eiliad ar y trac sain, sef digon o amser i greu o leiaf ddau, os nad tri, isdeitl agored Cymraeg – a dyna fyddai'r disgwyl – er mwyn gallu creu isdeitlau Saesneg fyddai, nid yn unig yn cyfateb yn llawn i'r isdeitlau agored Cymraeg, ond hefyd i gynnwys a hyd y llefaru Ffrangeg gwreiddiol.

Trac sain llefaru iaith dramor wreiddiol:

"Et ce qu'on communique avec le public, avec les autres et avec soi-même et avec nos collègues, est un autre type de language que celui qu'on utilise maintenant. Donc voilà, c'est un aboutissement de cette première connaissance de la musique. Voilà."

[Ac mae'r hyn rydym ni'n gyflwyno i'r cyhoedd, i eraill ac i ni ein hunain ac i'n cydweithwyr, yn fath gwahanol o iaith i'r hyn rydym ni'n ddefnyddio ar hyn o bryd. Felly, dyna ganlyniad y ddealltwriaeth gynnar hon o gerddoriaeth. Dyna ni.]

Fersiwn wreiddiol o'r isdeitl agored Cymraeg a'r isdeitl Saesneg:

10:50:31:09 09:11 10:50:40:20		10:50:31:09 09:11 10:50:40:20
Fel hyn rydym ni'n cyfathrebu ac yn rhannu ein hiaith gyda'n cynulleidfa.	=	*This is how we communicate and share our language with our audience.*

Fersiwn ddiwygedig:`

10:50:31:09 01:20 10:50:33:04		10:50:31:09 01:20 10:50:33:04
Mae'r hyn rydym ni'n gyflwyno…	=	*That which we communicate...*
10:50:33:09 03:16 10:50:37:00		10:50:33:09 03:16 10:50:37:00
..yn fath gwahanol o iaith i'r hyn rydym ni'n ddefnyddio ar hyn o bryd.	=	*..is a different type of language to that which we're using now.*
10:50:37:05 03:15 10:50:40:20		10:50:37:05 03:15 10:50:40:20
Mae'n ganlyniad o'r ddealltwriaeth gynnar hon o gerddoriaeth.	=	*It's a culmination of this initial understanding of music.*

Dengys yr enghraifft bod crynhoi darn o lefaru gwreiddiol o'r math hwn i un isdeitl yn grynhoi gormodol. Ac mae crynhoi gormodol, nid yn unig yn arwain at wybodaeth annigonol ac amheuaeth ystyr yn yr isdeitlau agored Cymraeg, ond hefyd, fel y dengys yr enghraifft a ganlyn, yn gallu achosi amheuaeth ystyr yn y geiriau Saesneg yn ogystal gan mai ar sail yr isdeitlau agored Cymraeg y llunir cynnwys y rhai Saesneg, nid ar sail llefaru'r iaith dramor wreiddiol.

Cân mewn iaith dramor

3. Weithiau, mae angen darparu isdeitlau ar gyfer cân mewn iaith dramor. Os nad oes isdeitlau agored Cymraeg ar gyfer y gân, darperir isdeitlau ar sail geiriau tramor y gân wreiddiol. Os ceir isdeitlau agored Cymraeg, darperir isdeitlau Saesneg a'u gosod ar y sgrîn gydag arwyddion # ar ddechrau pob llinell, ac un ar ddiwedd yr isdeitl olaf i gloi, ac yn ôl y canllawiau a ddisgrifir yn 2.1 a 2.2 uchod.

Isdeitlau agored

Canllaw cyffredinol

Pan fo angen creu ffeil o isdeitlau agored fel eu bod yn cael eu darlledu'n agored i bob gwyliwr yn hytrach na'u darlledu'n gaeëdig drwy deletestun, darperir ffeil o isdeitlau agored.

Mae S4C yn defnyddio dau arddull gwahanol wrth baratoi isdeitlau agored.

- Isdeitlau agored ar gyfer rhaglen deledu;
- Isdeitlau agored ar gyfer ffilm i'w dangos ar sgrîn sinema, ar raglen neu ffilm i'w dangos mewn gŵyl ffilm neu ar gyfer gwerthiant tramor.

Oherwydd bod y rhan fwyaf o isdeitlau S4C yn cael eu darlledu drwy gyfrwng teletestun, mae S4C wedi mabwysiadu rhai o nodweddion isdeitlau teletestun ar gyfer isdeitlau agored er mwyn pontio rhwng y ddau gyfrwng. Ond ceir gwahaniaethau yn ogystal, fel y disgrifir isod.

Isdeitlau agored ar gyfer rhaglen deledu

1. Gan amlaf, mae ffeil isdeitlau agored ar gyfer rhaglen deledu yn cael ei chreu o ffeil isdeitlau teletestun. Mae'r canllawiau canlynol yn trafod ffeiliau isdeitlau agored o'r safbwynt hwn. Rhestrir y pwyntiau yn nhrefn yr wyddor yn unig er hwylustod ac nid yn ôl pwysigrwydd.

1.1 **Caneuon**

Defnyddir dyfynodau dwbl yn lle'r arwydd # i ddynodi cân. Fodd bynnag, gellir dileu pytiau o ganeuon (1-2 isdeitl) oni bai bod y dewis o gân yn hollbwysig i ddatblygiad y rhaglen.

1.2 **Diweddu ffeil isdeitlau agored**

Ni roddir capsiwn cydnabod isdeitlau ar ddiwedd ffeil isdeitlau agored. Fodd bynnag, i gloi ffeil isdeitlau agored, mae angen gosod capsiwn gwag gyda chefndir du ar ddiwedd y ffeil i sicrhau nad yw isdeitl olaf y rhaglen yn parhau ar y sgrîn yn rhy hir wrth recordio'r fersiwn isdeitlau agored. Mae'r cefndir du yn golygu na fydd y capsiwn yn weladwy.

1.3 **Cynnwys ieithyddol**

Gellir golygu isdeitlau agored fel bod y cynnwys yn fwy cynnil nag o fewn isdeitlau teletestun. Er enghraifft, gellir hepgor isdeitlau un gair sy'n cynnwys ystyr amlwg megis *"Hiya", "Hello", "Ta-ra"* neu *"OK"*.

Fodd bynnag, pan fo ffeil isdeitlau agored yn cael ei haddasu o ffeil deletestun, dylid cymryd gofal arbennig wrth ddileu isdeitlau pan fo'r isdeitl yn digwydd bod yn rhan o isdeitl cyfansawdd *(add-on*). Os mai'r isdeitl i'w ddileu yw'r isdeitl cyntaf o fewn yr isdeitl cyfansawdd, dylid dileu'r arwydd *add-on* (+) yn gyntaf ac, yn ail, dileu'r isdeitl dan sylw. (Os nad yw'r arwydd *add-on* yn cael ei ddileu, bydd yr isdeitl blaenorol yn

aros ar y sgrîn am gyfnod llawer mwy nag y bwriadwyd.) Os mai'r isdeitl i'w ddileu yw'r ail isdeitl o fewn yr isdeitl cyfansawdd, dylid ail-amseru côd amser allan yr isdeitl cyntaf fel ei fod yn cyd-fynd â'r trac sain.

1.4 Dotiau rhagarweiniol a dotiau diwedd rhannau

Ni cheir dotiau rhagarweiniol "888" na dotiau diwedd rhannau mewn ffeil isdeitlau agored. Fodd bynnag, wrth recordio isdeitlau agored gyda'r cyfarpar sydd ar waith yn S4C, mae angen creu dau gapsiwn 5 neu 10 ffrâm o hyd, y naill a'r llall yn cynnwys atalnod llawn glas ar gefndir du, ar ddechrau'r ffeil a'u hamseru fel eu bod yn ymddangos ar y cloc 20 eiliad cyn dechrau'r rhaglen. Os yw'r rhaglen yn dechrau ar 10:00:00:00, dylai'r cyntaf ymddangos ar 09:59:40:00, a'r ail ymddangos ar 09:59:40:15.

1.5 Effeithiau sain

Ni cheir effeithiau sain mewn ffeil isdeitlau agored. Fodd bynnag, pan fo ffeil isdeitlau agored yn cael ei haddasu o ffeil deletestun, dylid cymryd gofal arbennig wrth ddileu'r effaith sain os yw'r effaith sain yn digwydd bod yn rhan o isdeitl cyfansawdd *(add-on*). Os mai'r effaith sain yw'r isdeitl cyntaf o fewn yr isdeitl cyfansawdd, dylid dileu'r arwydd *add-on* (+) yn gyntaf ac, yn ail, dileu'r effaith sain. (Os nad yw'r arwydd *add-on* yn cael ei ddileu, bydd yr isdeitl blaenorol yn aros ar y sgrîn am gyfnod llawer mwy nag y bwriadwyd.) Os mai'r effaith sain yw'r ail isdeitl o fewn yr isdeitl cyfansawdd, dylid ail-amseru côd amser allan yr isdeitl cyntaf fel ei fod yn cyd-fynd â'r trac sain.

1.6 Fformadu

Pan gaiff ffeil isdeitlau agored ei chreu allan o ffeil deletestun, mae'r uned recordio tâp isdeitlau agored yn newid cyfuniad yr isdeitlau yn awtomatig o'r chwith i'r canol. O'r herwydd, dylid ystyried os dylid addasu ambell i doriad llinell er mwyn gwella sut mae'n edrych a hwyluso'r darllen. Canlyniad arall newid cyfuniad yn awtomatig o'r chwith i'r canol yw bod y weithred hon yn symud yn awtomatig i'r canol unrhyw isdeitl a leolwyd ar yr ochr chwith i deitl *Aston* a leolwyd ar yr ochr dde (neu unrhyw isdeitl a leolwyd ar yr ochr dde i deitl *Aston* a leolwyd ar yr ochr chwith).

Pe digwydd i'r ffeil gynnwys gair mewn lliw gwahanol er mwyn dynodi pwyslais ar air arbennig, dylid golygu'r isdeitl er mwyn sicrhau nad oes gair lliw gwahanol yn ymddangos yn y ffeil isdeitlau agored.

Ni ddefnyddir cromfachau mewn ffeil isdeitlau agored o dan unrhyw amgylchiadau.

1.7 Isdeitlau cyfansawdd

Ni cheir isdeitlau cyfansawdd tair llinell mewn isdeitlau agored. Os digwydd i isdeitl cyfansawdd dair llinell ymddangos yn y ffeil, dylid ei dorri i lawr i isdeitl cyfansawdd dwy linell ac ail-amseru'r isdeitlau a addaswyd fel eu bod yn cyd-fynd â'r trac sain. Tra'n gwneud hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod codau amser allan y ddau isdeitl o fewn yr isdeitl cyfansawdd yn darllen yn union yr un amser er mwyn osgoi trafferthion technegol wrth greu'r tâp isdeitlau agored. (Os nad yw'r codau amser allan yn darllen yr un amser yn union, darlledir yr isdeitl cyfansawdd fel dau isdeitl ar wahân ar y sgrîn.)

1.8 Lleoliad

Mae llinellau isdeitlau agored yn cael eu canoli yn awtomatig tra mae'r tâp isdeitlau agored yn cael ei greu, waeth beth oedd lleoliad a chyfuniad yr isdeitlau gwreiddiol.

Os ceir isdeitl yn ymddangos ar yr un pryd â theitl *Aston*, dylid sicrhau bod yr isdeitl yn ymddangos ar y sgrîn trwch isdeitl un llinell uwchben yr *Aston* fel na fo'r *Aston* a'r isdeitl yn gorgyffwrdd. Hefyd, dylid sicrhau nad oes yr un isdeitl yn gorgyffwrdd ag unrhyw ran o deitl *Aston*. Mae perygl i hyn ddigwydd pan fo isdeitl ar y sgrîn wrth i'r *Aston* ymddangos ar y sgrîn a phan fo'n gadael y sgrîn. Gofaler yn arbennig nad yw'r isdeitl olaf cyn yr *Aston* a'r isdeitl cyntaf ar ôl yr *Aston* yn gorgyffwrdd ag unrhyw ran o'r *Aston*. Weithiau, mae angen addasu'r amseru er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae'r canllaw hwn yn hollbwysig o fewn ffeil isdeitlau agored oherwydd natur dryloyw cefndir isdeitlau agored, sy'n wahanol i gefndir du isdeitlau teletestun. Gellir cydweithio â'r uned recordio'r tâp isdeitlau agored er mwyn rhedeg darn o'r ffeil gydag isdeitlau sy'n ymddangos ar yr un pryd ag *Aston* cyn dechrau recordio er mwyn sicrhau na fydd unrhyw isdeitl yn gorgyffwrdd ag unrhyw *Aston*.

1.9 Rhegfeydd

Mae iaith gref a ffurfiau gwaharddedig o fewn rhaglen sy'n cael ei darlledu gydag isdeitlau agored yn gofyn am sylw arbennig iawn, yn enwedig cyn 9.00yh, oherwydd bod pob gwyliwr a phob oedran yn gweld isdeitlau agored ar y sgrîn, nid dim ond gwylwyr sy'n dewis edrych ar isdeitlau teletestun. Mae iaith gref a ffurfiau gwaharddedig o fewn rhaglen sy'n cael ei darlledu gydag isdeitlau agored, hyd yn oed ar ôl 9.00yh, yn gofyn am sylw arbennig. Fodd bynnag, tra disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu hynny, boed drwy gynnwys y ffurf Saesneg neu'r ffurf Saesneg cyfatebol, gall rhai ffurfiau fod yn anaddas ar gyfer darllediad isdeitlau agored. Mewn achos o'r fath, dylid dod o hyd i ffurf fwy meddal neu osod rhes o sêr yn ei le (heb unrhyw lythrennau awgrymiadol) neu ei hepgor.

1.9.1 Ystyriaethau wrth drin rhegfeydd

Wrth benderfynu sut i drin rheg o fewn ffeil isdeitlau, mae'n ddefnyddiol i ystyried natur a phwrpas y rheg honno yn y llefaru gwreiddiol.

- A yw'r defnydd o'r rheg yn bwysig neu yn eithaf dibwys o ran ystyr?
- A yw'r rheg i'w chlywed yn uchel ac yn glir neu a yw'r rheg yn cael ei sibrwd?
- A glywir emosiwn yn y llais neu a yw'r llais yn undonog?
- A ddefnyddir iaith gref yn ddi-reolaeth neu unwaith gyda phwrpas?
- A yw'r rheg yn eithaf derbyniol o fewn tafodiaith leol arbennig ond yn hollol ddieithr ac annerbyniol tu allan i dalgylch y dafodiaith?

Mae'n dderbyniol hepgor rheg eithaf dibwys neu reg sy'n cael ei sibrwd – ac nid yw rheg undonog yn creu yr un argraff â rheg uchel ac emosiynol. Ar y llaw arall, nid oes raid defnyddio'r union reg wreiddiol (neu'r ffurf gyfatebol Saesneg) yn yr isdeitl hyd yn oed os yw'r rheg yn uchel ac emosiynol. Os yw'r rheg yn anaddas, dylid defnyddio ffurf fwy meddal. Pan glywir rhegfeydd yn cael eu hail-adrodd yn ddi-reolaeth, gellir hepgor sawl un. Mewn ambell ardal neu gymuned, mae'n arferiad cymdeithasol defnyddio rhai mathau o regfeydd fyddai'n cael eu hystyried yn annerbyniol mewn ardal arall. Mewn achos lle mae portread lleol yn bwysig, mae'n bosibl y gellid derbyn cynnwys o fewn isdeitl rheg a fyddai fel arall wedi cael ei newid am ffurf fwy meddal.

1.9.2 Tabl opsiynau ar gyfer trin rhegfeydd

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r amgylchiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer darlledu isdeitlau rhaglenni sy'n cynnwys iaith gref ar S4C. Nid ydym yn cynnig atebion i'r cwestiynau uchod nac enghreifftiau penodol yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, rydym wedi crynhoi'r gwahanol amgylchiadau i'w hystyried a'r opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o regfeydd. Dylai penderfyniad yr isdeitlydd ynglŷn â sut i drin iaith gref o fewn isdeitlau fodloni disgwyliadau'r gwyliwr ar yr un llaw ond ni ddylai, ar y llaw arall, ffrwyno'r effaith a fwriedir. Yn y bôn, mae'n anodd cyffredinoli a dylid ystyried pob achos yn unigol. Os yw isdeitlydd yn teimlo unrhyw ansicrwydd ynglŷn â thrin rhegfeydd, gellir cysylltu â'r adran isdeitlo yn S4C er mwyn trafod y gwahanol opsiynau a'r modd mwyaf addas o drin yr achos dan sylw. Mae S4C yn ystyried y maes yn un sensitif ac yn croesawu pob trafodaeth.

ISDEITLAU AGORED		
	Opsiynau cyn 9.00yh	**Opsiynau ar ôl 9.00yh**
Rheg gyffredin	Ffurf fwy meddal o'r rheg	Cynnwys y rheg wreiddiol neu'r ffurf gyfatebol Saesneg oni bai ei bod yn gwbl anaddas
	Hepgor y rheg	Ffurf fwy meddal o'r rheg
		Hepgor y rheg
		Rhes o sêr
Nifer o regfeydd cyffredin	Ffurfiau mwy meddal o'r rheg	Cynnwys y rhegfeydd gwreiddiol neu'r ffurfiau cyfatebol Saesneg oni bai eu bod yn gwbl anaddas
	Hepgor y rheg	Rhes o sêr
		Ffurfiau mwy meddal o'r rheg
		Hepgor y rheg
Rheg(feydd) gwaharddedig (tabŵ)	Rhes o sêr	Rhes o sêr
	Ffurf fwy meddal o'r rheg	Ffurf fwy meddal o'r rheg
	Hepgor y rheg	Hepgor y rheg

Isdeitlau agored ar gyfer ffilm i'w dangos ar sgrîn sinema

2. Mae'r canllawiau canlynol yn trin ffeiliau isdeitlau agored ar gyfer dangosiad ar sgrîn sinema, ar raglen neu ffilm i'w dangos mewn gŵyl ffilm neu ar gyfer gwerthiant tramor.

2.1 **Crynhoi mwy**

Wrth greu isdeitlau agored ar gyfer dangosiad ar sgrîn sinema, gellir crynhoi mwy ar y llefaru, lle mae'n addas, nag ar gyfer ffeil teletestun.

2.2 **Llythrennau gwyn ar gefndir du**

Ni ddefnyddir lliwiau gwahanol ar gyfer gwahanol siaradwyr. Defnyddir llythrennau gwyn ar gefndir du yn unig – ond pan ddarlledir yr isdeitlau, mae'r cefndir du yn troi'n gefndir tryloyw.

2.3 **Lleoliad ar ganol gwaelod y sgrîn gan ganoli pob llinell**

Defnyddir lleoliad ar ganol gwaelod y sgrîn gan ganoli pob llinell.

2.4 **Ymgom byr rhwng dau siaradwr**

Pan geir ymgom byr rhwng dau siaradwr, rhoddir dwy frawddeg un llinell wedi'u hunioni ar y chwith o fewn un capsiwn gyda gwahannod ar ddechrau'r ddwy linell i ddynodi dau siaradwr gwahanol. Defnyddir y dechneg hon yn lle'r dechneg o isdeitl cyfansawdd.

10:22:31:00	04:00	10:22:35:00

- *Helen, my darling.*
- *Watch him! He's dangerous. Let's go.*

2.5. **Dim dotiau rhagarweiniol na dotiau dilynol**

Nid oes angen dotiau rhagarweiniol na dotiau dilynol.

2.6 **Dim effeithiau sain na chapsiynau cerddoriaeth**

Ni roddir effeithiau sain na chapsiynau i ddisgrifio cerddoriaeth gefndir mewn ffeil isdeitlau agored ar gyfer dangosiad ar sgrîn sinema.

2.7 **Llefaru Saesneg ar y trac sain**

Nid oes angen creu isdeitlau pan glywir llefaru Saesneg ar y trac sain.

2.8 **Rhegfeydd**

Os yw'r ffilm yn cynnwys iaith gref, awgrymir bod yr isdeitlydd yn gofyn i'r cwmni cynhyrchu am gyfarwyddyd ynglŷn â'r angen i feddalu rhai ffurfiau rheg ar gyfer y ffeil isdeitlau. Weithiau, mae'n addas cynnwys y rhegfeydd i gyd yn eu ffurfiau gwreiddiol e.e. ar gyfer dangosiad mewnol o ffilm gerbron rheithgor.

Isdeitlau cyfansawdd

Canllaw cyffredinol

Pan mae amser yn brin, gellir creu isdeitlau cyfansawdd (isdeitlau sy'n cynnwys *add-on*), sef y dechneg o osod ar y sgrîn, ar yr un pryd, gyfnewid byr o eiriau rhwng dau siaradwr. Mae'r dechneg hon yn galluogi i eiriau'r ail siaradwr ymddangos tra bod geiriau'r siaradwr cyntaf ar y sgrîn. Mae'n dechneg arbennig o ddefnyddiol pan mae'r siaradwr cyntaf yn siarad yn gyflymach na'r ail. Gellir creu isdeitlau cyfansawdd o fwyafswm o dair llinell o fewn ffeil isdeitlau teletestun pan fo amser yn wirioneddol brin. Fodd bynnag, nid argymhellir isdeitlau cyfansawdd o dair llinell o fewn ffeiliau teletestun erbyn hyn ac ni dderbynnir isdeitlau cyfansawdd o dair llinell o fewn ffeil isdeitlau agored o dan unrhyw amgylchiadau. Derbynnir isdeitlau cyfansawdd o fwyafswm o ddwy linell ar gyfer darllediad isdeitlau agored. Fodd bynnag, gan fod canran gynyddol o raglenni S4C yn cael eu hail-ddarlledu gydag isdeitlau agored, argymhellir isdeitlau cyfansawdd o fwyafswm o ddwy linell, yn hytrach na thair llinell, ar gyfer darllediadau teletestun yn ogystal ag ar gyfer darllediadau isdeitlau agored. Ni chaniateir, dan unrhyw amgylchiadau, isdeitlau cyfansawdd o bedair llinell o hyd.

Amseriad

1. Amserir isdeitl cyfansawdd drwy osod côd amser-mewn yr ail ran o'r isdeitl cyfansawdd, sef geiriau'r ail siaradwr, ar y sgrîn ynghynt na'r arfer drwy fenthyg amser oddi ar y rhan gyntaf. Gosodir yr un côd amser-allan ar gyfer y ddau isdeitl fel bod y ddau yn gadael y sgrîn gyda'i gilydd. Mae'n hollbwysig bod y côd amser-allan yn darllen yr union amser ar gyfer y ddau isdeitl er mwyn osgoi trafferthion technegol.

10:12:11:10	03:17	10:12:15:02
What's all this water?		
10:12:12:20	02:07	10:12:15:02 +
I ran a bath, and the phone rang.		

2. Pe digwydd i isdeitl cyfansawdd groesi toriad camera, gofaler bod lleiafswm o un eiliad y naill ochr o'r toriad a'r llall gan osod côd amser-mewn yr ail isdeitl yn y modd arferol, sef lleiafswm o bum ffrâm ar ôl y toriad.

Fformadu

3. Anelir at fformadu syml o fewn isdeitlau cyfansawdd. Ni chymeradwyir defnyddio brawddegau hir, sef brawddegau sy'n dechrau neu/a diweddu gyda dotiau parhad ac sy'n estyn o'r isdeitl blaenorol i'r isdeitl cyfansawdd neu i'r isdeitl dilynol.

Lleoliad arferol

4. Lleolir isdeitl cyfansawdd ar waelod y sgrîn oni cheir teitl *Aston* neu isdeitl agored Cymraeg ar y sgrîn.

Amgylchiadau sy'n gwahardd lleoliad ar waelod y sgrîn

5.1 Pan fo isdeitl cyfansawdd yn ymddangos ar y sgrîn ar yr un pryd â theitl *Aston*, nid oes modd lleoli'r isdeitl ar waelod y sgrîn. Yn yr achos hwn, dylid lleoli'r isdeitl cyfansawdd trwch isdeitl un llinell yn uwch na'r *Aston* fel nad yw'r isdeitl cyfansawdd a'r *Aston* yn gorgyffwrdd.

5.2 Yn yr un modd, pan mae isdeitl cyfansawdd yn ymddangos ar yr un sgrîn ar yr un pryd ag isdeitl agored Cymraeg, dylid lleoli'r isdeitl cyfansawdd trwch isdeitl un llinell yn uwch na'r isdeitl agored fel nad yw'r isdeitl cyfansawdd a'r isdeitl Cymraeg yn gorgyffwrdd.

5.3 Pan mae wyneb yn llenwi'r sgrîn ar yr un pryd â theitl *Aston* neu isdeitl agored Cymraeg, ceisir osgoi'r defnydd o isdeitl cyfansawdd drwy grynhoi'r geiriau a gwahanu'r ddau isdeitl. Mewn achos fel hyn, mae isdeitlau unigol o un llinell yn fwy addas er mwyn osgoi'r perygl o orchuddio ceg neu ran arall amlwg o'r wyneb.

Croesi toriad camera

6. Pe digwydd i isdeitl cyfansawdd groesi toriad camera, gofaler bod lleiafswm o un eiliad y naill ochr i'r toriad a'r llall gan osod côd amser i mewn yr ail isdeitl yn y modd arferol, sef lleiafswm o bum ffrâm ar ôl y toriad.

Isdeitlo byw

Canllaw cyffredinol

Mae natur darllediadau byw sawl math gwahanol o raglen ar S4C yn golygu nad oes digon o amser gan yr isdeitlydd i lunio ac amseru ffeil gyflawn o isdeitlau o flaen llaw. Gan amlaf, mae darparu isdeitlau ar gyfer eu darlledu'n fyw yn cynnwys cyfuniad o:

- isdeitlau wedi'u llunio o flaen llaw ond heb eu hamseru sy'n cael eu ciwio'n fyw tra mae'r rhaglen yn cael ei darlledu;
- isdeitlau sy'n cael eu llunio a'u ciwio'n fyw tra mae'r rhaglen yn cael ei darlledu.

Defnyddir sawl dull o greu isdeitlau tra mae rhaglen yn cael ei darlledu. Yn ogystal â theipio QWERTY cyffredin cyflym, defnyddir gwahanol ffyrdd o fewnbwnio'r isdeitlau ar gyfer y rhannau hynny sy'n cael eu hisdeitlo tra mae'r rhaglen yn cael ei darlledu. Mae stenograffi, *velotype* a meddalwedd adnabod llais ymhlith y dulliau a ddefnyddir.

I bob pwrpas, yr un yw'r canllawiau ar gyfer darparu isdeitlau i'w darlledu'n fyw â'r canllawiau ar gyfer darparu ffeil gydag isdeitlau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw. Er hynny, oherwydd y pwysau amser sy'n bodoli tra'n creu a chiwio isdeitlau'n fyw tra mae rhaglen yn cael ei darlledu, mae'n ofynnol gwneud rhai pethau'n wahanol fel y nodir yn 2 isod.

Gwahanol fathau o raglenni yr isdeitlir yn fyw

1. Ar hyn o bryd, isdeitlir yn fyw y mathau canlynol o raglenni. Nodir isod rai ystyriaethau sy'n berthnasol i'r gwahanol fathau o raglenni.

1.1 **Rhaglenni amaethyddol**

Mae'n hanfodol bod yr eirfa arbenigol amaethyddol yn gywir mewn rhaglenni amaethyddol e.e. *"Charolais cattle"* ond *"Charollais sheep"* a bod y termau cyfredol yn cael eu defnyddio.

1.2 **Rhaglenni materion cyfoes**

Yn yr un modd, mae cywirdeb geirfa arbenigol, termau cyfredol ac enwau pobl a llefydd yn bwysig mewn rhaglenni materion cyfoes.

1.3 **Rhaglenni chwaraeon**

Gan fod llawer o'r cyffro mewn rhaglen chwaraeon sy'n darlledu gêm rygbi neu bêl-droed yn digwydd ar waelod y sgrîn, mae'n addas gosod isdeitlau ar dop y sgrîn yn hytrach nag ar y gwaelod ar adegau allweddol yn y gêm er mwyn sicrhau nad yw'r gwylwyr yn colli unrhyw beth.

1.4 **Rhaglenni cyngherddau ac eisteddfodau**

Fel rheol, mae'r isdeitlydd yn derbyn o flaen llaw gwybodaeth ynglŷn â theitlau caneuon a genir a darnau sy'n cael eu llefaru o flaen llaw. Mae hyn yn galluogi'r isdeitlydd i geisio darganfod a oes cyfieithiad cydnabyddedig yn bodoli ai peidio er mwyn seilio'r isdeitlau arno neu benderfynu rhydd-gyfieithu'r geiriau pan nad oes cyfieithiad parod yn bodoli. Oherwydd y cynnydd yn y nifer o raglenni sy'n cynnwys caneuon ar S4C, mae Ystafell Isdeitlo S4C wedi sefydlu archif isdeitlau geiriau caneuon. Mae cynnwys yr archif ar gael i gwmnïau isdeitlo.

1.5 **Rhaglenni cylchgrawn pobl ifanc**

Mae rhaglenni cylchgrawn pobl ifanc yn fynych yn cynnwys caneuon cyfoes ond anaml y bydd cyfieithiad ar gael, ac weithiau, mae'n amhosib deall y geiriau ar y trac sain neu mae'r trac sain yn wallus. Cynghorir yr isdeitlydd i gysylltu â'r cwmni cynhyrchu er mwyn cael gwybod sut i gysylltu â'r canwr neu ag awdur y gân er mwyn sicrhau geiriad cywir.

Isdeitlau sy'n cael eu llunio o flaen llaw ond yn cael eu ciwio'n fyw

2. Mae'r agweddau canlynol ar lunio isdeitlau i'w darlledu'n fyw yn wahanol i'r rhai ar lunio isdeitlau ar gyfer rhaglen sydd wedi'i pharatoi ymlaen llaw.

2.1 **Toriadau camera**

Er nad oes modd i'r isdeitlydd osgoi toriadau camera drwy gydol rhaglen tra'n ciwio isdeitlau'n fyw, dylid ceisio osgoi darlledu isdeitlau dros doriadau camera ar yr adegau pwysicaf oll, e.e. ar ddiwedd golygfa benodol.

2.2 **Hyd brawddegau**

Pan fo rhaglen yn cynnwys isdeitlau sydd wedi'u llunio o flaen llaw ond sy'n cael eu ciwio'n fyw yn ogystal ag isdeitlau sy'n cael eu llunio a'u ciwio'n fyw tra darlledir y rhaglen, ceisir sicrhau cysondeb o ran hyd brawddegau. Golyga hyn y dylid llunio brawddegau cryno, syml a byr sy'n ffitio i mewn i ofod un isdeitl, yn hytrach na brawddegau sy'n cario ymlaen dros ddau neu dri isdeitl fel y ceir mewn ffeil isdeitlau ac eithrio isdeitlau agored. Cedwir at frawddegau cryno, syml a byr gan mai brawddegau un isdeitl sy'n llwyddo orau tra'n isdeitlo'n fyw. Mae brawddegau un isdeitl yn rhoi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i'r isdeitlydd wrth darlledu'r isdeitlau. Felly, er cysondeb, anelir at lunio brawddegau un isdeitl tra'n llunio isdeitlau o flaen llaw yn ogystal â thra'n llunio isdeitlau'n fyw.

2.3 **Toriadau llinell**

Oherwydd pwysau amser i ddarlledu isdeitlau ar raglen fyw, nid oes disgwyl i'r isdeitlydd barchu canllawiau toriadau llinell isdeitlau teletestun bob amser onid yw'r rhaglen yn symud yn araf a bod amser yn caniatáu tacluso cyn ciwio'r isdeitl.

Isdeitlau sy'n cael eu llunio a'u ciwio'n fyw

3. Mae llunio isdeitlau llwyddiannus a'u ciwio'n fyw tra mae'r rhaglen yn cael ei darlledu yn dasg anodd ar y gorau. Gwneir y canlynol i hwyluso'r broses.

3.1 Creu stoc o isdeitlau parod o flaen llaw

Mae isdeitlo byw llwyddiannus yn cynnwys elfen gref o ddyfalu cynnwys yr hyn sy'n mynd i godi. I'r perwyl hwn, mae'n ddefnyddiol paratoi stoc o isdeitlau parod ar ffurf *shortforms* neu *macros* i'w galw i fyny pan fo hynny'n briodol. Mewn rhaglen fyw gydag eitemau sy'n dilyn fformat rheolaidd o wythnos i wythnos, gall stoc o isdeitlau parod fod yn ddefnyddiol iawn e.e. gwybodaeth gefndirol ynglŷn â'r bobl fydd yn ymddangos yn y rhaglen. Serch hynny, dylid gochel rhag creu isdeitlau ailadroddus fyddai efallai yn mynd dan groen y gwyliwr cyson.

3.2 Cwestiwn ac ateb

Pan holir cwestiwn mewn cyfweliad byw, yr isdeitlydd sy'n penderfynu os oes modd llunio a darlledu isdeitlau ar gyfer cynnwys yr ateb yn ogystal â chynnwys y cwestiwn cyn i'r rhaglen symud ymlaen at yr eitem nesaf. Dylid osgoi gosod cwestiwn ar y sgrîn heb ddarparu ateb ar ei gyfer gan fod cwestiwn heb ateb yn tynnu sylw'r gwyliwr at y ffaith fod yr isdeitlau'n anghyflawn. Weithiau, mae modd cynnwys y cwestiwn o fewn geiriad yr ateb e.e.

```
"Ydych chi'n dod yma'n aml?"
"Rydw i wedi bod yn dod yma ers blynyddoedd."
```

Do you come here often? *I've been coming here for years.*	>	*I've been coming here for years.*

3.3 Vox pops

Weithiau, mae ceisio isdeitlo *vox pops* yn fyw bron yn amhosibl. Gall golygydd tîm isdeitlo byw benderfynu dilyn trywydd gwahanol e.e. rhywbeth sy'n ymwneud ag arlwy y rhaglen ac yna cyflwyno deunydd caboledig sy'n haws i'w ddilyn a'i werthfawrogi.

Darlledu isdeitlau byw

4. Er mwyn paratoi i ddarlledu isdeitlau'n fyw, gwneir y canlynol:

4.1 Cyn dechrau darlledu isdeitlau byw

Cyn dechrau darlledu isdeitlau byw, dylid caniatáu digon o amser er mwyn:

- arbed y ffeil isdeitlau
- cysylltu ag ystafell reoli'r darlledwr neu'r cynhyrchydd
- llwytho'r rhan berthnasol o'r feddalwedd isdeitlo
- tanio neu ddiffodd unrhyw switsys priodol a chynnal prawf ar y system.

4.2 **Dotiau rhagarweiniol**

Yr un yw'r canllawiau ar ddotiau rhagarweiniol ar gyfer ffeil o isdeitlau byw ag ar gyfer ffeil isdeitlau i'w darlledu drwy deletestun. Gosodir dotiau rhagarweiniol ar ddechrau'r rhaglen ac ar ddechrau'r ail ran a rhannau dilynol y rhaglen yn yr un modd.

Isdeitlo heb sgript

Canllaw cyffredinol

Ni ddarperir sgript ar gyfer isdeitlwyr ac eithrio yn achos rhai rhaglenni arbennig a ffilmiau. Yr arfer yng Nghymru yw bod disgwyl i'r isdeitlwyr baratoi isdeitlau ar sail y trac sain yn unig. Ceir sgript ar gyfer ffilmiau a ddarlledir ar y sgrîn fawr yn ogystal â'r teledu ac ar gyfer rhai rhaglenni penodol, ond hyd yn oed wedyn, nid oes sicrwydd bod cynnwys y sgript yn fanwl gywir.

Oherwydd yr arfer o ddibynnu'n llwyr ar y trac sain, mae'n naturiol disgwyl trafferthion dehongli o bryd i'w gilydd. Weithiau nid yw'n hawdd bod yn hollol sicr beth a ddywedir oherwydd ffactorau megis sŵn cefndirol, sŵn chwerthin, sŵn cynulleidfa yn clapio, sŵn cymeriadau'n siarad ar draws ei gilydd neu'n llefaru'n dawel. Yn ogystal â'r rhesymau amlwg hyn, dylid ystyried amodau eraill sy'n ei gwneud hi'n anodd ar brydiau i ddehongli'r ystyr cywir, e.e. geiriau sy'n swnio'n debyg, goslef y llais, llefaru gyflym.

Geiriau'n swnio'n debyg

1. Weithiau, ceir trafferth â geiriau sy'n ymdebygu i'w gilydd ar lafar ond nad ydynt yn debyg yn ysgrifenedig, megis `"gwreiddio"` a `"gwreiddiol"`. Yn yr isdeitl hwn, *"rooting powder"* sef `"powdwr gwreiddio"` a fwriedir.

Each week, 5,000 of these cuttings arrive from The Canaries...	>	*Each week, 5,000 of these cuttings arrive from The Canaries...*
..covered in original powder.	>	*..covered in rooting powder.*

Wrth drosi'r frawddeg `"Rydych chi'n hen-nain."`, mae modd camddehongli'r geiriau i olygu, `"Rydych chi'n hen, Nain."`.

You're old, Grandma.	>	*You're a great-grandmother.*

2. Mae enwau priod yn gallu peri trafferthion pan nad yw'r enwau'n rhai cyfarwydd.

`"Nesaf ar y llwyfan mae Côr Telyn Teilo."`

Next on stage is a harp choir from Llandeilo.	>	*Next on stage is Cor Telyn Teilo.*

Goslef y llais

3. Wrth isdeitlo heb sgript, mae'r isdeitlydd yn gwbl ddibynnol ar oslef y llais i ddiffinio ystyr rhai geiriau yn y llefaru gwreiddiol. Gall y geiriau yn yr enghraifft hon, `"Ti'n dod hefyd"` naill ai ddatgan fod y person yn dod, neu ofyn cwestiwn a yw'r person yn dod. Goslef y llais yn unig sy'n cyfleu'r union ystyr a fwriedir.

You're coming too.	<>	*You're coming too?*

Llefaru cyflym

4. Wrth isdeitlo heb sgript a cheisio iawn ddehongli cyfraniad cymeriad sy'n siarad yn gyflym, mae perygl i frawddeg megis, "Mae hi wedi cymryd y pnawn i ffwrdd." gael ei chamddehongli. Er mwyn gwneud y penderfyniad cywir ynglŷn â'r ystyr a fwriedir, dylid ystyried y geiriau yng nghyswllt yr olygfa neu'r rhaglen gyfan, gan obeithio datrys yr anhawster. Oni lwyddir, dylid dewis y geiriad sy'n cyd-fynd orau â'r isdeitl blaenorol a'r isdeitl dilynol.

She's taken an afternoon off.	>	*She's taken the afternoon off.*

Nam ar y trac sain

5. Weithiau, gall nam ar y trac sain achosi anawsterau dehongli. Os mai nam ar y trac sain sy'n gyfrifol am yr anawsterau, dylid gofyn i'r cwmni cynhyrchu am gopi newydd.

Lleoli

Canllaw cyffredinol

Fel rheol, lleolir isdeitlau ar ganol gwaelod y sgrîn. Ni leolir isdeitlau ar y sawl sy'n siarad bellach; diweddarir ailddarllediadau o hen ffeiliau isdeitlau fel bod lleoliad yr isdeitlau yn gyson yn y canol.

Lleoliad ar ganol gwaelod y sgrîn gan unioni i'r chwith

1. Defnyddir lleoliad ar ganol gwaelod y sgrîn gan unioni i'r chwith ar gyfer isdeitlau 888 ar teletestun.

Lleoliad ar ganol gwaelod y sgrîn gan ganoli pob llinell

2. Defnyddir lleoliad ar ganol gwaelod y sgrîn gan ganoli pob llinell ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledu gydag isdeitlau agored.

Amgylchiadau sy'n gwahardd lleoliad ar waelod y sgrîn

3. Lleolir pob isdeitl ar ganol gwaelod y sgrîn ac eithrio dan yr amgylchiadau arbennig y cyfeirir atynt isod. Dylid cymryd gofal arbennig i leoli isdeitlau'n ddigon uchel i fyny dan yr amgylchiadau canlynol oherwydd goblygiadau maint sgriniau teledu llydan.

3.1 **Teitl *Aston* wedi'i losgi yn y llun**

Pan mae *Aston* yn ymddangos ar waelod y sgrîn, dylid ail-leoli'r isdeitl trwch isdeitl un llinell uwchben y teitl *Aston*. Weithiau, ceir teitlau *Aston* yn ymddangos ar ochr chwith neu ar ochr dde gwaelod y sgrîn yn hytrach nag ar ganol gwaelod y sgrîn. Os yw'r ffont a ddefnyddir yn arbennig o fawr neu/ac uchel neu os yw'r teitl *Aston* yn dair llinell o drwch, ac mewn achosion lle mae wyneb yn llenwi'r llun yn ogystal, gellir gosod yr isdeitl yn y gofod gwag ochr yn ochr â'r teitl *Aston,* gan fformadu'r llinellau i ffitio'r gofod gwag.

Os yw'r isdeitlau yn cael eu darlledu ar ffurf teletestun yn unig, yna gellir lleoli isdeitlau ochr yn ochr â theitl *Aston* yng nghornel chwith neu dde gwaelod y sgrîn. Ond ofer fyddai gwneud hyn mewn ffeil fyddai'n cael ei darlledu ar ffurf isdeitlau agored gan nad yw offer recordio ffeil isdeitlau agored gan amlaf yn derbyn unrhyw leoliad ar ochr chwith nag ochr dde gan fod yr isdeitlau yn cael eu lleoli yn y canol yn awtomatig.

3.2 **Isdeitlau agored Cymraeg**

Pan fo isdeitlau agored Cymraeg eisoes yn bodoli ar y sgrîn, dylid ail-leoli'r isdeitl Saesneg fel ei fod yn ymddangos trwch isdeitl un llinell uwchben yr isdeitl Cymraeg.

3.3 Wyneb yn llenwi'r llun

Pan fo perygl i isdeitl orchuddio wyneb siaradwr sy'n llenwi'r llun, dylid ystyried ail-leoli'r isdeitl yn uwch i fyny neu ar dop y sgrîn. Dylid gwneud hyn i sicrhau nad yw'r isdeitl yn gorchuddio ceg na llygaid siaradwr.

3.4 Gweithred allweddol ar waelod y sgrîn

Pan mae isdeitl yn gorchuddio gweithred allweddol ar waelod y sgrîn e.e. pel-droed yn cael ei chicio ar draws gwaelod y sgrîn, cogydd yn gosod cynhwysion ar blât, neidr mewn gwair, dylid ail-leoli'r isdeitl uwchben y weithred fel bod y weithred i'w gweld yn glir. Gellir gosod yr isdeitl un ai ar ganol y sgrîn neu ar dop y sgrîn.

3.5 Wyneb yn llenwi'r llun ac yn ymddangos ar yr un pryd â theitl *Aston* neu isdeitl agored Cymraeg

Pan mae wyneb yn llenwi'r llun ac yn ymddangos ar yr un pryd â theitl *Aston* neu isdeitl agored Cymraeg, mae'r gofod ar gael i leoli isdeitl dwy linell yn rhan isaf y sgrîn yn debygol o fod yn brin. Yn yr achos hwn, mae penderfynu ar leoliad isdeitl un llinell yn llawer haws na cheisio lleoli isdeitl dwy linell, a cheisir cadw at isdeitlau un llinell cyn ystyried os bydd angen ail-leoli'r isdeitl ar dop y sgrîn os nad yw'n bosibl ei leoli ar ganol y sgrîn.

Lliwiau

Canllaw cyffredinol

Er mai prif bwrpas isdeitlau Saesneg S4C yw galluogi gwylwyr di-Gymraeg i ddilyn rhaglenni yn yr iaith Gymraeg, mae'r sianel hefyd yn cydnabod rôl yr isdeitlau fel cyfrwng i alluogi gwylwyr byddar neu drwm eu clyw i ddilyn ei rhaglenni. Oherwydd hynny, mae S4C wedi mabwysiadu rhai elfennau o arddull arbennig isdeitlau a fwriedir ar gyfer pobl fyddar neu drwm eu clyw. Dyma'r rheswm dros ddefnyddio lliwiau i wahaniaethu rhwng y naill siaradwr a'r llall.

Lliw i ddynodi siaradwr newydd

1. Defnyddir lliw gwahanol i ddynodi pob siaradwr newydd. Er bod dewis o liwiau ar gael, dewisir y lliwiau canlynol yn unig ar gyfer isdeitlau – ac yn y drefn ganlynol: gwyn, melyn, *cyan* neu wyrdd - ar gefndir du. Gan amlaf, rhoddir lliw gwyn i'r sawl sy'n siarad fwyaf, melyn i'r nesaf a *cyan* neu wyrdd i siaradwyr sy'n siarad leiaf. Defnyddir y pedwar lliw drosodd a throsodd. Fel arfer rhoddir lliw gwyn i adroddwr stori mewn dogfen neu i newyddiadurwr.

1.1 **Dewis o liwiau**

Mewn cyfresi drama neu operâu sebon, trefnir lliw arbennig i bob cymeriad ar ddechrau'r gyfres fel bod pob cymeriad yn cael ei gysylltu â'r un lliw bob tro mae'n siarad. Pan fo dau gymeriad â'r un lliw yn digwydd siarad â'i gilydd, rhoddir lliw gwahanol i un ohonynt ar gyfer y sgwrs honno.

Lliw ar gyfer effeithiau sain

2. Fel arfer, defnyddir priflythrennau gwyn ar gefndir coch i gapsiwn effaith sain ar gyfer pobl byddar a thrwm eu clyw er mwyn gwahaniaethu rhwng isdeitlau llefaru a'r isdeitlau effeithiau sain.

Lliw i greu effaith arbennig

3. Mewn rhai rhaglenni ar gyfer pobl ifanc, mae'n addas defnyddio lliwiau anarferol ar gyfer rhai darnau o lefaru e.e. y defnydd o binc neu o goch, sef lliwiau nad ydynt yn dderbyniol mewn isdeitlau arferol, er mwyn creu effaith arbennig.

3.1 **Pwyslais ar air arbennig**

Anaml iawn y defnyddir lliw gwahanol i bwysleisio gair unigol o fewn isdeitl bellach. Mae'n fwy effeithiol osgoi defnyddio lliw gwahanol ac ychwanegu gair i atgyfnerthu'r ystyr. Yn yr enghraifft ganlynol, rhoddwyd lliw gwahanol i'r gair *"same"* yn y frawddeg wreiddiol.

I saw that same shirt on sale!	>	*I saw that very same shirt on sale!*

3.2 **Teitl pennod neu isbennawd**

Ni ddefnyddir lliw gwahanol ar gyfer teitl pennod neu isbennawd. Rhoddir teitlau pennod neu isbennawd mewn priflythrennau gwyn ar gefndir du ac ni ddefnyddir priflythrennau ond i lythyren gyntaf pob gair.

Pe digwydd i isdeitlydd orfod gosod isdeitl dyddiad i ymddangos ar yr un pryd ag isdeitl llefaru, dylid eu gwahanu fel nad ydynt yn gorgyffwrdd.

Operâu

Canllaw cyffredinol

Mae'r canllawiau ar gyfer operâu cyflawn yn wahanol i'r canllawiau ar gyfer cân opera o fewn cyngerdd neu eisteddfod. Gan bod operâu enwog y byd wedi'u hysgrifennu mewn iaith dramor, mae S4C fel arfer yn darlledu isdeitlau Cymraeg yn ogystal â rhai Saesneg.

Trosi Operâu

1.1 **S4C yn comisiynu cyfieithiad o opera wreiddiol i'r Gymraeg**

Pan mae S4C yn comisiynu cyfieithiad o opera wreiddiol mewn iaith dramor i'r Gymraeg, darperir isdeitlau agored Cymraeg ar sail y cyfieithiad. Yna, darperir isdeitlau Saesneg ar sail yr isdeitlau agored Cymraeg. Yn amlwg, mae'n fantais glir os oes gan yr isdeitlydd wybodaeth o iaith wreiddiol yr opera dan sylw oherwydd gall creu isdeitlau ar sail iaith arall sydd eisoes yn gyfieithiad beri problemau.

1.2 **S4C yn darlledu perfformiad o opera byw mewn neuadd opera yng Nghymru**

Pan mae S4C yn darlledu perfformiad o opera byw mewn neuadd opera yng Nghymru, mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn bodoli yn barod ar ffurf uwchdeitlau (surtitles), a gofynnir i'r isdeitlydd ddarparu isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar sail y rhain.

Gwybodaeth o iaith yr opera wreiddiol

2. Yn ddelfrydol, mae'n fantais bod isdeitlydd yn hyddysg yn iaith yr opera wreiddiol er mwyn hwyluso penderfyniadau ynglŷn â thoriadau llinell, a.y.y.b., tra'n darparu'r isdeitlau Saesneg.

Fformadu ac amseru isdeitlau opera gyfan

3. Mae'r egwyddorion ar gyfer fformadu isdeitlau opera gyfan yn wahanol i fformadu isdeitlau cân opera o fewn cyngerdd neu eisteddfod. Mae'r prif egwyddorion fel a ganlyn.

3.1 **Dim arwydd #**

Ni defnyddir yr arwydd # o gwbl mewn isdeitlau darllediad o opera gyfan.

3.2 **Toriad brawddeg**

Ni ddefnyddir dotiau parhad i ddynodi toriad brawddeg rhwng dau isdeitl. Felly, yn wahanol i isdeitlau arferol, gellir dechrau isdeitl gyda llythyren fach pan fo cynnwys isdeitl yn barhad o frawddeg o'r isdeitl blaenorol.

3.3 **Atalnodi**

Ni ddefnyddir atalnod llawn ar ddiwedd isdeitlau opera ond dylid cynnwys gofynnod ac ebychnod pan fo angen – a gellir cynnwys atalnod llawn i ddiweddu un frawddeg o fewn isdeitl pan fo brawddeg arall yn dechrau o fewn yr un isdeitl.

3.4 **Lliw**

Ni ddefnyddir lliwiau gwahanol. Defnyddir llythrennau gwyn ar gefndir du i bob isdeitl wrth ddarlledu isdeitlau ar opera gyfan.

3.5 **Amseru**

Caiff caneuon opera mewn opera gyfan eu hamseru fel bod yr isdeitlau yn cyfateb i hyd llinellau'r gân opêra wreiddiol. Yn ogystal, mae angen cyd-amseru'r isdeitlau i gyd-fynd gyda'r geiriau a genir. Oherwydd yr amrywiaeth mawr mewn hyd llinellau caneuon, ceir amrywiaeth mawr yn hyd isdeitlau'r caneuon.

Mae'r enghraifft ganlynol o isdeitlau allan o'r opera *"Der Fliegende Hollander"* yn ymgorffori'r prif bwyntiau uchod ynglŷn â fformadu operâu.

10:32:18:17	04:17	10:32:23:09
How often have I thrown myself		
10:32:23:14	05:03	10:32:28:17
with longing into the depths of the sea?		
10:32:29:07	07:17	10:32:36:24
I hurled my ship onto the rocks		
10:32:38:10	11:21	10:32:50:06
But nowhere a grave! Never death!		

Cydamseru gydag isdeitlau agored Cymraeg

4. Mewn operâu lle ceir isdeitlau agored Cymraeg, darperir isdeitlau Saesneg a'u cydamseru i gyd-fynd gyda chodau amser i mewn ac allan yr isdeitlau Cymraeg yn hytrach na'r llefaru gwreiddiol fel bod yr isdeitlau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar y sgrîn ac yn gadael y sgrîn ar yr un pryd.

Portread

Canllaw cyffredinol

Disgwylir i isdeitlau weddu i natur y gwahanol fathau o raglenni a ddarlledir ar S4C. Dylai'r isdeitlau fod yn gywir o ran dehongli'r iaith wreiddiol, yn rhwydd i'w darllen ac yn hawdd i'w deall. Dylent, yn ogystal, adlewyrchu'r math o raglen dan sylw ynghyd â'r math o gymeriad neu unigolyn sy'n llefaru'r geiriau. Hyd yn oed os yw isdeitl yn dechnegol berffaith o ran amseru a fformadu, nid yw'n werth dim os nad yw'n llwyddo i bortreadu naws y llefaru gwreiddiol. Rhaid i'r portread fod yn gwbl gredadwy. Mewn rhaglen ddrama, er enghraifft, disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu'r portreadau o'r gwahanol gymeriadau. Mewn rhaglen ffeithiol, ar y llaw arall, disgwylir i'r isdeitlau gyflwyno'r wybodaeth a roir, mewn iaith safonol a niwtral. Mae'r cywair ieithyddol priodol yn rhan annatod o bortreadu llwyddiannus. Mae isdeitlau drama glasurol yn gofyn am iaith ffurfiol sy'n adlewyrchu'r cyfnod, tra bod isdeitlau opera sebon yn gofyn am iaith stereoteipiau cyfoes. Mae isdeitlau dogfen hanesyddol yn gofyn am ieithwedd lenyddol tra bod isdeitlau newyddion a rhaglenni materion cyfoes yn gofyn am gyflwyno ffeithiau mewn arddull gryno. Ond, wrth gwrs, ceir amryw gyweiriau o fewn un rhaglen hefyd: llefaru safonol yn ogystal â sgwrs heb ei sgriptio mewn rhaglen ddogfen; llefaru ffeithiol yn ogystal ag ymgom ysgafn mewn rhaglen gwis. Gall ieithwedd drama amrywio o'r safonol ffurfiol i'r llwgr a'r coch. Manylir ar rai o'r agweddau hyn yn yr enghreifftiau canlynol.

Dogfen

1. Mewn rhaglen ddogfen, pan fo'r cyflwynydd yn llefaru, disgwylir ieithwedd safonol fel yn yr isdeitl yn y blwch cyntaf. Ond os ydynt yn eiriau cyfrannwr sy'n cael ei gyfweld, ac yntau heb sgript, byddai geiriad tebyg i'r isdeitl yn yr ail flwch yn fwy addas.

"Ar ôl dirwasgiad y tridegau,
roedd bywyd yn galed a chafwyd tlodi enbyd."

The Depression of the 1930s led to a period of strife and dire poverty.	<>	*After the 1930s' Depression, life was hard - poverty everywhere.*

Opera sebon

2. Mae gan bob opera sebon ei chymeriadau stereoteip sy'n llefaru yr un geiriau cyfarwydd ddydd ar ôl dydd. Er bod geiriad yr isdeitl yn y blwch cyntaf yn gywir o ran ystyr ac yn adlewyrchu ystyr y frawddeg Gymraeg, mae ffurfiau megis "*booze"* a *"sarnies"* yn cyfrannu at greu portread arbennig o gymeriad ac at y teimlad cyfarwydd a geir o ddilyn opera sebon yn rheolaidd. Ac, wrth gwrs, mae'r fam bob amser yn Fam Gymraeg - fel yn achos llawer o gynyrchiadau eraill sy'n ymddangos ar S4C. Nid yw'r Fam Gymraeg yn addasu'n gysurus yn Fam Saesneg.

"Mam, cer i nôl y cwrw a dere â brechdanau 'fyd."

Mum, go and fetch the beer and bring some sandwiches too.	>	*Mam, go and fetch the booze and bring some sarnies too.*

3. Eto, yn yr enghraifft isod, er bod yr iaith yn fwy ffurfiol yn yr isdeitl yn y blwch cyntaf, mae'n adlewyrchu ystyr y frawddeg Gymraeg. Fodd bynnag, mewn opera sebon, mae'n fwy addas glynu at ieithwedd syml ynghyd â geirfa syml.

"Doeddwn i ddim yn ei olygu. Ti'n gwybod hynna, yn dwyt ti?"

It was unintentional. You should know.	>	*I didn't mean it. You know that.*

Drama

4. Mewn drama, dylid trefnu geirio'r isdeitlau, nid yn unig yn ôl y cymeriad sy'n eu llefaru ond hefyd yn ôl yr amgylchiadau. Byddai geiriad yr isdeitl yn y blwch cyntaf yn fwy addas i bortreadu llefaru anffurfiol myfyriwr ifanc sy'n chwilio am waith. Byddai geiriad yr isdeitl yn yr ail flwch yn portreadu mewn modd mwy credadwy llefaru ffurfiol gŵr canol oed sy'n gadeirydd bwrdd ac yn adrodd i aelodau eraill y bwrdd.

"Fe gafodd hi swydd yn y BBC."

She got a job at the BBC.	<>	*She was appointed to a post at the BBC.*

5. Mae'r ymadrodd, "*The shame of it!*" yn cyfateb yn dda i'r frawddeg Gymraeg "Am gywilydd!", ond rhaid ystyried pwy sy'n llefaru cyn penderfynu ai dyma'r trosiad mwyaf priodol. Er bod yr ymadrodd hwn yn gweddu, mae'n gweddu'n well ar gyfer oedolyn nag ar gyfer plentyn. Pe byddai plentyn yn llefaru, byddai'n debycach o ddweud, *"It's embarrassing!"*.

The shame of it!	<>	*It's embarrassing!*

6. Mae cymysgiaith, sef cymysgedd o Gymraeg a Saesneg, ar gynnydd. Ceir cymysgiaith ar raglenni teledu S4C ynghyd â llefaru gwreiddiol Saesneg. Pan fo'r llefaru Saesneg yn torri rheolau sylfaenol gramadeg Saesneg safonol, megis camddefnydd o'r ferf, gellir dadlau y dylid naill ai gywiro'r gramadeg – fel yn yr isdeitl yn y blwch cyntaf - neu gellir dadlau y dylid ailadrodd y geiriau a glywir air am air o fewn yr isdeitl – fel yn yr ail flwch. Mae'n wir fod y ffin yn denau rhwng portread credadwy a chywirdeb ieithyddol. Yn yr achos arbennig isod, yn eithriadol, derbynnir y ffurf lafar ranbarthol wreiddiol heb ei delfrydu o gwbl – er mwyn gonestrwydd y portread.

She's changed since your Rhys did what he did to her.	>	*She've changed since your Rhys done what he did to her.*
That was awfully cruel but don't take it personally.	>	*That was awful cruel but don't take it personal, like.*

7. Yn yr ardaloedd diwydiannol, mae tuedd i gynnwys geiriau Cymraeg arbennig o fewn llefaru Saesneg. Fel arfer, geiriau cyffredin ydynt megis "bach" a gellir eu cynnwys

yn yr isdeitlau. Byddai cynnwys gair megis "chwant" yn peri mwy o drafferth fel y dengys yr isdeitl yn y blwch cyntaf, yn enwedig gan fod y llefarydd yn defnyddio ffurf ar y gair sydd wedi colli'r "ch-" ddechreuol. Anodd iawn fyddai deall ffurf o'r fath mewn isdeitl oherwydd bod "chwant" heb yr "ch" yn unffurf â *"want"* yn Saesneg. Rhaid yw aralleirio'r frawddeg – er gwaethaf yr ymdrech yn yr achos hwn – er mwyn creu portread teg a chredadwy.

Why aren't you eating your food?	>	*Why aren't you eating your food?*
Not much want, that's all.	>	*I'm not really hungry.*

Portreadu iaith ramadegol anghywir

8. Disgwylir ieithwedd gywir mewn isdeitlau – a hynny yn arbennig ar raglenni S4C oherwydd, yn gyffredinol, caiff yr iaith Gymraeg ei siarad mewn modd llawer mwy cywir na'r Saesneg. Fodd bynnag, ceir adegau lle clywir iaith sy'n wallus yn y ddeialog wreiddiol ar rai mathau o raglenni. Yr isdeitlydd sy'n penderfynu os bydd yr isdeitl yn cynnwys y math o wallau a glywir yn y ddeialog wreiddiol yn yr isdeitl ar y sgrîn.

Weithiau, gall iaith sy'n wallus a gramadegol anghywir fod yn addas o fewn isdeitl er mwyn atgyfnerthu portread math arbennig o gymeriad neu siaradwr. Mae hyn yn arbennig o wir pan mae cymeriad neu siaradwr yn digwydd siarad Saesneg ac nid Cymraeg. Er enghraifft, os mai *"Where's my keys?"* ddywedir, mae'n bosibl mai *"Where's my keys?"* fyddai fwyaf addas yn yr isdeitl, yn hytrach na *"Where are my keys?"*. Ceir cymeriadau sy'n siarad Cymraeg gramadegol anghywir yn ogystal er nad yw hyn mor gyffredin. Mae pob achos yn wahanol ond, er mwyn gwneud penderfyniad, os oes modd cyfiawnhau defnydd o Saesneg gramadegol anghywir mewn isdeitl ac os yw'r defnydd ohono yn creu portread mwy credadwy o'r siaradwr, yna mae'n dderbyniol. Nid yw'r defnydd o Saesneg gramadegol anghywir yn dderbyniol os yw'n achosi dryswch i'r gwyliwr ac o'r herwydd yn arafu'r darllen. Yn yr achos hwn, mae cywirdeb yn bwysicach na'r portread.

8.1 Derbyniol

Er bod y frawddeg *"I don't want nothing from you."* yn ramadegol anghywir, gall fod yn enghraifft o frawddeg wallus fyddai'n dderbyniol o fewn isdeitl e.e. er mwyn adlewyrchu iaith person sy'n siarad yn wallus yn Saesneg neu i atgyfnerthu portread o gymeriad sy'n siarad Cymraeg carbwl mewn drama.

"Dwi ddim isio dim byd gen ti!"

I don't want anything from you!	>	*I don't want nothing from you!*

8.2 Annerbyniol

Pan geir deialog wreiddiol Saesneg sy'n ramadegol anghywir fel yn y frawddeg ganlynol, byddai'r defnydd o'r gair anghywir *"done"* yn yr isdeitl yn lle'r gair cywir *"did"* yn peri mwy o drafferth i'r gwyliwr ac yn drysu ac arafu'r darllen.

"He done this when he was a young lad."

He done this *when he was a young lad.*	>	*He did this* *when he was a young lad.*

Newyddion/Materion cyfoes

9. Wrth isdeitlo'r newyddion neu raglen materion cyfoes, dylid cyflwyno ffeithiau mewn iaith safonol, syml, diduedd a chryno o ran arddull. Dylid cynnwys y ffeithiau i gyd ond gan gywasgu a diddymu unrhyw eiriau diangen. Mae gan newyddiadurwyr duedd i siarad yn gyflym ac mae angen i'r isdeitlydd grynhoi'r geiriau gwreiddiol – ond heb golli dim gwybodaeth - er mwyn gosod y ffeithiau i gyd ar y sgrîn o fewn yr amser byr sydd ar gael.

"Dywed rhai Aelodau Seneddol y byddent o blaid trosglwyddo pwerau ychwanegol i'r Cynulliad."

Some MPs say *that they would be in favour of...*	>	*Some MPs want to give the Assembly more powers.*
..transferring additional powers *to the Assembly.*		

Priflythrennau

Canllaw cyffredinol

Yn ogystal â defnyddio priflythyren ar ddechrau brawddeg neu ar gyfer enwau priod neu deitl fe'i dewisir i ddynodi rhai enwau, megis nwyddau masnachol a rhywogaeth creaduriaid neu i wahaniaethu rhwng dau ystyr posibl.

Defnydd o briflythrennau

1. **Ar gyfer teitl person yn y cyflwr cyfarchol**

   Mae angen priflythyren i ddynodi bod teitl person yn y cyflwr cyfarchol, e.e. Mae *"Doctor"*, yn wahanol i'r enw cyffredin, *"doctor"*, fel y dengys y ddwy frawddeg ganlynol, *"He went to see the doctor."* a *"Thank you for the prescription, Doctor."*

2. **Ar gyfer nwyddau sy'n dynodi nwyddau masnachol**

   Defnyddir priflythyren mewn nifer sylweddol o enwau sy'n dynodi nwyddau masnachol, e.e. *"Dictaphone", "Ford", "Hoover", "Sellotape", "Valium*", *"Bluetooth"*. Mae geiriaduron diweddar yn rhestru ffurfiau fel hyn heb briflythyren e.e. *"biro", "wellington"* a *"to hoover"* fel berf. Os nad yw'r isdeitlydd yn gwbl sicr, dylid troi at *The New Oxford Dictionary of English (*argraffiad 2005). Mewn rhaglenni ffeithiol dylid arddel sillafiad y geiriadur hwn bob amser. Ar y llaw arall, yn achos enwau cyfarwydd megis *"Hoover"* a *"Sellotape"* mae perygl i briflythrennau dynnu sylw gormodol at y ffurfiau hyn mewn drama, er enghraifft, a difetha naturioldeb yr isdeitlau. Maent yn tynnu sylw'r gwyliwr at yr isdeitlau yn hytrach na chynorthwyo'r gwyliwr i ymgolli yn y stori a gyflwynir. O'r herwydd, mae'n fwy arferol i hepgor y briflythyren yn achos llawer o'r enghreifftiau hyn. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw arfer cysondeb o fewn yr un rhaglen.

3. **Rhywogaeth rhai creaduriaid**

   Rhoddir priflythyren mewn geiriau sy'n dynodi rhywogaeth rhai creaduriaid megis y ci, *"Dalmatian"* a'r fuwch, *"Friesian"*. Ceir rhywogaethau eraill nad ydynt yn hawlio priflythyren e.e. *"corgi", "terrier"*.

4. **Priflythyren i osgoi amwysedd**

   Mae defnyddio priflythyren ar ddechrau gair yn gallu effeithio ar ystyr gair yn ogystal. Yn yr enghraifft ganlynol, defnyddir priflythrennau i wahaniaethu rhwng `"rhyfel yn y Trydydd Byd"` a `"thrydydd Rhyfel Byd"`.

Diplomatic relations are afoot to avoid a Third World war.	>	*Diplomatic relations are afoot to avoid a third World War.*

   Yn y frawddeg wreiddiol, `"Mae hi'n mynd i Gartref"`, mae'r briflythyren yn y gair `"Cartref"` yn dynodi cartref henoed ac nid cartref teuluol.

She's going to a home.	>	*She's going to a Home.*

Bellach, ers adeiladu'r *"Millennium Dome"* yn Llundain a'r gromen yn Llanarthne, rhaid gochel rhag defnyddio priflythyren wrth ddefnyddio'r gair *"dome"* o fewn unrhyw gyd-destun arall. Daw'r enghraifft a ganlyn o sgwrs rhwng dau saer coed lleol. Mae'n amlwg nad sôn am y *"Dome"* yn Llundain nac yn Llanarthne maen nhw!

We rebuilt the Dome roof recently.	>	*We rebuilt the dome roof recently.*

5. **Teitl rhaglen neu isbennawd**

Ni ddylid defnyddio priflythrennau i ddynodi teitlau rhaglenni teledu, ffilmiau, llyfrau, a.y.y.b., o fewn isdeitlau nac ychwaith o fewn capsiynau ar gyfer teitlau unigol. Nid argymhellir defnyddio lliw gwahanol i ddynodi teitl rhaglen neu isbennawd ychwaith.

6. **Priflythrennau ar gyfer enw person**

Wrth gynnwys priflythrennau ar gyfer enw person mewn isdeitl, dylid rhoi gofod rhwng y priflythrennau oni bai y gelwir y person yn ôl llythrennau ei enwau cyntaf e.e. JR am J R Jones.

The choir conductor is TE Roberts.	>	*The choir conductor is T E Roberts.*

7. **Ni ddefnyddir priflythyren dan yr amodau isod.**

I ddynodi enwau tymhorau'r flwyddyn, e.e. *"spring",* enwau blodau, e.e. *"clematis",* enwau ar wahanol fathau o salwch, e.e. "*tuberculosis",* cyfeiriadau'r cwmpawd, megis *"east"*, *"north Wales"*, *"south Yorkshire"*.

Pwyslais

Canllaw cyffredinol

Ar hyn o bryd, nid oes modd dewis llythrennau italig i ddynodi pwyslais ar air arbennig mewn isdeitl gan nad yw'r offer isdeitlo a ddefnyddir ar hyn o bryd yn caniatáu dewis o'r fath. Mae'r arferiad o ddefnyddio lliw gwahanol i bwysleisio un gair o fewn isdeitl yn prysur ddiflannu, ac nid yw gosod dyfynodau o gwmpas y gair yn ddelfrydol bob amser ychwaith.

Pwyslais i atgyfnerthu ystyr gair

1. Os nad yw newid lliw neu ychwanegu dyfynodau yn addas, ac os yw gofod ac amser yn caniatáu, gellir grymuso'r pwyslais ar air arbennig drwy ychwanegu un neu ragor o eiriau. Mae hwn yn ddull effeithiol o ddynodi pwyslais ar air.

I had to see him.	>	*I simply had to see him.*

What a beautiful sunset!	>	*What a beautiful sunset!*
You're right. *It is a beautiful sunset.*	>	*You're right.* *It really is a beautiful sunset.*

2. Weithiau, er mwyn osgoi newid lliw, mae'n demtasiwn ceisio dynodi pwyslais drwy ddewis y termau megis "*It is..."* ac *"I have..."* yn hytrach na'r *"It's..."* a'r *"I've..."* arferol yng nghyfluniad y ferf. Ond nid yw newid *"It's..."* am *"It is..." ac "I've"* am *"I have"* yn llwyddo os yw'r lliw yn gyson ar draws y frawddeg, gan mai'r argraff gyntaf a roir yw bod yr isdeitl yn darllen yn anystwyth. Gwell dynodi pwyslais mewn achos o'r fath drwy ychwanegu geiriau, fel yn yr enghreifftiau isod. Mae'r dechneg hon, sef ychwanegu geiriau yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer isdeitlau gwyn ar gefndir du, lle na ellir defnyddio lliw o gwbl.

I have a cold *but nothing will stop me.*	>	*I do have a cold* *but nothing will stop me.*

Pwyslais i newid ystyr gair

3. Weithiau, mae angen tynnu sylw at ffurf arbennig mewn isdeitl, e.e. *"progress"* yn y frawddeg, *"That's what I call 'progress'!* ". Diben gwneud hyn yw gwahaniaethu rhwng ystyr arferol y ffurf a'r defnydd dychanol a wneir ohoni yn y cyswllt hwn. Yn y frawddeg hon, dynodir pwyslais trwy osod dyfynodau sengl o amgylch y gair er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod ei ystyr wedi newid o'r ystyr arferol i'r ystyr croes. Fodd bynnag, nid oes angen gosod dyfynodau sengl bob tro y digwydd hyn. Gwell ystyried pob achos yn unigol yn gyntaf, gan fod yr ystyr a fwriedir yn y ddeialog wreiddiol yn ddigon amlwg i'r gwyliwr mewn rhai achosion, heb i'r isdeitlydd orfod tynnu sylw arbennig ato drwy fformadu gwahanol.

Dull anghymeradwy

4. Nid argymhellir defnyddio priflythrennau i ddynodi pwyslais ar air o fewn isdeitl gan fod priflythrennau yn tynnu gormod o sylw atyn nhw eu hunain ac yn debygol o darfu ar rediad yr isdeitlau.

Rhegfeydd a ffurfiau gwaharddedig

Canllaw cyffredinol

Mae ieithwedd sy'n cynnwys rhegfeydd a ffurfiau gwaharddedig ar gynnydd ar rai mathau o raglenni S4C. Gan fod rhegfeydd a ffurfiau gwaharddedig yn creu ymateb cryfach yn ysgrifenedig nag ar lafar, mae'n angenrheidiol, mewn llawer o achosion, i liniaru ychydig ar y geiriau a glywir drwy ddefnyddio ieithwedd lai bygythiol. Mae'n hanfodol felly bod isdeitlwyr yn ymwybodol o oblygiadau cynnwys rhegfeydd o fewn isdeitlau a'u bod yn ystyried amser darlledu'r rhaglen a'r dull y darlledir yr isdeitlau wrth benderfynu ar yr opsiwn gorau.

Isdeitlau teletestun

1. O ran egwyddor, ni ddylai rhaglenni sy'n cael eu darlledu cyn 9.00yh gynnwys rhegfeydd. Ond mae'r ffiniau yn cael eu gwthio. Pan glywir rhegfeydd mewn rhaglen gaiff ei darlledu cyn 9.00yh, y duedd yw lliniaru ychydig ar y gair a dod o hyd i derm mwy meddal. Nid yw'r trosiad o "`Mae'n gythrel teit!`", cyn naw o'r gloch y nos, yn hawlio *"He's a mean bugger!"* Yn y cyswllt hwn, byddai rhywbeth tebyg i, *"He's a real Scrooge!"* neu *"He's a mean beggar!"* yn hollol ddigonol. Ac nid yw'r*"diawliaid bach 'na"* yn trosi fel *"those bastards"* ychwaith. Eto, yn y cyswllt hwn, mae *"little rascals*" yn hollol dderbyniol. Fodd bynnag, pan mae rheg yn y Gymraeg yn cael ei dweud yn ogystal yn y Saesneg - fel sy'n eithaf cyffredin - disgwylir i'r isdeitl ailadrodd y ffurf a glywir yn y llefaru gwreiddiol oni bai ei fod yn anaddas ar sail y math o raglen dan sylw, ac yn yr achos hwn, byddai'n well defnyddio ffurf fwy meddal neu ei hepgor. Ni ddisgwylir clywed iaith gref iawn, a thermau sy'n cael eu labelu'n tabŵ neu'n waharddedig, mewn rhaglen sy'n cael ei darlledu cyn 9.00yh. Ond pe digwydd i raglen gynnwys term cryf iawn neu air tabŵ sy'n waharddedig mewn geiriadur a chan gymdeithas, dylid ei hepgor neu osod rhes o sêr yn ei le (heb unrhyw lythrennau awgrymiadol).

   Mae llawer o raglenni sy'n cael eu darlledu ar ôl 9.00yh yn cynnwys rhegfeydd. Disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu hynny, boed drwy gynnwys y ffurf Saesneg os mai dyma glywir neu'r ffurf gyfatebol Saesneg ar yr amod nad yw'r rheg yn cael ei ystyried yn air gwaharddedig, gan fod gwylwyr isdeitlau teletestun ar ôl 9.00yh yn disgwyl gweld ffurfiau o'r math ar y sgrîn.

   Pan ychwanegir blîp ar y trac sain o fewn brawddeg o lefaru, rhoddir rhes o sêr o fewn y frawddeg yn yr isdeitl cyfatebol (heb unrhyw lythrennau awgrymiadol). Pan geir blîp ar ei ben ei hun ar y trac sain nad yw'n rhan o frawddeg fwy, dylid creu capsiwn effaith sain BLEEP.

Isdeitlau agored

2. Mae iaith gref a ffurfiau gwaharddedig o fewn rhaglen sy'n cael ei darlledu gydag isdeitlau agored yn gofyn am sylw arbennig iawn, yn enwedig cyn 9.00yh, oherwydd bod pob gwyliwr a phob oedran yn gweld isdeitlau agored ar y sgrîn, nid dim ond gwylwyr sy'n dewis edrych ar isdeitlau teletestun.

   Mae iaith gref a ffurfiau gwaharddedig o fewn rhaglen sy'n cael ei darlledu gydag isdeitlau agored, hyd yn oed ar ôl 9.00yh, yn gofyn am sylw arbennig. Fodd bynnag,

tra disgwylir i'r isdeitlau adlewyrchu hynny, boed drwy gynnwys y ffurf Saesneg neu'r ffurf Saesneg cyfatebol, gall rhai ffurfiau fod yn anaddas ar gyfer darllediad isdeitlau agored. Mewn achos o'r fath, dylid dod o hyd i ffurf fwy meddal neu osod rhes o sêr yn ei le (heb unrhyw lythrennau awgrymiadol) neu ei hepgor.

Rhaglenni a ddarlledir ar amserau gwhanol a thrwy gyfryngau gwahanol

3. Mae nifer o raglenni a ddarlledir ar S4C gydag isdeitlau drwy wahanol gyfryngau ar gynnydd. Yn ogystal ag isdeitlau teletestun ac isdeitlau agored, darlledir isdeitlau ar fand llydan. Ceir canllawiau cyffredinol ar gyfer darllediadau isdeitlau teletestun ac isdeitlau agored yn ôl amser y darllediad. Ond nid oes amser darlledu penodol yn perthyn i fand llydan. Yn aml, darlledir rhaglenni gydag isdeitlau ar y tri chyfrwng ar wahanol adegau. Ar hyn o bryd, yr adran isdeitlo yn S4C sy'n addasu iaith gref mewn isdeitlau a ddarperir gan gwmnïau isdeitlo ar gyfer darlledu ar ffurf isdeitlau agored ac ar fand llydan. Ond mae ceisio penderfynu ar y term cryf mwyaf addas i'w ddefnyddio yn gallu achosi penbleth – yn arbennig ar fand llydan. Gan fod darlledu isdeitlau ar fand llydan yn gyfrwng gweddol newydd yn hanes S4C, mae goblygiadau defnyddio iaith gref yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

Ystyriaethau wrth drin rhegfeydd

4. Wrth benderfynu sut i drin rheg o fewn ffeil isdeitlau, mae'n ddefnyddiol ystyried natur a phwrpas y rheg honno yn y llefaru gwreiddiol.

- A yw'r defnydd o'r rheg yn bwysig neu yn eithaf dibwys o ran ystyr?
- A yw'r rheg i'w chlywed yn uchel ac yn glir neu a yw'r rheg yn cael ei sibrwd?
- A glywir emosiwn yn y llais neu a yw'r llais yn undonog?
- A ddefnyddir iaith gref yn ddi-reolaeth neu unwaith gyda phwrpas?
- A yw'r rheg yn eithaf derbyniol o fewn tafodiaith leol arbennig ond yn hollol ddieithr ac annerbyniol tu allan i dalgylch y dafodiaith?

Mae'n dderbyniol hepgor rheg eithaf dibwys neu rheg sy'n cael ei sibrwd – ac nid yw rheg undonog yn creu yr un argraff â rheg uchel ac emosiynol. Ar y llaw arall, nid oes raid defnyddio'r union rheg wreiddiol (neu'r ffurf gyfatebol Saesneg) yn yr isdeitl hyd yn oed os yw'r rheg yn uchel ac emosiynol. Os yw'r rheg yn anaddas, dylid defnyddio ffurf fwy meddal. Pan glywir rhegfeydd yn cael eu hail-adrodd yn ddi-reolaeth, gellir hepgor sawl un. Mewn ambell i ardal neu gymuned, mae'n arferiad cymdeithasol i ddefnyddio rhai mathau o regfeydd fyddai'n cael eu hystyried yn waharddedig mewn ardal arall. Mewn achos lle mae portread lleol yn bwysig, mae'n bosibl y gellid cynnwys derbyn mewn isdeitl rheg a fyddai fel arall wedi cael ei newid am ffurf fwy meddal.

Tabl opsiynau ar gyfer trin rhegfeydd

5. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r amgylchiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer darlledu isdeitlau rhaglenni sy'n cynnwys iaith gref ar S4C. Nid ydym yn cynnig atebion i'r cwestiynau uchod nac enghreifftiau penodol yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, rydym wedi crynhoi'r gwahanol amgylchiadau i'w hystyried a'r opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o regfeydd. Dylai penderfyniad yr isdeitlydd ynglŷn â sut i drin iaith gref o fewn isdeitlau fodloni disgwyliadau'r gwyliwr ar yr un llaw ond ni ddylai, ar y llaw arall, ffrwyno'r effaith a fwriedir. Yn y bôn, mae'n anodd cyffredinoli a

dylid ystyried pob achos yn unigol. Os yw isdeitlydd yn teimlo unrhyw ansicrwydd ynglŷn â thrin rhegfeydd, gellir cysylltu â'r adran isdeitlo yn S4C er mwyn trafod y gwahanol opsiynau a'r modd mwyaf addas o drin yr achos dan sylw. Mae S4C yn ystyried y maes yn un sensitif ac yn croesawu pob trafodaeth.

ISDEITLAU TELETESTUN		
	Opsiynau cyn 9.00yh	**Opsiynau ar ôl 9.00yh**
Rheg gyffredin	Cynnwys y rheg wreiddiol neu'r ffurf gyfatebol Saesneg oni bai ei fod yn anaddas o fewn y math o raglen dan sylw	Cynnwys y rheg wreiddiol neu'r ffurf gyfatebol Saesneg
	Ffurf fwy meddal o'r rheg	
	Hepgor y rheg	
Nifer o regfeydd cyffredin	Ffurfiau mwy meddal o'r rheg	Cynnwys y rhegfeydd gwreiddiol neu'r ffurfiau cyfatebol Saesneg ond gyda chapsiwn rhybudd iaith gref
	Hepgor y rheg	
Rheg(feydd) gwaharddedig (tabŵ)	Ffurf fwy meddal o'r rheg	Ffurf fwy meddal o'r rheg
	Hepgor y rheg	Hepgor y rheg
Blîp ar y trac sain	- Rhes o sêr os yw o fewn brawddeg - Effaith sain BLEEP os nad ydyw	- Rhes o sêr os yw o fewn brawddeg - Effaith Sain BLEEP os nad ydyw

ISDEITLAU AGORED		
	Opsiynau cyn 9.00yh	**Opsiynau ar ôl 9.00yh**
Rheg gyffredin	Ffurf fwy meddal o'r rheg	Cynnwys y rheg wreiddiol neu'r ffurf gyfatebol Saesneg oni bai ei bod yn gwbl anaddas
	Hepgor y rheg	Ffurf fwy meddal o'r rheg
		Hepgor y rheg
		Rhes o sêr
Nifer o regfeydd cyffredin	Ffurfiau mwy meddal o'r rheg	Cynnwys y rhegfeydd gwreiddiol neu'r ffurfiau cyfatebol Saesneg oni bai eu bod yn gwbl anaddas
	Hepgor y rheg	Rhes o sêr
		Ffurfiau mwy meddal o'r rheg
		Hepgor y rheg
Rheg(feydd) gwaharddedig (tabŵ)	Rhes o sêr	Rhes o sêr
	Ffurf fwy meddal o'r rheg	Ffurf fwy meddal o'r rheg
	Hepgor y rheg	Hepgor y rheg

Rhifau

Canllaw cyffredinol

Gofaler bod rhifau yn cael eu trosi'n gywir o'r iaith wreiddiol i'r isdeitl yn yr iaith darged. Nid oes esgus dros gamgymeriad. Dywedir bod mwy o gamgymeriadau yn cael eu gwneud wrth drosi rhifau o'r llefaru gwreiddiol i'r isdeitl, nag mewn unrhyw agwedd arall ar y gelfyddyd. Ac mae'n debyg bod hyn yn digwydd ar draws ffiniau gwledydd. Mae'n werth, felly, fod yn arbennig o ofalus wrth osod rhif mewn isdeitl.

Defnydd cyffredin o rifau

1. Ymdrechir i sicrhau'r arddull arbennig sy'n gysylltiedig â'r rhif a'r cyswllt dan sylw.

1.1 **Nifer**

1.1.1 Rhifau o dan ddeuddeg

Yn gyffredinol, defnyddir gair, ac nid ffigur, i nodi rhif o dan ddeuddeg.

A table for 6 please.	>	*A table for six, please.*

Fodd bynnag, ceir eithriadau.

He lives at four Market Street.	>	*He lives at 4 Market Street.*
She's in Year Ten.	>	*She's in Year 10.*
Bethan will be celebrating her fifth birthday on Thursday.	>	*Bethan will be celebrating her 5th birthday on Thursday.*

1.1.2 Rhifau dros ddeuddeg

Yn gyffredinol, defnyddir ffigur, ac nid gair, i nodi rhif dros ddeuddeg.

The house is three hundred yards from the sea.	>	*The house is 300 yards from the sea.*
The choir will now sing Psalm twenty-three.	>	*The choir will now sing Psalm 23.*
The full face veil has no place in twenty-first century Britain.	>	*The full face veil has no place in 21st century Britain.*

Ambell waith, mae'n addas rhoi rhif dros ddeuddeg mewn gair yn yn hytrach na ffigur.

What will be the effect of climate change in a 100 years' time?	>	*What will be the effect of climate change in a hundred years' time?*

Vermeer was one of the greatest 17th-century Dutch painters.	>	*Vermeer was one of the greatest seventeenth-century Dutch painters.*

1.1.3 Ffracsiynau

Ni ellir darlledu ffracsiynau ar ffurf ffigurau o fewn isdeitlau caeëdig drwy teletestun nac isdeitlau agored. O'r herwydd, defnyddir y termau geiriol e.e. *"half", "two-thirds",* a.y.y.b.

1.2 Amser

I ddynodi'r amser yn ôl y cloc, defnyddir y safon Brydeinig, megis *"9.00am"* a "*9.00pm"* yn hytrach na'r ffurf ddigidol *"09:00".*

1.3 Blwyddyn

Ar gyfer dynodi degawd arbennig mewn ffigur, e.e. y chwedegau, gosodir collnod o flaen y ffigur er mwyn gwneud yn glir mai at y degawd y cyfeirir, e.e. *"I prefer the music of the '60s."'* Ar ôl dweud hyn, dylid hefyd ystyried defnyddio'r ffurf llawn 1960s yn lle'r talfyriad er eglurdeb mewn rhai amgylchiadau.

1.4 Mesurau Prydeinig

Er bod y talfyriadau *"ft"* ac *"ins"* yn parhau i gael eu defnyddio, ystyrir bellach mai'r termau mwyaf eglur i'w defnyddio o fewn isdeitl yw *"feet"* ac *"inches".* Gellir hefyd defnyddio'r term *"foot"* yn y cyswllt arbennig *"a 15-foot boat".*

1.5 Arian

Dylid defnyddio'r arwydd *"£"*, yn hytrach na'r gair "pounds", i ddynodi punnoedd Prydeinig, e.e. "£20", oherwydd ystyr deublyg y ffurf yn y Saesneg.

Pan fo'r llefaru yn cyfeirio at yr hen arian Prydeinig, e.e. *"1/6*" (one shilling and six pence), defnyddir y ffurf *"1s 6d"* yn hytrach na *"1/6*", rhag i'r gwyliwr feddwl mai ffracsiwn ydyw a phetruso oherwydd hynny. Er gall y ffurf *"1s 6d"* fod yn gwbl anghyfarwydd i rai gwylwyr iau, mae'n ddigon tebyg mai mewn drama gyfnod y bydd y ffurf yn ymddangos a bod angen adlewyrchu'r cyfnod yn yr isdeitlau.

Wrth gyfeirio at arian tramor, cedwir at yr arfer tramor, e.e.*"7.000 CHF"* (saith mil ffranc y Swistir); *"$500*"(pum can doler).

Pan gyfeirir at yr ewro, gellir defnyddio'r arwydd ewro e.e. *€250* neu'r gair *"euros"* e.e. *"250 euros".*

1.6 **Pwysau**

Wrth ddynodi pwysau, er bod y ffurfiau talfyredig *“lbs”* a *“oz*” yn cymryd llai o le o fewn isdeitl, maent yn cael eu hystyried yn hen ffasiwn erbyn hyn ac felly defnyddir y geiriau llawn “*pounds”* ac *“ ounces",* sy’n fwy cyfarwydd i’r mwyafrif, e.e. *“4 pounds, 5 ounces”* yn hytrach na *“4 lbs 5 oz”.*

1.7 **Ras geffylau**

Defnyddir y ffurf gywir ar gyfer y gweithgarwch dan sylw bob amser, megis, *"It came in at 10-1."* mewn ras geffylau, ac nid unrhyw ffurf arall, e.e. *"It came in 10 to 1."*

Osgoi dechrau isdeitl gyda ffigur

2. I sicrhau nad yw isdeitl sy'n dechrau gyda rhif yn arafu'r darllen yn ormodol, dylid osgoi dechrau isdeitl â ffigur, boed rhif o dan ddeuddeg neu dros ddeuddeg.

15 years ago, I moved out.	>	*Fifteen years ago, I moved out.*

Yn yr un modd, os mai unig gynnwys isdeitl yw ffigur o ryw fath e.e. swm o arian, gellir defnyddio’r term geiriol.

£7.	>	*Seven pounds.*

Saesneg yn y llefaru gwreiddiol

Canllaw cyffredinol

Er mai prif bwrpas isdeitlau Saesneg S4C yw galluogi gwylwyr di-Gymraeg i ddilyn rhaglenni yn yr iaith Gymraeg, mae'r sianel hefyd yn cydnabod rôl yr isdeitlau fel cyfrwng i alluogi gwylwyr byddar a thrwm eu clyw i ddilyn rhaglenni. Oherwydd hynny, mae S4C wedi mabwysiadu'r egwyddor o greu isdeitlau ar gyfer dynodi llefaru Saesneg o fewn y llefaru Cymraeg gwreiddiol. Pan fo'r llefaru yn araf ac eglur, a gofod ac amser digonol ar gael, gellir ailadrodd y Saesneg air am air. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylid cywasgu fel y gwneir yn achos llefaru Cymraeg. Mewn rhai achosion, nid yw'r llefaru'n cydymffurfio'n llwyr â Saesneg safonol Lloegr. Er enghraifft, ceir Saesneg Americanaidd neu weithiau mae'r sawl sy'n llefaru wedi dysgu Saesneg.

Cywasgu

1. Oherwydd cyfyngiadau gofod ac amser, nid yw bob amser yn bosibl ailadrodd y llefaru Saesneg air am air. Rhaid cywasgu a hepgor geiriau yn ôl y galw fel yn yr enghraifft hon. Wrth wneud hyn, fodd bynnag anelir at gadw at y geiriau gwreiddiol yn hytrach nag aralleirio.

Myself, I'm reasonably happy with what I'm already getting...	>	*I'm happy with what I get – when I get it.*
..when I do manage to get it.		

Addasu

2. Pan fo'r llefaru Saesneg yn anodd i'w ddilyn fel yn yr enghraifft isod, rhaid delfrydu rhai pethau o leiaf, er mwyn sicrhau bod yr isdeitl yn gwneud synnwyr. Fodd bynnag, ni ddylid golygu'n ormodol ar y llefaru Saesneg gwreiddiol gan fod y wedd honno ar y Saesneg i'w chlywed ac i'w deall yn glir. Yn yr enghraifft hon, addaswyd cyn lleied â phosibl, a hynny yn unig er mwyn gwneud yr isdeitlau'n ddealladwy yn hytrach nag er mwyn perffeithio'r ansawdd.

I think in this day, I did with a friend an inspiration...	>	*I thought about the day my friend and I had an inspiration...*
..I write a song for all the children in the world...	>	*..and I wrote a song for all the children around the world...*
..when they are suffering.	>	*..who are suffering.*

Cywirdeb

3. Ceir tuedd mewn isdeitlo ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw ar sianeli annibynnol y DU i ddefnyddio sillafiad "llafar" wrth isdeitlo iaith Americanaidd megis*, "I wanna", "You betcha!", "'Coz I say so", "Geroff*". Er y gellir derbyn bod y math hwn o sillafu seinegol yn ychwanegu at bortread y cymeriad, ni chymeradwyir y math yma o sillafu ar isdeitlau S4C ac eithrio lle mae'r ieithwedd honno yn ymwneud yn allweddol naill ai â chymeriad mewn drama neu gymeriad mewn sefyllfa neu gyd-destun arbennig, megis jôc neu gân rap neu lefaru mewn rhaglen bobl ifanc.

Saesneg gwallus

4. Gellid dadlau, yn gyffredinol, bod llai o wallau gramadegol yn yr iaith lafar Gymraeg o'i gymharu â'r iaith lafar Saesneg. Mae'r cwestiwn yn codi, felly, pan mae llefaru gwreiddiol o fewn rhaglen yn cynnwys Saesneg gwallus, a yw'n addas adlewyrchu'r gwallau hyn yn yr isdeitlau neu eu hanwybyddu a'u 'cywiro' yn Saesneg yr isdeitl?

Trosi geiriau Saesneg unigol a glywir yn y llefaru Cymraeg gwreiddiol

5. Pan geir gair Saesneg ynghanol brawddeg Gymraeg, nid oes rheswm i newid y gair yn yr isdeitl Saesneg.

"Roedd y cyngerdd yn fantastic."

It was an excellent concert.	>	*It was a fantastic concert.*

Sgriptiau

Canllaw cyffredinol

Mae derbyn sgript gan gwmni cynhyrchu yn gallu bod o fantais i'r isdeitlydd, ac os oes posibilrwydd bod sgript ar gael, mae'n werth gofyn am gopi ohoni.

Serch hynny, ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, gymryd yn ganiataol fod y sgript yn gywir o ran sillafu, yn gyflawn o ran llefaru a'i fod yn cyfateb yn union i'r rhaglen orffenedig. Dyletswydd yr isdeitlydd yw sicrhau bod y sillafu yn gywir o fewn y ffeil isdeitlau, boed sgript ai peidio, a bod yr isdeitlau'n cyfateb yn union i'r llefaru ar y trac sain yn hytrach na'r sgript.

Mae'r adran isdeitlo yn S4C yn awyddus i dderbyn copi o unrhyw sgript y byddai isdeitlydd wedi'i derbyn oddi wrth gwmni cynhyrchu gan fod sgript yn gallu bod o gymorth wrth adolygu.

Sillafu

Canllaw cyffredinol

Dylid ymdrechu i sicrhau sillafu cywir bob amser. Fodd bynnag, 'rydym yn ymwybodol o anghysonderau sy'n bodoli rhwng gwahanol eiriaduron. O'r herwydd, gofynnir i isdeitlwyr ddefnyddio *The New Oxford Dictionary of English.* Yn ogystal, gofynnir yn benodol, i isdeitlwyr ddefnyddio'r argraffiad diweddaraf, sef argraffiad 2005, gan mai dyma'r geiriadur a ddefnyddir gan yr adran isdeitlo yn S4C. Gofynnir hyn, nid yn unig er mwyn sicrhau cysondeb sillafiadau, ond hefyd gan fod termau newydd yn cael eu bathu drwy'r amser a'i bod yn bwysig bod yn gyfarwydd â sillafiadau termau newydd sy'n ymddangos ym mhob argraffiad newydd. Er enghraifft, datblygodd y sillafiadau *"granddad", "web site"* a *"good night"* i *"grandad"*, *"website"* a *"goodnight"* yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal â sicrhau cysondeb sillafiadau, mae'r argraffiad diweddaraf yn cynnwys y termau newydd diweddar e.e. *"amigurumi", "blog", "emo", "insourcing", "nutrigenomics", "softphone", "weblog",* a.y.y.b.

Cywirdeb

Gall un gwall sillafu aros am hir yng nghof y gwyliwr, hyd yn oed os yw cynnwys gweddill yr isdeitlau'n benigamp. Mae rhai mathau o gamgymeriadau sillafu yn llwyddo bob tro i ddod â gwên i'r wyneb. Dylid golygu'n drwyadl er mwyn osgoi gosodiad tebyg i, *"The British are weary of eating their own beef."* yn lle'r ystyr a fwriedid, sef*, "The British are wary of eating their own beef."*

1. **Pwysigrwydd geiriaduron**

   Pwysig felly yw defnyddio *The New Oxford Dictionary of English* (argraffiad 2005) ynghyd â geiriaduron arbenigol a chyfeirlyfrau yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar reddf neu ar wefannau annibynadwy i sicrhau sillafiad cywir.

2. **Gwirydd sillafu *(spellchecker)***

   Mae gwirydd sillafu (*spellchecker*) yn gymorth i ddileu gwallau sillafu yn y rhan fwyaf o eiriau cyffredin e.e. *"millennium"*, *"accommodation"*, *"khaki",* ond ni all pob gwirydd sillafu adnabod pob math o wallau sillafu e.e. sillafiadau Saesneg Americanaidd. Pwysig felly yw ceisio defnyddio gwirydd sillafu Saesneg y DU er mwyn osgoi dylanwad sillafu Americanaidd. Os mai sillafiadau Americanaidd gynigir, dylid defnyddio *The New Oxford Dictionary of English* (argraffiad 2005) yn hytrach na dibynnu ar y gwirydd sillafu.

2.1 Gwahaniaethau rhwng rhai sillafiadau Saesneg y DU a Saesneg Americanaidd

   Dyma rai enghreifftiau o'r math o wahaniaethau sy'n bodoli rhwng rhai sillafiadau Saesneg y DU e.e. *"realize", "organize", "recognize" "emphasize", "jewellery" "Argentinian"* a'r ffurfiau sy'n deillio ohonynt, a'r fersiynau cyfatebol Americanaidd *"realise", "organise", "recognise", "emphasise", "jewelry", "Argentinean"*. Bellach, mae'r ddau fath o sillafiad yn bodoli ond mae'r Canllawiau yn ffafrio'r sillafiadau sy'n

cael eu cydnabod fel sillafiadau Saesneg y DU yn *The New Oxford Dictionary of English* (argraffiad 2005).

2.2 Geiriau sy'n ymdebygu i'w gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig

Nid yw gwirydd sillafu yn gallu tynnu sylw at gamddefnydd o eiriau sy'n swnio'r un peth ond sy'n dwyn ystyr gwahanol, e.e. *"its"* ac *"it's", "your"* ac *"you're", "sole"* a *"soul", "bear"* a *"bare", "meat"* a *"meet", "practice"* a *"practise", "principle"* a *"principal", "dependent"* a *"dependant",* a.y.y.b.

2.3 Sillafiadau enwau priod

Nid yw gwirydd sillafu yn gallu cywiro camgymeriadau sillafu mewn ffurfiau sy'n enwau priod e.e. *"Gaz", "Cefin Roberts", "Mattoidz", "Cincinnati", "Baghdad", "Cymdeithas Cymru-Ariannin", "Popkomm", "Flat Holm Island".*

2.3.1 Enwau cymeriadau

Defnyddier y rhestr credydau ar ddiwedd rhaglen er mwyn gwirio sillafiad cywir enwau cymeriadau ac actorion o fewn drama, opera sebon neu ffilm. Noder y gall cwmni cynhyrchu newid sillafiadau cymeriadau opera sebon o bryd i'w gilydd.

Enghreifftiau: *"Hywel Llewellyn"* (nid *"Hywel Llywelyn"), "Neil Gurkha" (nid "Neil Gurka").*

Pe digwydd i gamgymeriad gael ei ddarganfod yn y credydau, dylid cysylltu â'r cwmni cynhyrchu yn syth er mwyn trafod y goblygiadau a chywiro'r gwall.

2.3.2 Enwau actorion

Yn yr un modd, defnyddier y rhestr credydau ar ddiwedd rhaglen er mwyn gwirio sillafiad cywir enwau actorion. Noder y gall cwmni cynhyrchu wneud camgymeriad yn y rhestr credydau.

Enghreifftiau: *"Ioan Gruffudd"* (nid *"Ioan Gruffydd"), "Lisa Jên"* (nid *"Lisa Jane").*

Pe digwydd i gamgymeriad gael ei ddarganfod yn y credydau, dylid cysylltu â'r cwmni cynhyrchu yn syth er mwyn trafod y goblygiadau a chywiro'r gwall.

2.3.3 Enwau pobl

Dyletswydd yr isdeitlydd felly yw sicrhau bod enw unigolyn - boed hwnnw'n gymeriad mewn drama, yn rhywun enwog, yn gystadleuydd, neu'r sawl sy'n cael ei gyfweld - yn cael ei sillafu'n gywir.

Er mwyn gwirio sillafiadau cywir enwau unigolion sy'n ymddangos mewn rhaglen neu y sonnir amdanynt mewn rhaglen, dylid defnyddio ffynonellau dibynadwy, yn arbennig gwefannau swyddogol.

Enghreifftiau: *"Iolo Morganwg"* (nid *"Iolo Morgannwg"), "Cerys Matthews"* (nid *"Cerys Mathews"), "Terry Gilliam"* (nid *"Terry Gillian"), "Mahatma Gandhi"* (nid *"Mahatma Ghandi"), "Beti George"* (nid *"Betty George"), "Martyn Geraint"* (nid *"Martin Geraint"), "Cate Blanchett"* (nid *"Kate Blanchett"), "Huw Stephens"* (nid *"Huw Stevens").*

Noder yn ogystal y gwahaniaeth sillafu rhwng enwau tebyg e.e. *"Meic Stevens"* (y canwr) a *"Meic Stephens"* (yr awdur).

Yn ogystal, dylid gofalu bod sillafiadau enwau unigolion sy'n cael eu cyfweld neu sy'n cystadlu mewn rhaglen yn gywir. Pe digwydd i gamgymeriad gael ei ddarganfod mewn teitl *Aston* ar gyfer enw o'r math, dylid cysylltu â'r cwmni cynhyrchu yn syth er mwyn trafod y goblygiadau a chywiro'r gwall.

2.4 **Sillafiadau geiriau Cymraeg, ieithoedd tramor a Lladin**

Nid yw gwirydd sillafu yn gallu cywiro camgymeriadau sillafu mewn ffurfiau neu ymadroddion yn yr iaith Gymraeg, ieithoedd tramor, na'r Lladin e.e. *"O! Tyn y Gorchudd", "Thalictrum aquilegiifolium", "Coquilles St Jacques", "Berliner Tageblatt", "Fianna Fáil", "No way, José", "Capisce?".* Mae'n hanfodol defnyddio ffynonellau swyddogol a dibynadwy i wirio sillafiadau o'r math.

Acenion

3. Mae cywirdeb sillafu yn hollbwysig – ac mae cywirdeb acenion yn hollbwysig yn ogystal. Mewn byd delfrydol, byddai isdeitlau caeëdig teletestun ac isdeitlau agored yn cynnwys acenion ar dermau Cymraeg sy'n gofyn am acenion yn ogystal ag ar dermau tramor sy'n cynnwys acenion, ond, ar hyn o bryd, nid yw offer darlledu isdeitlau teletestun yn gallu darlledu isdeitlau gydag acenion.

Yn y dyfodol, pan fydd datblygiadau yn y byd darlledu yn golygu y bydd y gwasanaeth teledu digidol yn disodli'r gwasanaeth teledu analog yn llwyr, bydd datblygiadau technegol yn caniatáu ychwanegu acenion i gynnwys isdeitlau.

Un gair, dau air neu gysylltnod?

4. Petrusir yn aml – un gair, dau air neu gysylltnod?

Un gair: *"goodnight"*
"website"
"*farmhand"*
"henceforth"
"biannual"
"guidebook"
"minigolf"
"halfway"
"floodwater"
"widescreen"
"mailshot"

Dau air: "*think tank"*
"web page"
"*head teacher"*
"lamp post"
"body clock"
"loading bay"
"news desk"
"double glazing"
"mail order"

Cysylltnod: *"two-seater"*
"*by-product"*
"let-up"
"mind-blowing"
"deep-seated"
"pre-wash"
"time-consuming"
"*lay-by"*
"check-in"

Ceir gwahaniaethau rhwng geiriau sy'n rhannu'r un gwraidd. Yn ôl *"The New Oxford Dictionary of English"*, argraffiad 2005, dyma sillafiad cywir y geiriau canlynol.

"dropout"	*"drop-off"*	*"drop goal"*
"offbeat"	*"off-air"*	*"off colour"*
"phonecard"	*"phone-in"*	*"phone call"*
"lifestyle"	*"life-size"*	*"life jacket"*
"housework"	*"house-warming"*	*"house party"*
"powerboat"	*"power-assisted"*	*"power station"*
"soulmate"	*"soul-searching"*	*"soul music"*
"hardback"	*"hard-hearted"*	*"hard cash"*
"parrotfish"	*"parrot-fashion"*	*"parrot fever"*

Hepgor y collnod

5. Ar un adeg, argymhellid rhoi collnod mewn ffurfiau, megis *"'Bye", "'phone", "'flu"* a *"Hallowe'en"*. Erbyn heddiw, mae'r defnydd hwn o'r collnod i ddynodi llythrennau sydd wedi'u hepgor yn cael ei farnu'n hen ffasiwn. Y ffurfiau derbyniol bellach yw *"Bye", "phone", "flu"* a *"Halloween"* – heb y collnod.

Sillafu safonol

6. Disgwylir sillafu safonol Saesneg y DU ar gyfer enwau cyffredin, e.e. *"centre"* (nid *"center"), "tonight" (*nid *"tonite"), "programme" (nid "program"),* ac ar gyfer ffurfiau gorffennol o'r ferf e.e. *"burnt", "dreamt", "leant", "learnt"*, *"smelt", "spelt", "spilt"* a *"spoilt" (*yn hytrach na *"burned", "dreamed", "leaned", "learned", "smelled", "spelled", "spilled"* a *"spoiled").*

Cysondeb

7. Disgwylir cysondeb wrth sillafu geiriau megis *"auntie"* (neu *"aunty"*), *"judgement"* (neu "*judgment"), "medieval"* (neu *"mediaeval")* o fewn yr un ffeil isdeitlau gan fod dau sillafiad yn bosibl.

Enwau Lladin yn y lluosog

8. Wrth drin geiriau sy'n tarddu o'r Lladin ac yn diweddu â'r terfyniad unigol *"ium"* megis *"consortium", "stadium", "referendum",* argymhellir defnyddio'r lluosog *"consortia"*, *"stadia", "referenda"* yn yr isdeitl. Er dweud hyn, mae'n bosibl y gall ffurfiau lluosog o'r math ymddangos yn rhy uchel-ael mewn ambell i gyswllt. Os felly, gellir defnyddio'r ffurfiau unigol, yn enwedig os mai dyma beth glywir yn y llefaru gwreiddiol.

Tafodiaith

Canllaw cyffredinol

Fel pob iaith naturiol, mae gan y Gymraeg hithau ei hamrywiadau rhanbarthol a lleol. Ar y cyfan, bydd yr isdeitlydd profiadol yn gyfarwydd â phrif amrywiadau rhanbarthol y Gymraeg, ond wrth isdeitlo llefaru cyflym heb sgript, gall camddehongli ddigwydd.

Trosi tafodiaith

1. Rhaid meddwl ychydig yn hwy uwchben ystyr olyniad sy'n dafodieithol. Gellir ei gymharu â'r iaith safonol hwyrach, er mwyn creu isdeitl sy'n cyfateb i'r union ystyr a fwriedir.

"Mae'r bachgen 'cw, Tomos, yn benderfynol."

The lad, Tomos, is determined.	>	*Our Tomos is determined.*

2. Nid yw pob ffurf dafodieithol yn gwbl gyffredin. Er bod y gair yn bodoli, nid hawdd yw dod o hyd i "ercyd" mewn geiriadur.

"Fi moyn e heddi."
"Wel, cer i ercyd e."

I need it today.	>	*I need it today.*
Well, give him one then!	>	*Well, go and fetch it then!*

3. Ceir achosion lle mae'r ffurf dafodieithol ranbarthol yn wahanol iawn i'r ystyr arferol safonol. Gofal piau hi, felly, wrth isdeitlo ffurf fenthyg, megis *"clever"* yn ôl i'r Saesneg.

"Mae gen ti feic clyfar yn fan 'na."

You've a clever bike there.	>	*That's a solid bike you've got.*

Dylanwad acenion

4. Mae amrywio gogledd a de yn gallu arwain at gamddehongli brawddeg megis,

"Cafodd ei wefreiddio gan ei arwr."

He was electrified by his hero.	>	*He was inspired by his hero.*

5. Gan na wahaniaethir rhwng ynganiad "di" a "du" yn y de, hawdd camddehongli brawddeg megis, "Lle mae dy un di?", ar draws ffin cyplysiad.

Where's the black man?	>	*Where's yours?*

Tafodiaith Saesneg o fewn y llefaru gwreiddiol Gymraeg

6. Mewn rhai rhaglenni, ceir llefaru Saesneg o fewn y llefaru gwreiddiol Cymraeg. Gall y Saesneg gynrychioli naill ai un o dafodieithoedd Saesneg Cymru neu gwedd ar Saesneg rhyw wlad arall lle y siaredir Saesneg. Os cedwir y dafodiaith yn union fel y clywir hi yn y llefaru gwreiddiol, mae perygl y bydd darllen yr isdeitl yn arafu oherwydd yr ieithwedd ysgrifenedig anghyfarwydd.

Is there any more tea in by there, Bet?	>	*Is there any more tea in there, Bet?*

7. Mae ffurfiau cyfarchol byr megis *"mun"* a *"butt"* yn nhafodieithoedd Saesneg de Cymru yn ychwanegu at bortread y cymeriad. Gellir eu cynnwys mewn isdeitl heb iddynt amharu'n ormodol ar y darllen, os yw gofod yn caniatáu.

Tom Jones is a real singer.	>	*Tom Jones is a real singer, mun.*

8. Defnyddir y gair *"bad"* yn nhafodieithoedd Saesneg Cymru i ddynodi `"gwael"`, sef gwael o ran iechyd yn ogystal â gwael o ran ansawdd. Gofaler, felly, fod yr ystyr yn ddiamwys yn yr isdeitl neu gellir achosi camddealltwriaeth.

I've been bad, you know.	>	*I've been ill, you know.*

Talfyriadau

Canllaw cyffredinol

Os yw'r ffurf sydd wedi'i dalfyrru yn gyfarwydd ac yn hawdd ei ddarllen, fe'i derbynnir. Os yw'r talfyriad yn llai cyfarwydd ac yn tueddu i arafu darllen yr isdeitl yn hytrach na'i hwyluso, rhaid ystyried cynnwys y ffurf heb ei dalfyrru.

Talfyriadau cyfarwydd

1. Disgwylir gweld talfyriadau teitlau cyfarwydd megis *"Prof"* a *"Dr"* o fewn isdeitlau yn hytrach na'r ffurfiau heb eu talfyrru. Mae'r talfyriad *"Rev"* yn dderbyniol yn ogystal, ond er dweud hyn, weithiau mae'n fwy addas defnyddio'r term llawn *"Reverend"* os yw iaith y llefaru gwreiddiol yn ffurfiol ac os yw gofod yn caniatáu.

2. Ceir rhai termau megis *"Bachelor of Arts Degree"* sy'n fwy cyfarwydd ar ffurf talfyriad, sef *"BA"*, gan mai dyma'r hyn y byddai'r gwyliwr yn disgwyl ei weld mewn isdeitl.

3. Derbynnir talfyriadau sydd bellach yn gyfarwydd i bawb, e.e. *"B&B"*, *"G&T" a "VAT*", yn enwedig os mai dyma a glywir yn y llefaru gwreiddiol. Mae'r talfyriad *"WW2"* yn lle *"World War II"*, hefyd yn dderbyniol.

4. Er bod y ffurfiau *"&"* a *"etc*" yn rhai digon cyfarwydd, mae'n anodd eu darllen yn gyflym mewn isdeitl. Os yw gofod yn caniatáu, haws darllen *"and"* a *"and so on*" -y ffurfiau heb eu talfyrru.

Talfyriadau llai cyfarwydd

5. Anaml y derbynnir talfyriadau llai cyfarwydd, megis *"OTT"* am *"over the top*" oni bai mai dyma'r geiriau glywir yn y llefaru, hyd yn oed pan fo gofod yn brin.

Talfyrru'r ferf pan yn addas

6. Yn aml, defnyddir talfyriadau berfol, e.e. *"You should've seen her face!"* i bortreadu cymeriad yn ogystal ag i gyfyngu ar nifer y geiriau. Cofier, fodd bynnag, nad yw talfyriad berfol, megis*, "D'you have the time?"* yn addas mewn drama lle mae'r cymeriad yn defnyddio iaith ffurfiol. Mewn achos o'r fath, defnyddier y ffurf berfol heb ei dalfyrru, *"Do you have the time?",* gan fod y portreadu'n bwysicach na'r cywasgu.

Perygl talfyrru'r ferf

7. Pan mae gofod yn brin, mae'n ofynnol cywasgu lle mae modd ond dengys yr enghraifft ganlynol yr amwysedd ystyr sy'n gallu codi o ganlyniad i dalfyrru'r ferf.

"`Mae pob un yn angof.`*"*

Yn yr achos hwn, nid *"*`Mae pawb wedi anghofio.`*" (Everyone has forgotten)* fwriedir.

Everyone's forgotten.	>	*Everyone is forgotten.*

Talfyriad cywir o enw person

8. Disgwylir i dalfyriad o enw megis *"Emyr"* droi yn *"Ems"* ond byddai talfyriad o'r enw *"Emma"* yn troi yn *"Emms"* yn hytrach nag *"Ems"*.

Talfyriadau derbyniol o dermau cyffredin

9. Pe dewisir defnyddio y talfyriad ar gyfer *"until",* defnyddir *"'til"* yn hytrach na *"till"*. Yn gyffredinol, ffurf talfyriad Saesneg y DU *"'cos"* sy'n dderbyniol ar gyfer *"because"* yn hytrach na'r ffurf Americanaidd *"'coz"* oni bai bod angen isdeitlo acen Americanaidd.

Teitl pennod rhaglen

Canllaw cyffredinol

Nid isdeitlir teitlau rhaglenni, ond mae'n arferol creu isdeitl ar gyfer teitl pennod neu isbennawd sy'n ymddangos ar ddechrau rhaglen.

Trosi teitl pennod neu isbennawd

1. Nid peth hawdd yw trosi teitl gan mai anaml mae cyfieithiad llythrennol yn llwyddo i gyfleu'r ystyr a fwriedir. Ar gyfer trosi teitl pennod megis `"Chwalfa"` i'r Saesneg, nid yw cyfieithiad llythrennol Y Geiriadur Mawr, sef *"Dispersal"* neu *"Upheaval",* yn cyfleu'r argraff a ddisgwylir tra bod trosiad tebyg i *"Falling Apart"* yn gweddu'n dda ac yn effeithiol yn y Saesneg.

Fformadu teitl pennod neu isbennawd

2. **Priflythrennau**

   Dechreuir pob gair mewn teitl pennod neu isbennawd â llythyren fawr gyda llythrennau bach i ddilyn.

   Os digwydd i'r teitl pennod neu isbennawd gwreiddiol ddechrau gyda llythyren fach, gellir rhoi llythyren fach i’r llythyren gyntaf i gyd-fynd gydag arddull y teitl gwreiddiol.

3. **Lliw**

   Rhoddir teitl pennod neu isbennawd rhaglen mewn llythrennau gwyn ar gefndir du. Eithriad i'r canllaw hwn fyddai amgylchiadau anghyffredin sy'n gofyn am liw cefndir gwahanol er mwyn creu effaith arbennig e.e. mewn rhaglen pobl ifanc.

4. **Lleoliad**

   Fel arfer, lleolir teitl pennawd neu isbennawd ar waelod y sgrîn ond gellir hefyd ei leoli yn uwch i fyny mewn man sy'n cyfateb yn addas i'r teitl gwreiddiol Cymraeg wedi'i losgi yn y llun.

5. **Dim dyfynodau**

   Ni roddir dyfynodau o amgylch teitl pennod neu isbennawd.

6. **Dim atalnod llawn**

   Ni roddir atalnod llawn ar ddiwedd teitl pennod neu isbennawd.

Teitlau

Canllaw cyffredinol

Pan gyfeirir at deitl e.e. teitl llyfr, ffilm, drama, cân, darn o farddoniaeth, o fewn y llefaru gwreiddiol, dylid ei gynnwys yn yr isdeitl yn yr union iaith y clywir y teitl yn hytrach na'i drosi i'r Saesneg, a'i osod heb ddyfynodau o'i amgylch.

Cadw'r teitl yn yr iaith a glywir yn y llefaru gwreiddiol

1. Pan gyfeirir at deitl yn y llefaru gwreiddiol e.e. teitl llyfr, ffilm, drama, cân, darn o farddoniaeth, dylid ei gynnwys yn yr isdeitl yn yr union iaith y clywir y teitl yn y llefaru gwreiddiol yn hytrach na'i drosi i'r Saesneg, e.e. `"La Traviata", "Pwdin Ŵy", "Dan y Wenallt".`

`"Daw'r gân nesaf allan o La Traviata."`

This next song comes from The Lost One.	>	*This next song comes from La Traviata.*

Teitl cân gan Gruff Rhys o'r Super Furry Animals yw `"Pwdin Ŵy".`

`"Dwi'n rili hoffi Pwdin Ŵy."`

I really like Egg Custard.	>	*I really like Pwdin Wy.*

`"Cefais glyweliad am Dan y Wenallt."`

I auditioned for Under Milkwood.	>	*I auditioned for Dan Y Wenallt.*

Ni chymeradwyir cynnwys cyfieithiadau esboniadol o deitl o fewn cromfachau ar ôl y teitl gwreiddiol.

`"Maent yn awr am ganu Safwn Yn Y Bwlch."`

They will now sing Safwn Yn Y Bwlch (Stand Firm).	>	*They will now sing Safwn Yn Y Bwlch.*

Ni chymeradwyir cyfieithiadau o deitlau gweithiau awduron a chyfansoddwyr o fewn isdeitlau, hyd yn oed os yw'r teitl Cymraeg yn bodoli yn y Saesneg e.e. y gân sy'n dwyn y teitl *"All Through the Night"* ac sy'n gyfieithiad o'r gân adnabyddus `"Ar Hyd y Nos".`

`"Mae Ar Hyd Y Nos yn un o'm ffefrynnau."`

All Through The Night is a favourite of mine.	>	*Ar Hyd Y Nos is a favourite of mine.*

Mewn achosion lle mae'r llefaru gwreiddiol yn cynnwys cyfeiriad at deitl cân sy'n gyfieithiad Cymraeg o deitl cân adnabyddus Saesneg a hwnnw'n digwydd bod yn

rhydd-gyfieithiad amlwg, gellir cyfiawnhau cadw teitl Cymraeg y gân yn yr isdeitl. Mae'r trosiad Cymraeg o'r gân *"I Believe"* yn enghraifft o hyn, ac mewn achos o'r math, mae'n addas cynnwys teitl y rhydd-gyfieithiad Cymraeg, `"Dwyfol Un"` yn hytrach na'r teitl Saesneg.

```
"Rydw i'n cofio canu Dwyfol Un am y tro cyntaf."
```

I remember singing I Believe for the first time.	>	*I remember singing Dwyfol Un for the first time.*

Teitl o fewn brawddeg sy'n cael ei llefaru

2. Dechreuir pob gair mewn teitl o fewn brawddeg sy'n cael ei llefaru â llythyren fawr gyda llythrennau bach i ddilyn e.e. `"Wrth Fynd Hefo Deio I Dywyn";` *"The Armed Man – A Mass For Peace",* oni bai bod y teitl mewn iaith dramor megis Ffrangeg a bod angen parchu'r dull cywir o'i fformadu e.e. *"Non, je ne regrette rien".*

3. Ni roddir dyfynodau o amgylch teitl pan mae'n ymddangos o fewn brawddeg sy'n cael ei llefaru.

She could play "Moonlight Sonata" when she was nine.	>	*She could play Moonlight Sonata when she was nine.*

Teitlau *Aston*

Canllaw cyffredinol

Mewn rhai rhaglenni, mae manylion disgrifiadol wedi'u llosgi i mewn ar waelod y llun, e.e. enw neu/a swyddogaeth person, enw lle neu sefydliad, dyddiad. Yn aml, defnyddir y termau *Aston*, *Chyron* (ar ôl gwneuthurwyr yr offer a ddefnyddir i'w creu nhw) neu *name supers* ar gyfer y teitlau hyn. Pan geir manylion disgrifiadol wedi'u llosgi yn y llun, ceisir trosi'r manylion, os yw'r wybodaeth yn bwysig ac os yw amser a gofod yn caniatáu. Fodd bynnag, gan amlaf, mae'r llefaru'n parhau yn ddi-dor ac, oherwydd diffyg amser a gofod, rhoddir blaenoriaeth i osod isdeitlau ar y sgrîn ar gyfer y deunydd llafar, yn hytrach na throsi'r manylion disgrifiadol.

Lleoliad isdeitlau pan fo teitl *Aston* wedi'i losgi yn y llun

1. Mae'r nifer o raglenni S4C sy'n cael eu hail-ddarlledu gydag isdeitlau agored ar gynnydd. Oherwydd arddull gwahanol cefndir isdeitlau agored i gymharu gyda chefndir isdeitlau caeëdig, dylid rhoi sylw arbennig, ym mhob ffeil isdeitlau, i leoliad isdeitl sy'n ymddangos ar y sgrîn yr un pryd â theitl *Aston*. Dylid penderfynu lleoliad addas ar gyfer yr isdeitlau hyn fel nad ydynt yn cael eu lleoli mewn man sydd yn gorchuddio unrhyw ran allweddol o'r llun megis ceg neu lygaid siaradwr, pan mae wyneb yn llenwi'r sgrîn, neu yn gorchuddio unrhyw weithred allweddol yn hanner isaf y sgrîn e.e. cynhwysion mewn rhaglen goginio, pêl yn cael ei chicio. Mae sawl lleoliad yn bosibl.

1.1 Lleoliad trwch isdeitl un llinell uwchben teitl *Aston*

Gellir lleoli isdeitlau uwchben y teitl *Aston* ond gan adael gofod sy'n cyfateb i drwch isdeitl un llinell rhwng top y teitl *Aston* a gwaelod y capsiwn isdeitl. Mae'r lleoliad hwn yn addas pan nad yw'r isdeitlau yn gorchuddio unrhyw ran allweddol o'r llun e.e. ceg, llygaid neu unrhyw weithred allweddol.

1.2 Lleoliad ar dop y sgrîn

Gellir lleoli isdeitlau ar dop y sgrîn ond gan adael gofod sy'n cyfateb i drwch isdeitl un llinell rhwng yr isdeitlau a thop y sgrîn.

1.3 Lleoliad ar ganol y sgrîn

Gellir lleoli isdeitlau ar ganol y sgrîn mewn man addas lle nad ydynt yn gorchuddio unrhyw ran allweddol o'r sgrîn.

1.4 Rhannu isdeitl dwy linell yn ddau isdeitl un llinell

Ar rai adegau, mae gofod yn brin i osod isdeitl dwy linell ar y sgrîn pan mae wyneb yn llenwi'r sgrîn yn ogystal â theitl *Aston* arbennig o uchel neu eiriog i'w gael ar waelod y sgrîn. Gellir ceisio gweld os yw'n bosibl rhannu isdeitl mwy nag un llinell o hyd yn ddau isdeitl un llinell gan grynhoi ar y cynnwys os oes angen. Yn aml, dyma'r dull sy'n gweithio orau.

1.5 **Lleoliad ar waelod y sgrîn o dan deitl *Aston* uwch na'r arfer**

O bryd i'w gilydd, ceir teitlau *Aston* sydd wedi'u llosgi yn y llun mewn man sydd ychydig yn uwch i fyny na'r man arferol ar waelod y sgrîn. Os digwydd bod digon o ofod o dan y teitl *Aston*, gellir lleoli isdeitlau un llinell ar waelod y sgrîn ar yr amod nad ydynt yn gor-gyffwrdd â'r teitl *Aston* ac, er cysondeb, bod pob un o'r isdeitlau sy'n ymddangos ar y sgrîn tra mae'r teitl Aston ar y sgrîn yn isdeitlau un llinell.

1.6 **Lleoliad isdeitlau yn hanner chwith neu hanner dde y llun**

Weithiau, ceir teitlau *Aston* sydd wedi'u llosgi yn y llun yng nghornel chwith neu dde gwaelod y sgrîn e.e. sgôr cystadleuwr mewn rhaglen gwis. Os yw'r ffeil isdeitlau yn cael ei darlledu ar ffurf teletestun yn unig, yna gellir lleoli isdeitlau ochr yn ochr â theitl *Aston* yng nghornel chwith neu dde gwaelod y sgrîn. Ond ofer fyddai gwneud hyn mewn ffeil fyddai'n cael ei darlledu ar ffurf isdeitlau agored gan nad yw offer recordio ffeil isdeitlau agored yn derbyn unrhyw leoliad ar ochr chwith nag ochr dde gan fod yr isdeitlau yn cael eu lleoli yn y canol yn awtomatig.

Cysoni lleoliad isdeitlau pan fo teitl *Aston* wedi'i losgi yn y llun

2. Dylid cysoni lleoliad pob isdeitl sy'n cael ei ail-leoli tra mae teitl *Aston* ar y sgrîn, boed uwchben teitl *Aston*, ar dop y sgrîn, ar ganol y sgrîn, o dan teitl *Aston* neu ochr yn ochr â theitl *Aston.*

Sicrhau nad yw teitl *Aston* yn cael ei orchuddio

3. Dylid sicrhau nad yw teitl *Aston* yn cael ei orchuddio gan isdeitl dan unrhyw amgylchiadau, boed yn rhannol neu gyfan, boed am rai fframiau pan ddaw'r teitl *Aston* ar y sgrîn neu pan mae'n gadael y sgrîn neu am y cyfnod cyfan mae'r isdeitl ar y sgrîn.

Toriadau camera

Canllaw cyffredinol

Yn unol â'r canllawiau rhyngwladol ynglŷn ag amseru, ceir rheolau penodol ynglŷn ag isdeitlau yn croesi toriadau camera. Ymdrechir i greu perthynas esmwyth rhwng amseriad y toriadau camera ac amseriad yr isdeitlau gan fod y berthynas hon yn allweddol er mwyn darllen yr isdeitlau'n hawdd.

Isdeitl yn diflannu o'r sgrîn yn union cyn toriad camera

1. Pan fo isdeitl yn gadael y sgrîn yn union cyn toriad camera, gadewir saib o leiafswm o bum ffrâm rhwng côd amser-allan yr isdeitl a'r toriad hwnnw.

Isdeitl yn ymddangos ar y sgrîn yn union ar ôl toriad camera

2. Pan fo isdeitl yn ymddangos ar y sgrîn yn union ar ôl toriad camera, gadewir saib o leiafswm o dri ffrâm rhwng y toriad camera a chôd amser-mewn yr isdeitl nesaf.

Isdeitl yn croesi toriad camera

3. Os nad yw'n bosibl tynnu isdeitl oddi ar y sgrîn cyn toriad camera neu os nad yw'n bosibl gosod yr isdeitl ar y sgrîn yn syth ar ôl toriad camera, gellir gosod yr isdeitl ar y sgrîn cyn y toriad a'i adael ar y sgrîn dros gyfnod y toriad. Os gwneir hyn, rhaid gadael yr isdeitl ar y sgrîn am leiafswm o eiliad y naill ochr a'r llall i'r toriad i arbed dryswch i'r llygaid.

4. Fel arfer, mae isdeitl sy'n croesi toriad camera yn ymddangos dros un toriad yn unig. Ond, pan fo'r llefaru yn symud yn hynod o gyflym, mae'r isdeitl yn gorfod aros ar y sgrîn a chroesi dau doriad. Ni chymeradwyir cadw isdeitl ar y sgrîn dros dri thoriad camera.

5. Ni chymeradwyir caniatáu i isdeitl groesi toriad camera sy'n arwain at olygfa newydd.

Toriadau llinell

Canllaw cyffredinol

Mae dwy ffordd sylfaenol o leoli toriad llinell o fewn isdeitl. Mae isdeitlau naill ai'n darllen fel llinellau mewn llyfr a'r toriad llinell yn digwydd pan nad oes rhagor o le ar y llinell, neu mae'r toriadau llinell yn cael eu lleoli'n fwriadol fesul unedau synnwyr o fewn yr isdeitl. Ystyria S4C fod union leoliad toriad llinell o fewn isdeitl o ddwy linell yn allweddol i hwyluso darllen yr isdeitlau a bod toriadau fesul uned synnwyr yn fwy o gymorth nac o rwystr i'r gwyliwr.

Unedau synnwyr

1. Torrir llinell yn y man mwyaf effeithiol o ran unedau synnwyr y frawddeg. Hynny yw, ceisir cadw geiriau sy'n perthyn i'w gilydd ar yr un llinell fel bod yr unedau synnwyr yn unedau annibynnol. Yn yr enghreifftiau canlynol, mae'r isdeitlau diwygiedig yn haws i'w darllen gan fod y toriadau llinell yn parchu'r unedau synnwyr naturiol o fewn y frawddeg ac yn rhoi blaenoriaeth iddynt wrth greu'r isdeitlau.

In the end, the cash came from America.	>	*In the end, the cash came from America.*

Mae modd gwella eto ar yr uchod, drwy ad-drefnu'r frawddeg a lleoli'r toriad fel bod yr atalnod yn diffinio diwedd yr uned synnwyr gyntaf yn hollol bendant.

In the end, the cash came from America.	>	*In the end, the cash came from America.*

2. Weithiau, yn enwedig pan nad yw'r unedau synnwyr yn gwbl amlwg, gellir cael mwy nag un posibilrwydd, a chyfle i wamalu wrth wneud toriad.

I asked him why he couldn't argue our case.	>	*I asked him why he couldn't argue our case.*

Yn yr enghraifft hon, y brif uned synnwyr berfol yw *"I asked him"*; yr uned synnwyr dibynnol (sef yr uned synnwyr o gwestiwn anuniongyrchol) a gyflwynir gan *"why"*. Gan fod digon o ofod i gynnwys yr uned synnwyr ddibynnol yn ei chyfanrwydd ar y llinell isaf, dyma'r ateb delfrydol.

I asked him why he couldn't argue our case.	>	*I asked him why he couldn't argue our case.*

Agwedd esthetig

3. Ni ddylid anwybyddu yr agwedd esthetig ychwaith. Mae lleoli un gair byr ar yr ail linell yn gallu edrych yn lletchwith ar y sgrîn. Gwell yw aralleirio ac ail-wampio ychydig fel bod modd symud y ffurf sy'n tramgwyddo. Yn yr enghraifft hon, mae *"that*" yn air y gellir ei hepgor yn hawdd gan ei fod yn ddiangen.

I made sure that she had enough food.	>	*I made sure she had enough food.*

Posibilrwydd arall yw lleoli'r toriad mewn man arall gan ddilyn egwyddor unedau synnwyr a chael dwy linell fwy cytbwys.

It's popular with the younger generation.	>	*It's popular* *with the younger generation.*

Rhoi'r pwyslais geiriol ar y llinell gyntaf neu'r ail?

4. Os oes dewis, mae'n gwneud synnwyr bod mwy o eiriau yn ymddangos ar y llinell isaf nag sy'n ymddangos ar y llinell gyntaf er mwyn galluogi'r gwyliwr i weld mwy o'r llun.

I'd rather be in a boat with him any day.	>	*I'd rather be* *in a boat with him any day.*

Torri brawddeg rhwng isdeitlau

Canllaw cyffredinol

Ceisir golygu brawddegau hir fel nad oes angen estyn y frawddeg i'r isdeitl dilynol. Fodd bynnag, weithiau, mae'n anorfod y bydd brawddegau yn cael eu rhannu rhwng dau neu dri isdeitl, naill ai oherwydd nad yw'r frawddeg hir yn y llefaru gwreiddiol yn addas i'w thorri yn frawddegau dilys llai o ran eu maint, neu oherwydd bod y cymeriad yn siarad mor araf fel ei bod yn amhosibl cadw'r geiriau i gydamseru â'r llais.

Anarferol yw cael brawddeg sy'n estyn dros mwy na thri isdeitl gan y gall trafferthion godi gydag eglurdeb a dilyniant boddhaol. Er hynny, mae modd estyn y frawddeg dros ragor o isdeitlau ar rai adegau arbennig, e.e. brawddeg tu hwnt o gymhleth, siaradwr araf yn petruso llawer. Weithiau, nid yw prif ergyd y frawddeg yn ymddangos hyd at ddiwedd y frawddeg. Ar adegau pan nad yw ystyr y frawddeg yn rhwydd i'w dilyn oherwydd hyd y frawddeg a nifer yr isdeitlau, mae angen symud y brif neges yn nes at ddechrau'r frawddeg er mwyn eglurdeb er efallai y collir y cydamseru ar gyfer un neu ddau o'r isdeitlau.

Osgoi torri brawddeg ar ganol uned synnwyr

1. Mae lleoliad toriad brawddeg rhwng dau isdeitl yn allweddol er mwyn hwyluso'r darllen. Dylid gwneud y toriad rhwng dwy uned synnwyr gan geisio osgoi toriad brawddeg ar ganol uned synnwyr.

A month abroad and a new job gave him an opportunity to enter...	>	*A month abroad and a new job gave him an opportunity...*
..a totally new world.		*..to enter a totally new world.*

The RSPB is calling on ministers not to abandon its rare bird...	>	*The RSPB is calling on ministers...*
..registration system which it says is essential in preventing...		*..not to abandon its rare bird registration system...*
..wildlife crime.		*..which it says is essential in preventing wildlife crime.*

Pan fo gofod yn brin, gellir addasu geiriad yr isdeitl er mwyn parchu unedau synnwyr wrth wneud y toriad brawddeg.

People born and bred in the most scenic areas of rural Wales are...	>	*People born and bred in the most scenic areas of rural Wales...*
..unable to buy property in their home towns because of rising prices.		*..cannot buy property in their home towns because of rising prices.*

Osgoi dechrau brawddeg newydd ar ganol isdeitl sy'n diweddu gyda dotiau parhad

2. Ni chymeradwyir dechrau brawddeg newydd ar ganol isdeitl pan fo brawddeg yn estyn dros fwy nag un isdeitl.

Two reports criticised the county's education system...	>	*Two reports criticised the county's education system...*
..from the top to the bottom. One councillor has already lost his job.		*..from the top to the bottom – one councillor has already lost his job.*

People were reading more. There were newspaper reports...	>	*People were reading more.*
		There were newspaper reports and posters to read.
..and posters to read, and of course, there were novels to read.		*There were also novels to read.*

Dotiau parhad

3. Wrth dorri brawddeg rhwng dau neu dri isdeitl, gosodir tri dot parhad ar ddiwedd yr isdeitl cyntaf a dau ddot parhad ar ddechrau'r ail isdeitl (a'r rhai dilynol). Ni chymeradwyir diweddu'r isdeitl â dau ddot parhad yn lle tri oherwydd prinder gofod. Os nad oes digon o le i osod y tri dot arferol, dylid addasu geiriad yr isdeitl. Ni cheir gofod rhwng llythyren olaf yr isdeitl cyntaf a'r tri dot parhad, nac ychwaith rhwng yr ail ddot parhad a llythyren gyntaf yr isdeitl dilynol.

The growing popularity of camping in tents means there is a huge choice..	>	*The growing popularity of camping in tents means there's a huge choice...*
..of camping equipment in the shops.		*..of camping equipment in the shops.*

If I have enough food for the month..	>	*If I've enough food for the month...*

When I came to Beddgelert initially..	>	*When I first came to Beddgelert...*

Trefn geiriau

Canllaw cyffredinol

Yn gyffredinol, yr isdeitlau hawsaf i'w darllen yw'r rhai mwyaf cyffredin o ran amlder eu digwyddiad ac sy'n dilyn trefn normal y frawddeg Saesneg, sef goddrych, berf, gwrthrych ac is-gymal i ddilyn. Ond er mwyn sicrhau y math hwn o symlrwydd, rhaid golygu'r llafar, yn arbennig llafar deialog heb ei sgriptio, fel bod yr anhrefn geiriol sy'n gallu bodoli yn yr iaith lafar yn troi'n drefn naturiol a hwylus ei dilyn yn ysgrifenedig.

Y brif neges gyntaf

1. Wrth olygu'r llefaru gwreiddiol ceisir gosod y brif neges ar ddechrau'r isdeitl. Mae mwyafrif y gwylwyr yn debygol o ddarllen dechrau'r isdeitl ond nid yw mor debygol y bydd yr un nifer yn darllen yr isdeitl yn ei gyfanrwydd.

We're fortunate, in our practice, *to have seven vets to share rota work.*	>	*We're fortunate to have seven vets* *to share rota work in our practice.*

Eglurdeb ystyr

2. Er bod yr iaith ysgrifenedig yn wedd fwy ffurfiol ar iaith na'r iaith lafar, dylid ar yr un pryd gochel rhag defnyddio iaith sy'n rhy llenyddol mewn isdeitlau gan fod hyn yn tueddu i arafu'r darllen.

Having left the coast, *we headed for the mountains.*	>	*We left the coast* *and headed for the mountains.*

Unedau synnwyr

3. Mae osgoi llacrwydd geiriol o fewn unedau synnwyr, trwy osod geiriau sy'n perthyn yn glòs i'w gilydd gyda'i gilydd yn sicr yn hwyluso'r darllen.

She had her heart set on visiting China.	>	*She had set her heart on visiting China.*

Ymadroddion adferfol sy'n dynodi amser, dyddiad, lleoliad

4. Fel arfer, gosodir ymadroddion adferfol sy'n dynodi amser neu leoliad megis *"today"* neu ddyddiad megis *"Back in 1968*" neu leoliad megis *"In Paris*" ar ddechrau'r isdeitl, gan fod y drefn hon eto'n hwyluso'r darllen.

I was allowed *a cream bun this afternoon.*	>	*This afternoon,* *I was allowed a cream bun.*

Trosi o iaith leiafrifol i iaith fwyafrifol

Canllaw cyffredinol

Pwysau amgylchiadau gwleidyddol a arweiniodd at sefydlu Sianel Pedwar Cymru (S4C), a rheswm gwleidyddol a arweiniodd at sefydlu'r gwasanaeth isdeitlo. Mae'r cefndir hwn yn gwneud pwrpas gwasanaeth isdeitlo S4C yn wahanol iawn i bwrpas gwasanaethau isdeitlo sianeli eraill yn Ewrop. Gan amlaf, menter fasnachol sydd yn rheoli isdeitlo yng ngwledydd eraill Ewrop gan fod mewnforio rhaglenni i'w hisdeitlo yn ffordd rad o redeg diwydiant teledu. Mae S4C ynghyd â'i gwasanaeth isdeitlo yn bod i atgyfnerthu iaith leiafrifol. Mae isdeitlau y rhan fwyaf o sianeli teledu eraill Ewrop yn cyflwyno diwylliant gwahanol o wlad arall, ond mae isdeitlau rhaglenni Cymraeg S4C yn bodoli i bontio rhwng dau ddiwylliant o fewn yr un wlad ac i bontio, yn aml, rhwng gwahanol aelodau o'r un teulu. O ganlyniad, mae natur ddwyieithog ein cymdeithas yn golygu bod llawer o'r rheini sy'n gwylio isdeitlau yn deall ychydig neu dipyn o'r llefaru gwreiddiol yn ogystal. Ac mae nifer fawr o wylwyr isdeitlau yn dysgu'r Gymraeg. Oherwydd hyn, ceisir sicrhau bod trefn geiriau'r isdeitlau yn glynu mor agos â phosibl at drefn y geiriau gwreiddiol. O ran cynnwys yr isdeitlau, dylid bod yn ymwybodol drwy'r amser o beryglon cyfieithu llythrennol.

Perygl cyfieithu llythrennol

1. Gan nad yw iaith leiafrifol, â chanddi hanes rhwystredig fel yr iaith Gymraeg, wedi cael cyfle i ddatblygu yn yr un modd ag iaith sydd heb ei chyfyngu dros y canrifoedd, mae geirfa'r Gymraeg mewn rhai meysydd yn gyfyngedig. Mae hyn yn ffactor i'w ystyried wrth isdeitlo o'r Gymraeg gan y ceir dewis ehangach o eiriau a dywediadau, dan rai amodau, yn yr iaith fwyafrifol.

1.1 **Dethol y ffurf addas yn yr iaith fwyafrifol**

`"Rydw i'n mynd i'r siop bapur."`

I'm going to the paper shop.	>	*I'm going to the newsagent's.*

`"Pan dw i'n ffonio, mae hi'n rhoi'r ffôn i lawr."`

When I phone, she puts the phone down.	>	*When I phone, she hangs up.*

Gan fod `"cylch"` yn golygu *"circle"* ac *"area"* yn Saesneg, dylid gochel rhag cyfieithu'n llythrennol y gair a glywir yn y Gymraeg heb ystyried yn gyntaf y gwahanol bosibiliadau.

`"Rydyn ni'n weithgar iawn – fel amryw i un arall yn y cylch."`

We're very active – like many others in the circle.	>	*We're very active – like many others in the area.*

Ceir rhai ymadroddion sy'n unigryw i'r Gymraeg. Nid argymhellir cyfieithu ymadrodd fel hyn yn llythrennol a rhaid dod o hyd i ymadrodd sy'n creu argraff debyg yn y Saesneg.

"O'r nefi bliw!"

Oh, navy blue!	>	*Oh, heavens above!*

1.2 **Amrywio'r ffurf yn yr iaith fwyafrifol**

Un gair sy'n ymddangos yn rhyfeddol o aml mewn Cymraeg llafar yw "peth" neu "pethau". Yn hytrach na throsglwyddo'r gor-ddefnydd hwn i *"thing"* a *"things"* yn yr isdeitlau, ceisir amrywio'r eirfa er mwyn eglurdeb a rhag i'r gorddefnydd droi'n syrffed.

"Y peth pwysicaf i mi
ydi'r peth wnaeth i mi sefyll yn y lle cyntaf."

The most important thing is the thing that first made me stand.	>	*The most important issue is that which first made me stand.*

Dewis yr ystyr cywir yn yr iaith fwyafrifol

3. Weithiau, ceir dwy ystyr yn y Saesneg yn cyfateb i un gair yn y Gymraeg. Wrth isdeitlo'r frawddeg ganlynol, mae angen ystyried beth yw ystyr "llun" er mwyn dewis rhwng "*picture*" neu "*photo*".

"Dewch â llun diweddar gyda chi."

Bring a recent picture with you!	<>	*Bring a recent photo with you!*

Yn yr un modd, mae "dysgu" yn golygu *"to teach"* yn ogystal â *"to learn."*

"Rydw i'n dysgu bob dydd."

I'm learning every day.	< >	*I'm teaching every day.*

Rhaid dewis hefyd rhwng "hen" yn golygu *"former"* a *"dear"* yn ogystal ag *"old"*.

"Dyna fy hen brifathro i!"

There's my old headmaster!	< >	*There's my former headmaster!*

"Mae o'n hen gariad!"

"He's an old dear!"	< >	*"He's a real darling!"*

Perygl newid cywair

4. Gall trosi'r olyniad syml "Sut mae?" "Iawn." achosi camargraff oni ystyrir y cymeriadau sy'n llefaru'r geiriau. Mae'r trosiadau arferol, "How are you?" a "Fine." yn briodol fel arfer. Ond gallant fod yn annerbyniol dan rai amodau. Os nad yw'r cymeriadau'n ymddangos yn weddol ffurfiol, dylid cymhwyso'r cywair.

```
"Sut mae, mêt?"
"Iawn, giaffar."
```

How are you, mate?	>	*How's it going, mate?*
Fine, gaffer.	>	*Alright, gaffer.*

Arwyddocâd y ddwy ffurf yn yr ail berson

4. Gall isdeitlo o iaith arall, megis Ffrangeg, iaith sydd ganddi ddau ddewis yn yr ail berson unigol - y ffurfiol a'r agos atoch – i'r Gymraeg - roi mwy o foddhad yn hyn o beth, nag isdeitlo i'r Saesneg. Mae'r cyfoeth sy'n dod yn sgîl defnyddio'r ffurfiol a'r agos atoch chi yn yr ail berson yn ychwanegu llawer at bortread cymeriad a'r berthynas rhwng cymeriadau. Daw'r canlynol allan o olygfa rhwng gwraig briod aristocrataidd a thiwtor ifanc mewn drama gyfnod Ffrangeg. Yn y ddrama, mae safle'r tiwtor ifanc yn golygu ei fod yn defnyddio'r ffurf ffurfiol `"chi"` gyda'r wraig briod yn defnyddio'r ffurf anffurfiol `"ti"`. Mae'r ffurfiau hyn yn bywiogi'r synnwyr o ddrama yn sylweddol gan eu bod yn atgyfnerthu anghydraddoldeb eu perthynas a thensiwn y sefyllfa amhosibl sy'n datblygu rhyngddynt.

y tiwtor ifanc:

Je vous aime.	>	*Rwy'n eich caru chi.*
Je vous aime passionnément!		*Rwy'n eich caru chi'n angerddol!*
Je ne sais quoi faire. *Il faut que vous m'aidiez.*	>	*Beth wna i?* *Mae'n rhaid i chi fy helpu i.*
Aidez-moi!	>	*Helpwch fi!*

y wraig briod:

Arrête!	>	*Paid!*
Tu es si jeune.	>	*Rwyt ti mor ifanc.*

Wrth isdeitlo o'r Gymraeg i'r Saesneg, ni ellir dewis y dull hwn o gymeriadu yn yr isdeitlau, ond ceisir cyfleu ei arwyddocâd mewn modd arall, sef trwy ddewis geiriau'n ofalus. Mae'r sawl sy'n dewis yr ail berson unigol `"chi"` yn tueddu i fod yn fwy ffurfiol na'r sawl sy'n dewis yr ail berson unigol `"ti"`, sef y rhagenw agos atoch.

Trosi o'r iaith lafar i'r iaith ysgrifenedig

Canllaw cyffredinol

Ar y cyfan, disgwylir iaith gywir a safonol mewn isdeitlau. Disgwylir iaith gredadwy hefyd, sef iaith sy'n gweddu'n naturiol i'r sawl sy'n siarad. Dyma un o baradocsau mwyaf isdeitlo. Ar y naill law mae'n angenrheidiol creu isdeitlau sy'n cynnwys iaith gywir, ac ar y llaw arall mae'n ddyletswydd ar yr isdeitlydd i barchu ieithwedd y cymeriad neu'r person sy'n llefaru. Yn wir, mae'r ffin yn denau yn aml rhwng portread credadwy ac eglurdeb ystyr a rhwng isdeitlau cysurus o ran eu cynnwys ac isdeitlau sy'n hwylus i'w darllen. Mae'r isdeitlydd medrus yn llwyddo i greu cydbwysedd effeithiol rhwng naws yr iaith lafar a gofynion yr iaith ysgrifenedig.

Symleiddio'r gystrawen

1. Mae llwyddo i ddarllen cyfres hir o isdeitlau yn hwylus yn dibynnu ar gystrawennu dilyffethair. Mae'r frawddeg ganlynol yn ddigon dealladwy ar lafar, ond anodd dirnad ei hystyr mewn isdeitl. Wrth greu isdeitlau, cedwir at ffurf fwyaf syml y frawddeg, cyn belled ag y mae modd, sef goddrych, berf, gwrthrych.

"Pam y newid meddwl?"

Why the change of mind?	>	*Why did you change your mind?*

Osgoi cyfieithu llythrennol

2. Yn aml, nid y gair cyntaf sy'n dod i'r meddwl yw'r gair mwyaf priodol. Gocheler rhag cyfieithu'n llythrennol frawddegau syml megis hon.

"Wyt ti'n berffaith siŵr?"

Are you perfectly sure?	>	*Are you absolutely sure?*

Delfrydu llefaru heb ei sgriptio

3. Yn aml, nodweddir yr iaith lafar gan frawddegu anorffenedig, ailadrodd, mynegiant annelwig, amwysedd, gwrth-ddweud, ac yn y blaen. Dyna natur byrfyfyr yr iaith lafar. O'r herwydd, mae llafar heb ei sgriptio yn fwy anodd i'w isdeitlo. Dylid cadw llygad am gamgymeriadau a all godi fel yn yr enghraifft isod. Os dywedir bod "y pres yn mowntio i fyny", mae'n creu'r argraff bod y sawl sy'n siarad yn prysur gasglu craig o arian ond, mewn gwirionedd, nid dyna'r ystyr o gwbl. Mae'n golygu, yn hytrach, fod y costau'n cynyddu a'r pres yn prysur ddiflannu.

"'Roedd y pres yn mowntio i fyny
a doedd gen i ddim byd i ddangos amdano fo."

The money was mounting up and I had nothing to show for it.	>	*The costs were mounting up and I had nothing to show for it.*

Perygl cywasgu gormod

4. Mae'r Gymraeg yn gynnil. Ond os ceisir cywasgu gormod gellir newid yr ystyr a fwriedir. Yn yr enghraifft hon, ychwanegir rhagor o eiriau at yr isdeitl diwygiedig er mwyn osgoi amwysedd a sicrhau mynegiant eglur.

```
"Bywyd geto oedd bywyd Cymro yn Wrecsam."
```

A Welsh speaker lived in a ghetto in Wrexham.	>	*A Welsh speaker in Wrexham would live a ghetto life.*

5. Ceir tuedd yn yr isdeitl isod eto i gynilo ar eiriau. Er y cymeradwyir cywasgu isdeitl i un llinell, gall cywasgu gormodol arwain at amwysedd fel yn yr enghraifft hon. A fwriedir ymhelaethu ar y digwyddiad neu a gyfeirir yn unig at y rheithordy?

```
"Digwyddodd y peth mewn rheithordy nid annhebyg i hwn."
```

It happened at a rectory like this.	>	*It happened at a rectory like this one.*

Osgoi dywediad anodd ei ddarllen

6. Mae rhai dywediadau'n dderbyniol yn yr iaith lafar ond gallant fod yn anodd i'w darllen.

I'll give that insurance broker what for.	>	*I'll sort out that insurance broker.*

Sicrhau cywirdeb ystyr

7. Er ei bod yn gyffredin ar lafar i berson ddefnyddio ail berson unigol y ferf a'r rhagenw wrth i berson siarad amdano ef (neu hi) ei hun, mae'n gallu rhoi camargraff yn ysgrifenedig. Nid yw'n eglur pwy yw'r gwrthrych! Y sawl sy'n siarad neu'r sawl sy'n gwrando arno? Wrth drosi brawddeg megis

```
"Dim pob dydd mae rhywun yn cael cyfle
 i wneud i fyny am ei gamgymeriadau."
```

gallai trosi `"rhywun"` i'r ail berson *"you"* fod yn ansensitif gan fod y sgwrs yn digwydd gyda pherson sydd ei hun yn euog o wneud camgymeriadau. Ond bwriad y sawl sy'n siarad yw cyfeirio ato ef ei hun ac nid at y person arall yn y sgwrs. Er bod *"one"* yn amhersonol mewn llafar ffurfiol, gellir ei ddefnyddio'n ysgrifenedig er mwyn osgoi y math hwn o amwysedd. Gellir ei ddewis yn ogystal pan nad oes digon o ofod i gynnwys y gair *"someone"*. Y dewis arall fyddai defnyddio person cyntaf y ferf, *"I"*, ond efallai nad dyma fwriad y sgript wreiddiol gan fod hyn yn ymrwymo'r sawl sy'n siarad llawer mwy.

It's not every day you get a chance to make up for your mistakes.	>	*It's not every day one gets a chance to make up for one's mistakes.*

Dilyniant

8. Wrth addasu'r cwestiwn canlynol ar gyfer yr iaith ysgrifenedig, cofier, yn ogystal, bod rhaid addasu'r ateb er mwyn sicrhau dilyniant ystyrlon.

"Sut mae eich *muscles* chi?"
"Na, dwi'n hopeless!"

Do you have big muscles?	>	*Do you have big muscles?*
No, I'm hopeless.	>	*Not at all!*

Addasu llefaru Saesneg o fewn llefaru Cymraeg gwreiddiol

9. Wrth isdeitlo llefaru Saesneg o fewn y llefaru Cymraeg gwreiddiol, dylid cywiro mynegiant anghywir lle nad yw'n amharu'n arbennig ar y portread o'r sawl sy'n siarad.

I got it for free.	>	*It was free.*

Unedau synnwyr

Canllaw cyffredinol

Mae creu unedau synnwyr naturiol neu unedau gramadeg, o fewn isdeitlau, yn gaffaeliad diamheuol i'r gwyliwr. I wneud hyn, rhaid gofalu wrth benderfynu ar drefn geiriau yr isdeitl, wrth benderfynu ar yr atalnodi, wrth benderfynu ar y man priodol ar gyfer gwneud toriadau llinell a thoriadau rhwng isdeitlau.

Unedau synnwyr o fewn isdeitl

1. Gosodir geiriau sy'n mynd gyda'i gilydd yn agos at ei gilydd o fewn isdeitl.

We can kiss those *Energy Committee contracts goodbye.*	>	*We can kiss goodbye* *to those Energy Committee contracts.*

Unedau synnwyr mewn cyfres o isdeitlau

2. Wrth dorri brawddeg hir yn unedau llai, mae'n bwysig creu unedau synnwyr o fewn pob isdeitl er mwyn hwyluso'r darllen.

Slowly it dawned on me that, when...	>	*Slowly, it dawned on me...*
..I was going to sleep in sleepy old *Garnant somebody was getting up...*	>	*..that when I was going to sleep* *in sleepy old Garnant...*
..somewhere else in the world and....	>	*..somebody was getting up* *somewhere else in the world...*
..having a really fun time.	>	*..and having a really fun time.*

Ymadroddion

Canllaw cyffredinol

Wrth isdeitlo, mae'n angenrheidiol asio ymadroddion yr iaith wreiddiol â diwylliant yr iaith darged. Mae hyn yn golygu llawer mwy na chyfieithu llythrennol e.e. "rhedeg gyda'r ci a'r sgwarnog" *("to have a foot in both camps"),*"y fillir sgwâr" *("local patch"* neu *"own locality")*, "y cythrel canu" *("fierce rivalry"),* "ddim yn yr un cae" *("not in the same league")* "y byd a'r betws" (*"the world and his wife"*). Gall olygu addasu'r ymadrodd, dod o hyd i ymadrodd cyfatebol neu hepgor yr ymadrodd gwreiddiol a chynnwys disgrifiad yn ei le.

Peryglon cyfieithu llythrennol

1. Ni chymeradwyir cyfieithu ymadroddion yn llythrennol. Yr hyn sy'n hanfodol yw darganfod yr ymadrodd cyfatebol.

"Henaint ni ddaw ei hunan."

Old age doesn't come alone.	>	*Old age doesn't come without its troubles.*

"Roedd y ddau ŵr yma yn gonglfeini cymdeithas."

These two men were the cornerstones of society.	>	*These two men were the pillars of society.*

"Mae hi'n un o fil."

She's one in a thousand.	>	*She's one in a million.*

Addasu diwylliannol

2. Nid yw'r ymadrodd canlynol yn cyfieithu'n synhwyrol o gwbl.

"Mae hi fel Ffair Borth yma!"

Mae darganfod ymadrodd sy'n adlewyrchu'r un awyrgylch ag a geir yn Ffair Borth, ac sy'n gyfarwydd yn y ddau ddiwylliant, yn effeithiol.

It's like Borth Fair here!	>	*It's bedlam here!*

Yn yr enghraifft ganlynol, ceir pwt o ddeialog rhwng mam a thad mewn drama gyfnod ynglŷn â'u baban newydd-anedig – sy'n "fabi llwyn a pherth" – sef babi anghyfreithlon. Roedd y fam wedi dechrau rhoi genedigaeth tra'n cerdded ar ffordd unig a bu bron i'r babi gael ei eni yno ond daeth tractor heibio a'i chludo i'r bwthyn.

Y fam: "Fy mabi bach drwy'r berth."
Y tad: "Bu bron iddi gael ei geni yn y berth."

My misbegotten baby.	>	*My baby - born on the wrong side of the blanket.*

She was nearly born in the hedge.	>	*She was nearly born without a blanket.*

Penderfynwyd ar drosiad cwbl wahanol i gyfleu naws y llefaru gwreiddiol gan nad oes dywediad cyfatebol yn bodoli yn Saesneg a chan na fyddai'n addas cyfieithu'r geiriau gwreiddiol yn llythrennol.

Diffyg ymadrodd cyfatebol

3. Os nad oes ymadrodd tebyg yn bod, yna rhaid hepgor yr ymadrodd ac aralleirio er mwyn disgrifio'r hyn a olygir.

"Dw i'n mynd am y cae sgwâr."

I'm going to the square place.	>	*I'm going to bed.*

"Mae e'n hoffi dweud ei ddweud."

He likes to say what he has to say.	>	*He likes to speak his mind.*

Ymadrodd addas

4. Weithiau ceir brawddeg yn y llefaru gwreiddiol sy'n dwyn i gof ymadrodd yn yr iaith darged. Os felly, defnyddier hi.

"Anghofia'r cwbl. Dyna fyddai orau."

It's better to forget about it all.	>	*Some things are best forgotten.*

"Hoffwn innau villa yn yr haul."
"Hoffet ti wir?"

I'd like a villa in the sun too.	>	*I'd like a villa in the sun too.*
Would you now?	>	*Dream on!*

Cyd-destun addas

5. Cysylltir yr ymadrodd *"There's plenty more fish in the sea."* fel arfer â byd cariadon. Anaddas felly yw defnyddio'r ymadrodd hwn mewn cyd-destun arall gan y byddai cysylltiadau carwriaethol yr ymadrodd yn difetha ergyd yr isdeitl.

"Mae digon o gwsmeriaid eraill ar gael."

There's plenty more fish in the sea.	>	*It's easy to attract more customers.*

6. Dylai'r ymadrodd a ddewisir weddu i ieithwedd y sawl sy'n siarad. Byddai cymeriad ifanc sy'n defnyddio ymadroddion cyfoes yn fwy tebygol o ddweud e.e.*"Mad for it!",*

“Bring it on!” tra byddai cymeriad arall yn fwy tebygol o ddweud e.e. *"Just up my street!”, “I’m up for it!”*

Shall we have sushi?
Mad for it!

NEU

Shall we have sushi?
Just up my street!

How about doing the Three Peaks this year?
Bring it on!

NEU

How about doing the Three Peaks this year?
I’m up for it!

Ymadrodd nad yw'n addasu

7. Nid yw pob ymadrodd yn addasu.

"Roeddent yn chwarae ar y ddelwedd Cŵl Cymru."

They lived up to the image of Cool Wales.	>	*They lived up to the image of Cŵl Cymru.*

Atodiadau

DIFFINIADAU

***Aston, Chyron, superimposed titles* neu *name-supers*:** Manylion disgrifiadol wedi'u llosgi i mewn ar waelod sgrîn deledu, e.e. enw a swyddogaeth person, enw lle neu sefydliad. Mae'r enwau '*Aston*' a 'Chyron' yn dynodi enwau dau o wneuthurwyr y math o offer a ddefnyddir i greu'r manylion disgrifiadol hyn, sef Aston Electronic Designs Ltd. a Chyron Corporation.

Capsiwn cydnabod isdeitlau: Capsiwn ar ffurf isdeitl a ddarlledir ar ddiwedd rhaglen deledu sy'n nodi enw'r cwmni isdeitlo a/neu'r isdeitlydd.

Capsiwn isdeitlau nesaf: Capsiwn ar ddechrau ffeil isdeitlau teledu sy'n cynnwys teitl y rhaglen (hen ffeiliau isdeitlau yn unig)

Côd amser: Y côd amser, i bob pwrpas, yw cloc rhaglen deledu (yn dechrau ar e.e. 00:02:00.00 ac yn diweddu ar e.e. 00:28:28.14, (ar gyfer rhaglen hanner awr) ac fe'i defnyddir i osod amserau mewn/allan yr isdeitlau.

Côd amser i mewn: Yr amser mae isdeitl yn ymddangos ar y sgrîn [awr:munud:eiliad.ffrâm], e.e. 00:04:50.22.

Côd amser allan: Yr amser mae isdeitl yn gadael y sgrîn [awr:munud:eiliad.ffrâm], e.e. 00:04:53.22.

Cymysgiaith: Cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gynnydd yng Nghymru.

Chevron: Arwydd ar ddechrau neu ar ddiwedd isdeitl i ddynodi siaradwr oddi ar y sgrîn ar yr ochr chwith "<" (ar ddechrau isdeitl) neu'r dde ">" (ar ddiwedd isdeitl).

Dotiau rhagarweiniol (*cue dots*): Dotiau a osodir ar ddechrau ffeil isdeitlau a chyn isdeitl cyntaf y rhaglen i ddynodi bod rhaglen wedi'i hisdeitlo ar fin dechrau.

Ffrâm: Mae un ffrâm yn cyfateb i un llun ar dâp fideo neu ffilm. Ar y system fideo PAL a ddefnyddir yn y DG ceir 25 ffrâm yr eiliad.

Effeithiau sain: Geiriau a osodir ar y sgrîn er budd y byddar neu'r trwm eu clyw i egluro seiniau cyffredin a geir ar y trac sain.

Hash: Yr arwydd # a osodir ar ddechrau isdeitl i ddynodi geiriau cân.

Isdeitlau agored: Isdeitlau sydd yn rhan annatod o raglen deledu neu ffilm, na all y gwyliwr ddewis eu tynnu oddi ar y sgrîn.

Isdeitlau caeëdig: Isdeitlau sydd yn ymddangos pan fo'r gwyliwr yn eu dewis trwy bwyso'r botymau priodol ar reolydd set deledu. Darlledir isdeitlau caeëdig ar dudalen teletestun neu fel rhan o'r signal ar sianel deledu digidol.

Isdeitl cyfansawdd: Y dechneg o osod ar y sgrîn o fewn un isdeitl, pan fo amser yn brin, sgwrs gyflym rhwng dau (neu dri) siaradwr.

Isdeitlau wedi'u ciwio'n fyw: Isdeitlau heb eu hamseru ymlaen llaw a ddarlledir yn ystod rhaglen wrth i'r isdeitlydd bwyso botwm i anfon pob isdeitl yn ei dro.

M-PEG: (Motion Picture Experts Group) neu fformat o ffeil gyfrifiadurol sy'n cynnwys fideo a sain wedi'u cywasgu.

Teletestun: Y cyfrwng sy'n galluogi i isdeitlau ymddangos ar y sgrîn deledu ar ffurf isdeitlau caeëdig trwy bwyso 888.

Toriadau camera: Toriadau rhwng y naill olygfa a'r llall mewn rhaglen neu ffilm.

Unedau synnwyr: Unedau cyflawn o synnwyr neu o ramadeg o fewn isdeitl.

***Vox pop*:** Ystyr *vox pop* yw "llais y bobl" (o'r Lladin *vox populi*). Mae'r term *vox pops* yn gyffredin yn y byd darlledu am gyfweliadau byrion gyda phobl ar y stryd - cyfweliadau sy'n honni adlewyrchu barn y cyhoedd.

OFFER ISDEITLO

Peiriannau a meddalwedd isdeitlo sy'n cydweddu

1. Dylid paratoi ffeiliau isdeitlau ar beiriannau a meddalwedd isdeitlo sy'n cydweddu â fformat EBU neu WinCAPS er mwyn osgoi gwahaniaethau fformadu a all ddigwydd wrth drosi ffeil isdeitlo o'r naill beiriant isdeitlo i'r llall.

2. Er bod EBU yn fformat gyfnewid Ewropeaidd sydd i fod yr un fath ar bob peiriant isdeitlo, ceir rhai gwahaniaethau (bychain gan amlaf) rhwng fersiynau fformat EBU a greir gan offer rhai gwneuthurwyr o'u cymharu â'r offer sydd ar waith yn S4C. Os digwydd i S4C ddarganfod gwahaniaethau a all effeithio ar ddarllediad isdeitlau'r rhaglen, hysbysir y cwmni isdeitlo o'r gwahaniaethau gan ofyn i'r isdeitlwyr weithredu er mwyn osgoi'r gwahaniaethau hyn os oes modd.

3. Mae S4C yn defnyddio meddalwedd isdeitlo WinCAPS.

Ffeiliau electronig

4. Erbyn hyn, mae S4C yn ffafrio ffeiliau electronig dros dapiau casét. Defnyddir copiau o'r tâp darlledu terfynol ar ffurf ffeil electronig M-PEG wedi'u bachu ar y cyfrifiadur. I ddefnyddio ffeiliau M-PEG, mae'n rhaid cael cyfrifiadur sydd â digon o ofod, cyflymdra a chôf, ynghyd â meddalwedd arbennig i redeg y ffeiliau.

   Manteision ffeiliau M-PEG yw

   - nid oes angen peiriant recordio na thapiau;
   - mae ansawdd y llun fideo o safon uwch;
   - mae'n llawer haws rhedeg a stopio'r trac sain;
   - mae'n llawer haws i symud o un man i fan arall o fewn rhaglen.

ISDEITLO: ADNODDAU DEFNYDDIOL

AUDIOVISUAL TRANSLATION: SUBTITLING (Translation Practices Explained, 11).
Diaz Cintas,. J. & Remael, A. (2007), Manchester, St. Jerome Publishing.

SUBTITLING FOR THE MEDIA. A HANDBOOK OF AN ART.
Ivarsson, J. (1992), Stockholm, TransEdit.

SUBTITLING. Ivarsson, J. & Carroll, M. (1998), Simrishamn, TransEdit.

THE CLOSED CAPTIONING HANDBOOK. Robson, G. (2004), Oxford, Elsevier.

Yn ogystal â'r llawlyfrau uchod, ceir llyfryddiaeth yn nodi cyhoeddiadau sy'n ymwneud â'r maes ar wefan Jan Ivarsson:

www.transedit.se/Bibliography.htm

Dyma ddolen i ganllawiau Ofcom ar isdeitlo i bobl byddar a thrwm eu clyw:

www.ofcom.org.uk/tv/ifi/guidance/tv_access_serv/archive/subtitling_stnds/

CYFEIRLYFRAU A GWEFANNAU

Rhestrir nifer o wefannau defnyddiol yn yr atodiad hwn. Rydym yn sylweddoli fod gwefannau'n newid. Os sylwch fod unrhyw un o'r gwefannau hyn wedi peidio â bod, anfonwch e-bost atom i'n hysbysu: heulwen.james@s4c.co.uk

Geiriaduron

Mae'r geiriaduron hyn ar waith gennym yn ddyddiol yn yr ystafell isdeitlo. O safbwynt cysondeb rydym yn argymell fod isdeitlwyr yn defnyddio'r un ffynonellau.

CANLLAWIAU IAITH A CHYMORTH SILLAFU
Hughes, J. E. (1997), Llandysul, Gwasg Gomer.

CYSILL – Y Sillafydd Cymraeg (ar gael o fewn pecyn Cysgliad)
Canolfan Bedwyr, Bangor.

DICTIONARY OF THE PLACE-NAMES OF WALES.
Owen, H.W. & Morgan, R. (2007), Llandysul, Gwasg Gomer.

GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU. A Dictionary of the Welsh Language.
Gol. Thomas, R. J.; Bevan, G. A.; Donovan P. J.; & Hawke, A. (1950-2002),
Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

GEIRIADUR YR ACADEMI. The Welsh Academy English-Welsh Dictionary.
Griffiths, B. & Jones, D. G. (1995), Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

OXFORD DICTIONARY OF ENGLISH. ed. Soanes, C. & Stevenson A.
Second edition (revised) (2005), Oxford, Oxford University Press.

OXFORD THESAURUS OF ENGLISH.
Waite, M. (2006), Oxford, Oxford University Press.

Yn ogystal, mae adnoddau geiriadurol fel a ganlyn yn ddefnyddiol:

THE CONCISE OXFORD DICTIONARY OF QUOTATIONS.
Radcliffe, S. (2006), Oxford, Oxford University Press.

THE NEW PENGUIN DICTIONARY OF ABBREVIATIONS.
Fergusson, R. (2000), London, Penguin Books Ltd.

THE OXFORD DICTIONARY OF IDIOMS.
Siefring, J. (2004), Oxford, Oxford University Press.

THE OXFORD DICTIONARY OF MODERN SLANG.
Ayto, J. & Simpson J. (2005), Oxford, Oxford University Press.

THE OXFORD DICTIONARY OF PROVERBS.
Simpson, J. & Speake, J. (2003), Oxford, Oxford University Press.

Y GEIRIADUR MAWR. The Complete Welsh-English English-Welsh Dictionary.
Evans, H. M. & Thomas, W. O. (1987), Llandysul, Gwasg Gomer a Llandybïe, Davies (Cyhoeddwyr) Cyf.

Y LLYFR ENWAU. A Check-List of Welsh Place-names.
Lewis, G.D. (2007), Llandysul, Gwasg Gomer.

Mae enwau lleoedd yng Nghymru hefyd ar gael ar y wefan a ganlyn:

www.e-gymraeg.co.uk/enwaucymru/

Mae sillafiadau Americanaidd yn gyffredin yn nifer helaeth o'r geiriaduron Saesneg ar lein sydd ar gael ar y we ac mewn meddalwedd cywiro sillafu. Dylech ddefnyddio adnoddau o'r fath gyda gofal.

Mae fersiwn cryno o eiriadur Saesneg Rhydychen ynghyd ag adnoddau eraill ieithyddol ar gael ar y wefan hon:

www.askoxford.com

Yn ogystal, mae fersiwn llawnach a manylach ar gael trwy danysgrifiad ar:

www.oxfordonline.com

Dyma eiriadur sy'n trosi o Saesneg Americanaidd i Saesneg y DU ac fel arall.

www.peak.org/~jeremy/dictionary/dictionary/dictionary.php

Dyma wefan arall sy'n cymharu rhai geiriau Americanaidd / Saesneg.

www.urbandictionary.com

Mae'r wefan hon yn arbenigo mewn slang ar draws y byd.

www.bibliodata.com/article/ukus.htm

Mae geiriaduron electronig Cymraeg ar gael fel a ganlyn:

Geiriadur digidol Cysgeir (ar gael o fewn pecyn Cysgliad)
Canolfan Bedwyr, Bangor

www.geiriadur.net
(geiriadur ar-lein Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan)

www.termcymru.cymru.gov.uk
(casgliad o dermau a ddefnyddir gan gyfieithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

www.e-gymraeg.co.uk/bwrdd-yr-iaith/termau/Default.aspx
(cronfa o dermau dan ofal Bwrdd yr Iaith Gymraeg)

geiriadur.bangor.ac.uk/termiadur
(fersiwn ar-lein o'r Termiadur)

www.cs.cf.ac.uk/fun/welsh/LexiconForms.html
(geiriadur ar-lein arall)

www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/glossary.pdf
(geirfa S4C)

Gramadeg ac Atalnodi

EATS SHOOTS AND LEAVES. The Zero Tolerance Approach to Punctuation.
Truss, L. (2003), London, Profile Books Ltd.

ENGLISH GRAMMAR FOR TODAY. A New Introduction.
Leech, G., Deuchar, M. & Hoogenraad, R. (2005), Basingstoke, Palgrave Macmillan.

FOWLER'S MODERN ENGLISH USAGE.
Burchfield, R.W. (2004), Oxford, Oxford University Press.

MIND THE GAFFE. The Penguin Guide to Common Errors in English.
Trask, R. L. (2002), London, Penguin Books Ltd.

MORE FRANTIC SEMANTICS. Further Adventures in Modern English.
Morrish, J. (2001), London, The Daily Telegraph.

OXFORD GUIDE TO PLAIN ENGLISH.
Cutts. M. (2007), Oxford, Oxford University Press.

QUICK SOLUTIONS TO COMMON ERRORS IN ENGLISH.
An A-Z guide to spelling, punctuation and grammar.
Burt, A. (2004), Oxford, How to Books Ltd.

REDISCOVER GRAMMAR. Crystal, D. (2004), London, Longman.

THE OXFORD A-Z OF GRAMMAR AND PUNCTUATION.
Seely, J. (2007), Oxford, Oxford University Press.

USAGE AND ABUSAGE. A GUIDE TO GOOD ENGLISH.
Partridge, E. & Whitcut, J. (1999), London, Penguin Books Ltd.

Gwybodaeth Gyffredinol

CYDYMAITH I LENYDDIAETH CYMRU.
Stephens, Meic (gol.) (1986), Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

ENCYCLOPAEDIA OF WALES.
Davies, J.; Baines, M.; Jenkins, N. & Lynch, P. I. (2008),
Caerdydd, Yr Academi Gymreig.

GWYDDONIADUR CYMRU.
Davies, J; Baines, M; Jenkins, N. & Lynch, P. I. (2008),
Caerdydd, Yr Academi Gymreig.

Gellir defnyddio chwiliaduron ar y we i chwilio am wybodaeth gyffredinol.

Serch hynny, rhaid ategu unrhyw ffeithiau trwy chwilio am fwy nag un ffynhonnell a dewis rhai dibynadwy os oes sawl dewis ar gael. Yn aml, mae chwiliadur yn nodi ffigur sy'n dangos sawl enghraifft o enw neu air sy'n codi mewn gwahanol wefannau. Er nad yw hynny'n gwbl ddibynadwy, gan amlaf, gwell yw dewis yr enghraifft sydd fwyaf cyffredin, onid yw'n amlwg nad yw'r gwefannau niferus yn ffynonellau cystal.

Dyma rai poblogaidd:	Mae'r rhain yn arbennig i Gymru:
www.google.co.uk	www.gwgl.com
uk.yahoo.com	www.chwilotydd.com
uk.msn.com	www.searchwales.info
uk.altavista.com	www.walesindex.co.uk
www.lycos.co.uk	www.cymchwil.com
uk.ask.com	www.dwdws.com/cymraeg

Mae amryw o wefannau sy'n cynnig gwybodaeth gyffredinol yn rhad ac am ddim am eu bod yn derbyn erthyglau gan wirfoddolwyr sydd yn aml yn aelodau o'r cyhoedd. Mae yna wefannau eraill nad ydynt yn cael eu diweddaru'n gyson ac mae'r wybodaeth sydd arnyn nhw, felly, wedi dyddio. Ni ddylid dibynnu ar wefannau o'r ddau fath uchod fel eich unig ffynhonnell. Defnyddiwch y ffynonellau hyn gyda gofal.

Dyma ychydig enghreifftiau:

Wikipedia: en.wikipedia.org

Wicipedia: cy.wikipedia.org

Citizendium: en.citizendium.org

www.gwyddoniadur.com

The National Gazetteer of Wales:
homepage.ntlworld.com/geogdata/ngw/home.htm

Er mwyn sicrhau ffynonellau mwy dibynadwy, gellir tanysgrifio i wasanaethau ar-lein megis **Encyclopaedia Britannica**, prynu copi o **Whitaker's Almanack** bob blwyddyn a throi at **Cymru'r Byd** a gwefannau'r **BBC**.

Newyddion

Mae digonedd o wefannau da i ddod o hyd i newyddion. Yn eu plith:

www.bbc.co.uk

www.guardian.co.uk

www.independent.co.uk

uk.reuters.com

Pynciau Arbenigol

Nodir isod rai ffynonellau defnyddiol yn y meysydd a ganlyn:

Addysg

www.ngfl-cymru.org.uk/cym/6-0-0-0_schools_in_wales.htm

www.wssa.org.uk/default.aspx?id=744

www.accac.org.uk *(i wefan newydd adran addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru)*

www.gtcw.org.uk

www.cbac.co.uk

Amaethyddiaeth

TERMAU AMAETHYDDIAETH A MILFEDDYGAETH.
Hughes, R. E. (1994) Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

CYDYMAITH BYD AMAETH.
Jones, H. (1999-2001), Llanrwst, Gwasg Carreg Gwalch.

www.cabi.org/index.asp

www.sheep101.info/sheepdiseases.html

www.redmeatindustryforum.org.uk/supplychain/Glossary.htm#dressing

Amgylchedd

www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk

www.foecymru.co.uk

www.wwf.org.uk

www.greenpeace.org

www.craffamwastraff.org.uk

www.cylch.org

Bwyd

DICTIONARY OF FOOD: INTERNATIONAL FOOD & COOKING TERMS FROM A-Z.
Sinclair, C, (2005), A & C Black Publishers.

www.bbc.co.uk/food/glossary

Cerddoriaeth

www.cwmrhymni.com/Cerdd/geirfa%20cerddorol.htm

THE OXFORD COMPANION TO MUSIC.
Latham, A. (2002), Oxford, Oxford, University Press.

THE SONGWRITER'S RHYMING DICTIONARY.
Cahn, S. (1983), London, Souvenir Press.

Mae gwefannau sefydliadau ym myd cerddoriaeth a bandiau ynghyd â geiriau rhai caneuon ar gael trwy'r dolenni a ganlyn:

www.trac-cymru.org/links_c.html

db.bbc.co.uk/cymru/radiocymru/c2/cysylltiadau/artistiaid.shtml

www.clwbmalucachu.co.uk/lyrics.htm

www.musicanet.org/robokopp/welshl.html

www.boisycastell.org/members/geiriau%20ein%20caneuon.dwt

www.caneuongwerin.co.uk/mynegai.html

www.caneuongwerin.co.uk/saesneg.html

Chwaraeon

Canlyniadau chwaraeon yng Nghymru:

www.bbc.co.uk/cymru/chwaraeon/

news.bbc.co.uk/sport1/hi/wales

Chwaraeon amrywiol yng Nghymru:

www.sports-council-wales.org.uk/sports-activities

Pêl-droed yng Nghymru:

www.dragonsoccer.co.uk

www.welshpremier.com

www.welshfootballnews.co.uk

www.welsh-football.net

news.bbc.co.uk/sport1/hi/football/league_of_wales

www.wfda.co.uk

www.welsh-premier.com

Rygbi yng Nghymru:

www.wru.co.uk

www.rugbyinwales.co.uk

wales.rleague.com

www.teamwalesrugby.com

www.rbs6nations.com

Diwydiant

Yr Adran Diwydiant a Phensiynau (geirfa Cymraeg/Saesneg):

www.dwp.gov.uk/cymraeg/glossary.asp

Ffilm

The Internet Movie Database: **imdb.com**

Film.com: **www.film.com**

Garddio

ENWAU CYMRAEG AR BLANHIGION. WELSH NAMES OF PLANTS.
Davies, D. & Jones, A. (1995), Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

www.gerddigoraucymru.co.uk

www.rhs.org.uk

Ieithoedd Tramor

Mae'r wefan hon yn ddefnyddiol pan yn trin termau Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg.

www.wordreference.com

Llywodraeth Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: **www.cynulliad.org**

Llywodraeth Cynulliad Cymru: **new.wales.gov.uk/?lang=cy**

Ceir manylion canlyniadau etholiadau diweddaraf y Cynulliad ar y wefan hon:

www.walesyearbook.co.uk/election2007

Llywodraeth leol

Dyma wefannau'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru.

Abertawe: **www.abertawe.gov.uk**

Blaenau Gwent: **www.blaenau-gwent.gov.uk**

Bro Morgannwg: **www.bromorgannwg.gov.uk**

Caerdydd: **www.caerdydd.gov.uk**

Caerffili: **www.caerphilly.gov.uk**

Caerfyrddin: **www.sirgar.gov.uk**

Casnewydd: **www.newport.co.uk**

Castell-nedd/Port Talbot: **www.neath-porttalbot.gov.uk**

Ceredigion: **www.ceredigion.gov.uk**

Conwy: **www.conwy.gov.uk**

Dinbych: **www.sirddinbych.gov.uk**

Gwynedd: **www.gwynedd.gov.uk**

Merthyr Tudful: **www.merthyr.gov.uk**

Mynwy: **www.sirfynwy.gov.uk**

Penfro: **www.pembrokeshire.gov.uk**

Pen-y-bont ar Ogwr: **www.bridgend.gov.uk**

Powys: **www.powys.gov.uk**

Rhondda Cynon Taf: **www.rhondda-cynon-taf.gov.uk**

Torfaen: **www.torfaen.gov.uk**

Wrecsam: **www.wrecsam.gov.uk**

Y Fflint: **www.siryfflint.gov.uk**

Ynys Môn: **www.ynysmon.gov.uk**

Yn ogystal mae gwefannau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru:

www.wlga.gov.uk

www.lgbc-wales.gov.uk

Llywodraeth San Steffan

Dyma ddwy o wefannau swyddogol y llywodraeth:

www.parliament.uk

www.direct.gov.uk/cy/index.htm

Y Beibl

Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD, Cymdeithas y Beibl (1988), Avon, The Bath Press.

Y BEIBL CYSEGR-LÂN, Cymdeithas y Beibl (1992), Caerfaddon, The Bath Press.

THE NEW ENGLISH BIBLE (1970) OUP & CUP.

THE HOLY BIBLE, the Authorized King James version (1611).

Mae'r wefan hon yn ddefnyddiol i chwilio am adnod:

www.beibl-newydd.net

Mae'r fersiwn King James ar gael hefyd ar y we:

www.onlinekjv.com

Mae'r wefan hon yn ddefnyddiol wrth chwilio am eiriau penodol:

www.scit.wlv.ac.uk/wwlib/searchb.html

Defnyddir "The Authorized King James version" pan ddyfynnir o Feibl William Morgan a "The New English Bible" pan ddyfynnir o'r "Beibl Cymraeg Newydd."

Wrth chwilio am fersiynau Saesneg o ddyfyniadau Cymraeg o'r Beibl gall y cyfeirlyfrau a ganlyn hefyd fod yn ddefnyddiol.

MYNEGAIR I'R BEIBL CYMRAEG NEWYDD.
Evans, O.E. a Robinson, D. (1998), Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

THE WORDSWORTH DICTIONARY OF BIBLE QUOTATIONS.
Manser, H. (1995), Ware, Hertfordshire. Wordsworth Reference.

ANALYTICAL CONCORDANCE TO THE HOLY BIBLE.
Young, R. (1975), Guildford & London, Lutterworth Press.

Y Cyfryngau

www.s4c.co.uk

www.bbc.co.uk/cymru/gwybodaeth

www.itvlocal.com/wales

www.ofcom.org.uk

www.bafta-cymru.org.uk

www.teledwyr.com

Y Gyfraith

GEIRIADUR NEWYDD Y GYFRAITH. THE NEW LEGAL DICTIONARY.
Lewis, R. (2003) Llandysul, Gwasg Gomer.

dictionary.law.com

MAE COPÏAU O'R GWAITH HWN AR GAEL ODDI WRTH:

Heulwen L. James
61 Fairwater Road
Llandâf
CAERDYDD
CF5 2LF

Ffôn (029) 20555917
Ffacs (029) 20635376
e-bost: heulwen.james@s4c.co.uk
heulwen.james@ntlworld.com

neu

Hywel Pennar
Testun Cyf.
Tŷ Norfolk
57-59 Heol Siarl
CAERDYDD
CF10 2GD

Ffôn (029) 20231722
Ffacs (029) 20231002
e-bost: hywel@testun.co.uk